Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
32/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/05/2024

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Cronfa Iach ac Egnïol: Adroddiad Terfynol

Cronfa Iach ac Egnïol
Healthy & Active Fund

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-004-3

**Gwerthusiad o'r Rhaglen Cronfa Iach ac Egnïol**

**Adroddiad Terfynol**

Awdur(on): UK Research & Consultancy Services Ltd

Adroddiad Ymchwil Llawn: RCS (2024). *Gwerthusiad o'r Rhaglen Cronfa Iach ac Egnïol: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 32/2024
Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-iach-ac-egniol-adroddiad-terfynol

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Hoffai'r awduron estyn diolch a mynegi eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n ymwneud â'r GIE ar lefel Rhaglen a Phrosiect am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y gwerthusiad hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i Dr Eleri Jones, a ddarparodd oruchwyliaeth ledled y gwerthusiad cyfan i bob diben, a bu i'w phroffesiynoldeb a'i doethineb gyfrannu'n sylweddol at ansawdd ein gwaith.  Mae unrhyw ddiffygion wrth gwrs yn parhau i fod yn gyfrifoldeb llwyr arnom ni.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


| Tabl cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| Rhestr o dablau | | 2 |
| Rhestr o ffigurau | | 3 |
| Rhestr termau | | 4 |
| Pennod 1: | Cyflwyniad | 5 - 16 |
| Pennod 2: | Gwerthusiad Proses Rhaglen y GIE | 17 - 35 |
| Pennod 3: | Theori Newid y GIE | 36 - 46 |
| Pennod 4: | Cyflawni yn ystod Covid | 47 - 61 |
| Pennod 5: | Ymgysylltu â'r Gymuned, Cynaliadwyedd a'r Broses Ddysgu | 62 - 79 |
| Pennod 6: | Deilliannau'r Prosiect | 80 - 103 |
| Pennod 7: | Asesiad Cyffredinol y Rhaglen | 104 - 132 |
| Pennod 8: | Casgliadau ac Argymhellion | 133 - 149 |
| Cyfeirnodau | | 150 - 152 |
| Atodiad 1: Crynodeb o bob prosiect | | 153 - 171 |
| Atodiad 2: Tîm Gwerthuso Rhaglen CIE RCS | | 174 |
| Atodiad 3: Canllawiau Pwnc Cam 4 | | 175 - 180 |

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1 Prosiectau'r GIE ......................................................................7

Tabl 2.1 Nifer yr Ymgeiswyr a'r Camau…......................................................23

Tabl 2.2 Ardaloedd targed...........................................................................24

Tabl 6.1 Nifer y cyfranogwyr a gofnodwyd gan brosiectau'r GIE.................... 83

**Rhestr o ffigurau**


Ffigur 1.1 Cronfa Iach ac Egnïol 2018-2019.................................... 9

Ffigur 1.2 Cronfa Iach ac Egnïol 2019-2020....................................10

Ffigur 1.3 Cronfa Iach ac Egnïol 2020-2021....................................10

Ffigur 1.4 Cronfa Iach ac Egnïol 2021-2022....................................11

Ffigur 1.5 Cronfa Iach ac Egnïol 2022-2023....................................11

Ffigur 2.1 Strwythur Llywodraethu'r GIE..........................................19

Ffigur 2.2 Model ar gyfer proses CIE effeithiol................................ 32

Ffigur 3.1 Theori Newid Ôl-weithredol.............................................37

Ffigur 3.2 Theori Newid y GIE gan edrych tua'r dyfodol...................43

Ffigur 5.1 Llwybrau at Gynaliadwyedd ........................................... 71

Ffigur 5.2 Tebygolrwydd y bydd gweithgarwch y Prosiect yn cael ei gynnal mewn gwahanol ffyrdd………………… ....72

Ffigur 6.1 Canran y cyfranogwyr a Degradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru………............................... 85

Ffigur 7.1 Theori Newid y GIE Wrth fynd Rhagddi yn ystod y Rhaglen……………………………………………….. 109

**Rhestr termau**

| Acronym/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| CIE | Cronfa Iach ac Egnïol |
| EoI | Datganiad o diddordeb |
| IPAQ | Holiadur Gweithgaredd Corfforol Rhyngwladol |
| MET | Mae MET yn fesur a ddefnyddir ar gyfer yr IPA. Mae'n ymwneud â phwyso a mesur pob math o weithgaredd yn ôl ei gofynion ynni (mae METs yn lluosrifau o gyfradd fetabolig gorffwys) i gynhyrchu sgôr mewn MET-munudau. Mae rhagor o wybodaeth dechnegol ar gael yma. |
| PAQ-C | Holiadur Gweithgarwch Corfforol i Blant |
| RCS | UK Research & Consultancy Services Ltd |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| SROI | Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad |
| UBC | Uwch Berchennog Cyfrifol |
| WEMWBS | Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd y Gronfa Iach ac Egnïol (CIE) yn ystod haf 2018. Roedd o dan arweiniad partneriaeth rhwng tri sefydliad a phedwar partner - dau dîm polisi Llywodraeth Cymru (Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Gangen Polisi Chwaraeon yn yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon), Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Dyrannodd y Rhaglen £5.85m[1] i 17 prosiect a oedd yn ceisio hybu iechyd meddwl a chorfforol cyfranogwyr trwy alluogi ffyrdd o fyw egnïol. Roedd yn canolbwyntio ar Brosiectau a oedd naill ai'n cefnogi'r rhai a oedd yn wynebu rhwystrau sylweddol i fyw bywydau mwy heini, a/neu gryfhau asedau cymunedol neu fanteisio ar gyfraniad technoleg ddigidol i ddylanwadu ar newid ymddygiad. Nod y rhaglen yn benodol oedd:

- Cynyddu gweithgarwch corfforol y rhai sy'n segur ar hyn o bryd neu sydd â lefelau gweithgarwch isel iawn mewn ffordd gynaliadwy; a
- Hybu lefelau lles meddyliol drwy hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a chynyddu neu wella'r modd o fanteisio ar fannau a lleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol.

1.2 Yn yr Adroddiad Terfynol hwn ynghylch y Rhaglen bedair blynedd hon, rydym yn dwyn deunydd ynghyd o bob rhan o'r cyfnod mewn Adroddiad cynhwysfawr. Mae'r Bennod agoriadol hon yn cyflwyno'r GIE, yn egluro prif gyfuchliniau'r Gwerthusiad a gomisiynwyd gan RCS drwy Lywodraeth Cymru, ac yn nodi hanfod a strwythur cyffredinol yr Adroddiad.

**Y GIE**

1.3 Roedd gwraidd Rhaglen y GIE ynghlwm â dau ymrwymiad Maniffesto ar wahân[2] yn ymwneud â gweithgarwch corfforol, lles, a mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd. Roedd y canlyniadau yn ymwneud â thair elfen:

[1] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y grantiau y cytunwyd arnyn nhw'n wreiddiol a chyllid ychwanegol ar gyfer estyniad o flwyddyn i brosiectau (gweler paragraff 1.5)
[2] 'Gyda'n Gilydd dros Gymru', Maniffesto Llafur Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2012.

- Bu'n rhaid eu trosi ar y cyd i lunio ymyrraeth ymarferol am eu bod yn amlwg yn gorgyffwrdd ac yn cyd-fynd gyda'i gilydd yn synhwyrol yn nhermau 'rhaglen';
- Nid oedd cyflawni hynny'n hawdd, gan ei fod yn galw am raddau anarferol o gydweithio sefydliadol; a
- Fodd bynnag, bu i'r polisi a'r ysgogiad Gweinidogol wnaeth sbarduno'r GIE greu gorchymyn a wnaeth ysgogi a hybu'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am drosi'r polisi a'i roi ar waith.

1.4 Roedd y Rhaglen hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gynhyrchu tystiolaeth i ddeall pa ymyriadau a allai alluogi pobl i gadw'n heini a hybu eu hiechyd a'u lles yn yr hirdymor. Roedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn allweddol i'r GIE a'r Prosiectau a ariannwyd. Roedd Iach ac Egnïol yn flaenoriaeth allweddol yn 'Symud Cymru Ymlaen' ac yn 'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol', lle mai'r nod oedd *'gwella iechyd a lles yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i gyflawni ein huchelgais o ffyniant i bawb, a chymryd camau sylweddol i symud ein dull gweithredu o ymwneud â thriniaeth i ymwneud ag atal'.*[3]

1.5 Roedd y GIE yn gronfa tair blynedd yn wreiddiol, rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2022, gyda disgwyliad y byddai cyllid yn gostwng yn raddol yn y flwyddyn olaf. Yna estynnwyd cyllid am flwyddyn arall hyd at fis Mawrth 2023 oherwydd pandemig Covid-19 a oedd yn cyfyngu ar weithredu wedi'i gynllunio a phrosesau cyflawni Prosiectau lleol.

1.6 Dewiswyd 17 o Brosiectau o'r ceisiadau a dderbyniwyd (gweler Tabl 1). Y farn gref ymhlith tîm y GIE oedd bod llawer mwy na'r 17 hynny yn bodloni'r meini prawf ac y gellid bod wedi'u hariannu.

[3] Rhaglen Lywodraethu

## Tabl 1.1: Prosiectau'r GIE

| **Prosiectau'r GIE**<br>Enw'r prosiect, lleoliad, disgrifiad a chorff arweiniol | **Grant gwirioneddol y GIE /**<br>(grant arfaethedig gwreiddiol / cyfanswm y gyllideb arfaethedig wreiddiol) mewn £000.[4] |
|---|---|
| **Coed Actif Cymru** (Cenedlaethol): Presgripsiynu cymdeithasol gan ddefnyddio'r Goedwig. Gweithgareddau a hyfforddiant yn y goedwig ar gyfer gwirfoddolwyr, grwpiau, a phartneriaid gofal iechyd: *Coed Lleol –Smallwoods* | £459 (£383 / £827) |
| **Babi Actif** (Gogledd-orllewin Cymru): Cymorth i rieni i gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod yn ystod y cyfnod o feichiogi hyd at 2 oed: *Eryri-Bywiol Cyf* | £232 (£211 / £261) |
| **Balanced Lives for Care Homes** (De-orllewin Cymru): Hybu iechyd a lles preswylwyr cartrefi gofal yn Abertawe drwy weithgarwch corfforol a chymdeithasol mewn cartrefi gofal i'r henoed gan wirfoddolwyr a hyrwyddwyr: *Ymddiriedolaeth Action for Elders* | £308 (£260 / £260) |
| **BeActive RhCT** (Rhondda Cynon Taf): Ymwneud â phobl a chymunedau i hybu lles - Rhaglen amlasiantaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mewn chwe chymuned ag anghydraddoldebau iechyd difrifol: *Interlink RhCT* | £472 (£400 / £557) |
| **Cyfeillion Cerdded Cymru** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgarwch grŵp cerdded bach dwys i bobl hŷn: *Living Streets* | £271 (£224 / £255) |
| **Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd** (De/De-ddwyrain Cymru a'r Cymoedd): Gweithgareddau cymunedol / partneriaid ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd incwm isel: *StreetGames UK Ltd* | £475 (£399 / £694) |
| **Pum Ffordd at Les** (Fflint/Wrecsam): Gweithgarwch Corfforol i Hybu Lles Meddyliol. Gwasanaeth CAMHS i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc sydd â neu sydd mewn perygl o wynebu anawsterau iechyd meddwl (gwasanaeth cymunedol): Bwrdd *Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* | £83 (£303 / £484)[5] |

[4] Roedd y grant gwirioneddol yn amrywio o'r grant arfaethedig gwreiddiol o ganlyniad i ostyngiadau neu ychwanegiadau yn sgil Covid-19, ac mewn perthynas ag estyniadau a chyllid gostyngol ym Mlwyddyn 4. Lle mae cyfanswm y gyllideb arfaethedig yn fwy na'r grant arfaethedig gwreiddiol, darparwyd yr arian ychwanegol gan ymgeiswyr a'u partneriaid, weithiau mewn arian parod ac weithiau mewn da.

[5] Mae cyfanswm y grant gwirioneddol yn llawer is na'r grant arfaethedig gwreiddiol oherwydd daeth y Prosiect hwn i ben yn gynnar.

| **Prosiectau'r GIE**<br>Enw'r prosiect, lleoliad, disgrifiad a chorff arweiniol | **Grant gwirioneddol y GIE /** (grant arfaethedig gwreiddiol / cyfanswm y gyllideb arfaethedig wreiddiol) mewn £000.[4] |
|---|---|
| **Tyfu Gyda'n Gilydd** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau sy'n tyfu bwyd: *Cadwch Gymru'n Daclus* | £295 (£289 / £289) |
| **HAPPy** (Casnewydd): Gweithgareddau Tŷ Tredegar ar gyfer yr ifanc a'r rhai mewn tlodi neu anfantais: *Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tŷ Tredegar* | £228 (£280 / £309) & (£293 / £247)[6] |
| **Healthy and Active Newport** (Casnewydd): Cynghrair o gyrff statudol a chyrff eraill yng Nghasnewydd i ymgysylltu mewn ysgolion a chymunedau: *Casnewydd Fyw* | £460 (£374 / £564) |
| **Corff Iach - Meddwl Iach** (Caerdydd): Gweithgareddau ffitrwydd corfforol a theuluol i ferched Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig a'u teuluoedd: *Women Connect First* | £449 (£375 / £453) |
| **Agor Drysau i'r Awyr Agored** (Gogledd-orllewin Cymru): Gweithgareddau corfforol cerdded/dringo mewn grŵp i'r gymuned yn yr awyr agored i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl: *Y Bartneriaeth Awyr Agored* | £285 (£230 / £353) |
| **Llysgenhadon Chwarae** (Caerdydd a'r Fro): Cynyddu chwarae mewn deg cymuned gan 60 o Lysgenhadon Chwarae wedi'u recriwtio a'u hyfforddi: *Chwarae Cymru* | £216 (£179 / £197) |
| **Sporting Memories** (De Cymru): Lles drwy atgofion a gweithgarwch chwaraeon: *CBC Sporting Memories Network* | £461 (£400 / £887) |
| **Super-Agers** (Partneriaeth Cwm Taf): gweithgarwch corfforol yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'r rhai ag anableddau neu salwch hirdymor: *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr* | £393 (£490 / £531) |
| **Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru** (Cenedlaethol): Chwarae cymunedol a gweithgarwch corfforol dwys i bobl ifanc: *Blynyddoedd Cynnar Cymru (a Gymnasteg Cymru)* | £442 (£371 / £394) |
| **Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru** (Gorllewin a Chanolbarth Cymru): Grwpiau Cerdded sy'n gysylltiedig â Meddygfeydd: *Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro* | £318 (£400 / £400) |


1.7 Cafodd y GIE ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect gyda chefnogaeth gan Grŵp Gwerthuso'r GIE a Grŵp Cyflawni'r GIE. Prif ddiben Bwrdd Prosiect y GIE oedd

[6] Yn yr achos hwn, newidiodd y swm a geisir a'r swm a gynigiwyd yn ystod y broses ymgeisio a chymeradwyo.


sicrhau bod y Rhaglen yn cyflawni ei nod cyffredinol i hybu iechyd meddwl a chorfforol trwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw.  Goruchwyliodd y Grŵp Gwerthuso gynnydd a hyrwyddodd ansawdd gwerthusiad cyffredinol y GIE a'r gwerthusiadau ar lefel Prosiect.  Roedd gofyn i'r Grŵp Cyflawni sicrhau safon uchel a chysondeb o ran monitro pob un o'r 17 prosiect cyflawni.  Fe'i cefnogwyd gan Swyddogion Achos a ddyrannwyd i bob un o'r 17 prosiect.  Roedden nhw'n gyfrifol am fonitro eu Prosiect(au) cyflawni neilltuedig drwy feithrin dealltwriaeth fanwl o'r prosiect, a darparu cyngor a chymorth parhaus ar lywodraethu, materion ariannol, cynlluniau cyflawni, ymholiadau gwerthuso, risgiau a heriau. Fe wnaethon nhw hefyd adrodd yn ôl ynglŷn ag adroddiadau. Roedd gan bob Grŵp a rolau'r Swyddog Achos gynrychiolaeth gan y tri sefydliad partner.

1.8 Mae llinell amser y GIE wedi'i nodi isod.  Cafodd y tymor tair blynedd gwreiddiol ei ymestyn yn sgil Covid-19, gyda chyllid ategol y bu i'r mwyafrif fanteisio arno. Cafodd un prosiect (Pum Ffordd at Les) ei derfynu oherwydd pwysau ar ei sefydliad noddi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a phenderfynodd un arall (Super-Agers, a noddwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr) beidio â pharhau â chyllid blwyddyn tri gan eu bod o'r farn bod y gweithgareddau eisoes ar gael yn eang o fewn y Cyngor erbyn hynny.  Felly, yn y pen draw, aeth 15 o'r 17 prosiect gwreiddiol ati i gwblhau'r Rhaglen hyd at ei gyfnod ariannu terfynol yng ngwanwyn 2023.

**Ffigur 1.1 Llinell amser y Gronfa Iach ac Egnïol 2018-2019**




**Ffigur 1.2 Llinell amser y Gronfa Iach ac Egnïol 2019-2020**





1.9 Erbyn haf 2019 roedd y Prosiectau wedi'u cymeradwyo ac fe ddyfarnwyd y grantiau. Fodd bynnag, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, roedd Covid-19 wedi cydio ac roedd y rhan fwyaf o brosiectau'n bwrw iddi i ail-lunio modelau cyflwyno a gweithredu fel bod modd iddyn nhw barhau a, cyn belled ag y bo modd, bodloni'r amcanion a bennwyd.

**Ffigur 1.3 Llinell amser y Gronfa Iach ac Egnïol 2020-2021**





1.10 Yn ystod y flwyddyn ddilynol roedd modd i'r Prosiectau, pe dymunen nhw, ymestyn er mwyn lleihau effeithiau Covid-19, a bu i bron pob un achub ar y cyfle. Yna cafodd y prosiectau eu cyflawni tan fis Mawrth 2023.

**Ffigur 1.4 Llinell amser Cronfa Iach ac Egnïol 2021-2022**




**Ffigur 1.5 Llinell amser Cronfa Iach ac Egnïol 2022-2023**




1.11 Yna, erbyn Mehefin 2023, roedd Adroddiadau Uchafbwyntiau'r Prosiectau wedi'u cyflwyno (yn ddyledus mis Chwefror), darparwyd ffurflenni data ar gyfer blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 (yn ddyledus ym mis Mai, i'w dilyn gan ddata blwyddyn 5 ym mis Mehefin 2024)), ac roedd Adroddiadau Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa i gyd yn ddyledus (Mehefin). Bydd UKRCS yn cychwyn ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd dilynol ym mis Mai 2024, a bydd wedi'i gwblhau erbyn hydref 2024.

## Gwerthusiad y GIE

1.12 Yn 2019, bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu RCS i werthuso'r GIE ar lefel Rhaglen, gyda threfniadau gwerthuso ar wahân yn cael eu gweithredu ar lefel y Prosiect, gan arwain at un gwerthusiad Rhaglen a 17 gwerthusiad Prosiect. Cafodd gwerthusiadau'r lefel Prosiect eu comisiynu neu eu cynnal gan y Prosiectau eu hunain. Roedd profiadau'r Prosiectau o gynnal gwerthusiad yn destun ymchwil ar wahân gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.13 Roedd y Rhaglen yn annog monitro a gwerthuso ar lefel Prosiect yn ogystal ag ar lefel Rhaglen o'r cychwyn cyntaf hyd at y broses ymgeisio, gyda chanllawiau ymgeisio yn nodi y byddai angen i gynigion nodi trefniadau monitro a chynigion ar gyfer sut yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu cynnal gwerthusiad o'r Prosiect a'i effaith[7]. Casglodd Prosiectau Unigol ddata ar lefelau gweithgarwch corfforol a/neu les meddyliol cyfranogwyr yn seiliedig ar becyn cymorth gwerthuso a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o ofynion y Rhaglen.

1.14 Nod ein **gwerthusiad lefel Rhaglen** oedd canfod pa mor dda y gall y math hwn o gronfa adnabod a chefnogi Prosiectau i wneud gwahaniaeth i weithgarwch corfforol a lles meddyliol. Fe'i cynlluniwyd i bennu a ddylid defnyddio dull ariannu tebyg eto a nodi gwersi ar gyfer cynllunio a chyflwyno rhaglenni. Roedd tair agwedd ynghlwm â hynny:

- Theori Newid - i ddarparu fframwaith ar gyfer y gwerthusiad;
- Gwerthuso Prosesau - asesu cynllun a chyflwyniad y GIE, helpu i ddeall y deilliannau, a nodi gwersi; a
- Gwerthuso Deilliannau - i gasglu data lefel cyfranogwyr, asesu a gyflawnodd y GIE ei nodau, a nodi'r gwersi y gellir eu dysgu ohoni a ffyrdd o sicrhau gwaddol sylweddol.

1.15 **Dull Gwerthuso Rhaglenni:** Bu pedwar cam i'n gwaith:

**Cam 1: Trefnu, Gweithredu a Theori Newid:** Roedd y cam hwn yn ymwneud ag archwiliad o ddogfennaeth y Rhaglen a'r Prosiectau i bennu a oedd theori newid yn

[7] Cronfa Iach ac Egnïol – Galw am Geisiadau a Chanllawiau'r Gronfa – Hydref 2018

ymddangos neu'n ymhlyg, cyfweliadau ag aelodau Bwrdd y Prosiectau, Arweinwyr Prosiectau a'r Swyddogion Achos, gyda gweithdy i wirio a datblygu theori newid ôl-weithredol a blaengar. Arweiniodd y cam hwn at yr adroddiad canlynol a gyhoeddwyd, sydd hefyd yn rhoi rhagor o fanylion ar ddulliau: *Partneriaid ar Waith. Y Gronfa Iach ac Egnïol a'i Theori Newid*.[8]

**Cam 2: Gwerthuso Prosesau Cychwynnol a Chanfyddiadau Cynnar:** Roedd y cam hwn yn ymwneud ag adolygiad o ddogfennaeth y Rhaglen a'r Prosiectau; cyfweliadau ag aelodau Bwrdd y Prosiectau, a'r Grwpiau Gwerthuso a Chyflawni; cyfweliadau â chynrychiolwyr y Prosiectau a'r Swyddogion Achos, a gyda staff y Prosiectau sy'n gyfrifol am weinyddu'r grant; a hefyd, rhai cynrychiolwyr sefydliadau a fu'n aflwyddiannus gyda'u cais i'r GIE. Roedd hefyd yn cynnwys arolwg ar-lein o ymgeiswyr. Mae'r cam hwn yn cael sylw yn yr adroddiad canlynol a gyhoeddwyd, sydd hefyd yn rhoi rhagor o fanylion ar ddulliau: *Sicrhau Newid. Y Gronfa Iach ac Egnïol: Gwerthusiad Proses*[9]

**Cam 3: Y Cyfnod 'Cyflwyno a Dysgu'**: Cyn y pandemig, y cyfnod rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021 oedd cam 'cyflwyno a dysgu' y gwaith. Yn dilyn hynny, estynnwyd y cyfnod cyflwyno a dysgu hwn o flwyddyn tan fis Rhagfyr 2022 i ddwyn i ystyriaeth estyniad y Rhaglen oherwydd Covid-19. Yn ystod y cam hwn, yn ogystal â pharhau i werthuso'r broses dyfarnu ôl-ariannu a nodi arferion da a thueddiadau sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n dod i'r amlwg, nodwyd meysydd astudio thematig. Ymhlith y dulliau roedd:

- Cylch cychwynnol o gyfweliadau ail-ymgysylltu â chynrychiolwyr y Prosiectau yn gynnar yn 2021.
- Dewis pynciau thematig gan Fyrddau'r Prosiectau, gan ymdrin ag (i) effaith pandemig Covid-19 a'r dysgu ohono; (ii) dulliau ymgysylltu cymunedol ac effeithiolrwydd ymgysylltu â'r gymuned; (iii) dysgu; a (iv) cynaliadwyedd a gallu prosiectau i ddatblygu yn unol â'r anghenion, a/neu weithgareddau a deilliannau'r prosiectau.

[8] UKRCS, (2021a)
[9] UKRCS, (2021b)

- Datblygu canllawiau pwnc i ymdrin â'r themâu hyn, ac yn fwy cyffredinol.
- Cyflwyno cyfweliadau lled-strwythuredig maith gyda phob Prosiect, yn 2021 ac yn 2022.
- Adolygiad o Uchafbwyntiau'r Prosiectau ac Adroddiadau Blynyddol o 2021 a 2022.
- Cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithredwyr lefel Rhaglen gan gynnwys aelodau Bwrdd y Prosiectau a'r Grŵp Gwerthuso, a'r Swyddogion Achos yn 2021 a 2022.
- Adolygiadau llenyddiaeth i lywio agweddau penodol o'r gwerthusiad, gan gynnwys themâu cynaliadwyedd ac ymgysylltu â'r gymuned.

Gwnaethom ddarparu Adroddiadau Dros Dro ar gyfer 2021 a 2022, ac mae'r canfyddiadau o'r adroddiadau hynny wedi'u crybwyll yn yr Adroddiad hwn.

**Cam 4: Cyfnod Cwblhau**: Fel rhan o'r cam hwn roedd yn rhaid dwyn popeth sydd wedi'i gynhyrchu ers mis Mai 2019 ynghyd ac asesu lle'r oedd angen cyflawni rhagor o waith i sicrhau bod yr holl gwestiynau ymchwil yn cael eu hateb. Gwnaethom ddefnyddio ystod o ddulliau ymchwil, gan gynnwys rownd arall o 26 cyfweliad lled-strwythuredig ar-lein gyda chynrychiolwyr y Prosiectau a detholiad o'u partneriaid; rownd arall o gyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein gyda Chynrychiolwyr y Rhaglen a phob Swyddog Achos; adolygiad dogfennol (o bapurau Bwrdd y Prosiectau, deunyddiau ymgeisio, Adroddiadau Uchafbwyntiau, Blynyddol a Diwedd y Prosiectau, a gwerthusiadau a gomisiynwyd gan y Prosiectau); astudiaethau achos (gan gynnwys ynghylch gweithgareddau, datblygiad sefydliadol, dulliau cyflawni prosiectau, a deilliannau/effeithiau); ynghyd â dadansoddiad o'r data monitro a gyflwynodd y Prosiectau i Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y Rhaglen o bedair blynedd.

Gwnaethom ddefnyddio'r astudiaethau thematig i helpu strwythuro'r dadansoddiad, a hefyd manteisio ar agweddau o'r modelau theori newid yr oeddem wedi'u datblygu i drefnu a dadansoddi'r dystiolaeth ar lefel Rhaglen, yn benodol.

1.16 Mae'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol hwn yn dwyn deunydd newydd a deunydd a gyhoeddwyd yn flaenorol ynghyd mewn un ddogfen ac yn cynnig asesiad cyffredinol o'r cyflawniadau lefel Prosiect a'r effeithiolrwydd lefel Rhaglen. Fe'i trefnir yn fras gronolegol ac fe'i nodir fel a ganlyn:

- Mae penodau 2 a 3 yn crynhoi'r gwaith cynnar ar Werthusiad Proses y GIE a Theori Newid y GIE. Maen nhw'n bwysig er mwyn darparu adnodd mesur i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen a'i hachosion.
- Mae Pennod 4 yn gwerthuso blynyddoedd cyflawni craidd 2021 a 2022, pan oedd Prosiectau ar waith yn gyfan gwbl ac wedi gwneud eu haddasiadau 'Covid' i'r modelau cyflenwi a gweithredu.
- Mae Pennod 5 yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad wnaethom ei gynnal ynghylch themâu allweddol a ddewiswyd gan Fwrdd y Prosiectau: ymgysylltu â'r gymuned, cynaliadwyedd a'r broses ddysgu.
- Mae Pennod 6 yn darparu ein hasesiad cyffredinol o'r Prosiectau, gan gynnwys casglu data safonol a data arall ar lefel Prosiect, a chyflwyno crynodebau Prosiect byr yn amlinellu nodau, gweithgareddau, costau a chyflawniadau pob Prosiect. (Daw'r rhain o sleidiau helaeth a ddatblygwyd ar gyfer pob Prosiect gan ddefnyddio templed safonol a hwylusodd gymhariaeth draws-brosiect rhwng yr hyn a oedd yn Brosiectau gwahanol iawn). Rydym hefyd yn tynnu sylw at themâu pellach o'r deunydd hwn, gan gynnwys y cwestiwn hanfodol, sef a wnaeth y Prosiectau, yn gyffredinol, gyflawni'r hyn yr oedden nhw'n bwriadu ei wneud ac a gawsan nhw gymorth grant i'w gyflawni, gan gynnwys gwahanol agweddau o effaith.
- Mae Pennod 7 yn asesiad cyffredinol o Raglen y GIE. Mae'n manteisio ar y Theori Newid a fabwysiadwyd gan Fwrdd y Prosiectau am y cyfnod o'r adeg pan oedd y Prosiectau'n mynd rhagddyn nhw'n gyfan gwbl. Mae'n trefnu'r deunydd o dan dri phrif bennawd: rheoli prosiectau a rhaglenni, dysgu a throsglwyddo polisi, a 'ffyrdd o weithio'.
- Mae Pennod 8 yn cynnwys ein casgliadau a'n hargymhellion.

1.17 Thema gref ac unedig yr Adroddiad hwn yw 'dysgu', gan mai hynny oedd craidd ein comisiwn gwreiddiol, ac yn greiddiol hefyd i'r hyn yr oedd y GIE ei hun yn canolbwyntio arno. Mae pob maes yn cynnwys pwyntiau dysgu pwysig. Dyma werth hirdymor y GIE ac felly maen nhw’n haeddu cael eu hamlygu a’u hatgyfnerthu.

## 2. Gwerthusiad Proses Rhaglen y GIE

### Cefndir

2.1 Ymhlith gofynion gwerthuso cyffredinol ar gyfer Rhaglen y GIE oedd gwerthusiad Proses a fyddai'n asesu ei chynllun a'i darpariaeth, yn cyfrannu at ddeall y deilliannau lefel Rhaglen cychwynnol, a nodi gwersi ar gyfer sut y gellid gwella proses y GIE. Y nodau oedd asesu:

- Pa mor effeithiol oedd cynllun a darpariaeth y GIE i allu adnabod Prosiectau addas a'u cefnogi i gyflawni'r nodau cyffredinol, a beth oedd y rhwystrau a'r hwyluswyr ynghlwm â hynny;
- Sut y lluniodd y GIE gynllun a darpariaeth Prosiectau (e.e. eu cwmpas, cydweithio, gallu staff, monitro a gwerthuso, risgiau a chynaliadwyedd);
- Barn prosiectau ar y GIE a'r ffordd y gwnaeth lywio eu gwaith;
- Pa mor effeithiol oedd y dull cydweithredol o gynllunio a chyflwyno'r GIE gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru, a beth oedd y rhwystrau a'r hwyluswyr ynghlwm â hynny; a
- Pa mor effeithiol y cafodd y 'pum ffordd o weithio' eu rhoi ar waith wrth ddylunio a chyflwyno'r GIE, gan gynnwys ar lefel Prosiect.

2.2 Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso proses *Sicrhau Newid* ym mis Mawrth 2021[10]. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod o sefydlu'r Rhaglen, hyd at gam cyntaf y gwaith cyflawni ar ddiwedd 2019. Ymysg y dulliau a ddefnyddiwyd oedd cyfweliadau â chynrychiolwyr y Rhaglen, cynrychiolydd o bob Prosiect, Swyddogion Achos ac arolwg ar gyfer pob ymgeisydd ni waeth pa gam a gyrhaeddwyd. Cynhaliwyd nifer fach o gyfweliadau gydag ymgeiswyr aflwyddiannus.

2.3 Yn y Bennod hon, rydym yn crynhoi ac yn myfyrio ar broses, cynllun a gweithrediad y Rhaglen trwy'r adrannau canlynol:

- Cynllun y rhaglen - sut mae ei strwythur wedi llywio cynllun a darpariaeth Prosiectau;

[10] UKRCS, (2021b)

- Safbwyntiau’r Prosiectau;
- Y dull gweithredu ar y cyd a'r ffyrdd o weithio; a
- Pwyntiau dysgu o'r broses.


**Cynllun y Rhaglen**

2.4 Datblygwyd Rhaglen y GIE yn sgil dau ymrwymiad maniffesto: *Roedd Symud Cymru Ymlaen 2016-21* yn ymdrin ag ymrwymiad i gyflwyno Bond Llesiant gyda'r nod o hybu iechyd meddwl a chorfforol a lleihau ffyrdd o fyw segur, maeth gwael ac yfed gormod o alcohol. Ailadroddwyd yr ymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol,* gan nodi y byddai'n cefnogi dulliau cymunedol arloesol i annog ffyrdd mwy heini o fyw a maeth iach. Yn *llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2018-2021*, roedd gofyn i’r sefydliad ddatblygu cronfa her a bwrw iddi i gydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

*Arweinyddiaeth a Llywodraethu*

2.5 O'r cychwyn cyntaf, roedd y strwythurau llywodraethu a’r trefniadau adrodd yn bendant. Cynhaliwyd goruchwyliaeth ar gyfer y Rhaglen gan Fwrdd Prosiect y GIE a gyd-gadeiriwyd gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru o’r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon. Cynigiodd Grŵp Gwerthuso’r GIE a Grŵp Cyflawni’r GIE gymorth ac adroddiad i'r Bwrdd. Roedd rhai yn gynrychiolwyr ar ran mwy nag un grŵp. Mae Ffigur 1.1 yn dangos strwythur llywodraethu a nifer y cynrychiolwyr ar ddechrau cyfnod ariannu’r GIE.

**Ffigur 2.1: Strwythur llywodraethu'r GIE**




Ffynhonnell: *Papur Llywodraeth Cymru: Cylch Gorchwyl, trefniadau Llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau partner y Gronfa Iach ac Egnïol Mehefin 2019. Nifer y cynrychiolwyr a ychwanegwyd gan RCS.*

2.6 Datblygwyd disgrifyddion rôl a chylch gorchwyl ar gyfer y gwahanol grwpiau ac fe drefnwyd rhaglen reolaidd o adrodd cynnydd ymlaen llaw a'i rhannu â Phrosiectau. Cafodd canllawiau ar fonitro a gwerthuso eu paratoi a'u rhannu gyda'r Prosiectau a gyrhaeddodd Cam 2 y broses ymgeisio. Unwaith y cafodd y dyfarniadau terfynol i'r 17 prosiect eu cyflwyno, neilltuwyd Swyddogion Achos ar gyfer pob Prosiect i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf. Cynrychiolwyd pob un o'r sefydliadau partner ar bob grŵp o'r Bwrdd hyd at gymorth gan Swyddog Achos.

*Y Broses Ymgeisio*

2.7 Ar Orffennaf y 19eg 2018, cyhoeddwyd Rhaglen y GIE fel cronfa grantiau newydd ar y cyd â lansiad y *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.*

2.8 Roedd galw am geisiadau ym mis Hydref 2018, gyda dyddiad cau i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (EoI) ym mis Tachwedd 2018. Gan ragweld llawer iawn o ddiddordeb, defnyddiwyd y cam Datgan Diddordeb hwn fel hidlydd i lunio rhestr fer o'r prosiectau arfaethedig. Derbyniwyd cyfanswm o 109 Datganiad o Ddiddordeb, a gwahoddwyd 43 o Brosiectau i gyflwyno cais llawn ac achos busnes erbyn mis Chwefror 2019.

*Marchnata a Hyrwyddo*

2.9 Bu cynllun y broses yn ystyried manteisio i'r eithaf ar y posibilrwydd o dderbyn cynigion arloesol o safon gan ystod amrywiol o ymgeiswyr. Cafodd marchnata a hyrwyddo cychwynnol ei lunio'n ymwybodol i gefnogi dulliau cydweithredol. Comisiynwyd logo a oedd yn portreadu dull ar y cyd yn hytrach na defnyddio logo'r tri sefydliad. Nododd cynllun cyfathrebu ystod o ddulliau i'w defnyddio i sicrhau y byddai darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am y cyfle. Ymysg y dulliau hyn roedd cyfres o ddigwyddiadau sioe deithiol wyneb yn wyneb a gweminar a gynhaliwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Cafodd tudalennau cyfryngau cymdeithasol - Twitter a Facebook yn bennaf - eu defnyddio hefyd, gyda hysbysiadau gan Lywodraeth Cymru a chyfrifon sefydliadau partner. Yn ogystal, hyrwyddwyd y GIE mewn cylchlythyrau ac e-byst trydydd parti presennol i ddarpar ymgeiswyr gan ddefnyddio rhestrau cyswllt trydydd parti[11].

*Cymorth i Ymgeiswyr*

2.10 Dewiswyd lleoliadau'r sioe deithiol i sicrhau bod nifer o bobl yn eu mynychu ac er mwyn sicrhau eu bod mewn lleoliad addas i bobl oedd yn teithio o bob cwr o Gymru. Fe'u cynlluniwyd i roi 'blas' ar y dull yn hytrach na chynnig canllawiau/meini prawf manwl. Ar hyn o bryd, roedd y meini prawf asesu a'r prosesau dethol yn dal i gael eu datblygu, a defnyddiwyd y sioeau teithiol i gasglu barn er mwyn llywio'r canllawiau. Roedd gweithdai'r sioeau teithiol yn cyfeirio'n benodol at y pum ffordd o weithio, gan gynnwys cydweithio, arloesi a chynaliadwyedd yn benodol[12]**.**

2.11 Roedd galw mawr am gymorth gan ddarpar ymgeiswyr. Er enghraifft, rhwng digwyddiadau'r sioe deithiol a ddechreuodd ar 28 Medi hyd at pan agorodd y cam Datgan Diddordeb ar Hydref y 15fed, cofnodwyd 74 o ymholiadau e-bost ar wahân a dros 20 o sgyrsiau ffôn gan arweinydd yr GIE oedd ar secondiad i Chwaraeon Cymru.

---

[11] Cynllun Cyfathrebu'r Gronfa Iach ac Egnïol Ddrafft

[12] Y pum 'ffordd o weithio' mewn gwirionedd yw hirdymor, atal, cydweithio, ymrwymiad ac integreiddio. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw cysyniad cyffredinol y Ddeddf.

2.12 Cafodd y broses ymgeisio ei drefnu gan Adran Grantiau Chwaraeon Cymru ar eu system grantiau ar-lein[13]. Darparwyd canllawiau a chefnogaeth bellach ar gyfer 43 ymgeisydd terfynol Cam 2, a chawsan nhw gyflwyniadau ar y templed Model Busnes 5 Achos i'w ddefnyddio yn y cais terfynol, ac ar y trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig. Fel rhan o'r gwaith, soniwyd am sut i greu modelau rhesymeg er mwyn cefnogi'r gwerthusiadau unigol ar lefel Prosiect, a sut i nodi'r data sylfaenol a bodloni'r gofynion monitro presenoldeb. Yna cyhoeddwyd Pecyn Cymorth Monitro a Gwerthuso drwy e-bost, gan ddarparu rhagor o fanylion am y dull a rhestru ffynonellau cymorth a chyngor ychwanegol[14].

**Y Broses Asesu**

*Proses ac Amserlen*

2.13 Roedd y meini prawf asesu, a ddatblygwyd gan holl bartneriaid y GIE, ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr yn eglur ac yn fanwl. Cafodd aelodau'r panel (aseswyr) eu recriwtio o'r tri sefydliad partner. Rhannwyd y 109 Datganiadau o Ddiddordeb rhwng chwe aseswr a ddewiswyd i ddarparu gwahanol safbwyntiau, gan gynnwys arloesedd iechyd, gwella iechyd, addysg, y sector awyr agored a chwaraeon.

2.14 Defnyddiwyd set rannol wahanol o aseswyr i fwrw golwg ar yr Achosion Busnes llawn, a oedd yn rhan annatod o broses ymgeisio Cam 2. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd nodwyd bod angen meysydd arbenigedd penodol ac i ymdrin â'r holl waith. Roedd y ceisiadau llawn yn amrywio o oddeutu 50 tudalen i dros 200 o dudalennau, felly roedd yn rhaid treulio cryn amser yn eu darllen a'u hadolygu, eu cymharu a'u sgorio. Cafodd adrannau achosion strategol ac ariannol yr Achosion Busnes eu hasesu gan Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac aseswyd yr adrannau achosion economaidd, masnachol a rheoli gan Lywodraeth Cymru.

2.15 Roedd aelodau'r panel a gyfwelwyd gennym yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol ac yn ystyried bod y broses wedi bod yn ddigon hyblyg i addasu wrth i

[13] Y system a ddefnyddiwyd oedd y CC Grant Tracker, a elwir bellach yn Sympletic Grant Tracker. Rhaglen y GIE oedd y tro cyntaf i Chwaraeon Cymru ddefnyddio proses ar-lein dau gam - roedd rhaglenni eraill wedi cynnwys un cam, neu Ddatganiad o Ddiddordeb all-lein.
[14] Pecyn Cymorth Gwerthuso Prosiect Cronfa Iach ac Egnïol, Ionawr 2019.

awgrymiadau a phwyntiau dysgu ddod i'r amlwg a gweithredwyd yn eu cylch er mwyn gwella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd aelodau'r panel yn bwyllog wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar sgorau a ddyfarnwyd yn annibynnol ar sail sampl yn unig o'r ceisiadau. Gwnaed hyn er mwyn osgoi blinder asesu a lleihau llwyth gwaith. Fodd bynnag, fe'i codwyd mewn cyfarfod panel fel pryder, ac felly cafodd pob cais ei sgorio gan ddau aseswr a aeth ati ar y cyd yn dilyn hynny i drafod ac adolygu unrhyw anghysondebau. Mae'n siŵr bod y dull hwn wedi helpu i liniaru heriau posibl yn ddiweddarach wrth sgorio, ond roedd yn golygu baich ychwanegol ar dîm y GIE ac roedd yn ddibynnol ar orfod cyflawni gwaith ychwanegol y tu hwnt i oriau arferol, ac ewyllys da a chydwybodoldeb y staff dan sylw.

2.16 Roedd tîm y GIE a'r aseswyr yn deall y gallai'r broses ddenu cryn dipyn o graffu wedi hynny, er enghraifft gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Roedd yna hefyd ymdeimlad o gyfrifoldeb bod y gronfa newydd hon 'y tu hwnt i'r parth cysur' braidd, yn enwedig o ran parodrwydd tîm y GIE i ddewis Prosiectau lle'r oedd yn rhaid mentro a rhoi cynnig ar ddulliau newydd. Fel y disgrifir gan aelod o dîm y GIE:

> "*Yn ystod yr asesiad, cafodd yr aelodau eu hatgoffa'n gyson eu bod yn chwilio am wahanol ddulliau, ac i ystyried sut y gellir gweithredu, gan beidio ag ystyried y dulliau profedig yn unig. Cyn belled â bod y cais yn gallu egluro'r gwaith meddwl ynghlwm ag o'n eglur.... Roedd yn ddigonol pe bai 'posibilrwydd iddo lwyddo' yn hytrach na'i fod yn 'bendant o lwyddo'. Roedd yn rhaid i ni ddal ati i atgoffa aelodau'r panel o hynny'*. (Aelod o dîm y GIE)

2.17 Cynlluniwyd y GIE i ganiatáu mwy o gymryd risg na Rhaglenni blaenorol yr oedd aelodau tîm y GIE wedi bod yn rhan ohonyn nhw:

> '*... Roedden ni eisiau lledaenu cyfathrebu'n ehangach na'r arfer ac estyn allan cyn belled â phosibl - i sefydliadau gyda syniadau gwerth chweil oedd â diffyg arian i'w rhoi ar waith. Felly, efallai eu bod yn gweithio ar gynlluniau prawf bach i'w datblygu'n ddiweddarach. Roedd gweinidogion yn fodlon â'r dull gweithredu ac roedden nhw am sicrhau bod y gronfa yn caniatáu i brosiectau a sefydliadau ddysgu am fethiannau, i gael y rhyddid i fentro'.* (Aelod o dîm y GIE).

2.18 Cafwyd trafodaethau penodol am y risg o wneud rhagdybiaethau wrth ddarllen ceisiadau gan bartneriaid presennol.  Roedden nhw'n deall bod posibilrwydd iddyn nhw ddangos rhagfarn tuag at bynciau neu bartneriaid yr oedden nhw'n gyfarwydd â nhw, neu i gynnig asesiadau llai effeithiol ar themâu yr oedden nhw'n llai cyfarwydd â nhw.  Mabwysiadodd aseswyr y ddisgyblaeth o asesu'r ceisiadau ar yr hyn a ysgrifennwyd yn y cais yn unig.  Bu i'r broses ddenu ystod eang o safbwyntiau a chwestiynau a fyddai efallai heb godi pe bai asesiad wedi bod yn gyfrifoldeb ar un sefydliad partner yn unig.

2.19 Bu i arweinwyr y Rhaglen gynnal prawf dibynadwyedd cyflym ar sampl ar hap o'r 42 cais achos busnes ac roedd canlyniadau'r ymarfer hwnnw'n galonogol. Y cynnyrch terfynol oedd dewis 17 o Brosiectau a gymeradwywyd gan y Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth 2019.  Sicrhawyd cymeradwyaeth y Gweinidog a hysbyswyd ymgeiswyr y Prosiect am y penderfyniad ym mis Mehefin.

2.20 Mae Tabl 2.1 isod yn dangos camau a graddau ymrwymiad yr ymgeisydd.

**Tabl 2.1: Nifer yr ymgeiswyr a'r camau**

| Camau Ymgeisio | Nifer y mynychwyr/ymgeiswyr/prosiectau |
|---|---|
| Medi 2018: Sioeau Teithiol | 260 o fynychwyr (heb gynnwys y rheiny wnaeth gymryd rhan yn y gweminar) |
| Hydref 2018: Galw am geisiadau - Datganiad o Ddiddordeb | Derbyniwyd 152 o ymholiadau<br>Cyflwynwyd 109 Datganiad o Ddiddordeb<br>Cyfanswm gwerth y ceisiadau – dros £20miliwn |
| Ionawr 2019: Cam 2 Cais llawn | Gwahoddwyd 43 o brosiectau i gyflwyno cais llawn<br>Cyfanswm gwerth y ceisiadau - £12m |
| Mehefin 2019: Penderfyniad | 17 o Brosiectau wedi derbyn arian<br>£5.4m[15], gyda chyfanswm gwerth prosiect o £7.7m |

[15] Roedd cyfanswm y grant terfynol a gafodd ei dalu yn uwch gan fod cyllid ychwanegol ar gael am estyniad o flwyddyn i Brosiectau

*Ystod o Ddemograffeg Targed*

2.21 Ar y cyd â nodau cyffredinol y rhaglen, roedd y GIE wedi ceisio targedu pedair demograffeg (plant a phobl ifanc hyd at 24 oed, pobl ag anabledd neu salwch hirdymor, pobl sy'n wynebu tlodi neu anfantais, a phobl hŷn a'r rhai sydd o gwmpas oedran ymddeol o'r gwaith). Roedd hefyd yn ceisio sicrhau lledaeniad daearyddol cytbwys, gydag ardal Tasglu'r Cymoedd yn cael ei chrybwyll yn benodol.

2.22 Roedd cynllun a chyflwyniad cyffredinol y GIE yn fodd iddi nodi ystod eang o Brosiectau addas a oedd yn derbyn sylw digonol ledled Cymru ac ar draws y meysydd targed. Roedd y grwpiau targed yn eang. Mae Tabl 2.1 yn dangos nifer y prosiectau sy'n canolbwyntio ar wahanol feysydd targed a chynulleidfaoedd. Yn gyffredinol, roedd prosiectau'n canolbwyntio ar fwy nag un gynulleidfa ac ardal darged.

**Tabl 2.2: Ardaloedd targed**

| *Targed demograffig* | Nifer y prosiectau |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 24 oed | 10 |
| Pobl ag anabledd neu salwch hirdymor | 6 |
| Pobl sy'n economaidd anweithgar neu sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig | 9 |
| Pobl hŷn a phobl dros oedran ymddeol o'r gwaith | 9 |
| Pob oedran | 4 |
| *Math o weithgaredd* | |
| Gweithgaredd corfforol | 12 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 5 |
| *Darpariaeth prosiect dymunol* | |
| O fewn ardal Tasglu'r Cymoedd | 6 |
| Ceisio cryfhau asedau cymunedol | 14 |
| Archwilio a manteisio ar gyfraniad technoleg ddigidol | 6 |

*Goblygiadau o ran y gweithlu*

2.23 Pan fydd llywodraethau'n creu Rhaglenni cymorth grant fel y GIE, mae'n rhaid iddyn nhw reoli rhai heriau a allai fod yn anodd o ran gweinyddu a pherthnasoedd. Ar y naill law, mae'n hanfodol bod digon o geisiadau o ansawdd priodol i gyfiawnhau gwario'r adnoddau a ddyrennir i gyflawni nodau'r Rhaglen arfaethedig. Byddai peidio â gwneud hynny bron bob amser yn cael ei ystyried yn fethiant, hyd yn oed pe bai hynny'n golygu bod rhywfaint o arian cyhoeddus yn cael ei arbed felly. Ar yr un pryd, lle mae nifer y ceisiadau yn llawer mwy na'r hyn y gellir ei fodloni gan yr arian sydd ar gael, mae risg uchel o wastraff ymdrech sylweddol ar ran ymgeiswyr sy'n debygol o fod mewn sefyllfa wael i 'wastraffu' egni gwerthfawr ac amser wrth wneud hynny, gyda rhywfaint o risg gyfochrog i ewyllys da ac i berthnasoedd parhaus. Ochr yn ochr â hyn mae'r goblygiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd y tîm a oedd yn cyflwyno proses y GIE yn fach, ac nid Rhaglen y GIE oedd eu hunig faes gwaith. Mae sicrhau'r cydbwysedd priodol yn her cynllunio sylfaenol mewn Rhaglenni cymorth grant o'r math hwn. Roedd cydnabyddiaeth bod y diddordeb yn y GIE yn uwch na'r disgwyl, ac roedd y symiau yr ymgeisiwyd amdanyn nhw'n llawer uwch na'r cyllid oedd ar gael. Yn dilyn y broses hidlo ddilynol a'r prif broses hidlo, cafodd ychydig o dan 40 y cant o ymgeiswyr Datganiadau o Ddiddordeb eu cymeradwyo ar gyfer Cam 2. O ystyried manyldeb gofynion yr Achos Busnes, roedd Grŵp Cyflawni'r GIE wedi disgwyl y byddai oddeutu hanner y rhai a wahoddwyd i gyflwyno cais llawn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, erbyn y dyddiad cau bu i 42 o'r 43 cais gwreiddiol ar y rhestr fer gyflwyno achos busnes[16]. Y farn gref ymhlith tîm y GIE oedd bod llawer mwy na'r 17 Prosiect hynny yn bodloni'r meini prawf ac y gellid bod wedi'u hariannu. Cadarnhaodd ein hadolygiad o'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr o'n safbwynt bod y ceisiadau llwyddiannus yn drylwyr ac yn fanwl, ac wedi'u llunio'n benodol i fodloni nodau datganedig y GIE.

[16] Roedd yr ymgeisydd oedd yn weddill yn bartner yn un o'r 42.

**Safbwyntiau'r Prosiectau**

2.24 Cafodd y GIE fel rhaglen, a'i hegwyddorion, ei chroesawu. Roedd prosiectau o'r farn bod angen mawr amdani - dywedodd un ei fod yn *'chwa o awyr iach, mae'n enghraifft o arloesi o fewn yr amgylchedd ariannu. Bu'n anodd iawn manteisio ar y math hwn o raglen yn flaenorol'.* Dywedodd un arall: *'Rydym yn teimlo bod ein ffyrdd arloesol o weithio dros y degawd diwethaf wedi derbyn y clod haeddiannol!'. (Cynrychiolwyr y Prosiect)*

*Barn ar y broses ymgeisio*

2.25 Cymysg oedd y farn ar y broses ymgeisio a'r camau dilynol ymhlith ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Roedd hyd yn oed sefydliadau sy'n brofiadol wrth baratoi ceisiadau grant o'r farn bod gofynion cyffredinol y broses yn heriol iawn, ond roedd Prosiectau llwyddiannus yn cydnabod ei bod wedi gosod y sylfeini iddyn nhw allu mynd rhagddi yn fwy effeithiol. Bu i'r Prosiectau llwyddiannus grybwyll bod yr amser a gymerwyd i hysbysu penderfyniadau a rhyddhau cyllid wedi peri pryder (er bod y mater hwn y tu hwnt i reolaeth gweithredwyr y Rhaglen). O ganlyniad, roedd gan hyn rai sgil-effeithiau ar y gwaith recriwtio a gynlluniwyd a'r gallu i fwrw iddi gyda'r gwaith cyflawni.

2.26 <u>Cyfnod Datganiad o Ddiddordeb (Cam 1):</u> Roedd yr ymgeiswyr o'r farn bod dogfennaeth y cais yn ystod y cam Datgan Diddordeb yn eglur ac yn syml, ac yn nodweddiadol o ddisgwyliadau'r ymgeiswyr ar gyfer grant o'r fath. Roedd dros hanner yr ymgeiswyr a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon â'r canllawiau Datgan Diddordeb a'r rhwyddineb o gwblhau a chyflwyno'r ffurflen drwy'r system grantiau ar-lein. Roedd yr ymgeiswyr yn llai boddhaus gyda'r amser a gymerwyd i hysbysu am benderfyniadau a defnyddioldeb y broses adborth. Roedd oddeutu tri chwarter yr ymatebwyr o'r farn bod y cam Datgan Diddordeb hwn yn 'rhwydd dros ben' neu'n 'eithaf rhwydd' ac nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng barn ymgeiswyr llwyddiannus neu aflwyddiannus, neu yn ôl y math o sefydliad.

2.27 <u>Cam 2:</u> Roedd teimladau cymysg gan yr ymgeiswyr ynghylch y gallu i ymgymryd â'r broses. Cafodd y terfynau amser a'r gofynion eu hystyried yn eithaf beichus, hyd yn oed lle'r oedd y sefydliad yn gyfarwydd gydag ac yn meddu ar brofiad helaeth o

baratoi ceisiadau.  Nododd sawl prosiect eu bod yn gyfarwydd â'r broses dau gam gan fod Cronfa'r Loteri Fawr yn defnyddio'r un broses – bu iddyn nhw nodi hefyd bod y Loteri Fawr hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chymorth wedi'i deilwra. Nododd un ymgeisydd llwyddiannus fod y broses wedi cymryd oddeutu tair wythnos, a nododd eraill fod meithrin perthnasoedd effeithiol a chynlluniau ar y cyd yn gofyn am lawer o fuddsoddiad amser sydd, er yn allweddol, yn her mewn rhai achosion pan oedd gan y sefydliad nifer fach o aelodau staff.  Fel y dywedodd un ymatebydd:

> **"***Roedd yr Achos Busnes yn broses eithaf beichus, ac rwy'n pryderu bod yn rhaid i chi fod wedi cael cryn dipyn o brofiad i gwblhau ffurflen o'r fath neu fod aelod o staff penodol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am lunio ceisiadau cyllid ac ati. Rwy'n teimlo y gallai hyn gyfyngu ar y sefydliadau sy'n gallu gwneud cais o safbwynt y trydydd sector a'i fod yn ffafrio'r sefydliadau mwy yn hytrach na sefydliadau llawr gwlad llai'*. *(Cynrychiolydd y Prosiect)*.

2.28 Ategwyd hyn gan adborth am yr arolwg, gyda bron i ddwy ran o dair o ymgeiswyr y trydydd sector yn nodi nad oedd gofynion y broses ymgeisio yn gymesur â swm y cyllid oedd ar gael.  Roedd hyn o'i gymharu â llai na thraean o ymgeiswyr y sector cyhoeddus, lle'r oedd y mwyafrif o'r farn bod y gofynion 'yn gymharol briodol'. Efallai bod mater 'màs critigol' yma, gan fod yr ymgeiswyr mwy yn meddu ar y gallu sydd ei angen yn ogystal â'r profiad o lunio ceisiadau.

2.29 <u>Y Broses o wneud penderfyniadau</u>: Roedd disgwyl y byddai lefel siom yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn uchel.  Ar ôl yr amser a'r ymdrech a roddwyd i mewn i broses drwyadl, nid oedd ymgeiswyr aflwyddiannus yn ystyried ansawdd yr adborth yn ddigonol.  Mae hon yn agwedd sydd wedi'i nodi mewn gwerthusiadau proses blaenorol ar gyfer gwahanol raglenni ariannu[17].

2.30 Bu i safbwyntiau ar y broses adborth gan gynrychiolwyr y Prosiect dynnu sylw at y pryderon am wahanol aseswyr yn sgorio gwahanol rannau o geisiadau: '*Roedd rhywfaint o'r adborth a roddwyd ar feysydd gwella wedi'u crybwyll mewn rhannau eraill o'r achos busnes. Felly, teimlwyd bod pob adran wedi'i marcio/darllen ar*

[17] UKRCS, (2016)

*wahân heb wybodaeth na chyfeiriad at yr adrannau eraill am eglurhad'.* I eraill, byddai adborth '...*ar yr adran gryfaf, hefyd, wedi bod yn galonogol*'. Roedd ansawdd yr adborth mewn prosesau grant yn fater y dylai arianwyr ei ystyried yn seiliedig ar ymchwil gydag elusennau ledled y DU.[18] Barn y Prosiectau ar y GIE oedd bod angen sicrhau adnoddau gwell ar gyfer yr agwedd hon, ac o'u safbwynt nhw byddai hyn wedi helpu i feithrin perthynas well.

2.31 Y broblem fwyaf yn y llinell amser ar gyfer Prosiectau llwyddiannus oedd goblygiadau'r oedi cyn rhoi gwybod i Brosiectau am y penderfyniad terfynol, a bu i hyn arwain at sgil-effeithiau anfwriadol, gan gynnwys:

- Ceisiadau i'r Prosiectau gyflwyno cyllidebau diwygiedig;
- Oedi wrth i Brosiectau allu recriwtio staff; a bu'n rhaid i rai gweithwyr medrus presennol ar gontractau cyfnod penodol ddod o hyd i waith mewn man arall;
- Oedi gweithredol oherwydd diffyg cyllid i drefnu hyfforddiant a threfnu'r darparwyr gweithgareddau sydd eu hangen cyn dechrau cyflwyno i fuddiolwyr; a
- Gweithgareddau wedi'u cynllunio wedi'u heffeithio gan ddechrau'r hydref (oherwydd newidiadau tymhorol yn y tywydd a thymhorau tyfu).

2.32 I'r gwrthwyneb, bu i rai Prosiectau nodi fod yr oedi'n gadarnhaol gan ei fod yn caniatáu mwy o amser trafod a gwaith cefndirol cyn cyflwyno, gan gynnwys y cam pwysig o feithrin perthynas â buddiolwyr bwriadedig.

**Y dull gweithredu a'r ffyrdd o weithio**

2.33 Roedd y 'pum ffordd o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn benodol iawn o ran cynllunio a chyflwyno'r GIE ar lefel Rhaglen a Phrosiect. Cadarnhaodd y cyfwelwyr ei fod yn 'ffit naturiol'. Mae'r GIE yn enghraifft dda o roi egwyddorion y Ddeddf ar waith mewn proses grant a helpu i greu cyd-destun yn Llywodraeth Cymru lle, er enghraifft, gallai cydweithio ffynnu yn fwy rhwydd. Fodd bynnag, roedd perthynas y GIE â phob un o'r ffyrdd o weithio yn amrywiol.

[18] Saxton and Lindström (2012 a 2018)

2.34 Roedd tystiolaeth gref o gydweithio, a rhywfaint o integreiddio (er enghraifft mewn perthynas â rhannu cyllidebau), ac roedd cysylltiad agos rhwng y syniad o 'atal' â rhesymeg gynhenid y GIE a'r Prosiectau wrth geisio newid ymddygiad i ffafrio gwell iechyd corfforol a meddyliol.

2.35 Roedd llawer o’r farn bod y cyfnod cyllid gwreiddiol o dair blynedd yn rhy fyr i gyflawni’r mathau o effeithiau a ddymunir gan Brosiectau ar gyfer eu buddiolwyr ac ar arferion gwaith. Rhoddodd hyn werth ar roi’r dysgu o'r Prosiectau ar waith mewn polisïau a rhaglenni prif ffrwd. Er gwaethaf y pwyslais ar gynaliadwyedd yn y deunyddiau a'r canllawiau ymgeisio, nid oedd yn glir sut y gellir cyflawni hyn. Mae'r mater hwn yn cael ei ddwyn i ystyriaeth yn fanylach ym Mhennod 5.

2.36 Roedd 'Ymrwymiad' yn fwy amlwg ar lefel Prosiect nag ar lefel Rhaglen. Roedd gofyn i brosiectau ddangos tystiolaeth o ymgysylltu â'r gymuned leol. O safbwynt Prosiectau, nid oedd yr un pwyslais yn amlwg ar lefel Rhaglen o ran ymwneud gyda darpar ymgeiswyr ar faterion fel llinellau amser a gofynion monitro a gwerthuso.

2.37 Un o ofynion allweddol o ran cynllun y GIE oedd sicrhau bod cydweithio ynghlwm â’r Prosiectau: *'Bydd angen i bob prosiect ymwneud ag amrywiaeth o bartneriaid wrth gynllunio a chyflawni ond rhaid cael o leiaf dau sefydliad o wahanol sectorau a rhaid i'r corff arweiniol fod o'r Trydydd Sector neu'r Sector Cyhoeddus.'*[19]. .

2.38 Cafodd yr agwedd cydweithio ei hymgorffori hefyd yn y trefniadau cymorth ar gyfer ymgeiswyr. Bu i aelodau tîm y GIE a gyfwelwyd gennym nodi’n glir eu bod am gynnig cyfleoedd rhwydweithio i ddarpar ymgeiswyr o'r cychwyn cyntaf, gyda sioeau teithiol wedi'u cynllunio yn unol â hynny:

> *'Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i ddarpar ymgeiswyr rwydweithio â phartïon eraill oedd â diddordeb – ac roedd hon yn thema yr oeddem am fynd i’r afael â hi drwy gydol yr holl broses. Fe'i cynlluniwyd i osgoi dyblygu ceisiadau prosiect, dwyn pobl ynghyd a rhannu adnoddau/syniadau – cyd-fynd â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'*. (aelod o dîm y GIE)

[19] Galw am Geisiadau a Chanllawiau Cyllid y Gronfa Iach ac Egnïol, Hydref 2018

*'Cydweithio oedd y prif sbardun ac roedd yn rhan annatod o'r holl waith. Amod cyllid'*. (Aelod o Dîm y GIE)

2.39 Roedd y broses weinyddol yn gofyn am dystiolaeth o gydweithio gan ymgeiswyr. Roedd yn rhaid nodi trefniadau partneriaeth mewn ceisiadau yn ystod y cam Datgan Diddordeb a Cham 2. Roedd yn rhaid i brosiectau llwyddiannus gyflwyno cytundebau partneriaeth ffurfiol wedi'u llofnodi cyn caiff y cyllid ei rhyddhau. Cyfeirir at dros 150 o bartneriaid yn y dogfennau ymgeisio, ac awgrymodd adborth gan Brosiectau fod llawer yn 'newydd', gydag ymgeiswyr arweiniol yn gweithio gyda sefydliadau nad oedd yn hysbys iddyn nhw'n flaenorol.

2.40 Ar lefel Rhaglen, roedd y cydweithio rhwng y tri sefydliad partner yn ymwneud â chynllunio, arwain a gweithredu'r GIE ar y cyd, ynghyd â chyfuno cyllidebau. Bu i'r broses helpu iddyn nhw feithrin perthynas gadarnhaol, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau pendant a strwythur ar gyfer adrodd a gwneud penderfyniadau. Fel y dywedodd un cynrychiolydd Rhaglen yn gynnar yn ystod proses y GIE: '*Dyw e ddim wedi teimlo fel ein bod ni'n dri sefydliad gwahanol - rydyn ni i gyd eisiau sicrhau ei fod yn llwyddiant a chymryd rhan ynddo'.*

2.41 Ar lefel Prosiect, cafodd y cydweithio rhwng dwy adran Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddatblygu ac arwain y GIE ei ystyried yn gadarnhaol. Cafodd y Prosiectau eu calonogi'n arbennig gan y cysylltiad penodol rhwng chwaraeon ac iechyd gyda'r GIE yn mynd ati i ddwyn y ddau ynghyd mewn ffordd a allai gefnogi'r ddarpariaeth 'ar lawr gwlad'. Soniodd y Prosiectau eu bod yn awyddus i ymwneud mwy ag 'iechyd' ac roedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw lawer i'w gyfrannu o ran atal.

2.42 Roedd Prosiectau'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio a'r manteision posibl yn y tymor hwy. Fodd bynnag, fe wnaethan nhw hefyd dynnu sylw at y tensiwn yn y broses ymgeisio wrth annog cydweithio yn ystod proses grantiau cystadleuol. Roedd hyn yn groes i'r ffaith bod ymgeiswyr yn barod i rannu eu syniadau, a pheryglu eu cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn rhywle arall gan golli allan o ganlyniad.

2.43 Roedd prosiectau hefyd yn awgrymu bod cyfleoedd eraill i wreiddio cydweithio fel rhan o'r broses, sef wrth ddatblygu'r gofynion monitro a gwerthuso. Roedd un Prosiect yn teimlo y gallai'r system y maen nhw eisoes wedi'i defnyddio yn lleol fod wedi cael ei defnyddio gan Brosiectau eraill pe bai cyfleoedd priodol wedi bod i ymwneud â'r posibilrwydd hwnnw.

2.44 Gan fyfyrio ar y GIE o 2023, soniodd y cyfweleion lefel Rhaglen bod y broses gydweithredol a'r trefniadau cydweithio rhwng y tri phartner yn ddeilliant cadarnhaol iawn. Mae wedi darparu sylfeini cadarn ar gyfer cydweithio yn y dyfodol rhwng adrannau a sefydliadau ar wahanol lefelau o hynafedd. Soniodd cynrychiolwyr rhaglenni o staff lefel uwch i Swyddogion Achos am fanteision meithrin perthnasoedd gwaith newydd a chryfach gyda'r sefydliadau partner. Ar gyfer Swyddogion Achos, roedd hyn yn berthnasol i'w gwaith gyda sefydliadau'r Prosiect, gan godi ymwybyddiaeth o fathau newydd o ymyrraeth a mwy o wybodaeth a mewnwelediad i helpu eu gwaith o ddydd i ddydd.

2.45 Roedd hyn hefyd yn wir am gynrychiolwyr y Prosiect aeth ati i lunio trefniadau a chysylltiadau partneriaeth newydd trwy'r GIE, gan ymestyn eu rhwydweithiau eu hunain. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn i'r un graddau *rhwng* Prosiectau fodd bynnag – cyfeiriodd y cyfwelai Prosiect at hyn fel cyfle wedi'i golli i rannu mewnwelediad, dysgu oddi wrth ei gilydd a chefnogi ei gilydd.

**Pwyntiau dysgu**


*Model ar gyfer proses Rhaglen lwyddiannus*

2.46 Yn ystod camau cynnar y GIE, bu i ein dadansoddiad dynnu sylw at rai goblygiadau a themâu ehangach ar gyfer proses effeithiol ar gyfer rhaglen grant. Dylai proses grant effeithiol gyflwyno'r amodau i sicrhau bod modd cyflawni'r deilliannau canolraddol angenrheidiol a fydd, yn ei dro, yn hwyluso'r deilliannau tymor hwy yn y pen draw y mae'r rhaglen awyddus i'w cyflawni. Fe aethom ati i gyfuno model rhesymeg syml â model ar gyfer rhagoriaeth busnes[20] (Ffigur 2.2, gweler hefyd Ffigur 3.1). Gwnaethom ddefnyddio hyn i lywio'r adolygiad o'r ddogfennaeth a

[20] Gweler y model EFQM. Rydym yn defnyddio fersiwn gynharach o'r model EFQM yma a gafodd ei ddiweddaru yn 2020.

chynnwys cyfweliadau.  Roedd hyn yn helpu i nodi agweddau proses y GIE a oedd, ac sydd, o bosibl, yn berthnasol i raglenni grant eraill.

**Ffigur 2.2 Model ar gyfer proses CIE effeithiol**




2.47 Roedd ein canfyddiadau mewn perthynas â phob un o'r chwe amod galluogi allweddol fel a ganlyn:

a) <u>Atebolrwydd:</u> Roedd y GIE yn gweithredu yn unol â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig Llywodraeth Cymru, ac roedd llinellau atebolrwydd pendant yn y pen draw drwy'r hierarchaeth Adrannau a threfniadau unigol, a phenderfyniadau Gweinidogol.  Teimlwyd bod yr atebolrwydd hwn yn gryf ac yn briodol a bu'n fodd i gynllun y GIE i weithredu ymrwymiadau Maniffesto a phryderon Gweinidogol lluosog.

b) <u>Arweinyddiaeth a Llywodraethu:</u> Defnyddiodd y GIE drefniadau cymharol safonol ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu, gydag Uwch Berchnogion Cyfrifol ar y Cyd (SRO) a Bwrdd Prosiect cyfunol ac is-grwpiau dynodedig.  Bu'r rhain yn effeithiol gan alluogi safbwyntiau cychwynnol gwahanol rhwng

gweithredwyr allweddol i gael eu trafod a'u datrys o ran y ffordd orau o sicrhau gwelliannau yn iechyd corfforol a meddyliol grwpiau targed allweddol. Gyda cham newydd y GIE ar droed, bu inni awgrymu y gellid datblygu agenda blaenllaw newydd lle gellid addasu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y GIE, ac mae hyn yn cael ei grybwyll ymhellach ym Mhennod 3.

c) Strategaeth, Proses, a Chynnyrch: Aeth y gweithredwyr allweddol ati i ddatblygu proses y GIE mewn ffordd feddylgar, gan geisio llywio'r Rhaglen yn benodol fel ei fod yn manteisio i'r eithaf ar ei brif ddyheadau. Dengys y dystiolaeth o'r dogfennau a'r cyfweliadau, ynghyd â'r deilliannau o ran ansawdd y Prosiectau a ddewiswyd i'w hariannu, bod hyn wedi'i gyflawni i safon dda. Cafwyd llwyddiannau penodol mewn perthynas â strategaeth a chynnyrch wrth gyfuno'r ddau ymrwymiad maniffesto a rhannu cyllidebau Cyrff Adrannol a Hyd Braich yn gyfan gwbl.

d) Adnoddau a Chefnogaeth: Mae datblygu a gweithredu rhaglenni bob amser yn heriol ac yn anwastad o ran adnoddau staff sydd eu hangen dros amser, ac nid oedd y GIE yn eithriad. Roedd yn ffodus bod modd i'r GIE wneud defnydd helaeth o uwch swyddog o Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru a oedd ar secondiad i Chwaraeon Cymru. Daeth â safbwyntiau unigryw a phrofiadol iawn ac roedd yn gallu chwarae rôl pontio bwysig. Ar ben hynny, cyfrannodd y pedwar partner amser ac ymdrech staff, a chydweithio mewn ffordd golegol a chydweithredol. Efallai y dylai fod 'haen uchaf' o ran cyllideb y rhaglen i alluogi'r adnoddau angenrheidiol i fod ar gael i fodloni'r heriau anochel, yn enwedig yn absenoldeb yr amgylchiadau ffodus y bu i'r GIE elwa ohonyn nhw. Fodd bynnag, nid ydym yn tanamcangyfrif y gorbenion cyfatebol o drefnu adnoddau staff ychwanegol yn y tymor byr.

e) Canllawiau ac Asesu**:** Mae ein hadolygiad dogfennol a'n cyfweliadau yn dangos bod y canllawiau a gyhoeddwyd yn berthnasol, yn gadarn ac yn amserol, a bod y meini prawf asesu yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n deg, er bod rhai Prosiectau yn eu hystyried yn eithaf heriol.

f) Monitro a Gwerthuso: Roedd hwn yn faes anhawster a ddaeth i'r amlwg trwy gydol y gwerthusiad. Un dull a allai sicrhau dull mwy integredig a chysylltiedig o fonitro a gwerthuso ar lefel Rhaglen a Phrosiect fyddai datblygiad cynnar o

gynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu cynhwysfawr ('MEAL') sy'n cael ei fabwysiadu'n gynyddol gan raglenni grant, yn enwedig ym maes datblygu rhyngwladol[21].

2.48 Drwy gydol y broses, bu tîm y GIE yn myfyrio ar ba mor effeithiol oedd y broses a sut y gellid ei haddasu i fodloni awgrymiadau 'mewnol' yn ogystal ag adborth darpar ymgeiswyr. Daeth nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r broses weinyddol fanwl i'r amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym. Dyma rai o'r awgrymiadau:

- Gwelliannau ymarferol, megis gwell defnydd o adrodd craff yn y ffurflenni cais, yn enwedig yn ystod y cam Datgan Diddordeb, er mwyn osgoi ceisiadau am Brosiectau sy'n rhannol anghymwys sy'n achosi siom i ymgeiswyr ac yn gwneud defnydd o adnoddau staff gwerthfawr (yn fewnol ac allanol);
- Cynllunio amserlenni realistig ar gyfer y broses gyfan, gan ddwyn i ystyriaeth gofynion amser ar gyfer llofnodi penderfyniadau ar lefel uwch ar draws sefydliadau gwahanol;
- Dyraniadau cyllideb ar y cyd a drafodwyd a chadarnhawyd yn y cychwyn cyntaf i osgoi effaith domino negyddol ar adnoddau ar lefel prosiect lleol;
- Adnoddau priodol i'r staff sy'n cynllunio ac yn gweinyddu grant newydd; a
- Ystyried sut y gallai'r ffyrdd o weithio a fabwysiadwyd yn llwyddiannus i'r cam ymgeisio fod wedi parhau i gael eu hymgorffori ym mlynyddoedd 2 i 3, megis drwy gefnogaeth y Swyddog Achos a darparu cyfleoedd cydweithio pellach i ddwyn y 17 prosiect ynghyd.

2.49 Un wers gyffredinol allweddol yw pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion proses y GIE i'r ymgeiswyr a'r manteision yn sgil hynny o ran deilliannau gwell o ran y Prosiectau a'r Rhaglen. Nid oes 'cydbwysedd' perffaith ond yn achos y GIE roedd yn broblemus bod dwywaith cymaint o ymgeiswyr nag y gellid eu hariannu yn cwblhau'r cam terfynol heriol, heb unrhyw broses benodol ar gyfer trosglwyddo'r ymdrechion hyn i bosibiliadau cynhyrchiol amgen. Mae hwn yn bwynt dysgu ar

[21] Gweler er enghraifft y Fframwaith EvalCommunity yma MEAL Framework

gyfer rhaglenni yn y dyfodol.  Mae cronfeydd grant eraill yng Nghymru wedi wynebu heriau tebyg gyda nifer y ceisiadau da yn llawer mwy na'r cyllid sydd ar gael.

2.50 Mae'n bwysig cydnabod bod cynllun llwyddiannus y GIE yn ganlyniad i'r llywodraethu a'r arweinyddiaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Prosiect a Thîm y GIE, yn ogystal â nodweddion cynllunio penodol.  Roedd yr arweinyddiaeth ar y cyd rhwng timau polisi Llywodraeth Cymru, a'r dull integredig rhwng y pedwar prif bartner, yn fodd i'r cynllun fanteisio ar ystod eang o brofiad. At hyn roedd modd profi syniadau a'u herio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, er gwaethaf unrhyw wahaniaethau o ran safbwynt a dull.

2.51 Roedd yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn addas i'r diben o ran cyflawni cyfrifoldeb allweddol y Bwrdd i greu Rhaglen hyfyw o fewn amserlen dynn, gydag ystod dda o Brosiectau o ansawdd, a chyllid priodol ac integredig a gafwyd o sawl ffynhonnell.  Efallai mai effaith amlycaf hynny oedd y dywedodd sawl Prosiect y bydden nhw wedi parhau â'u gwaith ar raddfa lai yn unig heb gyllid y GIE.  Byddai rhai wedi parhau i chwilio am gyfleoedd ariannu mewn mannau eraill i fwrw ymlaen â'u syniadau, ond hynny ar wahân neu o bosibl dim ond gyda rhai partneriaid presennol yn hytrach na manteisio ar y prosesu cydweithio cadarn a ddaeth i'r amlwg.

2.52 Mae'n anochel y newidiodd rôl y Bwrdd unwaith yr oedd y Prosiectau'n mynd rhagddyn nhw.  Roedd y broses werthuso a'r gwaith ar ei Theori Newid (Pennod 3) yn gyfle iddi ystyried ei rôl wrth fynd rhagddi, ac ym mha ffordd, os o gwbl, y dylid diwygio ei swyddogaethau arweinyddiaeth a llywodraethu.

## 3. Theori Newid y GIE

3.1 Ein hadroddiad ar theori newid y GIE oedd allbwn sylweddol cyntaf y gwerthusiad[22]. Nododd rai agweddau pwysig a diddorol y GIE sy'n mynd y tu hwnt i'r Rhaglen ei hun ac sydd â goblygiadau posibl ar gyfer y ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid geisio darparu rhaglenni a gweithgareddau prif ffrwd yn y dyfodol. Yn y Bennod hon rydym yn crynhoi'r Theori Newid ac yn crybwyll y gwersi a ddysgwyd.

### Theori Newid y GIE

3.2 Rhan o'r gwerthusiad oedd cyflawni'r canlynol:

- Datblygu theori newid ar gyfer y GIE i ddangos sut y bwriedir i'r gweithgareddau sicrhau cynnydd mewn gweithgarwch corfforol a gwelliannau mewn lles meddyliol; a'i
- Ddefnyddio i fireinio'r cwestiynau a'r amcanion gwerthuso.


3.3 Mae'r Canolfan ar gyfer Theori Newid[23] yn disgrifio'r dull gweithredu fel proses drwyadl i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cyflawni deilliannau hirdymor. Mae'r amodau hyn wedi'u trefnu'n graffig mewn fframwaith achosol. Mae'n gofyn am eglurder ar nodau tymor hir, dangosyddion llwyddiant mesuradwy, a chamau gweithredu penodol i gyflawni nodau ynghyd â mynegi rhagdybiaethau sylfaenol. Mae hefyd yn meithrin cysylltiadau rhwng yr hyn sydd wedi'i gyflawni a'r hyn y gobeithir ei gyflawni. Theori newid yw datganiad cryno'r dilyniant model rhesymeg. Yn Llywodraeth Cymru, caiff y rheiny sy'n datblygu ymyriadau polisi newydd eu hannog i ddwyn i ystyriaeth eu theori o newid.

3.4 Dangosodd y dystiolaeth fod theori weithredol o newid, er nad oedd yn eglur nac wedi'i mynegi felly ar y pryd. Roedd ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn rhychwantu iechyd a chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Yr hyn oedd ei angen oedd menter weladwy er mwyn eu rhoi ar waith ac a oedd yn gyson â'r raddfa debygol o adnoddau oedd ar gael. Arweiniodd hyn at y syniad o lunio cronfa i gynigwyr ar gyfer prosiectau ond un a oedd heb ei drefnu'n drwyadl, ac fe

[22] UKRCS (2021a)
[23] Sefydliad nid-er-elw sy'n ceisio cefnogi safonau uchel mewn gwaith sy'n cynnwys theori newid, agorwyd ar 13/02/24

ymddiriedwyd ym Mwrdd Prosiect o'r gweithredwyr allweddol i fynd i’r afael â hynny. Cafodd ei gydnabod na fyddai Rhaglen o'r raddfa a ragwelir ynddo'i hun yn creu newid ymddygiad sylweddol ar lefel y boblogaeth. Fodd bynnag, gallai ddangos dulliau a ffyrdd newydd o weithio, a chynhyrchu dysgu a allai lywio rhaglenni a pholisïau'r dyfodol, yn ogystal â chyllidebau a dulliau prif ffrwd. Ar ffurf diagramatig, ac o fan gwylio ôl-weithredol, roedd y model rhesymeg a’r theori newid ymhlyg a gwaelodol ar y ffurf eang fel y nodir isod:

**Ffigur 3.1: Theori Newid Ôl-weithredol**




3.5 Fel y gwelir uchod, nid oedd theori newid yn dilyn rhesymeg unachosol lem. Yn hytrach, nododd gyfres o alluogwyr i greu amgylchedd a allai arwain at gyfres o ddeilliannau canolradd ac yna mynd ati i gyfrannu at amcanion tymor hwy ac ehangach. Cafodd y rhan fwyaf o'r galluogwyr eu hadnabod yn benodol gan y Tîm Prosiect oedd yn gyfrifol am lunio’r GIE. Roedd eraill, gan gynnwys yr agweddau arweinyddiaeth, yn amlwg yn y cyfweliadau a'r adolygiadau dogfennol, ac fe wnaethom fanteisio arnyn nhw o'r dystiolaeth honno. Roedd y deilliannau canolraddol yn cynnwys prif gydrannau Rhaglen y GIE fel y'u datblygwyd trwy'r galluogwyr hynny.

3.6 Er mwyn archwilio theori newid y GIE mewn ffordd fwy gronynnol, fe wnaethom ganolbwyntio ar dair theori 'atodol' o newid ar gyfer yr un cyffredinol hon fel a ganlyn:

- Theori **sylweddol** o newid sy'n canolbwyntio ar nodau datganedig y Rhaglen ac sy'n eu cysylltu â'r amcanion y mae'r Prosiectau yn awyddus i'w cyflawni;
- Theori **proses** o newid sy'n disgrifio sut y bwriedir i gynllun y Rhaglen ei hun a'i chamau a drefnir yn ymwybodol arwain at ddeilliannau gwell ar lefel rhaglen; a
- Theori newid '**ffyrdd o weithio'** sy'n rhoi lle blaenllaw i gydweithio fel modd i sicrhau deilliannau gwell i'r Rhaglen a'r Prosiectau.

*Theori Newid Sylweddol y GIE*

3.7 Mae'r theori hon o newid yn cychwyn gyda nodau datganedig y Rhaglen. Gan ddefnyddio'r nodau hynny a dogfennaeth y Rhaglen fe wnaethon ni lunio ni datganiad theori newid sylweddol:

> Drwy ariannu prosiectau penodol dros gyfnod o dair blynedd dan arweiniad cyrff cyhoeddus a gwirfoddol mae'n bosibl cynyddu gweithgarwch corfforol a hybu lles meddyliol.
> ... Yn enwedig drwy ganolbwyntio ar grwpiau targed sy'n wynebu rhwystrau sylweddol a thrwy ddatblygu asedau cymdeithasol cymunedol a gweithleoedd...
> ... a thrwy annog cyrff arweiniol i weithio gyda phartneriaid mewn ffordd strwythuredig a chadarnhaol...
> ... darparu enghreifftiau a thystiolaeth ymarferol arloesol o ba ddulliau oedd yn fwyaf effeithiol ac y gellid eu hailadrodd a/neu eu huwchraddio.

3.8 Roedd y themâu hyn yn amlwg yn nogfennaeth y GIE, a bu i sawl ymatebydd eu mynegi. Roedd rhai gwahaniaethau, yn gysylltiedig yn agos â gwahaniaethau mewn mandadau asiantaeth a dulliau gweithio a diwylliannau sydd â chysylltiad cryf. Ond cawsan nhw eu cymodi o fewn fframwaith dealltwriaeth ymhlith yr holl weithredwyr allweddol ynghylch yr hyn yr oedd y GIE yn ceisio'i gyflawni. Roedd tir cyffredin cryf o ran y potensial i greu gwersi a mewnwelediad y gellid eu rhoi ar waith mewn mannau eraill.

3.9 Er bod theori newid yn ymhlyg ar lefel Rhaglen, roedd gofyn i'r Prosiectau nodi eu theorïau o newid yn eglur wrth alw am geisiadau, ac yn y templed Achos Busnes. Roedd canllawiau gwerthuso'r prosiect hefyd yn cyfeirio ymgeiswyr yn uniongyrchol at ddull model rhesymeg. Roedd y theorïau newid a fabwysiadwyd gan y Prosiectau yn rhoi effaith i theori sylfaenol o newid Rhaglen y GIE yn gyffredinol. Roedd y meini prawf a'r broses asesu yn meithrin y cysylltiad ac yn rhoi cysur i'r Bwrdd Prosiect y byddai'r prosiectau a ariennir yn helpu i roi'r effaith a ddymunir o ran nodau rhaglen y GIE[24].

*Theori Newid Proses Dylunio'r GIE*

3.10 Cafodd ail theori o newid ei gwreiddio'n ymhlyg – ac yn gryf felly - yn y broses y datblygwyd a chyflwynwyd y GIE. Cynlluniwyd pob cam o broses cynllunnio'r GIE yn benodol i gyfrannu at y nod o gael cyfres o Brosiectau sydd wedi'u cynllunio'n dda ac a oedd yn canolbwyntio ar boblogaeth darged y GIE, yn bodloni gofynion graddfa a hyd cynllun y Rhaglen, yn darparu ystod dda o Brosiectau a Phartneriaid, ac a oedd yn barod i gael eu gwerthuso.

3.11 Roedd y camau a'r agweddau cynllunio dan sylw yn ymwneud â:

- strategaeth gyfathrebu systematig;
- cam 'Datgan Diddordeb' i weithredu fel pwynt mynediad a hidlydd;
- proses ymgeisio lawn heriol; a
- Monitro a gwerthuso penodol.

3.12 Mewn sawl ffordd, theori newid 'proses cynllunio' y GIE oedd y mwyaf eglur a'r cryfaf o'r tri, a'r un a fynegwyd fwyaf cyson ar draws y ddogfennaeth a chan gweithredwyr allweddol.

3.13 Cafodd y deilliannau a fwriadwyd yn y pen draw o'r GIE eu hategu gan yr holl weithgareddau ac allbynnau hyn a'r deilliannau cychwynnol. Gwnaethan nhw arwain at grŵp cytbwys o brosiectau oedd yn arddangos arloesedd a chydweithio ac a oedd â rhagolygon teg o gael effaith ar lefelau iechyd a gweithgarwch eu

[24] Galw am Geisiadau a Chanllawiau Ariannu, Hydref 2018.

poblogaethau targed, ac a oedd yn gallu cynhyrchu gwersi gwerthfawr ar gyfer defnydd ehangach posibl.

*Theori Newid 'Ffyrdd o Weithio' y GIE*

3.14 Roedd y rhai oedd yn arwain gwaith datblygu'r GIE yn ei gysylltu'n ymwybodol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y Rhaglen yn ymwneud â Nodau Llesiant cenedlaethol Cymru iachach a mwy cyfartal, a chymunedau mwy cydlynol, a phwysleisiodd tîm y GIE yn gryf y syniad y dylai'r GIE fod yn ymyrraeth gynaliadwy. Fe wnaethon nhw hefyd nodi cysylltiad penodol â 'ffyrdd o weithio' y Ddeddf, yn enwedig o ran atal a gweithio ar gyfer newid hirdymor a chynaliadwy.[25].

3.15 Mynegwyd y thema cydweithio yn gyson, ac roedd y gweithredwyr allweddol yn ei ystyried yn gyson bwysig nid yn unig ynddo'i hun ond oherwydd yr hyn y gallai cydweithio helpu i'w gyflawni, ac ar lefel Rhaglen a Phrosiect. Felly roedd yn haeddu cael ei ystyried yn theori newid 'ffyrdd o weithio' y GIE ar wahân. Ar lefel Rhaglen roedd cydweithio yn amlwg iawn ac yn effeithiol rhwng y partneriaid cenedlaethol. Ar lefel Prosiect, cafodd yr ymgeiswyr eu hannog yn weithredol i gydweithio ag eraill i hybu cyrhaeddiad, gwytnwch ac effaith.

3.16 Ar lefel Rhaglen roedd y GIE yn ymwneud â chydweithio rhwng dwy Adran y Llywodraeth, (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Diwylliant a Chwaraeon), a dwy asiantaeth gyflenwi (Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru), gyda'r olaf hefyd yn gorff hyd braich. Roedd yn ymwneud â chynllunio, arwain a gweithredu'r GIE ar y cyd, a chyfuno cyllidebau rhwng rhai o'r partneriaid. Roedd hefyd yn cael ei ystyried yn gydweithrediad gwirioneddol rhwng y partneriaid yn hytrach na pharhau ag ansawdd 'prif asiant' rhai rhyngweithiadau lle mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ond yna'n penderfynu ei hun.

3.17 Roedd cydweithio yn y GIE yn eithriadol, os nad yn unigryw. Un agwedd oedd y mater o rannu cyllidebau, a ystyrir yn effeithiol ar gyfer gwaith trawslywodraethol a chyfuno cyllidebau ond 'yn brin iawn mewn perthynas â chyllidebau'. Roedd un

[25] Y 'ffyrdd eraill o weithio' mwyaf perthnasol yma fyddai integreiddio ac ymrwymiad. Yn gyffredinol, gweler y canllaw 'Hanfodion' i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

gweithredwr Rhaglen allweddol yn ystyried y cydweithio cadarnhaol fel pwynt mynediad i bosibiliadau cyllidebol tymor hwy. Mae'r rhaglen wedi bod yn *'ddull colegol adfywiol ac eithriadol i'r broses gyfan. Ysgogwyd y GIE gan ymrwymiadau maniffesto, ac mae'n anochel mai tymor byr yw'r rhain. Gallwn nawr symud o ddull cadarnhaol yn seiliedig ar y cydweithio a'r ysgogiad hwn a chynnal trafodaethau craidd am y gyllideb yn y dyfodol.'* O'r safbwynt hwn, byddai newid arferion gwaith i gefnogi'r pum ffordd o weithio'n gryfach yn gofyn am newidiadau mewn arferion cyllidebu cyffredinol yn ogystal â newid diwylliannol sylweddol.

3.18 Fodd bynnag, nid yw cydweithio yn ateb di-oed oherwydd *'Mae'n mynd yn groes i'r ffordd y mae gweithgaredd y llywodraeth yn cael ei drefnu fel arfer ac felly mae angen ymrwymiad gwleidyddol lefel uchel wedi'i ategu gan allu rheoli sylweddol'*[26] A gall costau trafodion a sefydlu cydweithrediadau fod yn uchel a gallan nhw aflonyddu cadwyni cyflenwi presennol, tra gall mentrau sydd wedi'u hailadrodd a'u cynllunio'n wael arwain at 'blinder cydweithredu' a niweidio'r ysgogiad.

*Theori Newid Arfaethedig y GIE*

3.19 Roedd y GIE yn enghraifft gref o roi rhaglen ariannu grantiau ar waith, ac mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod hynny'n ddyledus i'r dull cydweithredol, trylwyredd y broses a'r proffesiynoldeb y rhoddwyd ar waith i'w gynnal. Roedd y canlyniadau o ran nifer y ceisiadau Prosiect ac ansawdd y ceisiadau a gymeradwywyd yn drawiadol. Rydym wedi trafod theori newid cychwynnol a chyffredinol y GIE uchod, a'i dri theori atodol, a'u rhan ynghlwm â gweithredu'r GIE. Gofynnwyd i ni hefyd archwilio nodweddion theori newid y GIE wrth symud ymlaen i'r cam cyflawni, a manteisio ar oblygiadau posibl ar gyfer gwerthusiad tymor hwy y Rhaglen.

3.20 Mae rhaglenni fel y GIE yn mynd ati i gyfleu eu theori (neu theorïau) o newid yn broses gwerthfawr dros ben. Mae theori newid a'r model rhesymeg gysylltiedig yn darparu sail ar gyfer gwerthusiad dilynol. Mae hefyd yn helpu i gynnig eglurder ynghylch amcanion rhwng gweithredwyr allweddol o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol cymhleth, megis cefnogi pobl sy'n gwneud ychydig iawn o ymarfer corff i fod yn

[26] Connell, Quarmby, and Martin (2019)

'iach ac yn egnïol' yn barhaus. Sut i ddefnyddio dull theori newid yng nghyd-destun cymhlethdod yw un o heriau'r dull hwn.


3.21 Er enghraifft, mae mwy o weithgarwch corfforol a chyflawni mwy o chwaraeon yn cael effaith gadarnhaol ar ordewdra. Fodd bynnag, mae'n llai eglur sut maen nhw'n ymffurfio yn y 'gadwyn' achosol sy'n helpu i'w chreu. Mae achosion eang o ordewdra yn cael eu grwpio yn sgil dylanwadau cymdeithasol a maeth yn ogystal â diffyg cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cyffredinol.[27]. O ran y GIE doedd dim tir cyffredin rhwng y partneriaid ynglŷn â pha mor berthnasol oedd hi i broblemau o ordewdra – roedd yn berthnasol i rai ond ddim i eraill. Gallai manteisio ar theori newid y GIE fod wedi helpu i egluro hynny, a llywio’r ffordd orau o ganolbwyntio ar werthuso a dysgu.

**Theori Newid Blaenllaw**

3.22 Roedd theori o newid ar gyfer y GIE yn fwyaf effeithiol unwaith yr oedd y Rhaglen ar waith, gyda Phrosiectau ar y gweill a gyda'r ymdrech gychwynnol enfawr o gynllunio’r Rhaglen a’i chyflawni ymhell y tu ôl i'r gweithredwyr allweddol. Paratowyd drafft o theori newid blaenllaw ac yna cafodd ei gwirio mewn gweithdy gydag aelodau Bwrdd Prosiect y GIE a'i is-grwpiau. Dyma’r theori newid a ddatblygwyd yn sgil y trafodaethau hynny:

[27] Llywodraeth Cymru (2019)

**Ffigur 3.2: Theori Newid y GIE gan edrych tua'r dyfodol**




3.23 Mae rhai 'galluogwyr' cyfarwydd yn y model rhesymeg hwn a'r theori newid o'r un cynharach. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol yn parhau i fod yn bwysig, ynghyd â chydweithio parhaus rhwng y partneriaid cenedlaethol a chyfathrebu a chefnogaeth barhaus i'r Prosiectau. Ar y llaw arall, daeth 'hyblygrwydd' i'r amlwg fel galluogwr newydd, a oedd yn adlewyrchu ei bwysigrwydd yn ystod y pandemig wrth ymateb i heriau na ellir eu rhagweld. Mae'r deilliannau canolraddol yn ymwneud â chyflawni ar lefel Prosiect a sut y gall y Rhaglen hwyluso hynny, ac am ganlyniadau cyflwyno Prosiect effeithiol – nodi dulliau arloesol, enillion o ran gallu a sgiliau'r gweithlu, a chanlyniadau monitro a gwerthuso lefel Prosiect. Roedd y deilliannau tymor hwy bryd hynny yn ymwneud â rhoi ffyrdd llwyddiannus o weithio ar waith, dysgu gwersi, a buddion uniongyrchol i fuddiolwyr a'u cymunedau.

3.24 Roedd cryn dipyn o farn gyffredin ynghylch y model hwn a'r theori newid ymhlith gweithredwyr lefel Rhaglen y GIE. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn cydnabod y gallai'r theori newid hwn arwain at ddulliau gwahanol iawn gan y Bwrdd Prosiect,

yn bennaf gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael a ffordd ddewisol y Bwrdd Prosiect o weithio. Gallai un sefyllfa ymwneud â mewnbwn cymharol isel o staff ac adnoddau amser, a gweithgareddau lefel Rhaglen gymharol isel tra gallai sefyllfa arall ymwneud â mewnbwn cymharol uchel o adnoddau staff ac amser a gweithgareddau lefel Rhaglen gymharol uchel. Byddai'r ddwy sefyllfa yn arwain at wahanol lefelau o weithgaredd ar ran Bwrdd Prosiect y GIE o ran amlder y cyfarfod, p'un ai i ddynodi Rheolwr Rhaglen neu Gyfarwyddwr, rôl Swyddogion Achos, ac ati. Byddai'r gwahaniaethau mewn mewnbynnau adnoddau yn effeithio ar faint a chymeriad y 'gwerth ychwanegol' o’r lefel Rhaglen. Gallai hyn gynnwys:

- Graddau dulliau rhagweithiol yn erbyn dulliau ymatebol a ddefnyddir e.e. o ran arweiniad a chymorth;
- Gradd a chymeriad y cymorth sydd ar gael e.e. i gefnogi gwerthusiadau Prosiect;
- Y gallu i roi ymagwedd systematig a strategol ar waith tuag at ddysgu;
- Y gallu i lywio polisi Llywodraeth Cymru a rhoi gwersi i'r gymuned ar lefel Prosiect a Rhaglen; a
- O bosibl, effeithiolrwydd gweithredol Prosiectau, a'r manteision i gyfranogwyr.

3.25 Unwaith y byddai dewis wedi'i wneud ynglŷn â phenderfyniad Bwrdd Prosiect y GIE o ran y continwwm, byddai'n sail i theori newid blaenllaw y GIE yn ymwneud â’r agweddau canlynol: *Theori Newid y GIE ar gyfer gweddill y Rhaglen yw darparu arweinyddiaeth, adnoddau ac amodau galluogi eraill fel y bydd prosiectau'n cael eu cefnogi a'u monitro'n effeithiol, a bydd gwersi'n cael eu dysgu'n weithredol. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi Rhaglen y GIE i lywio rhaglenni grant iechyd a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol o ran eu ffurf, eu proses a'u cynnwys. Bydd hefyd yn dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni prif ffrwd, gan gynnwys y rhai sydd â'r nod o hybu gweithgarwch corfforol, lles meddyliol a chymdeithasol, a lleihau anghydraddoldeb iechyd.*

3.26 Rhagwelwyd y byddai theori newid blaenllaw y GIE yn llywio materion megis rôl dysgu weithredol a rhannu rhwng Prosiectau, rhwng Prosiectau a’r Rhaglen, a hefyd rhwng y Rhaglen a'r fframweithiau polisi ehangach perthnasol megis yr

amcanion ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ac atal tymor hwy. Byddai hefyd yn helpu i fframio meysydd thematig i archwilio drwy werthusiad lefel Rhaglen, a nodi diwygiadau posibl i'r cwestiynau y mae angen eu gofyn yn ystod gweddill y gwerthusiad.

**Goblygiadau ar gyfer Gwerthusiad y GIE**

3.27 Roedd theori newid yn sail i'r cwestiynau a'r amcanion gwerthuso gwreiddiol, ac yn enwedig y rhan a chwaraewyd gan bob un o'r 'galluogwyr' ym model rhesymeg a theori newid blaenllaw y GIE. Roedd hefyd yn llywio sut y bwriadwyd cefnogi prosiectau trwy'r math hwn o ddull ariannu i wneud gwahaniaeth i weithgarwch corfforol a lles meddyliol mewn grwpiau wedi'u targedu, a hefyd sut y bwriadwyd i'r GIE feithrin y 'pum ffordd o weithio' ar draws y Prosiectau ac ar lefel Rhaglen.

3.28 Yn ogystal, mae ganddo ddysgu posibl am werth defnyddio theori newid a dulliau model rhesymeg o gynllunio'r Rhaglen a'r Prosiect, rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol gan y tri phartner ac ynghylch pa adlewyrchiad fyddai'n werthfawr. Ar hyn o bryd mae canllawiau polisi mewnol Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl ddwyn i ystyriaeth eu theori o newid. Mae hefyd yn darparu Templed Model Rhesymeg ac yn cyfeirio at ddolen am arweiniad pellach[28]. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganllawiau theori newid fel y cyfryw o ran a fyddai dull rhaglen grantiau yn ffordd gywir neu'r ffordd orau ar gyfer y math hwn o ymyrraeth.

**Dysg**

3.29 Cynhyrchodd Theori Newid y GIE nifer o fewnwelediadau a gwersi, gan gynnwys:

- Efallai na fydd angen theori benodol o newid ar y cyfuniad cywir o bobl, gydag eglurder diben, wrth gynllunio rhaglen fel y GIE, er mwyn llwyddo i greu deilliant effeithiol ar ffurf ymyrraeth weithredol a chredadwy, er y bydd meddu ar Theori Newid bron yn sicr yn cryfhau eglurder a disgyblaeth y dull ar waith;
- Rhoddodd pwysigrwydd y blaenoriaethau Gweinidogol hwb sylweddol o fewn partneriaeth newydd i gydweithio'n effeithiol, a thorri tir newydd, er enghraifft

[28] Public Health England (2018).

wrth rannu cyllideb ar draws Llywodraeth Cymru a hyd yn oed gyda phartneriaid allanol, er bod y cyfan gyda chyllid Llywodraeth Cymru;

- Roedd 'model rhesymeg' a theori newid amlwg gwaelodol, a bu i gydrannau hynny ddarparu'r galluogwyr allweddol a oedd yn sail i ddyluniad a lansiad llwyddiannus y GIE.  Er na nodwyd hynny fel y cyfryw, roedd hyn yn darparu disgyblaeth ac eglurder diben y prosiect a oedd yn galluogi tîm y prosiect i gronni eu galluoedd a'u hadnoddau amrywiol, cytuno ar faterion allweddol, a datrys unrhyw wahaniaethau o'r fath;
- Nid oes angen i theori newid ar gyfer rhaglen tebyg i'r GIE fod yn unachosol ac yn anhyblyg, ac yn wir nid oedd yn yr achos hwn. Mae hefyd yn gallu newid ac addasu wrth i amgylchiadau newid, ac mae'n bwynt cyfeirio lle gall amrywiaeth a chyfarwyddiadau newydd ddeillio o sylfaen hyderus o syniadau a chynllunio;
- Gall helpu i nodi beth oedd yr agweddau pwysicaf ynghlwm â dylunio a gweithredu rhaglenni yn llwyddiannus – yn yr achos hwn sy'n tynnu sylw at rôl hanfodol cydweithio;
- Gall theori benodol o newid mewn rhaglen sy'n debyg i'r GIE, gyda phrosiectau lluosog wedi'u hariannu ar sail ymatebion o ran ceisiadau, ddarparu prawf pendant a chymharol syml o gysondeb rhwng rhesymeg ymyrraeth ar lefel prosiect a rhaglen; a
- Gall dull theori newid hefyd helpu i gynnig amrywiaeth o opsiynau o ran rheoli ac arwain rhaglenni, fel yr adlewyrchir yn y ddwy sefyllfa a ddeilliodd o'r darpar Theori Newid.  Gall y dewis o sefyllfa hyd yn oed o fewn yr un theori newid gael goblygiadau sylweddol o ran a gyflawnir amcanion allweddol y Rhaglen ai pheidio.

# 4. Cyflawni yn ystod Covid

4.1 Mae'r Bennod hon yn dadansoddi cyfnod cyflawni'r GIE, gan ymdrin yn fras gronolegol y cyfnod cyflawni ar ôl dyfarnu, drwy gydol pandemig Covid-19 a thu hwnt. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r GIE o dan amodau Covid-19, gan ddechrau yn gynnar yn 2020 ac ymestyn i ddiwedd 2022/dechrau 2023 a chafodd hyn effaith ddwys ar y Prosiectau. Byddwn yn nodi'r gofyniad adrodd, monitro a gwerthuso ar gyfer Prosiectau a'r cymorth a ddarperir ar lefel Rhaglen. Yna byddwn yn bwrw golwg ar sut y datblygodd llinell amser Covid-19 a'i goblygiadau ar gyfer cyflwyno'r GIE, a'r heriau, addasiadau ac arloesiadau a wnaed - mewn ymateb i'r pandemig ac o ddysgu parhaus trwy gydol y brif broses gyflwyno.

**Dechrau arni**

4.2 Cymerodd y cyfnod ar ôl y broses ymgeisio hyd at fwrw iddi i gyflawni'r Prosiect rai misoedd. Er bod y Bwrdd Prosiect wedi gwneud y penderfyniad terfynol i ddyfarnu cyllid i 17 o Brosiectau ym mis Mawrth 2019, ni chyflawnwyd y gymeradwyaeth weinidogol tan fis Mehefin 2019 a gwnaed y taliad grant cyntaf ym mis Awst 2019, chwe mis yn ddiweddarach ar ôl i Brosiectau gyflwyno'u ceisiadau. Fel y cyfeirir ato ym Mhennod 2, cafodd hyn rai sgil-effeithiau ar amseriad rhai cynlluniau cyflenwi (er enghraifft, oherwydd tymhorau tyfu a goblygiadau tywydd tymhorol), a hefyd o ran cynllunio a meithrin partneriaeth gyda sectorau fel ysgolion. Pan oedd Prosiectau'n bwriadu recriwtio staff gyda rhan o'u grant, bu'n rhaid iddyn nhw oedi nes bod ganddyn nhw'r arian angenrheidiol i ddechrau'r broses.

*Gofynion adrodd prosiectau*

4.3 Nodwyd gofynion adrodd am brosiectau a data yn fanwl yn Llythyrau Cynnig Grant pob Prosiect. Roedd yn ofynnol i brosiectau gyflwyno dau Adroddiad Uchafbwyntiau bob blwyddyn, ym mis Chwefror a mis Rhagfyr, ac Adroddiad Cynnydd Blynyddol. Darparwyd templedi a oedd yn gofyn i Brosiectau adrodd am yr un meysydd a oedd wedi'u crybwyll yn Achos Busnes y cais, h.y. Strategol, Economaidd, Masnachol, Rheoli ac Ariannol. Ar gyfer Adroddiadau Uchafbwyntiau, roedd rhaid ymdrin â'r meysydd hyn mewn perthynas â (i) Arfer Da (ii) Cerrig Milltir Cyflawni Allweddol a gyflawnwyd (iii) Problemau Sylweddol (iv) Risgiau. Darparodd

y Swyddogion Achos sylwebaeth ynghlwm â phob un o'r adrannau hyn. Ar gyfer yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol, adroddwyd yn erbyn y pum maes achos busnes hyn o dan y penawdau (i) Llwyddiannau (ii) Heriau. Gofynnwyd hefyd i brosiectau gynnwys Crynodeb Gweithredol, adrodd am eu cerrig milltir, eu hallbynnau a'u deilliannau, gan gynnwys adran ar Risgiau, ar Werthuso Prosesau a Chanlyniadau ar Lefel Prosiectau, Myfyrdodau a Dysgu, a Chyllid.

*Gofynion monitro a gwerthuso*

4.4 Darparwyd Pecyn Cymorth Gwerthuso i brosiectau ym mis Ionawr 2019. Roedd hyn yn nodi cyngor cyffredinol ar gynnal gwerthusiad o brosesau a deilliannau, datblygu model rhesymeg a'r gofynion sylfaenol ar gyfer casglu data meintiol:

> "*Yn dibynnu ar fath eich prosiect, bydd gofyniad sylfaenol i fonitro gweithgarwch corfforol a/neu lefelau lles meddyliol cyfranogwyr eich prosiect a chyflwyno'r ymatebion hyn i Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd. Nid yw'r gofyniad hwn yn eich atal rhag defnyddio adnoddau mesur ychwanegol ar gyfer gweithgarwch corfforol neu les meddyliol os dymunwch.*

Nodir rhagor o fanylion am yr adnoddau penodedig a'r broses ar gyfer cyflwyno data ym Mhennod 6.

*Cefnogaeth ôl-ddyfarnu*

4.5 Yn dilyn y broses ymgeisio a dyfarnu, cynigiodd y Bwrdd Prosiect y dylid dyrannu Swyddog Achos ar gyfer pob Prosiect, yn seiliedig ar ddull a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Chwaraeon Cymru ar gyfer y Rhaglen Calls4Action. Fel y nodwyd yn y llythyr cynnig grant:

> *'Bydd swyddog achos yn cael ei ddyrannu i bob prosiect, a nhw fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad gan arweinydd y prosiect a'r cyswllt rhwng partneriaeth y GIE a'r prosiect. Bydd y Swyddog Achos yn gyfrifol am dderbyn y data monitro a'r wybodaeth sy'n ofynnol ynghlwm â thelerau ac amodau'r Cynnig hwn a bydd yn cysylltu ag arweinydd y prosiect yn ystod y cam gweithredu i*

*gytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r holl wybodaeth a thempled pwrpasol ar gyfer data'r prosiect'[29].*

Nod rôl y Swyddog Achos oedd cynnig gwasanaeth 'cyffyrddiad ysgafn'. Dewiswyd Swyddogion Achos o bob un o'r tri sefydliad partner a threfnwyd hyfforddiant a chefnogaeth i'w helpu i ymgyfarwyddo â'r GIE ac â'r Pecyn Cymorth Monitro a Gwerthuso a'r gofynion a roddwyd i Brosiectau. Nodwyd disgrifiad rôl Swyddog Achos[30] yn nogfen Cylch Gorchwyl a Llywodraethu'r Rhaglen, a darparodd Grŵp Cyflawni'r GIE Lawlyfr i Swyddogion Achos a oedd â gwybodaeth benodol i'r prosiect a chanllawiau cyffredinol.

4.6 Neilltuwyd Prosiectau penodol i aelodau'r RCS ar gyfer gwerthusiad y Rhaglen ac adolygwyd dogfennau Prosiect-benodol. Bu iddyn nhw gysylltu gyda staff y Prosiectau a chynnal cyfweliadau cychwynnol ym mis Awst a mis Medi 2019.

**Covid-19 - Effaith ac arloesedd**

*Llinell amser Covid*

4.7 Roedd y prosiectau ar fin cael eu cyflawni pan ddechreuodd Covid-19 gydio yn y DU. Ar Fawrth y 23ain 2020, rhoddwyd cyfyngiadau Covid-19 mewn grym ledled y DU gan olygu roedd yn rhaid rhoi'r gorau i gynlluniau cyflawni'r Prosiectau ar unwaith[31].

4.8 Cafodd rhai partneriaid y Prosiectau eu rhoi ar ffyrlo, ac aeth eraill ati i weithio ar-lein. Roedd rhai staff y Prosiectau a sefydliadau partner yn dargyfeirio adnoddau o'u rhaglenni gwaith arfaethedig i ddarparu ymateb brys (bwyd, danfon meddyginiaeth ac ati). Yn ei dro, roedd staff Prosiectau'r GIE yn amlwg ac yn gyfarwydd yn y cymunedau yr oedden nhw am ymgysylltu â nhw, ac roedd cyfle iddyn nhw gynnal ymgynghoriad anffurfiol.

4.9 Roedd y cyfathrebu lefel Rhaglen yn llai aml yn ystod y cam hwn ac roedd bylchau mewn cyswllt o lefel Rhaglen i lefel Prosiectau. O Orffennaf yr 11eg 2020, gallai

[29] Dogfen 'Cronfa Iach ac Egnïol - Llythyr Cynnig Grant – TEMPLED TERFYNOL'
[30] Dogfen 'Cronfa Iach ac Egnïol _ Trefniadau Llywodraethu Mehefin 2019 - fersiwn derfynol'
[31] Roedd stormydd Ciara a Dennis, y ddau fis Chwefror 2020, eisoes wedi achosi aflonyddwch i rai Prosiectau, yn enwedig y rhai oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored.

nifer o fusnesau a gwasanaethau ailagor, ond nid rhai yn y sector chwaraeon a hamdden. O Orffennaf yr 20fed, agorwyd mannau awyr agored a oedd yn cynnwys campfeydd awyr agored a meysydd chwarae. Yn ddiweddarach cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru y gallai pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd dan do, campfeydd a chanolfannau hamdden ailagor o Awst y 10fed, ynghyd ag ardaloedd chwarae dan do i blant[32]. Roedd y rhain yn gyfleusterau y byddai rhai Prosiectau wedi bod yn eu defnyddio mewn amgylchiadau 'arferol'. Bu i brosiectau a oedd yn ymwneud â’r awyr agored yn rhannol neu’n gyfan gwbl elwa pan nad oedd llawer o weithgareddau eraill ar gael i'r cyhoedd.

4.10 Fodd bynnag, ni pharhaodd yr opsiynau ar gyfer cyflwyno wyneb yn wyneb yn hir. Ym mis Medi 2020, bu cynnydd sylweddol mewn achosion coronafeirws yng Nghaerffili a rhoddwyd cyfyngiadau lleol ar waith i'r awdurdod lleol, ac yna cyfyngiadau pellach ar gyfer RhCT, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd. Erbyn diwedd y mis roedd cyfyngiadau hefyd mewn grym yng Nghaerdydd ac Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg, ac o fis Hydref yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam, gyda chlwstwr ym Mangor. Gyda'r rhan fwyaf o Gymru bellach dan gyfyngiadau a'r sefyllfa ddim yn gwella, cynhaliwyd cyfnod clo byr yng Nghymru rhwng Hydref y 23ain 2020 a Thachwedd yr 8fed 2020.

4.11 Roedd gweithredwyr y rhaglen yn awyddus i hwyluso cyfleoedd i annog dysgu a rhannu, ac roedd gweithio o bell yn caniatáu rhywfaint o rannu rhwng Prosiectau, a rhwng lefel Rhaglen a lefel Prosiect. Ym mis Hydref 2020, trefnwyd digwyddiad dysgu ar-lein gan y Rhaglen i archwilio'r dulliau cyflawni wedi'u haddasu a oedd ar waith yn ystod y pandemig ac i drafod y gwersi a ddysgwyd. Daeth dysgu o oblygiadau Covid-19 yn thema allweddol drwy gydol gweddill gwerthusiad y Rhaglen.

4.12 Arhosodd y cyfyngiadau ar waith tan ganol mis Mawrth 2021 pan gafodd cyfyngiadau 'aros yn lleol' eu llacio a gallai cyfleusterau awyr agored ailagor. O Fehefin y 7fed 2021, gallai grwpiau o 30 gyfarfod yn yr awyr agored unwaith eto. Ym

[32] Gweler cyhoeddiad Ymchwil y Senedd yn: Llinell amser Coronafeirws Ymateb Llywodraeth Cymru a'r DU

mis Awst 2021, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cymru'n symud i'r lefel rhybudd sero newydd ar Awst y 7fed 2021, heb unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl a allai gyfarfod, gan gynnwys dan do, a byddai pob busnes yn gallu ail-agor.  Fodd bynnag, wrth i'r amrywiolyn Omicron newydd ymddangos, amrywiodd y lefelau rhybudd a'r arweiniad ynghylch mygydau, profi a gofynion hunan-ynysu yn barhaus tan ddiwedd mis Mai 2022.

*Heriau*

4.13 Roedd yn rhaid i bob prosiect newid eu dull gweithredu.  Roedd maint a hyd y newidiadau yn amrywio rhwng Prosiectau oherwydd yr amrywiaeth o ran partneriaid, darparwyr, mathau o weithgareddau, lleoliadau a chynulleidfaoedd targed.  Roedd un Prosiect - y Prosiect Pum Ffordd at Les dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - yn destun saib gorfodol ar ddechrau'r pandemig fel bod modd adleoli adnoddau i ymdopi â'r pandemig.  Nid oedd y Prosiect yn gallu rhoi sicrwydd y gallai ddechrau ym mis Ionawr 2021, ac y gallai fodloni'r targedau y cytunwyd arnyn nhw. Felly, yn anffodus, penderfynodd Partneriaeth y GIE i beidio â darparu cyllid ar gyfer y Prosiect yn y dyfodol.

4.14 Tarfu ar drefniadau partneriaeth: Roedd prosiectau a oedd yn gweithio yn y sector iechyd neu a oedd wedi bwriadu datblygu partneriaethau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn amlwg wedi cael eu heffeithio'n andwyol, yn debyg i'r rhai a oedd yn bwriadu gweithio gydag ysgolion.

4.15 Cydweithio gyda buddiolwyr: Nid oedd ymgynghori uniongyrchol a hyrwyddo Prosiectau bob amser yn bosibl ym marn y Prosiectau.  Arweiniodd hyn at yr angen i ymgysylltu â chymunedau drwy bartneriaid a sefydliadau dibynadwy a oedd â chysylltiad uniongyrchol â'u grwpiau defnyddwyr a dealltwriaeth ohonyn nhw. Rydym yn ymdrin â'r thema ymgysylltu â'r gymuned ymhellach ym Mhennod 5.

4.16 Rheoli prosesau risg a threfniadaeth: Wrth i'r cyfyngiadau leddfu a gweithgareddau dan do a gweithgaredd grŵp ddychwelyd, bu i'r prosiectau wynebu rhywfaint o amharodrwydd sefydliadol i risg o gyflawni darpariaeth grŵp ac nid oedd rhai lleoliadau'n addas oherwydd nad oedd eu maint a'u cynlluniau yn gallu cydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol.  Roedd costau ychwanegol oherwydd gofynion

a glanhau ychwanegol. Roedd angen i'r prosiectau sicrhau bod darpariaeth ddiogel ar waith, gyda'r asesiad risg ychwanegol cysylltiedig ynghlwm â hynny. Roedd enghreifftiau o brosiectau a oedd wedi bwriadu defnyddio adeiladau ysgolion yn gorfod dod o hyd i leoliadau a dulliau gweithredu amgen. Bu i rai ysgolion gyfyngu mynediad i ddisgyblion a'u gweithlu eu hunain a chafodd mynediad i grwpiau allanol ei atal am y tro. Pan oedd Prosiectau'n gweithio ar draws awdurdodau lleol, daethan nhw ar draws amrywiadau o ran rheoli cyfyngiadau lleol a newidiadau rheolaidd i'r rheolau. Roedd hefyd yn anodd recriwtio ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr newydd yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig lle'r oedd Prosiectau wedi cynllunio i ddarparu hyfforddiant personol i wirfoddolwyr.

4.17 Newid anghenion buddiolwr: Roedd prosiectau'n cydnabod bod anghenion buddiolwyr hefyd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. I rai, roedd lefelau hyder yn isel ac roedd pryder ynghylch dychwelyd wyneb yn wyneb neu gymryd rhan ar y safle, yn enwedig ymhlith cyfranogwyr hŷn a'r rhai a oedd yn agored i COVID-19 oherwydd cyflyrau iechyd presennol. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd cadw'n heini'n brofiad newydd i'r cyfranogwyr ac nad oedd ganddyn nhw brofiad blaenorol a 'gwybodaeth am weithgareddau' i fanteisio ar leoliadau a mannau ar gyfer gweithgarwch corfforol.

4.18 Gwelodd prosiectau fod angen cynyddol i ganolbwyntio ymdrechion ar gefnogi pobl gyda'u hiechyd meddwl a'u lles, a daeth yr agwedd hon o ran nodau ehangach y Rhaglen yn bwysicach. Bu i swm cynyddol o dystiolaeth amlygu effeithiau negyddol anghymesur y pandemig ar grwpiau demograffig y ceisiodd y GIE ymgysylltu â nhw. Yn hyn o beth, daeth darpariaeth y GIE yn rhan o ateb ehangach. Roedd prosiectau'n teimlo bod y cysylltiadau cymdeithasol a gafodd eu meithrin wedi dod yn ddull cymorth cynyddol bwysig i'r cynulleidfaoedd targed. Adroddodd prosiectau fod cyfranogwyr wedi tynnu eu sylw at y cysylltiadau ag eraill a deilliannau cymdeithasol fel buddion allweddol o'u gwaith ynghlwm â'r GIE.

4.19 Adrodd, monitro a gwerthuso: Roedd rhai heriau mewn perthynas â'r gofynion monitro ac adrodd ar gyfer Prosiectau. Er gwaethaf y materion sy'n codi o'r pandemig, yn ymarferol, nid oedd yr amserlen ar gyfer adrodd am Uchafbwyntiau'n effeithiol ar gyfer Prosiectau neu Swyddogion Achos. Ar ôl darparu Adroddiad

Uchafbwyntiau ym mis Rhagfyr, bu i’r prosiectau ganfod nad oedd ganddyn nhw lawer o ddeunydd a mewnwelediad ychwanegol ar gyfer eu hadroddiad Uchafbwyntiau Chwefror. Fel arfer roedd llai o weithgarwch yn digwydd yn ystod cyfnod y gwyliau pan gymerwyd gwyliau blynyddol, ac roedd tywydd y gaeaf yn effeithio ar y cyflawni o bryd i’w gilydd.

4.20 Roedd yn anoddach i Brosiectau – a waethygodd yn sgil y diffyg opsiynau wyneb yn wyneb i gwrdd â chyfranogwyr yn ystod cyfyngiadau'r pandemig – i gasglu data gan ddefnyddio'r adnoddau safonol a argymhellir ar gyfer mesur gweithgarwch corfforol a lles meddyliol. Fel y gwelodd y Prosiectau, nid oedd y mesurau hyn bob amser yn briodol nac wedi’u dilysu ar gyfer eu grwpiau targed. Roedd y rhai oedd yn gweithio gyda phlant ifanc a/neu oedolion hŷn (Blynyddoedd Cynnar Cymru, StreetGames, Eryri Bywiol, Sporting Memories, Ymddiriedolaeth Action for Elders, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r mesurau. Ni wnaeth rhai Prosiectau, gyda chytundeb gan y Rhaglen, gasglu gwybodaeth feintiol gan ddefnyddio'r adnoddau safonol i asesu gweithgarwch corfforol a lefelau lles meddyliol. Defnyddiwyd dulliau amgen.

*Modelau cyflenwi wedi'u haddasu a'r galluogwyr*

4.21 O ganlyniad i'r heriau, bu i’r Prosiectau brofi fod modd iddyn nhw fod yn hyblyg iawn gyda'u modelau cyflawni, gan wneud nifer o addasiadau:

4.22 <u>Datrysiadau digidol</u>: Aeth llawer o brosiectau ati i gynnig i ddarpariaeth ddigidol i gynnal lefel o ddarpariaeth a chadw mewn cysylltiad â'u cynulleidfa darged a buddiolwyr a phartneriaid presennol. Er ei fod wedi hen sefydlu erbyn hyn, nid oedd y newid gwreiddiol i ddarpariaeth a chyfathrebu ar-lein yn rhwydd a didrafferth. Nid oedd systemau o reidrwydd ar waith i'r gweithlu newid yn syth i opsiynau digidol, yn enwedig i sefydliadau llai y trydydd sector gyda llai o adnoddau. Nid oedd modd i weithwyr rheng flaen a darparwyr gweithgareddau fanteisio ar y feddalwedd a'r dyfeisiau i'w galluogi i weithio o bell. Roedd yn rhaid i staff, yn ogystal â buddiolwyr targed, ddatblygu sgiliau newydd a llythrennedd digidol i weithredu’r ffordd hon o weithio ac ymgysylltu, a sicrhau nad oedd yn eithrio'r union bobl yr oedden nhw’n bwriadu ymwneud â nhw. Roedd hyn yn aml yn anodd gyda mwy o amddifadedd

digidol yn yr ardaloedd ac ynghlwm â’r grwpiau targed yr oedd Prosiectau am eu cefnogi.

4.23 Fodd bynnag, yn sgil y pandemig, rhaid oedd bwrw iddi’n gyflym i roi atebion digidol ar waith ac uwchsgilio i helpu pobl i fanteisio ar ddarpariaeth o bell. Datblygodd y Prosiectau ystod o adnoddau a chynigion digidol gan gynnwys dosbarthiadau rhithiol wedi'u ffrydio'n fyw a sesiynau wedi'u recordio. At hyn, bu iddyn nhw hyrwyddo heriau ar-lein ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol i gynnig gwahanol opsiynau i fuddiolwyr gymryd rhan a pharhau i fod yn gysylltiedig. Roedd y dull hwn yn llwyddiant ysgubol a nododd y Prosiectau fod y lefelau cymryd rhan yn uchel i ddechrau, er mewn amser, roedd pobl yn blino ar gymryd rhan ar-lein.

4.24 Roedd rhai manteision hefyd o ran meithrin partneriaeth. Gyda dewisiadau teithio ac wyneb yn wyneb wedi'u cyfyngu'n sylweddol, roedd mwy o amser i gysylltu â phartneriaid ar-lein a meithrin perthnasoedd, yn enwedig gyda sefydliadau partner mewn rhanbarthau gwahanol, na fyddai wedi digwydd fel arall o bosibl.

4.25 <u>Cefnogi cymryd rhan yn annibynnol</u>: Bu i’r Prosiectau gasglu amrywiaeth o adnoddau corfforol yn ogystal â rhai digidol er mwyn i’w cymunedau allu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref, yn annibynnol neu gydag aelodau o'r teulu. Dosbarthwyd pecynnau offer gyda chardiau gweithgareddau, offer a chyfarpar chwaraeon fel rhan o Brosiectau’r GIE. Aeth y staff ati i rannu syniadau a chyflwyno fideos enghreifftiol ar ffyrdd syml o gadw’n heini, yn arbennig ar gyfer Prosiectau oedd yn cydweithio gyda theuluoedd a phlant ifanc, gan gynnig ffordd i rieni allu diddanu’r plant gan ddefnyddio eitemau cartref bob dydd i chwarae gemau. Bu iddyn nhw osod heriau i'w hunain megis cerdded pellteroedd penodol, rhannu lluniau a dyfeisio gemau y gellid eu chwarae mewn mannau cyfyngedig, dan do neu yn yr awyr agored. Daeth darpariaeth yn y cartref ac yn yr awyr agored yn llawer mwy amlwg o'i gymharu â sesiynau grŵp dan do.

4.26 <u>Addasu darpariaeth hyfforddiant</u>: Roedd llawer o Brosiectau wedi disgwyl recriwtio, hyfforddi a datblygu gwirfoddolwyr fel rhan o'u model cyflawni i gefnogi darpariaeth y GIE a chynlluniau cynaliadwyedd. Dechreuodd darparwyr addasu eu modiwlau hyfforddi wyneb yn wyneb presennol i fod yn fersiynau ar-lein ac roedd y rhain yn fwy effeithlon a chost effeithiol gyda deilliannau tebyg. Fodd bynnag, bu i rai

ganfod, er bod unigolion wedi ennill cymwysterau neu wedi cwblhau hyfforddiant, nad oedd ganddyn nhw’r hyder wrth drosglwyddo'r dysgu hwn i ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac weithiau roedd angen cymorth pellach arnyn nhw i gymryd y cam nesaf. Roedd yna enghreifftiau o wirfoddolwyr yn cwblhau hyfforddiant arweinwyr cerdded ond yna’n awyddus i gyflawni cymryd rôl gefnogol yn hytrach nag arwain.

4.27 Hyblygrwydd: Yn amlwg, roedd gan y cyfnod hwn oblygiadau sylweddol ar gyfer cyflwyno’r GIE ar bob lefel o'r Rhaglen hyd at Brosiectau a chyfranogwyr. Roedd hyblygrwydd ar lefel Rhaglen yn amlwg o ran a) ymestyn y cyfnod ariannu’n ymarferol o flwyddyn a b) caniatáu i Brosiectau roi cynnig ar ddulliau newydd, gweithio gyda gwahanol bartneriaid, addasu cynlluniau cyflawni a gweithio mewn ffyrdd gwahanol iawn i fodloni eu deilliannau arfaethedig. Bu i Brosiectau a oedd yn gweithio gyda rhwydwaith o'u partneriaid cyflenwi eu hunain gyflawni’r dull hwn hefyd. Bu’r holl randdeiliaid yn falch iawn bod y GIE wedi'i ymestyn i gyfnod o bedair blynedd gyda chyllid ynghlwm wrth hyn.

4.28 Er na ellid cynnal y gwaith cyflwyno, cafodd gwaith ymgynghori mwy pwrpasol nag a fyddai wedi digwydd fel arall ei gyflawni. Roedd modd ymgynghori â rhanddeiliaid a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gynulleidfa darged yn sgil gorfod gohirio’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, wrth i'r pandemig gyfyngu ar allu Prosiectau i gyflawni dros gyfnod parhaus, prin oedd yr amser iddyn nhw feithrin perthnasoedd â chyfranogwyr a sicrhau’r parhad sydd ei angen i gefnogi newid ymddygiad. Bu i’r estyniad o flwyddyn leddfu hyn rhyw fymryn, er bod Prosiectau'n cydnabod y gallai llwybrau tuag at weithgarwch annibynnol gymryd llawer mwy o amser i rai unigolion na chyfnod estynedig y GIE hyd yn oed.

4.29 Gwydnwch y gweithlu: Rhwng 2020 a 2022, cafodd Prosiectau gyfnod parhaus o aflonyddwch lle bu'n rhaid iddyn nhw ddygymod ac ymateb i sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld a newidiadau aml i ganllawiau a chyfyngiadau cenedlaethol a lleol. Roedd y nifer o bobl oedd ar gael yn amrywio gan fod staff wedi’u heffeithio gan salwch, ffyrlo, cyfrifoldebau teuluol a chyfnodau ynysu yn yr un modd â’u buddiolwyr. Nid oedd cyfnod sylweddol o sefydlogrwydd lle gellid sefydlu arferion gwaith newydd, yn enwedig yn y camau cynnar lle disgrifiodd Prosiectau ddarpariaeth anghyson gan ei gwneud hi'n anodd iawn i feithrin perthnasoedd â

grwpiau targed.  Roedd ymrwymiad a chymhelliant staff a phartneriaid y Prosiect i gynnal a datblygu eu cynnig CIE mewn amgylchiadau mor heriol yn hynod gadarnhaol, ac roedd Prosiectau'n cydnabod bod eu gwasanaethau'n rhan hanfodol o’r gwaith i gefnogi cymunedau.

4.30 Cynnal partneriaethau: Nododd prosiectau fod y cynnydd o ran datblygu partneriaethau lleol yn arafach i ddechrau lle newidiodd blaenoriaethau sefydliadol i ymdrin â'r pandemig.  Fodd bynnag, unwaith yr oedd yr opsiynau gweithio o bell ar waith, bu i’r oedi ganiatáu amser i gynllunio a meithrin perthnasoedd.  Roedd Prosiectau'n cyfeirio at yr angen i ategu cynllunio ar y cyd rhwng partneriaid o'r cychwyn cyntaf a neilltuo’r amser i wneud hynny, nad oedd ar waith bob amser cyn y pandemig.  Roedd y cyfle i ymgynghori â'r cymunedau targed wrth ohirio'r ddarpariaeth yn fodd i Brosiectau ennill dealltwriaeth ddyfnach o anghenion rhanddeiliaid a'u helpu i ymgysylltu â'r cymunedau targed hynny pan ailddechreuodd y ddarpariaeth.

*'Adferiad' Covid-19*

4.31 Roedd cyflymder y gwaith adfer yn dilyn Covid yn amrywio, i'r cyfranogwyr, ac i'r sefydliadau sy'n ymwneud â chydlynu a chyflawni.  Roedd rhai arweinwyr Prosiectau’n teimlo bod eu cyfranogwyr wedi 'anghofio am' Covid-19 tra bod eraill yn teimlo bod cyfranogwyr yn fwy gofalus i ddychwelyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau.  Ar gyfer rhai Prosiectau, doedd Covid-19 ‘heb ddod i ben’ hyd yn oed adeg ein cyfweliadau yn 2023 ac roedd yn parhau i effeithio ar y ddarpariaeth (e.e. cyfyngiadau mewn cartrefi gofal, achosion o’r feirws yn effeithio ar y gweithlu).

4.32 Felly, roedd Prosiectau lle’r oedd pobl yn dychwelyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ffyrdd o weithio arfaethedig yn arafach yn teimlo ei bod yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i gyflawni eu nodau a chasglu tystiolaeth i ddeall deilliannau eu hymyrraeth yn llawn.  Yn yr un modd, roedd hyn weithiau'n effeithio ar gynnydd o ran datblygu partneriaethau lleol wrth i flaenoriaethau sefydliadol newid oherwydd y pandemig a bu iddo arafu’r cynnydd o ran datblygu gwirfoddolwyr a darparu hyfforddiant.  Felly, roedd estyniad Blwyddyn 4 yn allweddol i rai Prosiectau gyflawni eu deilliannau/cynaliadwyedd dymunol.

4.33 Bu i’r pandemig hefyd godi ymwybyddiaeth o'r manteision iechyd ynghlwm â chadw’n heini a'r risgiau cynyddol o salwch difrifol o Covid-19 i'r rhai oedd dros eu pwysau. Roedd y cyfleoedd cyfyngedig i fentro allan i’r awyr agored a mwynhau cadw’n heini a chwrdd ag eraill ar anterth y pandemig yn golygu bod pobl yn falch iawn o allu manteisio ar y cyfleoedd yr oedd y GIE wedi'u trefnu. Roedd hyn yn helpu i gynyddu'r galw am ddarpariaeth y GIE, yn enwedig pan nad oedd llawer arall o gynlluniau ac ati ar waith. Bu i’r Rhaglen ymwneud â phobl y tu hwnt i'r grwpiau targed gwreiddiol, a oedd yn annisgwyl, drwy ffyrdd newydd o weithio (fel darpariaeth ddigidol), trwy gynnig cyfleodd i’r teulu cyfan gymryd rhan, trwy gyrhaeddiad daearyddol estynedig, a nodi grwpiau targed 'cudd' – pobl nad oedden nhw’n manteisio ar wasanaethau a sefydliadau presennol a allai elwa o weithgareddau’r GIE serch hynny. Felly daeth 'marchnadoedd' newydd i'r amlwg i rai tra bod gwasanaethau eraill wedi'u hatal.

*Cymorth rhaglenni*

4.34 Er bod trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r rhaglen yn gadarn yn ystod y camau cynnar, bu i ddyfodiad y pandemig Covid-19 sbarduno newidiadau wrth i sefydliadau partner y Rhaglen ddargyfeirio staff tuag at ymateb brys. Yn ddiweddarach yn 2021, cafwyd newidiadau cenedlaethol mewn blaenoriaethau yn sgil cyhoeddi'r *Cytundeb Cydweithredu* a diweddariadau dilynol i'r *Rhaglen Lywodraethu.* Yn ogystal, dros gyfnod pedair blynedd y GIE, roedd newidiadau yn y trefniadau staffio oherwydd staff yn gadael.

4.35 Mae'n ymddangos bod yr agweddau hyn wedi effeithio ar lefel yr ymgysylltu ac ymwneud â'r GIE ar lefel y Bwrdd Prosiect yn fwy felly nag yn achos y grwpiau Gwerthuso a Chyflawni. Prin oedd cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect. Roedd yn fuddiol bod lefel dda o gysondeb o ran staff yn cael eu cynrychioli ar y Grwpiau Gwerthuso a Chyflenwi. Bu i hyn helpu gyda chadw cof sefydliadol a chael dealltwriaeth a dysgu manwl o'r broses gyfan. Fodd bynnag, roedd y gallu yn cael ei ymestyn hyd yr ymylon ar gyfer y ddau grŵp hyn. Awgrymodd cynrychiolwyr y rhaglen, o edrych yn ôl, y gallai 'Grŵp Gweithredol' fod wedi ychwanegu gwerth at y gwir o ran cyflawni a'r mewnbwn sydd ei angen gan Brosiectau wrth i'r heriau godi, gan gynnwys materion y tu hwnt i'r rhai yn sgil y pandemig. Gallai'r Grŵp hwn fod wedi

cael digon o ymreolaeth i wneud penderfyniadau (y mwyafrif ohonyn nhw) mewn perthynas ag ymholiadau'r Prosiect heb orfod trosglwyddo ymholiadau rhwng mwy o adrannau, a oedd yn gohirio cynnydd ar lefel leol ar brydiau.

4.36 Roedd amrywiadau yn y cymorth y gallai Swyddogion Achos ei gynnig i Brosiectau a'r gefnogaeth a gawsan nhw o fewn eu sefydliad eu hunain. Roedden nhw'n meddu ar ystod o sgiliau a galluoedd gwahanol gan eu bod yn dod o'r tri sefydliad partner, gyda rhaglenni gwaith o ddydd i ddydd a lefelau ymreolaeth gwahanol iawn i wneud penderfyniadau. Er bod canllawiau ar gyfer Swyddogion Achos wedi'u rhannu ar y cychwyn, penderfynwyd nad oedden nhw'n ddigon cynhwysfawr yn ymarferol iddyn nhw allu ymateb i'r holl faterion a godwyd gan Brosiectau'n effeithiol, megis ymholiadau am gyllid ac agweddau technegol monitro a gwerthuso. Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, byddai disgrifiad rôl a hyfforddiant manylach ar gyfer Swyddogion Achos yn fuddiol. Ystyriwyd y rôl yn eang fel rhan bwysig o strwythur y GIE gan gyfweleion y Rhaglen a'r Prosiect. Gallai fanteisio ar unrhyw gronfeydd neu ymyriadau lle bo hynny'n bosibl. Bu i'r Swyddogion Achos elwa o'u gwaith ynghlwm â'r GIE. Fe wnaethan nhw adrodd am ddysgu a mewnwelediadau a gafwyd o ganlyniad i ymwneud â gwahanol sefydliadau a'u ffyrdd o weithio, eu bod wedi datblygu perthnasoedd tymor hir ac wedi hybu eu hyder o ran meysydd pwnc newydd.

4.37 <u>Cynhwysedd</u>: Yn aml nid oedd modd trefnu staff newydd ar unwaith i gymryd yr awenau dros raglenni gwaith y GIE pe bai amgylchiadau aelodau staff yn newid. Cafodd hyn effaith ganlyniadol ar brosiectau, a theimlai rhai eu bod wedi datgysylltu o'r Rhaglen, yn enwedig yn ystod y pandemig. Bu i'r Swyddogion Achos ymgymryd â chyfrifoldebau'r GIE yn ogystal â rhaglen waith presennol. Dim ond oddeutu hanner diwrnod yr wythnos a neilltuwyd i rai ar gyfer eu gwaith CIE. Yn aml, roedd yr adnoddau oedd eu hangen y tu hwnt i hyn ar adegau penodol o'r flwyddyn. Bu i'r Rhaglen elwa o gael cysondeb rhai aelodau allweddol o'r grwpiau Darparu a Gwerthuso a'r Bwrdd Prosiect o'r dechrau hyd at ddiwedd y GIE.

4.38 <u>Hyrwyddo</u>: Byddai prosiectau wedi hoffi gweld rhagor o waith hyrwyddo ar lefel genedlaethol i godi amlygrwydd, proffil ac effaith y GIE. Byddai hyn yn helpu Prosiectau gydag ymgysylltu lleol, i ddenu pobl i gymryd rhan, a chreu mwy o

effaith, a byddai'n cefnogi unrhyw syniadau prif ffrydio a dulliau cynaliadwyedd. Fodd bynnag, defnyddiwyd enghreifftiau o Brosiectau'r GIE yn aml gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ymateb i gwestiynau'r Gweinidogion a chafodd sawl prosiect - gan gynnwys Babi Actif, StreetGames, Living Streets, Action for Elders, Sporting Memories - ymweliadau gweinidogol.

**'Gwaddol', dysgu ac arloesi Covid**

4.39 Er gwaethaf y cyfnod hynod heriol, cafwyd canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'r addasiadau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. Bu i sawl prosiect gadw agweddau o'r newidiadau wnaethan nhw oherwydd eu llwyddiant a'u harloesedd. Dyma rai o'r enghreifftiau:

Dull cyfunol o gyflwyno: Bu i gymysgedd o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb ymestyn cyrhaeddiad y Prosiectau. Roedd yn gymorth i oresgyn rhwystrau i rai unigolion nad oedden nhw efallai erioed wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb - gan gynnwys y rhai a oedd yn cysgodi yn ystod y pandemig a phobl y byddai'n well ganddyn nhw gymryd rhan yn annibynnol - boed hynny yn sgil problemau hyder ynghylch cymysgu cymdeithasol, cwrdd â phobl newydd, diffyg adnoddau, problemau trafnidiaeth, pwysau amser ac ymrwymiadau eraill. Roedd hefyd yn golygu y gallai pobl sy'n byw y tu hwnt i ardaloedd daearyddol targed y Prosiect fanteisio ar gyfleoedd ar-lein.

Addasiadau hyfforddiant: Roedd addasu modiwlau hyfforddi wyneb yn wyneb presennol i fod yn rai ar-lein yn golygu bod rhywfaint o ddarpariaeth yn fwy effeithlon a/neu'n gost-effeithiol.

Mwy o lythrennedd digidol: Mewn sawl ystyr roedd y pandemig yn sbardun i wella gallu digidol ac uwchsgilio mewn rhai sefydliadau partner llai. Roedd hyn yn sicrhau bod modd i'r sefydliadau fanteisio ar gyswllt amlach, er bod angen hyfforddiant ar staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr ar brydiau i elwa o'r newidiadau gorfodol.

Mwy o gydweithio a pherthnasoedd cryfach: Un fantais o gyfarfodydd rhithiol, a drefnwyd yn wreiddiol mewn ymateb i'r pandemig, oedd y gallu i gwrdd yn fwy aml gan ddileu rhwystrau amser / teithio / cost cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Gwaddol o adnoddau rhithiol: Mae adnoddau a ddatblygwyd fel rhan o'r ddarpariaeth gynnar yn parhau i fod yn gyfres o gyfleoedd hygyrch sy'n waddol defnyddiol y tu hwnt i'r pandemig. Fodd bynnag, roedd Prosiectau a phartneriaid yn cytuno'n eang bod dulliau wyneb yn wyneb yn well ar gyfer meithrin perthynas, ymgynghori anffurfiol, cymorth anffurfiol un i un i unigolion sy'n wynebu rhwystrau a chynhyrchu a rhannu syniadau yn ad hoc.

**Pwyntiau dysgu allweddol eraill**

4.40 Partneriaeth: Bu i'r rheiny ynghlwm ddysgu am weithio mewn partneriaeth gan gynnwys yr angen am gynllunio cydweithredol ymlaen llaw rhwng partneriaid, dysgu trwy wahanol fodelau cyflwyno, pwysigrwydd llywodraethu cadarn a rheoli rhanddeiliaid, a'r adnoddau staff sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol. Roedd Prosiectau yn ymgorffori rhywfaint o hyn yn eu prosesau sefydliadol.

4.41 Mae buddsoddi amser mewn ymgynghori a chyd-gynhyrchu yn ychwanegu gwerth: Bu i Brosiectau adrodd eu bod wedi ennill dealltwriaeth ddyfnach o gyfranogwyr, wedi'i ategu gan gydweithio gyda phartneriaid, a dysgu am is-grwpiau a chymunedau penodol yn eu cynulleidfa darged. Fe wnaethan nhw roi'r mewnwelediad hwn ar waith i ddarparu dulliau unigryw a phwrpasol i ddiwallu gwahanol anghenion. Roedd prosiectau'n teimlo bod amrywiaeth wrth gyflwyno gweithgareddau sesiwn, lleoedd, amseroedd a dulliau cyflwyno (e.e. rhithiol neu wyneb yn wyneb) yn brofiad da i fwy o gyfranogwyr.

4.42 Mae angen digon o adnoddau: Soniodd y Prosiectau am yr her o ddod o hyd i'r gallu a'r arbenigedd oedd eu hangen i gofnodi effaith cyfranogwyr yn effeithiol. Roedd hyn yn fwy heriol pan oedd consortiwm o bartneriaid neu bartneriaeth estynedig o sefydliadau yn darparu gwahanol elfennau'r Prosiect. Bu i rai Prosiectau ganfod nad oedd eu dyraniad cychwynnol o adnoddau i asesu effaith yn ddigonol, ac roedd yn rhaid iddyn nhw ail-neilltuo neu geisio adnoddau ychwanegol er mwyn ei gyflawni'n effeithiol.

4.43 Dulliau monitro: Roedd teilwra dulliau monitro a chasglu data i gyd-fynd â gweithgareddau a nodweddion penodol pob Prosiect yn hanfodol. Ceisiodd y GIE wneud hyn trwy ddull 'gweithredu deuol' o adnoddau safonedig ac adrodd ar

astudiaethau achos, ynghyd â rhyddid i Brosiectau sefydlu eu dulliau atodol eu hunain. Roedd yr offer safonol yn addas ar gyfer rhai cyfranogwyr a gweithgareddau yn unig. Dewiswyd y dulliau atodol gan Brosiectau mewn cydweithrediad â'u gwerthuswyr a/neu gynghorwyr mewnol eu hunain, ac o ganlyniad bu iddyn nhw amrywio'n eang.

4.44 Ymgysylltu â'r gymuned: Daeth arwyddocâd ymgysylltu â'r gymuned i alluogi Prosiectau i ymwneud â'u grwpiau targed i'r amlwg fel thema bwysig. Trafodir hyn yn fwy manwl yn y Bennod nesaf.

## 5. Ymgysylltu â'r Gymuned, Cynaliadwyedd a'r Broses Ddysgu

5.1 Yn ystod 2021 yng ngham cyflawni cynnar y GIE, cyflwynwyd nifer o feysydd ymholi thematig ar gyfer ein gwerthusiad ar y cyd â dadansoddiad o effeithiau'r pandemig. Dyma'r meysydd dan sylw (i) ymgysylltu â'r gymuned; (ii) cynaliadwyedd a (iii) y broses ddysgu. Cafodd y themâu hyn eu harchwilio yn ystod dwy brif flwyddyn cyflawni'r Rhaglen. Byddwn yn ymdrin â phob thema yn ei dro yn y Bennod hon.

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

5.2 Yn ôl y Prosiectau, roedd ymgysylltiad cymunedol yn golygu ymwneud gyda, gwrando ar ac ymateb i farn ac anghenion cymunedau i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch beth i'w ddarparu, a sut, i ddarparu gweithgareddau'r GIE. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, bu i'r pandemig effeithio'n sylweddol ar waith ymgysylltu â'r gymuned. Yn ystod y cyfnodau clo roedd yn anodd i Brosiectau ymwneud â'u defnyddwyr terfynol arfaethedig yn uniongyrchol wrth ymgynghori a chyd-gynhyrchu, ac o ganlyniad fe aethan nhw ati i ailfeddwl sut i gyfathrebu â'r buddiolwyr posibl. Roedd cwestiynau ynghylch pa gymunedau a pha sefydliadau yr oedd modd cydweithio â nhw, ac roedd yn golygu y gallai anghenion a gofynion cymunedau fod yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd Prosiectau wedi'i ragweld ar y dechrau. Rydym yn trafod yma sut y llwyddodd Prosiectau i ymateb i'r cyd-destun newydd a'r agweddau a oedd yn galluogi ymgysylltu â'r gymuned.

*Gweithio mewn partneriaeth*

5.3 Daeth sefydliadau cymunedol yn borth a llais pwysicach i gyfranogwyr yn ystod pandemig Covid-19. Er nad oedd darpariaeth wyneb yn wyneb yn bosibl, roedd cyfle ac amser i gryfhau cysylltiadau â phartneriaid presennol a newydd. Ar gyfer rhai Prosiectau, arweiniodd hyn at lefel uwch o gyd-ddatblygu/cyd-berchnogaeth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Gallai sefydliadau partner helpu staff y Prosiect i ddeall anghenion cymunedol pan nad oedd modd cyflawni gweithgareddau wyneb yn wyneb. Roedd y pwyslais cynnar ar weithio mewn partneriaeth, gan ofyn i'r holl bartneriaid dan sylw gael eu henwi yng nghais y GIE o'r dechrau, yn cefnogi'r broses hon wrth iddi helpu i greu cydberchnogaeth o'r Prosiect a buddsoddiad yn llwyddiant y Prosiect.

5.4 Roedd prosiectau'n teimlo bod dod o hyd i bartneriaid newydd a sefydliadau a gwasanaethau a oedd â chysylltiad uniongyrchol â chymunedau â nodweddion penodol yn fuddiol, ac yn targedu partneriaid penodol a oedd yn meddu ar wybodaeth/dealltwriaeth arbenigol o anghenion is-grwpiau penodol o fuddiolwyr. Roedd prosiectau hefyd yn elwa o feithrin perthnasoedd ag unigolion allweddol sy'n byw mewn cymunedau a allai weithredu fel cefnogwyr a hyrwyddwyr anffurfiol. Roedd Living Streets yn enghraifft: bu i waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflawni yn Butetown, Caerdydd, amlygu'r angen i gysylltu'n gyflym â ffigurau allweddol yn y gymuned i ddarparu cefnogaeth i oresgyn rhwystrau iaith, er mwyn sicrhau y gallai pob aelod o'r gymuned gymryd rhan yn y gweithgareddau. Cafodd y dysgu hwn ei rannu trwy gydol y Prosiect a bu iddo lywio'r dull ymgysylltu a chyflawni parhaus. Bu i staff y prosiect fynychu cyfarfodydd gydag arweinwyr cymunedol lleol allweddol i feithrin perthnasoedd a rhannu deunyddiau cyfathrebu am y Prosiect mewn siopau lleol, llyfrgelloedd, archfarchnadoedd, canolfannau cymunedol ac ati er mwyn codi ymwybyddiaeth. Roedd StreetGames yn sefydliad arall wnaeth amlygu pwysigrwydd cysylltu ag unigolion dibynadwy yn y cymunedau yr oedden nhw am weithio ynddyn nhw, aelodau allweddol o'r gymuned uchel eu parch ac a oedd yn gyfarwydd â phreswylwyr. Gallai'r cynrychiolwyr hyn hwyluso cyflwyniadau a helpu'r broses gychwynnol o feithrin perthnasoedd.

5.5 Nid oedd partneriaethau bob amser yn cael eu cynnal fel y rhagwelwyd, ac fe benderfynodd rhai partneriaid/darparwyr Prosiectau roi'r gorau i fod yn rhan o'r Prosiectau. Ymhlith y rhesymau am hyn oedd dulliau diwygiedig a newidiadau staff yn dilyn Covid-19, peidio ag adnewyddu swyddi ar gyfer staff y Prosiect a ariannwyd gan gyllid y GIE pan fu i ddeiliaid swyddi roi'r gorau iddi, a'r bwriadau gwreiddiol o gynnig cymorth mewn nwyddau bellach yn amhosibl oherwydd newidiadau i raglenni gwaith. Daeth prosiectau o hyd i ffyrdd i fynd i'r afael â hyn gan addasu eu modelau yn unol â hynny. Fel gydag unrhyw raglen/sefydliad, roedd trosiant a recriwtio staff yn achosi bylchau mewn parhad a allai arafu gwaith ymgysylltu. Roedd y gwaith monitro a gwerthuso gofynnol ynghlwm â'r GIE hefyd yn rhwystr y bu'n rhaid ei drin a thrafod wrth sefydlu perthnasoedd - gyda'r broses yn rhwystr posibl i aelodau o'r gymuned a sefydliadau partner lle'r oedd gan eu darparwyr

gweithgareddau rolau ychwanegol hefyd yn casglu data gan fynychwyr i ategu'r broses fonitro a gwerthuso.

5.6 Dros amser, cafodd mwy o gysylltiadau eu meithrin i gysylltu gweithgareddau'r GIE â'r ddarpariaeth gymunedol bresennol, a disgrifiodd llawer o Brosiectau'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned fel proses 'organig'. Roedd cysylltiadau'n gweithio i ddau gyfeiriad – gellid ychwanegu gweithgareddau'r GIE fel grwpiau cerdded fel cyfle ychwanegol i grwpiau cymunedol presennol. Bu'r gwasanaeth 'allgymorth' hwn yn effeithiol fel ffordd o weithio gyda chymunedau bach, ynysig gyda rhwystrau teithio ac ymwneud ag ardaloedd daearyddol mawr. Gellid cynnig hyfforddiant fel y gallai gweithgareddau barhau heb fod angen i staff y GIE fod yn bresennol bob amser.

> '*Er mwyn diwallu anghenion yr ystod amrywiol o deuluoedd ledled Cymru ac ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned, rydym wedi meithrin partneriaethau â sefydliadau i gyflwyno sesiynau i deuluoedd ac ymarferwyr. Nid yw'r partneriaethau hyn wedi arwain at unrhyw gyfraniad ariannol ond maen nhw wedi ychwanegu gwerth mawr at statws ac effeithiolrwydd y Prosiect. Mae'r partneriaethau hyn wedi sicrhau modd o rannu'r negeseuon Corfforol a Lles gyda'r cymunedau anoddach eu cyrraedd hyn*.' (Adroddiad Cynnydd Blynyddol Blynyddoedd Cynnar Cymru Blwyddyn 3 2021-22).

5.7 Yn ail, roedd datblygu perthynas â grwpiau cymunedol yn golygu y gallai arweinwyr grwpiau helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd y GIE a'u hyrwyddo i'w haelodau. Gallai partneriaid cyflawni a darparwyr gweithgareddau unigol oedd yn cynnal sesiynau chwarae rôl yma trwy rannu darpariaeth, dosbarthiadau, gwasanaethau a grwpiau lleol eraill yr oedden nhw'n ymwybodol ohonyn nhw, gan helpu cyfranogwyr y GIE i fanteisio ar fwy o opsiynau a derbyn mwy o wybodaeth am yr hyn oedd ar gael yn eu hardal nhw.

*Dulliau hyblyg, wedi'u teilwra*

5.8 Roedd yr hyblygrwydd a gynigir ar lefel Rhaglen yn cefnogi Prosiectau i addasu eu cynlluniau. Fel y dywedodd un cyfwelai Rhaglen, '*Covid oedd y prif sbardun ynghlwm â'r hyblygrwydd i fod yn fwy creadigol a rhoi cynnig ar bethau na fydden nhw fel arfer yn eu gwneud... roedd yn ddefnyddiol bod y GIE yn canolbwyntio'n*

*sylweddol ar ddeilliannau ac wedi'i lywio gan ddeilliannau, ac nid yn canolbwyntio ar sut aethoch chi ati i gyflawni hynny.'*

5.9 Yn aml, roedd prosiectau wedi cynllunio cyfnod cychwynnol o ymgynghori i ddatblygu darpariaeth gweithgarwch ymhellach; fodd bynnag, roedd cyfyngiadau Covid-19 yn golygu bod yn rhaid rhoi gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb ffurfiol i'r neilltu am y tro. Roedd manteision annisgwyl lle cafodd dyletswyddau staff sefydliadau'r Prosiect eu dargyfeirio a bu iddyn nhw gynnig gwasanaeth carreg drws brys. Roedd eu presenoldeb mewn cymunedau yn gyfle i gynnal sgyrsiau anffurfiol. Daeth aelodau'r tîm yn amlwg ac yn gyfarwydd i drigolion lleol ac enillodd staff y Prosiect well dealltwriaeth o faterion y roedd cymunedau'n eu hwynebu. Roedd y cyfle i gwrdd â phobl yn eu milltir sgwâr (yn hytrach nag mewn sesiynau gweithgaredd) yn fantais ac yn helpu i feithrin perthnasoedd, gan ddarparu peth o'r sylfeini ar gyfer meithrin ymddiriedaeth cyn i gyfranogwyr fanteisio ar sesiynau gweithgareddau'n ddiweddarach yn y cyfnod cyflwyno.

5.10 Ar lefel cyfranogwyr, adroddodd y Prosiectau fod cynnal dull eithaf anffurfiol a hyblyg o ran caniatáu cyfranogwyr i ymgysylltu â'r gweithgareddau yn fuddiol, yn llai brawychus ac yn fwy deniadol i fuddiolwyr targed. Bu i'r Prosiectau gyflawni hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cyflwyno ystod o opsiynau cyfathrebu (e.e. gwefan, ffôn, wyneb yn wyneb, e-bost, grwpiau Facebook a WhatsApp) i gyfranogwyr gofrestru/cadw lle ar gyfer gweithgareddau'r prosiect, gofyn cwestiynau a chysylltu â chydlynwyr y Prosiect;
- Sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch ac yn gost isel – dylunio gweithgareddau a oedd yn defnyddio eitemau cartref bob dydd a darparu pecynnau ac offer adnoddau am ddim i unigolion eu cadw;
- Addasu gweithgareddau presennol ar gyfer gwahanol alluoedd – roedd prosiectau cerdded a grwpiau cerdded yn aml yn gwneud hyn gan gynnwys cynnal rhaglenni a heriau cerdded rhithiol a darparu cymhorthion symudedd i wella hygyrchedd corfforol i'r gweithgaredd cerdded sydd ar gael;

- Sicrhau cyn belled ag y bo modd bod sesiynau'n cael eu darparu gan siaradwyr Cymraeg yn ogystal â Saesneg mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf (er y bu i brinder staff sydd â'r cymwysterau gofynnol i gyflwyno mathau penodol o weithgareddau sydd hefyd yn siarad Cymraeg weithiau'n cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael) a manteisio ar staff a gwirfoddolwyr sydd â sgiliau iaith yn yr ystod amrywiol o ieithoedd a siaredir ymysg y grwpiau ethnig yr oedd Prosiectau'n gweithio gyda nhw; a
- Cynnal gweithgareddau o fewn cymunedau targed, er hwylustod mynediad, meithrin ymdeimlad o ymreolaeth a pherchnogaeth ymhlith y grwpiau er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl o allu cynnal y gweithgareddau.

*Prosesau presgripsiynu ac atgyfeirio cymdeithasol*

5.11 Roedd sawl Prosiect (e.e. Coed Bach (Coed Actif): Presgripsiynu Cymdeithasol gan ddefnyddio’r Goedwig, Gorllewin Cymru: Cerdded er Lles a BeActive RhCT) yn cynnig agweddau o bresgripsiynu cymdeithasol ac atgyfeirio cymunedol fel rhan o'u modelau ymgysylltu. Aeth eraill ati i ymestyn eu rhwydweithiau dros amser, gan feithrin mwy o gysylltiadau â phartneriaid a oedd yn cefnogi proses rhyng-atgyfeirio anffurfiol.

5.12 Roedd yn rhaid i brosiectau a oedd wedi bwriadu cydweithio â'r sector iechyd a datblygu llwybrau presgripsiynu ffurfiol trwy feddygfeydd meddygon teulu, addasu eu dulliau gweithredu oherwydd bod gweithlu'r GIG yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae rhai wedi gwneud cynnydd sylweddol. Er enghraifft, bu i’r Prosiect Coed Bach (Coed Actif) feithrin cysylltiadau â llawer o wasanaethau iechyd a chymorth dros y pedair blynedd yr oedd y prosiect ar waith. Mae ei adroddiad terfynol yn cyfeirio at weithio gyda dros 200 o bartneriaid atgyfeirio gwahanol gan gynnwys MIND, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Cysylltwyr Cymunedol, Cymorth i Ffoaduriaid a Meddygfeydd. Roedd y Prosiect yn darparu llwybr atgyfeirio ar eu gwefan a phorth i bobl hunangyfeirio at weithgareddau yn eu hardal.

> '*Er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau ymhellach, rydym yn cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid blynyddol ym mhob rhanbarth ac wedi cynnal digwyddiadau trochi*

*ar gyfer Meddygon Teulu a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol mewn llawer o ardaloedd lle mae'r prosiect ar waith – gan gynnwys dau ddiwrnod o ddigwyddiadau ysbyty ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu â 150 o Feddygon Teulu dan hyfforddiant yn Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf. Arweiniodd yr olaf at ddatblygu rhaglen 6 wythnos o ddigwyddiadau ar gyfer Meddygfa. Rydym wedi ymgynghori â meddygon teulu i geisio sefydlu llwybrau gwell a mwy cyson at bresgripsiynu cymdeithasol'. (Coed Bach (Coed Actif) Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa)*

5.13 Gorllewin Cymru: Aeth Cerdded er Lles ati i newid nod eu model i ymgysylltu cyfranogwyr trwy sefydliadau cymunedol yn lle'r Meddygfeydd a gynlluniwyd, gan ddisgrifio'r broses fel *'cyfeirio yn hytrach na gwir bresgripsiynu cymdeithasol'*, tra yng nghyfnod olaf y Prosiect, llwyddodd i ail-ystyried y dull Meddyg Teulu eto a bwrw iddi i ddatblygu partneriaethau. Fodd bynnag, bu i'r Prosiect nodi hefyd y gallu cyfyngedig i gefnogi presgripsiynu ac atgyfeirio yng Ngorllewin Cymru: '*Bu'n anodd i brosiect fel ein un ni gydag amser cyfyngedig i ddarparu'r gallu ychwanegol sydd ei angen o bryd i'w gilydd i gyflawni atgyfeiriadau'*. Gellir sefydlu llwybrau a bwriadau cyfeirio, ond yn y bôn mae angen cyfeirio at rywbeth. Os yw amser yn gyfyngedig ar gyfer cyfleoedd fel y GIE a gweithgareddau tebyg eraill oherwydd cyllid tymor byr a gallu cyfyngedig i ymdrin ag ardal ddaearyddol gyfan, yna mae'n debygol y bydd llwybrau presgripsiynu cymdeithasol yn anghyson ac yn lleoledig, gan fod o fudd i niferoedd bach, yn hytrach na chynnig lefel cyson o gyfleoedd manteisio a chymorth i gymunedau.

*Cysylltiadau â gwasanaethau ehangach*

5.14 Wrth iddyn nhw ddatblygu dealltwriaeth o gyfranogwyr, cyd-destunau lleol a'r rhwystrau cymunedol, bu i'r Prosiectau ganfod hefyd ei bod yn bosibl cynnig cefnogaeth fwy cyfannol i gymunedau ac unigolion. Bu rhyng-atgyfeirio a chysylltu i weithio gyda gwahanol grwpiau o bobl sy'n gysylltiedig â gwahanol asiantaethau yn effeithiol. Mae rhyng-atgyfeirio yn cefnogi anghenion cyfranogwyr unigol a all yn ei dro elwa o wasanaethau/cynigion cysylltiedig gerllaw. Cafodd cysylltiadau eu meithrin gyda meysydd gwasanaeth a sefydliadau ehangach sy'n cefnogi iechyd

meddwl, oedolion hŷn, darparu bwyd a chanolfannau clyd a chymorth costau byw, a llawer mwy.

*"Pan fyddwn yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau teuluol, rydym yn sylwi ar bresenoldeb cynyddol gan y teuluoedd sy'n anoddach eu cyrraedd. Fel arfer, mae gweithwyr cymorth i deuluoedd wedi meithrin ymddiriedaeth gyda'r cymunedau y maen nhw'n gweithio gyda nhw, yn deall y cymunedau ac yn mynd y tu hwnt i ymgysylltiad digidol. Er bod y math hwn o ymgysylltu yn digwydd mewn rhai ardaloedd, nid yw'n digwydd mewn ardaloedd eraill. Mae nifer y mynychwyr mewn sesiynau penodol yn adlewyrchu hyn. Mae hyn yn ategu'r angen am rôl ymgysylltu wrth i'r Prosiect barhau i ddatblygu.' (Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Babi Actif).*

5.15 I lawer o sefydliadau Prosiect mae'r ffordd hon o weithio wedi'i hymgorffori yn eu dull y tu hwnt i raglen y GIE, ac yn cael ei gefnogi trwy rolau fel cysylltwyr cymunedol, cynghorwyr chwaraeon carreg drws ac ati. Roedd hyn ar waith lle'r oedd gan y sefydliad arweiniol rôl gydlynol ar draws rhwydwaith o grwpiau a darparwyr cymunedol.

'*Mae sefydlu 4 clwstwr iechyd awyr agored (drwy ein cyllid cyfatebol) wedi datblygu rhwydwaith mwy cydlynol o ddarparwyr a chyfeirwyr sy'n darparu llwybr uniongyrchol o bresgripsiynu cymdeithasol i weithgareddau awyr agored (gan gydweithio ag eraill, rydym wedi gallu cyfeirio cyfranogwr at Therapi â Chymorth Anifeiliaid gydag Asynnod, Nofio Gwyllt, Padlfyrddio, therapi cerdded Cŵn, Grwpiau Lles Coetir a Grwpiau Garddio a Thyfu Bwyd.' Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Coed Actif).*

*Pwyntiau dysgu Ymgysylltu â'r Gymuned*

5.16 <u>Cydweithio effeithiol</u> – Mae hyn yn ganolog i ymgysylltu â'r gymuned a gweithredu dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso prosiectau[33]. Cafodd hyn ei adlewyrchu mewn llawer o brosiectau'r GIE. Roedd

---

[33] E.e. Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2015: Canllaw i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ar gyfer iechyd a lles

meddu ar y partneriaid priodol yn allweddol i ddarganfod beth sydd ei angen a goresgyn y rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r GIE.

5.17 Ymwneud â phartneriaid a chyfranogwyr yn ystod y camau cynllunio – Mae'n bwysig sôn fod y GIE wedi tynnu sylw at arwyddocâd datblygu perthnasoedd cyn gynted â phosibl, i ddarparu sylfaen effeithiol ar gyfer cyflawni a helpu i lunio mathau a dulliau gweithgareddau ac ymgysylltu a gynigir gan y Prosiect. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan roedd darparwyr yn targedu grwpiau nad oedden nhw wedi gweithio'n agos â nhw'n flaenorol.

5.18 Arweinyddiaeth Gymunedol Gryfach – Bu i Covid-19 ysgogi arweinyddiaeth gymunedol gryfach a hyrwyddo mwy o weithio trawsasiantaethol a chyfeirio rhwng gwasanaethau. Mae tystiolaeth o gyfweliadau a deunyddiau'r Prosiect i ddangos bod arweinwyr cymunedol a phrosiectau wedi bod yn fwy hyblyg, yn fwy agored i wneud pethau'n wahanol, ac yn fwy penderfynol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â'r heriau yn sgil y pandemig.

5.19 Presenoldeb wyneb yn wyneb – Mae Prosiectau'n ffafrio hyn ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a darparu cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau un i un gyda chyfranogwyr newydd/darpar gyfranogwyr 'ar wahân' i'r sesiynau grŵp. Mae presenoldeb ar lawr gwlad mewn cymunedau lleol drwy bartneriaid dibynadwy yn cefnogi ymgysylltu â buddiolwyr targed newydd, yn enwedig wrth weithio gyda grwpiau o bobl Groenddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Gall y partneriaid hynny hwyluso 'cyflwyniadau'.

5.20 Adnoddau priodol a ddyrennir ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned – Roedd angen digon o gapasiti ar staff y prosiect i gydlynu a datblygu partneriaethau â sefydliadau sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr. Gall fod yn ddwys o ran adnoddau, yn enwedig wrth ddatblygu perthnasoedd a dealltwriaeth newydd o'r manteision a'r gofynion i bawb. Addaswyd rhai rolau a chyfrifoldebau'r Prosiect dros amser i sicrhau eu bod yn meddu ar ddigon o allu i ymgymryd â gwaith ymgysylltu.

**Cynaliadwyedd**

5.21 Roedd cynaliadwyedd yn ystyriaeth gynnar a phwysig i'r Rhaglen ac fe'i cynlluniwyd fel rhan o'r broses. Cyfeiriwyd at gynaliadwyedd prosiectau mewn termau ariannol yn nogfen y Rhaglen. Dywedodd yr Alwad am Geisiadau a'r Canllawiau y dylai

darpar ymgeiswyr '*fod yn ymwybodol y bydd y Gronfa yn darparu cyllid grant am 3 blynedd ariannol a fydd yn cael ei chwtogi'n raddol yn y flwyddyn olaf'.* '*Dim ond prosiectau sy'n dangos y gellir eu hariannu yn ystod y drydedd flwyddyn a thu hwnt neu a fydd yn gadael gwaddol a fydd yn cynnal gweithgarwch y Prosiect y tu hwnt i'r drydedd flwyddyn fydd yn cael eu hystyried'.* Cafodd y cyllid yn y flwyddyn olaf ei gwtogi i annog ystyriaeth gynnar o lwybrau ymadael a chau pen y mwdwl ar Brosiectau, a'r canlyniadau ar gyfer gweithgareddau parhaus. Yn ystod Cam 2 y broses ymgeisio, bu i gynrychiolwyr y Rhaglen gynnal cyflwyniad, ac ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar-lein ar gyfer Prosiectau oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

5.22 Mae'r model Theori Newid yn nodi canlyniad tymor hir sef bod *'Prosiectau y GIE yn dangos dulliau sy'n gynaliadwy, yn raddadwy ac mae modd eu dyblygu'.* Bu i ein gwerthusiad ddwyn i ystyriaeth ddiffiniadau o 'gynaliadwyedd': yr hyn yr oedd yn ei olygu i randdeiliaid gwahanol, a'r ffyrdd y gellid ei wireddu ar wahanol lefelau, o lefel y cyfranogwyr hyd at y lefel polisi.

5.23 Ychydig iawn o ddeunydd y bu inni ganfod am gynaliadwyedd yn llenyddiaeth academaidd neu bolisi'r DU. Mae un awdur allweddol yn awgrymu bod cynaliadwyedd yn cyfeirio at:

> *'Parhau â nodau, egwyddorion ac ymdrechion prosiect i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Er bod llawer o dderbynwyr grantiau o'r farn bod gwarantu cynaliadwyedd prosiect yn golygu dod o hyd i'r adnoddau i barhau ag o 'fel y mae' y tu hwnt i gyfnod y grant, mae sicrhau cynaliadwyedd yn golygu gofalu bod nodau'r prosiect yn parhau i gael eu cyflawni drwy weithgareddau sy'n gyson â'r amodau a'r adnoddau presennol sydd ar gael.'*[34]

O safbwynt Sefydliad Anllywodraethol, *'mae'n golygu parhau i berfformio a chyflawni buddion prosiect i'r prif grŵp targed ar ôl i'r cyllid gan roddwr ddod i ben'*[35]

5.24 Efallai na fydd cynaliadwyedd yn gofyn i brosiect barhau i fodoli. Efallai y bydd modd sicrhau effeithiau parhaol drwy feithrin arferion newydd sy'n dod yn 'brif ffrwd'

---

[34] Riggs, (2012)

[35] Cronfeydd ar gyfer cyrff anllywodraethol. Ar gael yn: [Deall Cynaliadwyedd](#).

neu gyflawni newid na ellir ei wrthdroi – er enghraifft trwy newid strwythurau neu fframweithiau cyfreithiol. Fodd bynnag, efallai y bydd cynnal arferion newydd yn gofyn am ymarfer dro ar ôl tro a chefnogaeth barhaus.

5.25 Yn ein hystyriaethau sy’n seiliedig ar y llenyddiaeth o sut y gellid sicrhau cynaliadwyedd drwy Raglen y GIE, nodwyd nifer o haenau neu lwybrau at gynaliadwyedd, fel y dangosir yn Ffigur 5.1 isod, a ddatblygwyd gan UKRCS.

**Ffigur 5.1 Llwybrau at Gynaliadwyedd**



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr yn cynnal eu newid mewn ymddygiad ac yn parhau i gadw’n heini yn annibynnol. | Gweithgareddau’r prosiectau’n dod yn hunangynhaliol yn sgil ymdrechion y gwirfoddolwyr a’r cymunedau. | Caffael cyllid pellach i gynnal y gweithgareddau. | Gweithgareddau’n dod yn rhan o’r brif ffrwd ac yn cael eu hymgorffori gan fudiadau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. | Sicrhau cynaliadwyedd drwy waddol o newidiadau mewn arferion, polisïau, safbwyntiau, a dysgu a deall. |

5.26 Bu inni archwilio barn y Prosiect ar y categorïau hyn mewn cyfweliadau yn 2021 ac ailedrych ar hyn yn 2022 fel y gallen nhw fyfyrio ar sut y gallai eu syniadau a'u hopsiynau fod wedi newid. Fel rhan o'r cyfweliadau, dangoswyd cyfres o ddatganiadau am gynaliadwyedd i gynrychiolwyr y Prosiect a gofynnwyd iddyn nhw raddio'r tebygolrwydd y bydd yr opsiynau hyn yn digwydd ar ôl i gyllid y GIE ddod i ben. Mae Ffigur 5.2 yn dangos y canlyniadau.

**Ffigur 5.2: Tebygolrwydd y bydd gweithgarwch Prosiect yn cael ei gynnal mewn gwahanol ffyrdd** – Sgorau'r Prosiectau lle mae 1 = ddim yn debygol o gwbl i 5 = yn debygol iawn.




5.27 **Gwaddol o ddysgu i lywio polisïau ac ymarferion ar lefel strategol** - Yn 2021, nid oedd Prosiectau wedi datblygu cynlluniau cynaliadwyedd cynhwysfawr, ond roedd eisoes dan ystyriaeth, wedi'i lywio gan yr hyn yr oedden nhw'n ei ddysgu o'i gyflwyno. Erbyn 2022, roedd mwy o flaenoriaeth ar gynllunio cynaliadwyedd. Yn ystod cyfweliadau a gynhaliwyd yn 2021 a 2022, roedd y Prosiectau'n cytuno'n eang mai prif effaith tymor hwy y GIE oedd y dysgu sy'n cael ei gynhyrchu, gan greu gwaddol o effaith barhaol ar syniadau, polisïau ac arferion sefydliadau.

5.28 **Cynaliadwyedd ar lefel cyfranogwr a chynnal gweithgareddau trwy wirfoddolwyr** oedd yr ail a'r trydydd deilliant mwyaf tebygol ar gyfer Prosiectau. Roedd Prosiectau'n darparu tystiolaeth mewn adroddiadau gwerthuso bod cyfranogwyr yn cynnal y newidiadau ymddygiad a gychwynnwyd trwy eu cyfranogiad ym Mhrosiectau'r GIE eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys:

- Parhau i gadw'n heini yn annibynnol;

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ddim yn rhai'r GIE a gyflwynwyd iddyn nhw trwy ddarparwyr gweithgareddau'r GIE, megis mynd i sesiynau â thâl y mae'r darparwr hefyd yn eu cynnal;
- Grwpiau sy'n cynnal sesiynau wythnosol y GIE heb ddarparwr cyflogedig, rhwng sesiynau'r GIE bob pythefnos dan arweiniad y Prosiect;
- Parhau i gymdeithasu gyda chyfranogwyr eraill a grwpiau cyfeillgarwch a ffurfiwyd yn ystod darpariaeth y GIE a chwarae rhan fwy gweithgar yn eu cymuned leol; a
- Cyfranogwyr yn dod yn wirfoddolwyr hyfforddedig, gan helpu i gynnal sesiynau ar ran y Prosiect CIE cyffredinol.

5.29 **Prif ffrydio/gwreiddio gweithgareddau'r GIE mewn sefydliadau a rhaglenni gwaith** - Cafodd cyflawni cynaliadwyedd trwy wreiddio gweithgareddau mewn rhaglenni gwaith ehangach ei ystyried yn fwy tebygol yn 2022. Fel y nodwyd gan Swyddog Achos*: 'Mae'r gwahaniaeth yma yn fwy rhwng cynnal ymgysylltiad ar raddfa fawr â chyfranogwyr ar ôl Prosiect y GIE a allai fod yn heriol, ac efallai y bydd elfen fwy addawol sef meithrin criw o bobl hyfforddedig a allai gynnal y dull gweithredu'.*

5.30 Cafwyd enghreifftiau penodol o sut y gall hyn ddigwydd. Adolygodd un sefydliad partner ym Mhrosiect Ymgysylltu â Theuluoedd StreetGames swydd ddisgrifiadau i ymwneud ag agweddau o'r rôl a gyflawnir yn ystod y GIE. Cyfeiriodd Action for Elders at y mewnwelediad ychwanegol a gafwyd a wnaeth lywio'r ddarpariaeth graidd:

> *'Gyda chefnogaeth cyllid y GIE, bu inni hefyd fuddsoddi mewn ymchwil a gwerthuso i lywio a datblygu ein rhaglenni craidd yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hanfodol hwn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i anghenion brys a newidiol pobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru. Mae pobl hŷn yn wynebu epidemig o unigedd cymdeithasol ac unigrwydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi pobl hŷn i drechu unigrwydd, sy'n gofyn am lefel fwy dwys o gefnogaeth i helpu'r unigolyn i fynd i'r afael â'u profiad personol o unigrwydd.'* (Cynrychiolydd y Prosiect, Balanced Lives for Care Homes)

Bu i eraill gadw staff Prosiect y GIE drwy gynnig cytundebau parhaol neu ymestyn eu cytundebau i barhau i gynnig a datblygu gweithgareddau’r GIE.

5.31 **Cyllid ychwanegol sydd wedi’i ennill** - Rhwng 2021 a 2022, gostyngodd y tebygolrwydd canfyddedig o ennill cyllid ychwanegol i gefnogi rhai o, neu holl, weithgareddau Prosiect y GIE. Nid oedd y sefyllfa hon wedi newid yn ein rownd ddiwethaf o gyfweliadau yn 2023, gyda gwasanaethau lleol a chyllidebau cenedlaethol dan bwysau sylweddol. Roedd rhai Prosiectau wedi bod yn llwyddiannus gyda’u ceisiadau am gyllid a grantiau amgen (ac roedd rhai ceisiadau hefyd wedi'u gwrthod) ond yn gyffredinol roedd cyllid ychwanegol a gafwyd yn gyllid tymor byr ac felly mae elfen anghyson y ddarpariaeth yn parhau. Mae hyn yn effeithio ar allu Prosiectau i feithrin perthnasoedd a darparu cefnogaeth gyson dros gyfnod digonol o amser i gyfranogwyr ddatblygu newid ymddygiad hirdymor.

5.32 Er bod y rhan fwyaf o Brosiectau'n disgwyl cynnal elfennau o’r GIE, roedd yn debygol o fod ar lefel is:

> *"Fodd bynnag, bydd angen cyllid pellach arnom ar ddiwedd y rhaglen. Er bod hyn (y GIE) yn gam sylweddol ymlaen, ac mae elfen gynaliadwyedd wedi'i feithrin, nid ydym yn rhagweld y gallai ein gwaith barhau heb i rywun dalu amdano. Os gallwn ni annog y sector iechyd i gefnogi rhai agweddau o'r gwaith yn dilyn y prosiect, byddai hynny'n un ffordd ymlaen'*. (Cynrychiolydd y Prosiect[36])

5.33 Fel rhan o'r broses werthuso byddwn yn cynnal sesiynau dilynol gyda Phrosiectau yn 2024 i ddwyn i ystyriaeth cynaliadwyedd blwyddyn ar ôl eu hariannu.

**Y Broses Ddysgu**

5.34 Yn ein hadroddiad dros dro yn 2021, bu inni nodi nad oedd casglu a phecynnu dysgu systematig o Brosiectau neu drwy Adroddiadau Uchafbwyntiau i lywio Bwrdd y Prosiect ar waith. Bu inni awgrymu y gellid gwella prosesau dysgu trwy fwy o graffu a herio a rhannu mewnwelediadau ar draws Prosiectau. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i weld a yw Rhaglen fel y GIE yn addas ac yn drefnus at ddiben cynhyrchu tystiolaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer newid a datblygu polisi. Gyda

[36] Er mwyn sicrhau anhysbysrwydd, nid yw rhai dyfyniadau gan gyfweleion y Prosiect trwy gydol yr adroddiad yn nodi enw neu sefydliad y Prosiect.

chytundeb Bwrdd y Prosiect, daeth 'Dysgu' yn thema ar gyfer Gwerthuso'r Rhaglen. Yn yr adran hon rydym yn dwyn i ystyriaeth dulliau dysgu dan arweiniad y Rhaglen a’r Prosiectau, trosglwyddo gwybodaeth a chadw gwybodaeth.

*Dysgu o dan arweiniad y Rhaglen*

5.35 Mae'r Rhaglen wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd dysgu drwyddi draw. Cefnogir hyn gan y gofynion monitro a gwerthuso, dogfennau canllaw, cyflwyniadau yn ystod y cam ymgeisio a'r cyfarwyddyd i ddyrannu cyfran o adnoddau grant i gefnogi'r broses ddysgu, monitro a gwerthuso.

5.36 O ddiwedd 2020, cafodd digwyddiadau dysgu ar-lein ar gyfer Prosiectau eu trefnu a’u cadeirio gan gynrychiolwyr y Rhaglen. Roedd y rhain yn cael eu hystyried yn ffordd o ddwyn prosiectau ynghyd i annog cydweithio a rhannu – yr hyn a oedd yn effeithiol, a’r hynny nad oedd yn effeithiol. Yn ystod y digwyddiadau dysgu bu i’r sefydliadau partner cenedlaethol gynnal cyflwyniadau amrywiol, gan gynnwys y diweddaraf am ganfyddiadau dros dro o werthusiad RCS. Y prif ffocws, fodd bynnag, oedd Prosiectau eu hunain yn cyflwyno eu dysgu eu hunain yn ystod gwahanol gamau. Er enghraifft, mewn un digwyddiad, aeth pedwar Prosiect ati i gyflwyno am oddeutu deg i bymtheg munud, ac yna bu cwestiynau a thrafodaeth, gan rannu adnoddau, adroddiadau a fideos roedden nhw wedi’u llunio.

5.37 Yn gyffredinol, roedd y digwyddiadau yn boblogaidd, a byddai’r Prosiectau wedi hoffi cynnal mwy ohonyn nhw, er nad oedd pob un ohonyn nhw’n bresennol. Roedd staff y rhaglen oedd yn trefnu'r digwyddiadau yn teimlo bod llai o ymgysylltu gan Brosiectau dros amser. Efallai y byddai wedi bod yn haws i staff y Prosiect gymryd mwy o ran yn y sesiynau hyn yn ystod y cyfnodau clo, tra’r oedd ganddyn nhw lai o amser i weithio ger eu desg pan oedd y gwaith cyflwyno'n mynd rhagddo'n dda. Esboniodd rhai Prosiectau eu bod yn ffafrio ffyrdd eraill o ddysgu a chydweithio, nad oedden nhw’n mwynhau gweithio ar-lein, a’u bod yn dioddef o flinder digidol. Awgrymodd rhai y bydden nhw wedi hoffi digwyddiadau wyneb yn wyneb a oedd yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer sgyrsiau anffurfiol a thrafodaethau wyneb yn wyneb ac un i un, er eu bod yn cydnabod anawsterau’r GIE i drefnu hyn gyda chostau cynyddol, amseroedd teithio a logisteg i ddod o hyd i ddyddiadau lle y gallai niferoedd digonol fod yn bresennol:

*'Bydden ni wedi hoffi cael mwy o gysylltiad gyda phrosiectau eraill drwy ddigwyddiadau a drefnwyd gan y GIE. Yn enwedig rhai wyneb yn wyneb ar ôl i gyfyngiadau Covid leddfu. Byddai hyn wedi ein helpu i ddysgu o brosiectau eraill a mynd i'r afael ag unrhyw heriau gyda'n gilydd.'*. . (Cynrychiolydd y prosiect)

5.38 Roedd llai o gyfleoedd ffurfiol ar gyfer dysgu traws-brosiect a rhwydweithio, a drefnwyd yn ganolog, yn y flwyddyn ariannu ddiwethaf ac ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau dysgu. Mae hyn yn bwysig, gan mai hwn oedd y prif ddull ar gyfer dysgu 'llorweddol'. Yn y rownd o gyfweliadau a gynhaliwyd ar ddiwedd 2022, dywedodd chwe Phrosiect eu bod wedi dysgu o brosiectau eraill drwy'r digwyddiadau dysgu, ond nid y tu hwnt i hynny.

5.39 Fodd bynnag, fesul Prosiect, cafodd Prosiectau'r cyfle i drefnu sesiynau 1:1 gyda Grŵp Gwerthuso'r GIE i godi unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â gwerthuso. Bu i'r cyswllt barhau gyda'r Swyddogion Achos, a bu i'r Swyddogion Achos gynnig adborth ar Uchafbwyntiau'r Prosiect ac adroddiadau Cynnydd Blynyddol. Croesawyd hyn, er nad oedd yn cefnogi dysgu traws-brosiect mewn ffordd ystyrlon fel y gallai fod wedi'i wneud. Yn yr un modd, er i'r Rhaglen wneud trefniadau i ddwyn Swyddogion Achos ynghyd ar gyfer cyfarfodydd i rannu profiadau, bu i'r niferoedd oedd yn bresennol ostwng a bu i drosiant y staff a blaenoriaethau gwaith newidiol olygu ei bod yn anodd cynnal hyn drwyddi draw.

5.40 Bu i Uwch weithredwr Lefel Rhaglen y GIE chwarae rhan bwysig wrth gasglu dysgu i'w rannu ar lefel Rhaglen. Ym mis Mawrth 2022,[37] cynhyrchwyd papur crynodeb ar gyfer y Bwrdd Prosiect wedi'i lunio o Adroddiadau Uchafbwyntiau'r Prosiect. Ym mis Hydref 2022, cynhyrchwyd Adroddiad Crynodeb Cynaliadwyedd Prosiect[38] , gan ddefnyddio cyflwyniadau o adroddiadau Cynnydd Blynyddol y Prosiect lle gofynnwyd i Brosiectau rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynlluniau

[37] Papur Bwrdd y Prosiect: 2022.03.28 - DOC 4 - Bwrdd Prosiect Cronfa Iach ac Egnïol - Crynodeb o adroddiadau uchafbwyntiau prosiectau'r GIE Chwefror 2022
[38] Papur Bwrdd y Prosiect: 2022.10.10 - DOC 4 - Cronfa Iach ac Egnïol - Adroddiad Crynodeb Cynaliadwyedd Prosiect

cynaliadwyedd.  Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cynrychiolwyr o'r grŵp yn adolygu dysgu o adroddiadau terfynol y Prosiect a gwerthusiadau annibynnol.

*Dysgu o dan arweiniad y prosiect a galluogwyr*

5.41 Ar lefel Prosiect, roedd llawer yn cytuno y byddai'r GIE yn cael effaith barhaol ar syniadau, polisïau ac arferion eu sefydliadau eu hunain.  Roedd y cydweithio effeithiol gyda'r partneriaid yn galluogi proses o ddysgu a myfyrio parhaus ar sut y gellid cynllunio a gweithredu gweithgareddau'r prosiect yn y ffordd orau i fodloni gofynion a dewisiadau'r buddiolwyr targed.  Roedd hyn yn bwysig er mwyn annog cyfranogiad a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth gan y buddiolwyr.

5.42 Bu i'r Prosiectau adrodd fod cael Swyddogion Prosiect lleol a neilltuwyd i wahanol ardaloedd daearyddol yn gweithio'n dda pan oedd cyfle iddyn nhw fyfyrio ar eu cyfranogwyr a'u cymunedau lleol, a rhannu syniadau ac agweddau effeithiol.  Yna roedd hyn yn llywio'r gwaith o ddylunio a darparu gweithgareddau wedi'u teilwra mewn ardaloedd eraill.  Roedd cyfarfodydd partneriaeth Prosiect, grwpiau llywio a digwyddiadau rhwydwaith a dathlu rheolaidd i gyd yn ddulliau a ddefnyddiwyd i ategu'r broses hon.

5.43 Roedd cael rolau a chyfrifoldebau penodol dros ddysgu yn alluogwr arall.  Mewn un Prosiect, daeth aelod o staff y GIE yn Rheolwr Datblygu Pobl a Dysgu. O ganlyniad bu modd rhannu'r wybodaeth a ddysgwyd yn sgil y GIE ledled y sefydliad cyfan.

5.44 Cafodd dysgu ledled y system ei nodi.  Cafwyd adborth gan Brosiectau eu bod wedi gwneud newidiadau i'r ffordd yr oedden nhw'n gweithredu o ganlyniad i'w dysgu drwy'r GIE.  Gwelir hyn drwy newidiadau i bolisïau a phrosesau mewnol ar gyfer gweithio gyda gwirfoddolwyr, cyflwyno hyfforddiant, cynnal yr adnoddau digidol a ddatblygwyd trwy'r GIE a chyfathrebu llwyddiant trwy rannu fideos/mewnwelediad.

*Trosglwyddo Gwybodaeth*

5.45 Ar hyn o bryd, mae llawer o'r gweithgarwch ar gyfer rhannu gwybodaeth a gafwyd drwy'r GIE yn digwydd ar lefel Prosiect ac yn annibynnol.  Mae'n cael ei rannu gyda rhwydweithiau Prosiectau eu hunain ond nid o reidrwydd rhwng Prosiectau'r GIE. Rydym wedi echdynnu ychydig o enghreifftiau o sut mae Prosiectau'n trosglwyddo gwybodaeth yn ehangach trwy adroddiadau Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa:

- *"Mae'n cael effaith ehangach hefyd, gyda'r prosiect yn derbyn sylw yng nghyfres o seminarau Canolfan Ymchwil Plant y Brifysgol Agored ym mis Gorffennaf 2023."* (Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru)
- *'Papur academaidd i'w gyhoeddi ynglŷn â'r ymyrraeth hon, i lywio ac ehangu'r wybodaeth academaidd yn y maes cynyddol hwn.'* (Agor drysau i'r Awyr Agored, y Bartneriaeth Awyr Agored)
- *'Roedd Sporting Memories yn cynnig hyfforddiant ar-lein ac maen nhw'n parhau i wneud hynny i wirfoddolwyr newydd, gan arbed amser teithio i wirfoddolwyr. Maen nhw hefyd yn cynnig sesiynau dysgu i wirfoddolwyr ddwywaith y mis ledled y DU ar-lein, i wirfoddolwyr ymuno, rhannu syniadau, gofyn cwestiynau a chynnal cysylltiad â gwirfoddolwyr eraill yn gyffredinol."* (Sporting Memories, CBC Sporting Memories Network)
- *'Bu iddyn nhw ddatblygu proses sefydlu ar gyfer arweinwyr sesiynau newydd a dogfen sicrhau ansawdd ar gyfer pob sesiwn/hwylusydd i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a chysondeb brand.'* (Babi Actif, Eryri Bywiol-Cyf)
- *'Mae dysgu o'r prosiect yn llywio'r gwaith o gyflwyno rhaglenni chwaraeon / lles eraill gan Casnewydd Fyw.'* (Healthy and Active Newport, Casnewydd Fyw)

5.46 Dywedodd Swyddogion Achos eu bod hefyd wedi elwa o ddatblygu perthnasoedd proffesiynol trwy eu rôl yn y GIE. Nododd un y bu'n brofiad dymunol a gwerth chweil; ac roedd dysgu o Brosiectau'r GIE yn fanteisiol ar gyfer gwaith arall yn eu sefydliad eu hunain. Felly, roedd y rôl wedi bod yn fuddiol iawn i'w galluogi i ddysgu gwybodaeth newydd a rhoi'r mewnwelediad ar waith mewn mannau eraill.

*Cadw Gwybodaeth*

5.47 Ar lefel genedlaethol, awgrymodd y Prosiectau bod angen newid systemig er mwyn sicrhau dysgu mwy effeithiol o wersi'r GIE, ond gofynnwyd pwy all arwain y sgwrs lefel uwch sydd ei hangen i ddylanwadu ar bolisi. Roedd sawl Prosiect yn gobeithio am waddol prosiect a oedd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn teimlo y gallai hyn ddigwydd pe bai gwybodaeth yn cael ei rhannu. Nid ydym yn ymwybodol a yw hyn yn digwydd ar lefel Rhaglen hyd yma, a gall sefydlu ystorfa

hygyrch o'r dysgu fod yn rhywbeth i'w ystyried. Wrth werthuso effaith mwy hirdymor y GIE, mae'n bwysig cydnabod y bu i lawer o staff y Prosiect gyda chytundebau sefydlog adael eu swyddi ar ddiwedd y cyfnod ariannu. Bydd y cof sefydliadol yn fregus ac efallai y bydd y mewnwelediadau sydd gan y staff hyn yn cael eu colli os nad ydyn nhw’n cael eu cofnodi mewn gwaith gwerthuso ar ôl y rhaglen.

5.48 Ar hyn o bryd, mae Prosiectau wedi bod yn bwydo dysgu 'am i fyny' ond maen nhw’n ansicr a yw hyn yn cael ei ddefnyddio ac ym mhle. Cafodd hyn ei gwestiynu gan gynrychiolwyr y Rhaglen hefyd: *'Bydd y dysgu yn nwylo gweithredwyr allweddol ac nid yw'n glir ble mae'r strategaeth lledaenu. Mae rhannu dysgu'n weithredol, neu ddiffyg hynny, yn wendid yn y system. Gellir ei wneud. Does dim cyrchfan amlwg i'r gwersi polisi.'* Awgrymodd un arall: '*Y cwestiwn yw ble mae'r pwyntiau dysgu allweddol, a beth ydyn ni'n ei wneud gyda'r rheini? Os nad ydym yn hidlo'r dysgu o'r rhaglen rydym wedi colli cyfle.'* Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddulliau amlwg ar gyfer rhannu dysgu, ond gall partneriaid cenedlaethol fynd i'r afael â hyn. Un opsiwn efallai fydd i'r Bwrdd Prosiect ystyried casglu’r hyn a ddysgwyd ynghyd a'r effaith gan Brosiectau mewn rhyw fath o ystorfa hygyrch ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, bydd codi ymwybyddiaeth a theilwra a chyfathrebu'r mewnwelediad i wahanol gynulleidfaoedd yn gofyn am adnoddau pellach.

5.49 Ar y lefel Rhaglen, y bwriad oedd cynnal cynhadledd, gwahodd byrddau iechyd ac arddangos y gwaith. Rhoddwyd peth ystyriaeth i dalu am fideos o'r prosiectau a'u rhannu [39] ond mae'r cyfyngiadau cyllidebol presennol ar gynrychiolwyr Rhaglen y GIE yn Llywodraeth Cymru yn golygu nad yw hyn wedi’i gyflawni. Soniodd sawl gweithredwr Rhaglen eu bod wedi siomi na allai hyn ddigwydd fel rhan o broses cau pen y mwdwl ffurfiol y GIE.

[39] Mae llawer o brosiectau wedi creu eu fideos eu hunain.

## 6. Deilliannau'r Prosiect

6.1 Mae'r Bennod hon yn darparu asesiad cyffredinol o'r deilliannau lefel Prosiect. Mae'n ymwneud â'r data monitro a gwerthuso a gasglwyd gan Brosiectau yn ystod y cyfnod gweithredu pedair blynedd y GIE. Mae hefyd yn ystyried y data monitro meintiol a gyflwynwyd gan Brosiectau fel rhan o ofynion y Rhaglen, yn ogystal â'r gwerthusiadau unigol a gynhaliwyd gan Brosiectau eu hunain. Rydym yn dwyn i ystyriaeth a) allbynnau a deilliannau cyfranogwyr, gan gynnwys deilliannau cymunedol a chymdeithasol ehangach, a b) deilliannau sefydliadol y Prosiectau[40].

**Data allbwn Cyfranogwyr**

*Allbynnau*

6.2 Fel y cyfeirir ato ym Mhennod 2, fel rhan o'u hamodau ariannu, roedd gofyn i Brosiectau gasglu cyfres o ddata meintiol gan ddefnyddio mesurau penodol o weithgarwch corfforol a lles meddyliol, ynghyd â data presenoldeb a demograffeg cyfranogwyr.

6.3 Roedd data presenoldeb a demograffeg cyfranogwyr yn ymwneud â:

- Nifer cyffredinol y cyfranogwyr unigol;
- Nifer y sesiynau a fynychwyd;
- Rhyw;
- Grŵp oedran;
- Ethnigrwydd;
- Anabledd;
- Gweithgarwch economaidd h.y. wedi ymddeol, cyflogaeth â thâl, myfyrwyr ac ati;
- Degradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD); a
- Categori Gwledig-trefol.

[40] Rydym yn darparu crynodeb o bob un o'r 16 prosiect yn Atodiad 1. Mae'r crynodebau hyn yn adrodd yn erbyn templed safonol.

6.4 Er mwyn asesu effaith y Rhaglen ar lefelau gweithgarwch corfforol a lles meddyliol, roedd gofyn i Brosiectau gasglu data sylfaenol a dilynol, gan ddefnyddio adnoddau penodol, fel a ganlyn:

- ***Gweithgarwch Corfforol*** - yr Holiadur Gweithgarwch Corfforol Rhyngwladol (IPAQ), (sy'n cael ei ddilysu ar gyfer pobl 15-69 oed, ar gyfer poblogaethau iach) neu'r Holiadur Gweithgarwch Corfforol i Blant (PAQ-C), (wedi'i ddilysu ar gyfer plant 4-14 oed, ar gyfer poblogaethau iach).
- ***Lles meddwl*** - Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh (13+ oed ar gyfer poblogaethau iach a phobl â namau gwybyddol ysgafn i gymedrol), neu Raddfa Lles Plant Stirling (wedi'i dilysu ar gyfer 8-15 oed, ar gyfer poblogaethau iach).

6.5 Rhoddwyd arweiniad i brosiectau drwy'r Pecyn Cymorth Gwerthuso am yr amserlenni ar gyfer casglu'r data hwn:

> '*Fel arfer, mae casglu data sy'n mesur deilliannau (e.e. gweithgarwch corfforol) prosiectau sydd â chyfnodau dechrau a gorffen diffiniedig yn digwydd yn ystod cyn ac ar ôl cyfnod y cyfranogwyr gyda'r prosiect ac yna eto 6 a 12 mis ar ôl y sesiwn ddiwethaf y bu iddyn nhw ei mynychu. Ar gyfer prosiectau nad oes ganddyn nhw bwyntiau cychwyn a gorffen diffiniedig (h.y. prosiectau galw heibio treigl) gall dyddiadau casglu data mwy hyblyg fod yn fwy ymarferol*.'[41]

6.6 Darparwyd templed Excel i bob prosiect ar gyfer cyflwyno'r data hwn. Roedd hyn yn cynnwys tudalen arweiniad, yn nodi'r angen am gysondeb, yn cyfeirio at ddogfen Cwestiynau Craidd o ran y geiriad, ac yn darparu dolenni i nodiadau cyfarwyddyd a phrotocolau sgorio ar gyfer yr adnoddau penodedig. Nid oedd y taenlenni yn cynnwys unrhyw ddata personol yn fwriadol.

6.7 Gofynnwyd i brosiectau gyflwyno data profion ar eu templed Excel yn ystod mis Tachwedd 2019, y diben oedd '*galluogi grŵp gwerthuso'r GIE i nodi unrhyw broblemau gyda'r data yn gynnar a gweithio gyda phrosiectau i ddatrys y rhain*.' Wedi hynny, roedd yn rhaid cyflwyno'r ffurflenni data bob blwyddyn, gyda'r ffurflen ddata gyntaf wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai 2020[42].

---

[41] Pecyn Cymorth Gwerthuso Prosiect y GIE Ionawr 2019

[42] Llythyr Cynnig Grant y GIE

*Faint o bobl wnaeth gymryd rhan yn y GIE?*

6.8 Bu i’r rhan fwyaf o brosiectau osod targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr yr oedden nhw’n bwriadu ymgysylltu â nhw, gyda lefelau amrywiol o fanylion megis rhifau targed ar gyfer gwahanol ddarparwyr gweithgareddau, bandiau oedran targed neu'r math o weithgaredd i'w gyfrif – e.e. gweithgareddau unigol neu gyfres o sesiynau. Maen nhw hefyd yn gosod targedau ar gyfer nifer y sesiynau a gyflwynir, nifer y sefydliadau y bu iddyn nhw gydweithio gyda nhw, y gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio, a gwirfoddolwyr a'r gweithlu sydd wedi'u hyfforddi. O ganlyniad i’r pandemig, adolygwyd rhai targedau rhan o'r ffordd yn ystod y pedair blynedd mewn cytundeb â chynrychiolwyr Rhaglen y GIE. Adolygwyd rhai targedau am i fyny, ac eraill tuag i lawr.

6.9 Yn seiliedig ar yr allbynnau meintiol a adroddwyd yn adroddiadau gwerthuso terfynol Prosiectau, roedd wyth o'r 16 Prosiect a barhaodd i weithredu am dair blynedd neu fwy yn bodloni'r holl dargedau rhifiadol yr oedden nhw wedi'u gosod, a chwech yn cyflawni'r rhan fwyaf neu ran ohonyn nhw[43]. Mewn llawer o achosion, bu i Brosiectau ragori ar eu targedau ar gyfer rhai dangosyddion.

6.10 Gan ddefnyddio data o daenlenni Excel a gyflwynwyd gan Brosiectau i Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, cofnodir bod **12,028** o bobl wedi cymryd rhan mewn Prosiectau’r GIE. Mae nifer gwirioneddol y buddiolwyr yn debygol o fod yn sylweddol uwch am nifer o resymau lle’r oedd yn anodd cofnodi faint oedd yn cymryd rhan, gan gynnwys:

- Cymryd rhan yn annibynnol, megis heriau cerdded y GIE a gweithgareddau yn y cartref wedi'u hysbrydoli gan Brosiectau;
- Defnydd annibynnol o adnoddau rhithiol a baratowyd gan Brosiectau’r GIE, a oedd ar gael i'w defnyddio ar-lein unrhyw adeg;
- Logisteg a moeseg cofnodi data cofrestru personol cyfranogwyr fel rhan o ddosbarthiadau rhithiol wedi'u ffrydio'n fyw a sesiynau ar-lein;

[43] Nid oedd gan un prosiect dargedau rhifiadol. Sylwer hefyd, lle disgrifir targedau fel rhai 'wedi'u bodloni', mae hyn yn cyfeirio at dargedau fel rhai wedi’u diwygio a’u cyfleu i weithredwyr Rhaglen y GIE. Mewn rhai achosion roedd hyn o ganlyniad i oedi ariannol, ac i eraill roedd yn ganlyniad i amodau a chyfyngiadau’r pandemig.

- Cyfyngiadau ar brosesau casglu data papur yn ystod Covid-19 a'r diffyg opsiynau digidol cychwynnol i gasglu data fel dewis arall yn lle papur; a
- Casglu data mewn digwyddiadau a sesiynau blasu untro’r Prosiect.

6.11 Ar gyfer y 12,028 o unigolion a gofnodwyd gan Brosiectau, mae rhywfaint o ddata demograffig ar gael yn Nhabl 6.1.

**Tabl 6.1 Nifer y cyfranogwyr a gofnodwyd gan Brosiectau’r GIE**

| Nifer y cyfranogwyr a gofnodwyd gan Brosiectau’r GIE | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **12,028** |
| *Rhyw* | |
| Benyw | 7,680 |
| Gwryw | 4,045 |
| Wedi nodi dewis arall | 19 |
| Cyfranogwr yn gwrthod / yn dewis peidio â dweud | 123 |
| Data sydd ar goll, heb ei nodi ac ati. | 161 |
| *Ethnigrwydd* | Nifer y cyfranogwyr |
| Arabaidd | 68 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 514 |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | 146 |
| Grŵp ethnig cymysg | 141 |
| Gwyn | 9,522 |
| Cyfranogwr yn gwrthod ac yn dewis peidio â dweud | 1,088 |
| Data sydd ar goll, heb ei nodi ac ati. | 549 |
| *Iechyd ac anabledd* | Nifer y cyfranogwyr |
| Dim cyflwr iechyd neu anabledd | 8,686 |
| Oes, wedi eu cyfyngu rhywfaint | 1,264 |
| Oes, wedi eu cyfyngu'n fawr | 793 |

| | |
|---|---|
| Cyfranogwr yn gwrthod ac yn dewis peidio â dweud | 724 |
| Data sydd ar goll, heb ei nodi ac ati. | 561 |


6.12 Rhywedd: Ar y cyfan, roedd bron i ddwy ran o dair (65.4 y cant) o'r cyfranogwyr lle cofnodwyd rhywedd yn fenywod. Mae'r gyfran uwch o gyfranogwyr benywaidd yn rhannol gysylltiedig â'r math o Brosiect. Er enghraifft, merched yn unig wnaeth gymryd rhan ym Mhrosiect Healthy Body Healthy Mind, Women Connect First ac roedd 496 o gyfranogwyr wedi'u cofrestru. Roedd mwyafrif y rhieni a gofnodwyd yn cymryd rhan yn Babi Actif yn fenywod, gyda 1,176 o ferched yn cymryd rhan o'i gymharu ag 16 o ddynion. Byddai eithrio'r ddau brosiect hyn o'r cyfrifiad yn rhoi ffigur o 40 y cant o ddynion. Roedd prosiectau fel Let's Walk Gorllewin Cymru: Cerdded er Lles hefyd yn nodi cyfran uwch o gyfranogwyr benywaidd.

6.13 Ethnigrwydd: Nododd oddeutu naw y cant o'r cyfranogwyr lle cofnodwyd ethnigrwydd fel rhai oedd ddim yn Groenwyn.

6.14 Anabledd: Cofnododd ychydig llai na chwarter y cyfranogwyr gyflwr iechyd neu anabledd. Er cymhariaeth, cofnododd Arolwg Cenedlaethol Cymru 36 y cant o oedolion yng Nghymru gyda salwch hirsefydlog cyfyngol, anabledd neu wendid yn y flwyddyn 2022-23. Dylid nodi bod 11 y cant o gyfranogwyr y GIE wedi dewis peidio â darparu'r data hwn neu nid oedd wedi'i gofnodi.

6.15 Degradd WIMD: Un o brif ddibenion casglu data demograffig fel WIMD, iechyd ac anabledd, oedd asesu a wnaeth y GIE lwyddo i ymwneud gyda'i fuddiolwyr targed, ac mae'r data'n awgrymu ei fod wedi llwyddo o ran ymwneud gyda phobl mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd bron i draean o gyfranogwyr y GIE yn byw yn ardaloedd degradd 1 a 2 WIMD, sy'n cynrychioli'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roedd bron i dri chwarter yn byw yn ddegraddau WIMD 1 i 5 (gweler Ffigur 6.1).

**Ffigur 6.1 Canran y cyfranogwyr a degradd WIMD**




**Deilliannau'r Cyfranogwyr**

*Asesu lefelau gweithgarwch corfforol*

6.16 Mae'r data IPAQ a gesglir yn brin iawn. Bu i un ar ddeg o brosiectau gasglu rhywfaint o ddata sylfaenol a chasglodd naw o'r rhain rai ymatebion ôl-ymyriad. Casglwyd ychydig dros 3,000 o ymatebion sylfaenol i gyd (oddeutu chwarter cyfanswm y cyfranogwyr a gofnodwyd) ac oddeutu 1,300 o ymatebion dilynol.

6.17 Bu i dri phrosiect gasglu data gweithgarwch corfforol ar gyfer plant sy'n defnyddio PAQ-C gan gynnwys 1,235 ymateb sylfaenol a 767 ymateb dilynol.

*Lles Meddwl*

6.18 Bu i dri ar ddeg o brosiectau gasglu data gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh (WEMWBS). Cafwyd 4,759 o ymatebion sylfaenol (oddeutu dwy ran o bump o'r cyfanswm o gyfranogwyr a gofnodwyd) ac oddeutu 2,350 o ymatebion dilynol. Defnyddiodd un Prosiect fersiwn fer y raddfa.

6.19 Defnyddiodd tri phrosiect Graddfa Lles Plant Stirling, gyda llinell sylfaen o 1,834 o ymatebion a 1,324 ymateb dilynol.

6.20 Yn yr un modd â'r IPAQ a PAQ-C, cofnododd prosiectau ymatebion dilynol ynghlwm â thri phennawd: (i) ar ôl cymryd rhan (ii) 6 mis ar ôl cymryd rhan a (iii) 12 mis ar ôl cymryd rhan. Ychydig iawn o Brosiectau oedd wedi cofnodi data ym mhob categori eto, er bod disgwyl y bydd data ychwanegol 6 mis a 12 mis ar ôl cymryd rhan ynghlwm â'r data terfynol sydd i'w gyflwyno ym mis Mai 2024. Fel y cafodd ei

gydnabod o’r cychwyn cyntaf fel canlyneb anochel o wahanol fodelau Prosiect, casglwyd data dilynol ar gyfer asesu llesiant yn ystod gwahanol gamau. Nid oedd y data dilynol a gasglwyd ar wahanol adegau o reidrwydd ar gyfer yr un cyfranogwyr unigol a oedd wedi darparu ymateb sylfaenol.

6.21 Bu i’n hasesiad ganfod, o'r Prosiectau sy'n defnyddio'r adnoddau hyn i fesur cynnydd mewn gweithgarwch corfforol a lles meddyliol:

- Darparodd pedwar Prosiect dystiolaeth o weithgarwch corfforol cynyddol gan ddefnyddio IPAQ[44] ac roedd gan saith ohonyn nhw ddata amhendant (naill ai oherwydd data o ansawdd isel yn cyfyngu ar y cyfanswm o waith dadansoddi a ellir ei gyflawni, neu nad oedd y canlyniadau eu hunain yn dangos unrhyw batrwm pendant); a
- Darparodd pum prosiect dystiolaeth eu bod nhw wedi hybu lles meddyliol pobl[45] gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh ac roedd gan chwech ddata amhendant (eto, naill ai oherwydd dadansoddiad o ansawdd isel sy’n cyfyngu ar y data, neu nid oedd y canlyniadau eu hunain yn dangos unrhyw batrwm pendant).

**Heriau wrth gasglu data**

6.22 **Addasrwydd adnoddau** - O'r cychwyn cyntaf, bu i’r Prosiectau godi pryderon am briodoldeb adnoddau IPAQ a Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh ar gyfer gwahanol grwpiau targed y GIE, ynghyd â'u dilysrwydd ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Roedd rhywfaint o hyblygrwydd gyda hyn o ran y Rhaglen, megis ar gyfer Prosiectau blynyddoedd cynnar, grwpiau teulu ac oedolion hŷn, ac fe gyflwynwyd cyfathrebiadau penodol i helpu i egluro'r sefyllfa.

6.23 Fodd bynnag, roedd camddealltwriaeth parhaus ynghylch faint o hyblygrwydd oedd ar gael. Nododd un cynrychiolydd Prosiect fod eu Prosiect yn gweithio'n helaeth *'gyda phobl ag anableddau dysgu, bu inni gynnal grŵp ffocws gyda rhai ond ni*

[44] Yn eu hadroddiadau gwerthuso terfynol, nododd y pedwar prosiect hyn gynnydd mewn sgorau cyfartalog o linell sylfaen i ddilyniant.
[45] Nododd rhai prosiectau gynnydd yn sgôr cyfartalog Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh ar ôl cymryd rhan, nododd rhai nifer neu ganran y cyfranogwyr a gafodd sgorau unigol uwch ar ôl cymryd rhan.

*allem eu cofnodi fel buddiolwyr oherwydd nad oedd modd iddyn nhw gwblhau'r ffurflenni [y GIE].* Ond o safbwynt Rhaglen y GIE:

> *'Gallai'r buddiolwr fod wedi derbyn rhif cyfranogwr a'i gofnodi yn y daenlen heb unrhyw ddata demograffig neu ddeilliannau, efallai mai dim ond data presenoldeb. Darparwyd labeli data coll y gellid bod wedi'u defnyddio ar gyfer y cyfranogwyr hyn. Cafodd prosiectau eu hannog i ddefnyddio ffyrdd eraill o fesur canlyniadau a oedd yn berthnasol i'w prosiect penodol.'* (Cynrychiolydd y rhaglen)

6.24 Nododd ein Hadroddiad Gwerthuso Proses fod llawer o ymgeiswyr Cam 2 o'r farn bod y prosesau monitro a gwerthuso yn heriol, a'r gofynion, fel y mynegon nhw, yn 'sioc' i sawl un, er bod monitro a gwerthuso yn cael eu hamlygu o'r cam Datgan Diddordeb yn gynnar. Yn ystod cyfweliadau ar gyfer y Gwerthusiad Proses, mynegodd oddeutu hanner yr 17 Prosiect llwyddiannus bryder ynghylch rheoli'r gofynion.

> "*Mae cryn dipyn o ddata meintiol i'w gasglu, ac o'n profiad ni mae cyfranogwyr a staff yn gweld hyn yn her, yn anniddorol, a'i fod yn cael effaith negyddol ar brofiad y cyfranogwyr. Mae hyd yn oed yr isafswm y mae angen inni ei gasglu yn sylweddol ar gyfer y grŵp targed hwn o gyfranogwyr.* (Cynrychiolydd y prosiect)

Aeth rhai Prosiectau ati i addasu adnoddau'r GIE i greu fersiynau sy'n addas i gyfranogwyr ac yn gweddu i'w cynulleidfa (e.e. StreetGames), a defnyddiodd rhai adnoddau sefydliadol presennol hefyd i fesur deilliannau (e.e. Defnyddiodd Action for Elders EQ-5D-5L). Cefnogwyd dulliau ansoddol, yn ogystal â meintiol o'r cychwyn cyntaf.[46]

6.25 Sgiliau a phrofiad - Er bod rhai Prosiectau yn meddu ar brofiad blaenorol o gasglu data (sefydliadau mwy fel arfer), neu o fanteisio ar arbenigedd a gallu allanol, i eraill roedd yn brofiad newydd ac roedd heriau ynghlwm â hynny. Nid oedd gan arweinwyr prosiect gefndir o reidrwydd mewn monitro a gwerthuso. Pan oedd nifer

---

[46] Mae'n bwysig nodi bod y 'Prosiect Dysgu Gwersi o Brofiadau Gwerthuso'r GIE' (ar y gweill yn 2024) o dan arweiniad ICC yn ategu'r canfyddiadau yma ac yn bwrw golwg arnyn nhw mewn ychydig mwy o fanylder o ystyried ei ffocws culach.

o bartneriaid a darparwyr gweithgareddau yn rhan o'r gwaith cyflwyno, roedd yn rhaid i arweinwyr y Prosiect gyfleu'r broses casglu data i eraill a sicrhau y gallai'r rhai oedd yn arwain sesiynau ac mewn cysylltiad â chyfranogwyr weinyddu'r adnoddau a chasglu'r data yn ogystal â chyflwyno eu sesiwn.

6.26 Covid-19 - Yn ystod y pandemig, pan roedd ymbellhau cymdeithasol ac osgoi rhannu offer mewn grym, bu'n rhaid addasu’r broses casglu data ar ffurflenni papur. Pan oedd yn rhaid i brosiectau newid eu systemau, gyda rhai yn sefydlu prosesau casglu data ar-lein, bu iddyn nhw adrodd am fanteision yn y tymor hwy gan gynnwys nad oes rhaid cyflwyno data ar systemau ar-lein, eu bod yn gwella ansawdd data a’u bod o bosibl yn fwy diogel lle cesglir data personol.

6.27 Profiad cyfranogwyr ac effeithiau Covid-19 - Cafodd yr adnoddau hefyd rai effeithiau andwyol anfwriadol ar unigolion a oedd yn tybio bod yr adnoddau’n ymwthiol ac yn ofidus. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â datganiadau lles a ddefnyddir yng Ngraddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh o ran profiadau personol, salwch a phrofedigaeth yn sgil y pandemig. Teimlai staff y Prosiect y gallai effeithiau llesiant a thystiolaeth a gasglwyd drwy Raddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh fod wedi llunio darlun mwy cadarnhaol oni bai am effaith Covid-19. Roedd y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar lawer o'r poblogaethau targed yr oedd Prosiectau'r GIE yn gweithio gyda nhw. Nid oedd yn syndod pe bai rhywfaint o ddata cyn ac ar ôl yn awgrymu dirywiad yn iechyd meddwl cyfranogwyr. Roedd Prosiectau'n credu y gallen nhw fod wedi helpu i liniaru rhai o effeithiau'r pandemig ar lesiant, ond nid oedd yn bosibl pennu ar hyn na'i feintioli.

6.28 Ansawdd y data ar lefel Rhaglen - Nid oedd rhai Prosiectau wedi'u cynllunio mewn ffordd a oedd yn cyd-fynd â'r syniad o gasglu data cyn ac ar ôl cymryd rhan mewn cyfres o sesiynau cyflawni. Yn wir aeth y Rhaglen ei hun i'r afael â'r broblem, o’r camau cynharaf, y byddai ystyr casglu data cyn ac ar ôl yn amrywio rhwng Prosiectau oherwydd eu modelau cyflawni amrywiol. Yn gyffredinol, roedd darpariaeth gweithgareddau yn fwy hyblyg. Roedd Prosiectau'n cynnig nifer o fathau o weithgareddau a sesiynau i'w cyfranogwyr, yn aml drwy nifer o wahanol ddarparwyr gweithgareddau neu sefydliadau partner. Yn ogystal, efallai y bydd digwyddiadau blasu ac untro, yn ogystal â'r opsiynau a grëwyd yn ystod y pandemig

i gymryd rhan yn annibynnol a/neu o bell. Roedd cyfnodau casglu data wedi'u gwasgaru oherwydd gwahanol amseroedd dechrau'r Prosiectau, gan effeithio ar waith cydgasglu canolog ac adrodd am ganfyddiadau.

6.29 Mae ansawdd data sydd wedi'i gyflwyno hefyd yn achosi problemau wrth asesu effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, nid oedd prosiectau i gyd yn defnyddio'r bandiau oedran safonol a ddarparwyd mewn data a gyflwynwyd ar gyfer adrodd (defnyddiwyd dros drigain o fandiau oedran gwahanol, ac roedd rhai yn gorgyffwrdd). Yn hytrach na defnyddio'r categorïau caeedig a ddarparwyd ar gyfer y cwestiwn am iechyd ac anabledd cyfranogwyr, roedd peth o'r data'n cynnwys ymatebion penagored ac o ganlyniad roedd yn anodd categoreiddio rhai atebion.

6.30 Mae trefnu gwaith monitro a gwerthuso cyn i Brosiectau ddechrau arni yn amlwg yn arfer da. Byddai Prosiectau wedi gwerthfawrogi chwarae mwy o ran yng ngwaith cynllunio'r prosesau monitro a gwerthuso. Roedden nhw hefyd yn teimlo y gallai'r canllawiau fod wedi annog mwy o hyblygrwydd o ran yr adnoddau a ddefnyddir gyda gwahanol grwpiau o fuddiolwyr[47]:

> *Er bod y bwriad yn dda i werthuso'r holl brosiectau gan ddefnyddio'r un mesur – Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh ac IPAQ, nid oedd hyn yn effeithiol inni. Byddai mwy o hyblygrwydd gyda hyn wedi sicrhau modd inni gyflawni gwaith gwerthuso gwell*." (Cofnod Prosiect, Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa)

Mae hyn eto yn tynnu sylw at gamddealltwriaeth neu gamgyfathrebu, oherwydd o safbwynt y Rhaglen roedd hyblygrwydd o ran gwerthusiadau prosiect. Cafodd Prosiectau eu hannog i lunio eu gwerthusiadau eu hunain a defnyddio adnoddau yr oedden nhw'n yn teimlo oedd fwyaf addas ar eu cyfer, ond gyda gofyniad hefyd i ymgorffori'r adnoddau penodedig lle bo hynny'n ymarferol. Mae'n bosibl bod y sefyllfa wedi gwaethygu gan drosiant staff y Prosiect.

6.31 Un dull a allai sicrhau dull mwy integredig a chysylltiedig o fonitro a gwerthuso ar lefel Rhaglen a Phrosiect fyddai datblygiad cynnar cynllun Monitro, Gwerthuso,

[47] Gellid ystyried darparu cyfres o adnoddau wedi'u dilysu mewn rhaglenni'r dyfodol, i ymdrin ag amrywiaeth ehangach o'r buddiolwyr targed, a sut y gellir defnyddio hyn wrth adrodd a rhannu dysgu ar lefel Rhaglen.

Atebolrwydd a Dysgu cynhwysfawr ('MEAL'). Mae hwn yn ddull sy'n cael ei rhoi ar waith fwyfwy mewn rhaglenni grant, ac yn enwedig ym maes datblygu rhyngwladol[48].

**Deilliannau i gyfranogwyr**

*A wnaeth y GIE hybu iechyd corfforol a lles meddyliol?*

6.32 Er gwaethaf yr heriau gydag ansawdd cyffredinol y data gweithgarwch corfforol a lles meintiol[49], mae'n bosibl asesu a oedd Prosiectau'n cefnogi gwell iechyd corfforol a lles fesul Prosiect, trwy ddadansoddiad o adroddiadau gwerthuso unigol Prosiectau ac adroddiadau diwedd y gronfa. Defnyddiodd prosiectau ystod eang o ddulliau i archwilio newidiadau mewn gweithgarwch corfforol a lles, gan gynnwys arolygon CIE a grëwyd ganddyn nhw, casglu adborth anffurfiol gan gyfranogwyr, astudiaethau achos, arsylwadau partneriaid a phrosesau monitro sefydliadol parhaus.

6.33 Adroddodd pob un o'r 15 prosiect oedd yn parhau ym mlwyddyn 4 ddeilliannau o welliannau mewn iechyd corfforol a lles meddyliol i fuddiolwyr oherwydd lefelau gweithgarwch cynyddol a chyfle i achub ar gyfleoedd newydd. Caiff ein hasesiadau o’u hadroddiadau eu hategu gan gyfweliadau gydag arweinwyr y Prosiect ac arsylwadau’r Swyddogion Achos.

6.34 Adroddodd Prosiectau fod rhai o'r deilliannau hyn wedi'u disgrifio fel rhai sy'n newid bywydau gan gyfranogwyr y Prosiect, ac mae amrywiaeth eang o gyfweliadau, straeon cyfranogwyr, fideos, ac adborth unigol gan gyfranogwyr a darparwyr gweithgareddau i ddangos tystiolaeth o hyn. Mae awgrym o’r effaith ar gyfranogwyr unigol yn amlwg o’u sylwadau. Er enghraifft:

> '*Gwnaeth Cerdded gyda'r grŵp... wneud i mi deimlo'n hapusach ac yn iachach. Mae fy stamina yn llawer gwell, a gallaf gerdded mwy nag oeddwn i’n arfer cerdded. Dw i hefyd yn sylwi ar fwy o bethau wrth imi gerdded nag o'n i'n arfer*

[48] Gweler er enghraifft Bond: 'Adnoddau a dulliau ar gyfer monitro, gwerthuso, atebolrwydd a dysgu'. Er ei bod yn berffaith bosibl wrth gwrs i gynllunio a gweithredu monitro a gwerthuso effeithiol heb gynllun o'r fath, roedd llawer o sefydliadau o’r farn bod eu natur gynhwysfawr a systematig, a'u hamseriad, yn effeithiol dros ben.
[49] Mae'n annhebygol iawn y byddai'n briodol casglu holl ddata IPAQ a Graddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh a'i ddadansoddi yn ei gyfanrwydd, hyd yn oed pe bai wedi bod o ansawdd uchel, gan fod y cyd-destunau, ymyriadau ac amserlenni ar gyfer pob Prosiect mor amrywiol.

*sylwi arnyn nhw, oherwydd rydym yn sôn am y pethau rydym ni'n eu gweld ar ein teithiau cerdded; Dw i'n fwy ymwybodol o'r coed a'r blodau hardd yn hytrach na dim ond cerdded o A i B yn unig. Dydy cerdded ddim yn ddiflas; mae'n bleser! Rwy'n teimlo'n hapusach erbyn hyn hefyd, o fod yn rhan o'r grŵp*.' *(Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Living Streets Cymru).*

"*Fyddwn i ddim yn dod ar y teithiau cerdded hyn pe na bawn i'n gallu siarad â neb. Dywedwch wrthyn nhw ei fod yn fy ngwneud i'n hapus. Rydw i yn (hŷn) a'r teithiau cerdded hyn sy'n fy nghadw i fynd*.' *(Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Living Streets Cymru).*

Soniwyd bod cymryd rhan wedi helpu hybu hyder ac roedd Prosiectau wedi mynd ati i geisio cyflawni hyn:

"*Rwy'n teimlo'n gartrefol gyda'r grŵp cyfan ac yn gallu trafod unrhyw beth. Rwy'n teimlo'n rhan o dîm yn hytrach na grŵp... Mae cyfle i bawb leisio'u barn yn y grŵp a thrafod unrhyw broblemau. Rydyn ni i gyd wedi cytuno na chaiff yr hyn sy'n cael ei ddweud mewn grwpiau ei rannu gydag unrhyw un arall, sy'n rhoi hyder i mi siarad yn agored... I fod yn onest dydw i ddim yn gwybod a fyddwn i'n dal yma oni bai am y grŵp. Rwyf wedi cael diwrnodau drwg, ond mae'r merched bob amser yno i mi. Ni allaf egluro sut mae'r dosbarth hwn a'r [enw darparwr] wedi helpu fi a fy nheulu*.' *(Cyfranogwr a ddyfynnwyd gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tŷ Tredegar yn eu Hadroddiad Gwerthuso, Mai 2022).*

6.35 Adroddodd prosiectau enghreifftiau lle mae'n ymddangos bod cryfder y teimladau am fuddion y Prosiect yn mynd ymhell y tu hwnt i fod yn fwy egnïol yn gorfforol. Gan ddwyn i ystyriaeth dod â'r GIE i ben, fe ddywedodd un cyfranogwr:

> *'Fyddech chi ddim yn rhoi'r gorau i rannu fy meddyginiaeth â mi, felly pam fyddech chi'n rhoi'r gorau i'w rhaglen hon?' (Cyfranogwr a ddyfynnwyd gan Y Bartneriaeth Awyr Agored yn ystod y cyfweliad).*

6.36 Mae gwerthusiadau prosiect[50] wedi amlygu rhai o'r manteision iechyd penodol maen nhw'n asesu bod y cyfranogwyr wedi'u hennill yn sgil cymryd rhan yng ngweithgareddau'r GIE. Dyma rai o'r manteision hynny:

- Gwella iechyd cardiofasgwlaidd;
- Y gallu i leddfu poen neu reoli poen;
- Help gydag adfer yn dilyn Covid-19 ac ymdopi gyda Covid hir;
- Cynnal neu gynyddu symudedd, cryfder a hyblygrwydd;
- Llai o bryderon am gwympo, gwelliannau i gydbwysedd a chryfder; a
- Llai o debygolrwydd o fod angen ymyriadau meddygol a / neu ofal cymdeithasol.

*Deilliannau ehangach i gyfranogwyr a chymunedau*

6.37 Nododd y Prosiectau, er bod monitro a gwerthuso wedi bod yn rhan allweddol o'r GIE, roedden nhw ond yn gallu casglu ychydig o'i effaith gyffredinol. Mae'n heriol mesur effeithiau anuniongyrchol y Prosiectau ar bethau fel dylanwadu ar syniadau am weithgarwch corfforol a lles ymhlith cyfranogwyr, partneriaid a'r gymuned ehangach. Roedd prosiectau'n teimlo eu bod wedi cael (ac yn parhau i gael) effaith gadarnhaol sy'n mynd y tu hwnt i'r dangosyddion allweddol o weithgarwch corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cynnwys: (i) buddion cymdeithasol, lleihau unigrwydd ac unigedd; (ii) cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ffyrdd o fyw iach ac egnïol; a (iii) gwella modd o fanteisio ar ac ymwneud gyda byd natur a'r amgylchedd awyr agored.

*Buddion cymdeithasol, lleihau unigrwydd ac unigedd*

6.38 Roedd y gweithgareddau a gynigir gan Brosiectau yn rhoi cyfleoedd i gyfranogwyr gymdeithasu ac (a ddylanwadwyd yn rhannol gan gyd-destun y pandemig) amlygwyd hyn gan Brosiectau fel un o brif fanteision y GIE. Fe wnaethon nhw ddweud fod y buddion hyn yn aml ar flaen meddyliau cyfranogwyr. Yn ôl y sôn, roedd cyfranogwyr yn aml yn mwynhau cinio neu luniaeth gyda'i gilydd ar ôl sesiynau gweithgareddau, wedi'u trefnu i gwrdd fel grŵp yn annibynnol, wedi cwrdd

[50] Cyfeirir at yr enghreifftiau hyn mewn gwerthusiadau a gynhaliwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Women Connect First, Sporting Memories ac Action for Elders – mae llawer o enghreifftiau tebyg ledled y Prosiectau.

â ffrindiau newydd, wedi dod i gysylltiad â rhieni newydd eraill, wedi ymuno â gweithgareddau a chlybiau eraill ac wedi sefydlu grwpiau WhatsApp ac ati i gadw mewn cysylltiad.

6.39 Roedd arweinwyr y prosiect yn aml yn annog staff cyflawni prosiectau i gefnogi'r deilliannau hyn, trwy aros ar ôl sesiynau am drafodaeth anffurfiol ac i sgwrsio (gan hefyd helpu'r gweithlu i ddeall y gynulleidfa darged a meithrin perthnasoedd).

> '*[Roedd y prosiect] yn meithrin rhywfaint o drefniadaeth annibynnol ac ymreolaethol ar ran rhai cyfranogwyr, gyda'r defnydd o dechnoleg cyfathrebu digidol (WhatsApp). Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu llythrennedd digidol ymhlith cyfranogwyr, gyda rhai yn anghyfarwydd â'r dechnoleg hon cyn cymryd rhan yn y prosiect'* (Prosiect Cronfa Derfynol ac Adroddiad Gwerthuso Living Streets Cymru).

Er na chafodd hyn ei fesur yn ffurfiol fel rhan o ddeilliannau'r prosiect, roedd digon o dystiolaeth ansoddol i awgrymu mai dyma un o'i effeithiau.

6.40 Roedd creu a chefnogi cysylltiad cymdeithasol yn alluogwr allweddol ar gyfer llwyddiant, a nododd Prosiectau fod y rhan hon o'r prosiect yn haws ei chynnal gyda chyllid cyfyngedig. Dyma rai o'r dyfyniadau dangosol:

> *Ers y pandemig, bu cynnydd sylweddol yn y galw am gynigion cymdeithasol; mae pobl hŷn eisiau cyfleoedd diogel a hygyrch i gwrdd ag eraill, meithrin cysylltiadau cymdeithasol a lleihau eu hunigedd. Gyda chefnogaeth grant y GIE, fe wnaethom addasu darpariaeth i ddiwallu anghenion brys a chymhleth pobl hŷn bregus ledled Cymru, gan ddarparu'r cymorth cyson y mae gwir ei angen arnyn nhw. Fe wnaethom ddatblygu ein prosiectau cymunedol yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Bro Morgannwg a Thorfaen, gan ategu ein grwpiau wythnosol a chyflwyno 'Canolfannau Cymdeithasol' i drechu effeithiau'r argyfwng costau byw, cynyddu ein cynnig cymdeithasol, a brwydro yn erbyn epidemig unigrwydd trwy gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y berthynas.'* (Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Balanced Lives for Care Homes).

> *Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (66.4%) o'r cyfranogwyr eu bod wedi gweld mwy o bobl yn gymdeithasol oherwydd eu bod yn ymwneud â'r rhaglen...*

*Rhyngweithio cymdeithasol oedd y canlyniad a grybwyllwyd yn fwyaf aml gan gyfranogwyr mewn rhyw ffordd pan ofynnwyd iddyn nhw am grybwyll y newid pwysicaf iddyn nhw yn sgil y prosiect.'* (Gwerthusiad Terfynol Rhaglen Weithredol RhCT Ebrill 2019 – Mawrth 2023).

*Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision ffyrdd o fyw iach ac egnïol*

6.41 Adroddodd prosiectau fel y Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd, Sporting Memories, Healthy Body Healthy Mind, Super Agers a Phrosiect Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru fod buddion prosiectau'r GIE hefyd yn ymestyn i aelodau o'r teulu, gofalwyr, gweithwyr cymorth a gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys helpu i ddatblygu gwybodaeth am fanteision gweithgarwch corfforol ar iechyd meddwl a lles a'r ysbrydoliaeth i gymryd rhan. Soniodd un Prosiect fod dealltwriaeth rhieni o lythrennedd corfforol wedi gwella:

> *"Ro'n i'n gwybod bod angen i blant gadw'n heini ond doeddwn i ddim yn gwybod pam eu bod nhw'n gwneud rhai pethau a pham eu bod nhw'n bwysig... Rwyf wedi defnyddio'r syniadau gan fod llawer o bethau newydd i'w wneud gyda'n gilydd ac roeddwn i'n hoffi bod rheswm dros y gweithgareddau. Doeddwn i erioed wedi gweld rhai o'r gweithgareddau o'r blaen. Rydyn ni bellach yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored gan ei fod yn mwynhau dringo a rhedeg.'* (Cyfranogwr a ddyfynnwyd yn Adroddiad Prosiect a Gwerthuso Diwedd y Gronfa Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Cymru Actif).

6.42 Roedd gweithgareddau'r prosiect hefyd yn ymwneud â bwyta'n iach a maeth da. Er enghraifft, yn eu hadroddiad gwerthuso, nododd Women Connect First fod 90 y cant o'u cyfranogwyr yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth am fanteision ymarfer corff, bwyta'n iach a'u bod wedi dysgu mwy am eu hiechyd oherwydd y Prosiect. Bu i Brosiectau megis Tyfu Gyda'n Gilydd nodi eu bod wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dyfu bwyd, a phwysigrwydd bwyta'n iach a ffyrdd o fyw egnïol ymhlith y partneriaid a'r buddiolwyr. O ganlyniad i'r effaith a gofnodwyd ganddynt, nododd nifer o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n rhan o'r Prosiect y bydden nhw'n ymgorffori'r ystyriaethau hyn yn eu rhaglenni/gweithgareddau wrth fynd rhagddi.

6.43 Aeth y Prosiectau ati hefyd i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i fod yn heini sy'n bodoli eisoes, ac sy’n fanteisiol i gymunedau cyfan. Bu i Brosiect Healthy and Active Newport gasglu ystod o wybodaeth sy’n ymwneud â chlybiau a digwyddiadau chwaraeon, celfyddydau a lles. Ychwanegwyd hyn at hwb cymunedol ar-lein a reolir gan Casnewydd Fyw sy'n caniatáu i unigolion ddod o hyd i gyfleoedd i gymryd rhan yn annibynnol.

*Gwella defnydd a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a’r awyr agored*

6.44 Soniodd gweithredwyr Rhaglen y GIE am y cysylltiad â lles, yr awyr agored a defnydd o amgylchedd naturiol Cymru. Roedd y rhan fwyaf o Brosiectau yn ymwneud â’r awyr agored ac roedd y rhai a oedd yn yr awyr agored yn gyfan gwbl yn arbennig o werthfawr yn ystod y pandemig.

6.45 Mae ymchwil wedi pennu’r manteision ychwanegol o fod yn weithgar ym myd natur a mannau gwyrdd[51] a bu i Brosiectau’r GIE ychwanegu at y corff hwn o dystiolaeth ac annog pobl i fentro i’r awyr agored yn amlach.

6.46 Bu i Coed Actif Cymru gynnal cyrsiau Agored ar-lein o'r enw Bwyd Bendigedig, a oedd yn ymdrin â sut i fwrw iddi i goginio gan ddefnyddio cynhwysion craidd wedi'u porthi. Bu iddyn nhw gynnal arolygon gyda’u cyfranogwyr a dywedodd 79 y cant eu bod nhw’n teimlo mwy o gymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â natur yn dilyn y sesiynau. Hefyd, dywedodd 94 y cant y bydden nhw’n parhau i ddefnyddio coetiroedd neu fannau gwyrdd naturiol i hybu eu hiechyd a'u lles yn y tymor hwy.

6.47 Yn ôl gwerthusiad gan Brifysgol Bangor ar gyfer Prosiect Babi Actif:

> *'Roedd data ansoddol a gafwyd gan grwpiau ffocws yn ategu'n gryf bod mentro i’r awyr agored yn darparu buddion synhwyraidd ac yn hwyluso cwsg babanod... bu i grwpiau ffocws ddatgelu fod sesiynau Babi Actif wedi helpu rhieni i feithrin sgiliau magu plant ymarferol ac wedi dysgu rhieni am y cyfleoedd awyr agored sydd ar gael iddyn nhw yn eu milltir sgwâr. Bu i gymorth cymdeithasol hwyluso rhieni ymhellach i fentro i’r awyr agored gyda'u babanod, yn y sesiynau Babi Actif*

[51] Twohig-Bennett and Jones (2018).

*ac yn y tymor hirach yn eu rhwydweithiau cymdeithasol newydd.'* (Gwerthusiad o'r Prosiect Babi Actif, Jamie Macdonald PhD, Prifysgol Bangor).

6.48 Bu i werthusiad allanol o BeActive RhCT, Prosiect arall oedd â'r nod o helpu cyfranogwyr i gynyddu eu cyfleoedd i fanteisio ar fannau gwyrdd, ganfod fod 67.7 y cant o'r cyfranogwyr oedd yn rhan o'r rhaglen brawf yn teimlo ei fod yn haws iddyn nhw fanteisio ar fannau gwyrdd neu fannau agored eraill oherwydd eu bod yn ymwneud â'r Prosiect.  Eglurodd un cyfranogwr:

> "*Mae wedi ychwanegu agwedd arall i'm bywyd trwy fy nghyflwyno i ffrindiau newydd a fy annog i ymweld ag ardaloedd nad oeddwn i'n ymwybodol ohonyn nhw. Rwyf hefyd yn fwy gwybodus am adar, fflora a ffawna*.' (Gwerthusiad Terfynol Rhaglen BeActive RhCT Ebrill 2019 – Mawrth 2023).

Soniodd un arall am sut y gwnaeth y Prosiect eu hannog i gyfrannu at yr ymdrechion i wella'r ardal leol a wnaeth arwain at ddod o hyd i waith yn y pen draw:

> '*Ro'n i'n awyddus i gymryd rhan yn y gymuned a gwneud ffrindiau, ac yn hoff o'r awyr agored a natur - fodd bynnag ro'n i'n byw mewn dinasoedd mawr (cyn hynny). Roedd yn brofiad diwylliannol cwbl wahanol i'r arfer ond roeddwn i wrth fy modd gyda'r mannau gwyrdd o amgylch y pentref cyn pen dim. Pan drefnodd (darparwr gweithgaredd) sesiwn casglu sbwriel, fe wnes i achub ar y cyfle oherwydd bod y sbwriel ar y llwybrau yn peri pryder imi ac nid wyf am i'm plant deimlo bod y math hwnnw o ymddygiad yn dderbyniol. Yn dilyn y sesiwn codi sbwriel cyntaf bu imi ymuno gyda grwpiau gweithredu amgylcheddol ar-lein. Fe wnes i brynu teclyn codi sbwriel ac rwyf wedi casglu cannoedd o fagiau ers hynny. Rwy'n eithaf ymroddedig ac rwyf wedi dwyn tîm o weithredwyr ynghyd yma yn y pentref ar gyfer prosiectau mawr a chefnogaeth foesol. Yn sgil y gwaith gwirfoddol hwn fe wnes i lwyddo i ddod o hyd i waith gyda thâl hefyd! Felly mae fy nyled yn fawr i BeActive a (darparwr gweithgareddau).* (Gwerthusiad Terfynol Rhaglen BeActive RhCT Ebrill 2019 – Mawrth 2023).

6.49 Mae Tyfu Gyda'n Gilydd wedi creu safleoedd tyfu fel asedau cymunedol a all oroesi y tu hwnt i oes y Prosiect.  Mae'r rhain yn darparu man gwyrdd y gellir ei ddefnyddio i gefnogi lles meddyliol a chorfforol preswylwyr a phlant ysgol yn yr ardaloedd

priodol. Gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer gweithgareddau pontio'r cenedlaethau parhaus. Bu i'r Prosiect hefyd godi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid o werth posibl datblygu'r mathau hyn o fannau gwyrdd yn eu safleoedd priodol.  Fe ddywedodd nhw fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y buon nhw'n gweithio gyda nhw yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol a gafodd y mannau ar breswylwyr, sydd wedi gwneud iddyn nhw ystyried gwneud gwelliannau pellach i fannau awyr agored.  Bu i un partner hefyd rentu rhandir sylweddol i ddarparu lle tyfu pellach i'w preswylwyr.

6.50 Daeth un o lawer mwy o enghreifftiau o fanteision bod ym myd natur a'r awyr agored a'r hyn y gall hyn ei arwain at y tu hwnt i'r gweithgaredd ei hun gan gyfranogwr yng Nghoed Lleol (Coed Bach Cymru) a adroddodd:

> *'Mae bod yn rhan o Goed Lleol wedi hybu fy hyder mewn ffordd gadarnhaol iawn. Mae gwneud y math hwn o beth yn fodd imi fentro allan o'r tŷ ac i'r awyr agored, mae fy iechyd meddwl wedi gwella heb os. Mae fy hyder wedi cynyddu fel fy mod yn gallu gwirfoddoli a chwilio am gyfleoedd eraill hefyd. Fe wnaeth Coed Lleol ennyn fy niddordeb a gwneud i mi fod eisiau darganfod mwy am y byd naturiol ac ecoleg – pan oeddwn i'n gwirfoddoli byddai pobl yn gofyn cwestiynau i mi a doeddwn i ddim bob amser yn gwybod yr atebion, felly fe wnaeth hyn fy sbarduno i ddarganfod mwy. Felly, eleni, rwyf wedi cofrestru ar gyfer cwrs yn ymwneud â (pwnc). Nid wyf yn gwybod at beth fyddai hyn yn arwain yn y tymor hirach ond rwy'n awyddus iawn i ddysgu mwy am goedwigaeth a chynefinoedd, felly rwy'n gobeithio y bydd yn agor drysau newydd i mi. Fyddwn i byth wedi breuddwydio am (hyn) oni bai fy mod i wedi bod yn rhan o'r grwpiau hyn. Rwy'n edrych ymlaen at weld pa gyfleoedd eraill gallaf achub arnyn nhw yn sgil hyn."*
> (Cyfranogwr y prosiect, a ddyfynnwyd yn adroddiad Straeon Cyfranogwyr Coed Lleol (Small Woods Wales) 2022-23).

6.51 Mae adborth cyfranogwyr a adroddwyd gan Brosiectau yn dangos yn eglur iawn sut mae deilliannau lluosog gweithgarwch Prosiectau yn cyd-fynd gyda'i gilydd ac yn atgyfnerthu ei gilydd – mae buddion corfforol, meddyliol a chymdeithasol i gyd yn gysylltiedig.  Yn rhannol o ganlyniad i effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl ac arwahanrwydd cymdeithasol, bu i'r Prosiectau arsylwi'r angen am ffocws cynyddol

ar gynllun Prosiect sy'n ategu iechyd meddwl a lles a manteision cymdeithasol yn hytrach na phwyslais ar gadw'n heini - p'un a yw hynny yn eu negeseuon nhw, neu'r gwasanaethau ychwanegol a'r cyfeirio sy'n digwydd i helpu pobl â'u hanghenion unigol.

**Deilliannau trefnu'r Prosiectau**

6.52 Mae'r model theori newid blaenllaw yn ymwneud â deilliannau canolraddol. Mae'r bwriadau canlynol ar gyfer y GIE yn berthnasol i'r deilliannau sefydliadol: *Gall Prosiectau addasu i ddygymod ag amgylchiadau annisgwyl*; ac mae *Prosiectau'n dysgu ar gyfer y dyfodol ac mae gallu a sgiliau'r gweithlu yn datblygu.*

6.53 Datblygu'r gweithlu: Roedd hwn yn ganlyniad allweddol a nodwyd gan staff y Prosiect a'r Swyddogion achos. Datblygwyd sgiliau mewn sawl ffordd: wrth ddefnyddio technoleg a gwell llythrennedd digidol, wrth gynnal gwaith gwerthuso, ennill gwell dealltwriaeth o fuddiolwyr, a thrwy gydweithio a datblygu partneriaethau cadarn gydag ystod eang o sefydliadau.

6.54 Deall buddiolwyr: Bu i'r profiad o weithredu'r GIE feithrin dysgu ymhlith staff y Prosiect ynghylch gweithio gyda grwpiau targed, gan atgyfnerthu eu gwybodaeth bresennol a chynnig mewnwelediad newydd iddyn nhw. Bu i Brosiectau elwa o'r profiad o weithio gyda grwpiau nad oedden nhw wedi ymgysylltu â nhw yn y gorffennol. Gallai hyn fod yn grŵp demograffig newydd neu'n lleoliad newydd.

6.55 Gwelodd y prosiectau hynny a oedd yn gweithio gyda'r un gynulleidfa darged gymhellion, rhwystrau a llwyddiannau gwahanol iawn ymysg y cyfranogwyr wrth gynnal eu gweithgareddau mewn gwahanol leoliadau daearyddol, hyd yn oed o fewn yr un awdurdod lleol. Roedd heriau gwahanol wrth weithio mewn cymunedau mwy difreintiedig ac ymdrin ag amddifadedd gwledig, ond yn fwy cyffredinol, gwelodd staff y Prosiect gynnydd yn y galw am wasanaethau oherwydd costau byw. Er enghraifft, bu i StreetGames dynnu sylw at sut y cafodd darpar gyfranogwyr eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd oherwydd costau achlysurol cymryd rhan, megis trefnu'r dillad, cyfarpar neu opsiynau cludiant priodol iddyn nhw eu hunain neu i'w plant. Nodwyd loceri chwaraeon, llyfrgelloedd ac ystafelloedd cit fel deilliant mewn nifer o awdurdodau lleol, o ganlyniad i'r GIE, ac yn fwy cyffredinol.

6.56 Dysgodd prosiectau am gymhellion a chyfyngiadau ar gyfer gwahanol grwpiau, a sut yn sgil y pandemig roedd yr effaith negyddol ar ystod eang o grwpiau bregus yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw ganolbwyntio mwy ar ddatblygu hyder a chefnogi anghenion iechyd meddwl. I rai, roedd hyn yn set sgiliau newydd.

6.57 Llythrennedd digidol: Roedd y pandemig yn sbardun i wella gallu digidol a'r defnydd o dechnoleg i wella'r ffyrdd y gellid cyflawni gweithgarwch y Prosiect. Roedd yn rhaid uwchsgilio mewn rhai sefydliadau partner llai - ar gyfer staff a gwirfoddolwyr - a darparu dyfeisiau i staff weithio arnyn nhw o bell. Un o'r effeithiau oedd galluogi Prosiectau i gael cyswllt mwy rheolaidd â'r gweithlu. Yn amlwg, roedd manteision ynghlwm â rhoi systemau o'r fath ar waith i gyfathrebu ar-lein, er nad oedd hyn bob amser yn ffordd o weithio a ffefrir.

6.58 Prosesau monitro a gwerthuso: Mewn rhai Prosiectau, bu i'r GIE sicrhau modd i staff arweiniol y sefydliadau a phartneriaid cyflawni ddatblygu sgiliau ac ennill profiad yn y broses o fonitro, gwerthuso a deall effaith. I rai, roedd hon yn rôl a chyfrifoldeb newydd ac yn aml roedd yn heriol. Dywedodd cyfwelai lefel Rhaglen fod staff y Prosiect wedi cynyddu eu gallu i reoli gwerthusiadau prosiect, wedi ennill profiad o drin data, ac y gallan nhw fod yn fwy cymwys i werthuso eu gwaith eu hunain nag o'r blaen, yn enwedig oherwydd y gofynion adrodd trylwyr. O ganlyniad i ofynion gwerthuso'r GIE, mae corff tystiolaeth sylweddol y mae Prosiectau'n teimlo y gallan nhw ei ddefnyddio er mwyn prif ffrydio gweithgareddau'r GIE yn eu harfer sefydliadol ac / neu ei ddefnyddio i geisio am grantiau eraill.

6.59 Sgiliau'r gweithlu ehangach a gwirfoddolwyr: Bu i Casnewydd Fyw nodi fod y llwybrau gwirfoddoli a grëwyd drwy Brosiect Healthy and Active Newport wedi cyfrannu at gyflawni nodau Cynllun Lles Lleol Casnewydd 2018-23. Fe wnaethan nhw hefyd grybwyll y manteision i athrawon: dywedodd 90 y cant o staff dysgu eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddarparu sesiynau gweithgaredd corfforol. Bu iddyn nhw hefyd adrodd am ddylanwad ar ddiwylliant chwaraeon ysgolion, er enghraifft drwy annog ysgolion i fod ar agor yn ystod gwyliau ysgol fel lleoliadau chwaraeon. Aeth un ysgol ati i weithredu rhaglen gyfoethogi a gafodd ei fodelu ar ddull y GIE. Ymhlith y Prosiectau eraill a oedd yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ymarferwyr a llythrennedd corfforol roedd Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif

Cymru a Llysgenhadon Chwarae. Yn sgil y Prosiect olaf o'r ddau aeth pobl ifanc a thrigolion y gymuned rhagddi i ddod o hyd i waith, naill ai gyda thimau chwarae neu fel rhan o gynlluniau chwarae cymunedol. Ar ddiwedd y prosiect, dywedodd Chwarae Cymru bod 17 o lysgenhadon wedi llwyddo i ddod o hyd i waith.

6.60 Cydweithio gwell: Bu i'r Prosiectau feithrin perthynas gref â phartneriaid (gweler Pennod 5) ac fe gafodd hyn ei gynorthwyo'n rhannol yn ystod y camau cynnar gan yr angen i ymateb i'r pandemig a'r ffordd y bu i weithio ar-lein oresgyn y rhwystrau o ran amser/teithio/cost. Erbyn hyn mae'r partneriaethau hyn, ar y cyfan, wedi hen ennill eu plwyf ac mae partneriaid yn parhau i gydweithio. Bu i'r Prosiectau gydweithio gyda channoedd o bartneriaid ac mae sawl enghraifft o Brosiectau'n cael eu hintegreiddio i rwydweithiau ac amcanion ehangach megis Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru. Mae'r Prosiectau hefyd yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored, sy'n rhoi cyfle pellach i rannu dysgu.

6.61 Cyfleoedd economaidd a chyflogaeth: Mewn rhai achosion, llwyddodd y Prosiectau i ymestyn eu cyrhaeddiad, ac mae o leiaf tair enghraifft lle mae gwasanaethau sefydliadau arweiniol wedi'u comisiynu gan bartneriaid newydd a hynny ledled ardal ddaearyddol ehangach yn sgil llwyddiannau'r GIE. Mae yna enghreifftiau hefyd o arweinwyr Prosiect a oedd yn cyflawni rolau a grëwyd gan y GIE yn ennill swyddi parhaol i barhau i ymgorffori gwaith y GIE (BeActive RhCT, Babi Actif, Balanced Lives for Care Homes, Llysgenhadon Chwarae).

6.62 Nododd rhai Prosiectau fanteision economaidd i bartneriaid a darparwyr sy'n gysylltiedig â'r GIE. Er enghraifft, soniodd Women Connect First:

> *'Mae'r Prosiect eisoes wedi cael effaith o ran darparu gwaith a chyfleoedd parhaus i'w staff, hyfforddwyr a thiwtoriaid (i gyd yn ferched lleiafrifoedd ethnig o gymunedau lleol) yn ystod y pandemig ac yn gyffredinol yn ystod tair blynedd gyntaf y Prosiect. Yn ystod y pandemig, bu inni drosglwyddo ein gwasanaethau ar-lein a chynnig cyfle i'n tiwtoriaid a'n hyfforddwyr barhau i ddarparu dosbarthiadau ac ennill incwm gan fod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n weithwyr llawrydd. Hefyd roeddem yn gallu defnyddio sgiliau ein gwirfoddolwyr a thrigolion y gymuned gan gynnig cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith sesiynol iddyn nhw yn*

*ystod y pandemig. Yn ogystal, mae'r defnydd o fannau cymunedol a lleoliadau lleol wrth gyflawni gweithgareddau'r Prosiect wedi hybu cynaliadwyedd ariannol rhai o'n lleoliadau lleol.' (Adroddiad Gwerthuso a Phrosiect Cronfa Derfynol Healthy Body Healthy Mind).*

6.63 Sefydliadau cryf, gwydn: Dangosodd sefydliadau'r Prosiectau eu gallu i addasu i ddygymod ag amgylchiadau annisgwyl, ac mae enghreifftiau o hyn ym Mhennod 4. Mae'r dyfyniad canlynol gan HAPPy yn amlygu hyn:

> '*Gallai pob sefydliad addasu i fynd i'r afael â heriau, yn enwedig yn un o gyd-destunau allanol mwyaf heriol (os nad y mwyaf heriol) y mae unrhyw un o'r sefydliadau wedi gweithio ynddyn nhw. Mae wedi dangos i dîm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhŷ Tredegar fod gennym y gallu, yr hyder a'r adnoddau i gynnal grwpiau yn y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn y parcdir, gan gynnwys pobl a allai fod yn wynebu heriau iechyd meddwl, neu sydd ddim mor brofiadol yn gweithio yn yr awyr agored, ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i deimlo'n hyderus yn ymgymryd â gwaith o'r fath.'* (Adroddiad Gwerthuso a Phrosiect Cronfa Derfynol HAPPy).

6.64 Roedd rhai Prosiectau'n clodfori'r GIE am gryfhau eu systemau a'u polisïau llywodraethu. Soniodd un am ailwampio prosesau'n gyfan gwbl yn y sefydliad oherwydd dysgu a rheoli risg y GIE, megis cytundebau, ffurflenni, yswiriant a safonau ar gyfer darparwyr gweithgareddau. Soniodd eraill am ddysgu am yr adnoddau staff sydd eu hangen i weinyddu a chydlynu gweithgareddau, yn ogystal â darparu gweithgareddau a chyflawni gwaith ymgysylltu, a sut cafodd hyn ei weithredu wrth lunio swydd ddisgrifiadau, rolau a chyfrifoldebau cytbwys. Mae'r adnoddau a'r sgiliau hyn bellach yn waddol defnyddiol 'y tu hwnt i'r' GIE a bydd sefydliadau a'u buddiolwyr yn parhau i'w defnyddio.

6.65 Yn olaf, roedd tystiolaeth o fuddion cymdeithasol gan ddau Brosiect a wnaeth gomisiynu dadansoddiad o'r Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddi (SROI). Bu'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cydweithio â Phrifysgolion Caerdydd a Bangor i ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad Agor Drysau i'r Awyr Agored. Yn ôl y gwerthusiadau, yn 2021, cynhyrchwyd £5.81 i £6.44 o werth cymdeithasol am bob £1 cafodd ei wario ar gyfranogwyr, ac yn 2022,

cynhyrchwyd rhwng £4.90 a £5.36 o werth cymdeithasol[52]. Comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddadansoddiad SROI o'r rhaglen Super Agers[53]. Bu i'r dadansoddiad ganfod fod gwaith blwyddyn y rhaglen Super Agers yn cynhyrchu oddeutu £960,000 o werth cymdeithasol y flwyddyn, ac fe ellir priodoli £500,000 ohono yn uniongyrchol i'r Super Agers. Mae'r buddsoddiad yn y rhaglen oddeutu £130,000 sy'n golygu bod oddeutu £3.80 o werth cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddir. Roedd y dadansoddiad yn seiliedig ar gost y tair blynedd gyntaf o fuddsoddiad ar gyfartaledd. Y gobaith oedd y gallai'r cynghorau sir dan sylw barhau i gynnal y rhaglen am gost is heb leihau cyrhaeddiad nac ansawdd, ar ôl buddsoddi mewn sefydlu rhaglen Super Agers. Byddai hyn yn golygu y gallai'r gymhareb SROI gynyddu'n sylweddol.

**Pwyntiau dysgu**

6.66 Ar lefel Rhaglen, cafwyd cryn dipyn o ddysgu am a) adnoddau, sgiliau a phrofiad y gweithlu sydd eu hangen i gasglu data meintiol o ansawdd da a b) effeithiau adnoddau safonol ar brofiad da neu wael i gyfranogwyr, a phriodoldeb argymell adnoddau safonol fel IPAQ a WEMWBS yn y dyfodol i'w defnyddio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Nid gwerth cynhenid adnoddau sydd wedi'u dilysu'n ddigonol yw'r broblem yma, ond yn hytrach yr heriau o argymell adnoddau safonol i ddarparu data cyson ar draws prosiectau mor amrywiol sy'n gweithio gyda grwpiau amrywiol.

6.67 Croesawyd hyblygrwydd lefel rhaglen o ran adnoddau monitro a'r gofynion ar gyfer Prosiectau wrth i heriau ddod i'r amlwg. Er bod canllawiau wedi'u darparu o'r cychwyn cyntaf, doedd dim modd i'r unigolion a oedd yn gyfrifol am asesu canlyniadau a'r ystod estynedig o ddarparwyr gweithgareddau yr oedd angen iddyn nhw ymgorffori prosesau casglu data yn eu sesiynau fanteisio ar y canllawiau bob amser. Bu i staff yn gadael ychwanegu at y broblem. Byddai mwy o bwyslais ar

[52] Makanjuola, Hartfiel, Cuthbert, Lynch & Edwards, (2022)
[53] Gwerthusiad SROI o Raglen Super Agers, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Cynhaliodd Envoy Partnership werthusiad o'r prosiect Super Agers rhwng Tachwedd 2020 a Rhagfyr 2022.

drafod a chytuno ar brosesau monitro a gwerthuso priodol gyda Phrosiectau yn ystod camau cynnar eu sefydlu yn fuddiol.

6.68 Awgrymodd nifer o Brosiectau y gallai dull mwy cydweithredol o gynllunio gwaith monitro a gwerthuso fod wedi bod yn fuddiol. Awgrymodd Prosiectau hefyd y gallai datblygu prosesau monitro a gwerthuso ar y cyd â Phrosiectau eraill sy'n gweithio gyda grwpiau targed neu ardaloedd daearyddol tebyg fod wedi bod yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau. Er i Brosiectau gael y cyfle i fod yn rhagweithiol a gwneud hynny, ni ddigwyddodd oherwydd diffyg cefnogaeth uniongyrchol yn hynny o beth.

6.69 Mae'r deilliannau iechyd a lles sydd wedi’u cofnodi mewn gwerthusiadau Prosiect a'u hategu gan gyfweliadau gyda gweithredwyr lefel Rhaglen a Swyddogion Achos yn sylweddol ac yn gadarnhaol iawn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pwyslais ar les wedi dod yn bwysicach fyth yn ystod y pedair blynedd, gyda mwy o alw am gymorth fel y cynigir gan y Prosiectau. Dangosodd sefydliadau'r prosiect wydnwch ac arweinyddiaeth wych yn ystod pedair blynedd y GIE, gan ymateb i heriau megis y pandemig a'r argyfwng costau byw. Casglwyd ystod eang o ddysgu sy'n parhau i lywio eu harferion gwaith yn fwy cyffredinol ac mae ymyriadau wedi cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar iechyd a lles y bobl sy'n byw yng Nghymru.

## 7. Asesiad Cyffredinol y Rhaglen

7.1 Mae'r gwerthusiad yma yn werthusiad lefel Rhaglen. Fel y nodwyd yn gynharach, bu i’r Prosiectau gynnal eu gwerthusiadau lefel prosiect eu hunain. Felly, gwerth ychwanegol ein gwerthusiad ni yw'r mewnwelediadau sy'n canolbwyntio ar y Rhaglen.

7.2 Mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae llwyddiant Rhaglen fel y GIE yn dibynnu'n sylweddol ar sut mae'r Prosiectau eu hunain wedi perfformio, oherwydd eu bod yn cynhyrchu'r gwerth uniongyrchol i gyfranogwyr ac yn creu llawer o unrhyw werth parhaus i gyfranogwyr ac o ran dysgu sefydliadol a pholisi. Dyna'r rheswm dros yr asesiad ym Mhennod 6 a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd ar draws y Prosiectau, a'r agweddau a wnaeth alluogi’r llwyddiannau hynny.

7.3 Wrth werthuso'r Rhaglen yn ei chyfanrwydd, mae dau agwedd sylweddol pellach i'w dwyn i ystyriaeth. Yn gyntaf, **pa obeithion a disgwyliadau oedd gan uwch weithredwyr lefel Rhaglen** o'r GIE, ac i ba raddau y cawson nhw eu cyflawni? Yn ail, **pa ran y chwaraeodd y Rhaglen wrth sicrhau llwyddiant y Prosiectau**? O ran yr agwedd olaf hon, byddwn yn edrych yn ôl ar Theori Newid y bu’r Rhaglen ei fabwysiadu. (Mae'r holl ddyfyniadau yn y Bennod hon gan weithredwyr y Rhaglen, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Prosiect a'i is-grwpiau neu Swyddogion Achos, oni nodir yn wahanol.)

### A wnaeth y GIE gyflawni gobeithion a disgwyliadau’r gweithredwyr ar lefel Rhaglen?

7.4 Nid hwn yw’r unig ffordd o fesur llwyddiant o bell ffordd, fodd bynnag un ffordd bwysig iawn o fesur llwyddiant rhaglen yw a oedd yn bodloni gobeithion a disgwyliadau'r rhai yr ymddiriedwyd ynddyn nhw i ofalu am ei datblygiad a'i darpariaeth yn ymarferol. Bu i’r gweithredwyr allweddol rannu safbwyntiau helaeth gyda’r GIE. Fel Rhaglen gydweithredol, rhaid oedd cyfuno amcanion, ac roedd hynny'n golygu cyfaddawdu a derbyn na fyddai'r GIE yn gweithredu'n llwyr i fodloni dyheadau unrhyw un o'r partneriaid cenedlaethol.

7.5 Rhannodd y gweithredwyr lefel rhaglen y dyhead allweddol y byddai'r GIE yn rhoi effaith ymarferol i ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru. Yn hynny o beth roedden nhw'n llwyddiannus, fel yr ydym wedi'i ddogfennu ym Mhennod 2.

Y tu hwnt i hynny, roedd eu gobeithion a'u disgwyliadau yn adlewyrchu cyfrifoldebau a safbwyntiau eu sefydliadau. Ymhlith gweithredwyr Llywodraeth Cymru, *'mae'r Rhaglen yn gyfle da i gyllid sbarduno roi cynnig ar bethau mewn perthynas â lles yn ogystal â gweithgarwch corfforol. Er nad yw'n rhaglen unigryw, mae'n rhesymol anarferol. Mae ymyriadau ar dybaco, ac rydym yn cefnogi'r daith pwysau iach gyda chyllid tebyg, a hefyd yn y rhaglen Pwysau Iach: Cymru Iach mae ymyriad yn ymwneud â theuluoedd ond mae hynny braidd yn fwy rhagnodol.'* [Ar y llaw arall, roedden nhw] *yn 'amheus am y cyllid cymharol dymor byr a doedden nhw byth yn disgwyl y byddai'r Rhaglen yn newid y byd. Rwy'n amheus yn reddfol am gyllid tymor byr. Yn enwedig yn y trydydd sector, mae pobl yn gadael ac yn gorfod chwilio am swyddi newydd, oni bai eu bod yn derbyn ymrwymiadau pendant. Ond fe allai helpu i fod yn lasbrint ar gyfer pobl eraill, y cwestiwn wedyn yw sut ydyn ni'n mynd ati i wneud hynny?'*

7.6 Ymhlith gweithredwyr Chwaraeon Cymru,

*"Roedd y Rhaglen yn ffordd newydd o gydweithio i fynd i'r afael â materion enbyd, ac ymgysylltu â chymunedau sydd wedi'u heithrio a'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd. Roeddem eisiau glasbrint ar gyfer mentrau yn y dyfodol yn ogystal â sicrhau budd i unigolion o'r Rhaglen.'* (Roedden nhw hefyd yn ei ystyried yn llwyddiant.) O ran deilliannau *tra*] *'Rwy'n ofalus gan nad ydw i'n ymwneud yn ddigon agos ag o, mae yna nifer o Brosiectau o werth ac sydd o ddiddordeb imi, gyda dysgu amlwg. Nid yw llawer o'r rhain yn newydd ond maen nhw wedi atgyfnerthu dysgu blaenorol a dylai'r gwaddol ymwneud yn rhannol â defnyddio'r canlyniadau hyn i ategu rhaglenni'r dyfodol, er nad oes adleisiau amlwg dros y dysgu hwnnw yr wyf yn ymwybodol ohono. Mae'r Rhaglen hefyd wedi rhoi cyfleoedd i Chwaraeon Cymru gyfrannu at raglenni mawr eraill Llywodraeth Cymru megis 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a mentrau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.'*

*'Roedd [y] Rhaglen yn ymwneud yn gryf â nod Chwaraeon Cymru o gynnig chwaraeon i bawb, a'r penderfyniad i sicrhau bod y rheiny sy'n segur yn mynd ati i gadw'n heini. Roedd hefyd yn gyfle i ddysgu am sut mae anghenion a chymhellion pobl yn wahanol yn sgil nifer o agweddau. Felly fe aethom ati i ddysgu sut i ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd targed hyn, ac ymwneud gyda phartneriaid newydd a dulliau newydd o ymgysylltu. Mae'r amcanion hyn yn gyffredin gyda'r partneriaid cenedlaethol - mae'r data yno i ddangos bod angen dull ehangach i fynd i'r afael â'r bobl anweithgar, ac roedd ymgyrch ar y cyd i fynd i'r afael â hynny.'*

7.7 Cyflawnwyd y dyheadau a'r disgwyliadau hynny yn rhannol o leiaf:

*"I ni, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn annatod felly gallai unrhyw beth y gallwn ei gasglu fod yn werthfawr. Mae'r GIE wedi ein dysgu'n bennaf trwy atgyfnerthu gwersi yr oeddem wedi dechrau sylwi arnyn nhw yn sgil gweithgarwch arall gan gynnwys y rhaglen hon, y rhaglen 60 a mwy, C4A* [Calls 4 Action]*, teuluoedd a phlant, ac ati. Fe wnaeth pob un ohonyn nhw helpu i ddadlau dros weithgarwch corfforol a llythrennedd corfforol, achos rydyn ni bob amser yn ceisio cyfleu ei phwysigrwydd yn 'Pwysau Iach: Cymru Iach'. Mae iechyd yn wrthrych strategol i Chwaraeon Cymru felly mae'r rhaglenni hyn o bwys, yn enwedig yr enghreifftiau allweddol o newid y gallan nhw eu cynhyrchu.'*

7.8 O safbwynt iechyd cyhoeddus, nodwyd cyfyngiadau:

*'nid yw model y Rhaglen yn gyson â newid lefel poblogaeth. Rwyf bob amser wedi bod yn bryderus am y cyllid tymor byr ac o ganlyniad wedi bod yn amheus am ei lwyddiant tebygol. Efallai na fyddai wedi bod yn briodol i ddefnyddio cyllid yn y modd hwn ond roedd y penderfyniad eisoes wedi'i wneud ar lefel wleidyddol felly fe wnaethom ni fanteisio i'r eithaf arno. Gallem fod wedi gwneud llawer o bethau eraill gyda'r cyllid yn dibynnu ar y gynulleidfa darged, trwy wneud newid i bolisi neu agwedd o'r amgylchedd a dewis maes allweddol fel gordewdra neu dybaco, labelu caloriau efallai neu ymyriadau ysgol i gefnogi gweithgarwch corfforol.'*

*'Efallai nad oedd y rhaglen yn effeithiol dros ben ac roedd hyn yn rhannol oherwydd y cyd-destun Covid. Roedden ni'n disgwyl gweld budd i unigolion ond roedd yn llai buddiol o ystyried y cyd-destun.'*

7.9 Ar y llaw arall

*"Roedd yn arloesol ac yn arbrofol ac roedd hyn yn effeithiol ac roedd newid yn y dull o weithio mewn partneriaeth ar lefel genedlaethol a lleol sydd heb ei gyflawni ers hynny ar lefel genedlaethol. Roedd hefyd yn ffordd o gasglu mwy o ddysgu am y broses grantiau bach. Mae llawer o brosesau grantiau bach ar waith ond mae diffyg dealltwriaeth ynghylch a yw'n effeithiol a pham.'*

*'Ein gobaith ni oedd derbyn ystod eang iawn o geisiadau i gael ymdeimlad o ymyriadau iechyd corfforol a meddyliol gwahanol. Roedd gennym bopeth o geisiadau llethr sgïo sych i arddio gwyrdd, nid dim ond rhaglenni 8 wythnos mewn canolfan hamdden yn unig. Fe wnaeth y gwaith partneriaeth ar lefel leol arwain at lawer o waith yn y dyfodol - roedd proses y GIE yn 'gorfodi'n gadarnhaol' cydweithio gyda rhanddeiliaid eraill a dysgu oddi wrth ei gilydd. Felly cydweithio posibl yn y dyfodol yw rhai o'r manteision mwyaf. Doedden ni byth yn mynd i weld newid ar lefel poblogaeth. Ond nid oeddem ychwaith yn gallu mesur yr holl fanteision lleol sydd wedi dod i'r amlwg gyda'r adnoddau monitro a ddefnyddiwyd. Yn fwy strategol, mae wedi bod yn broses ddiddorol i'r partneriaid weithio gyda'i gilydd, yn arbrawf byw da. Ar lefel y Grwpiau Cyflawni a Gwerthuso roedd yn effeithiol dros ben a gellid ei ailadrodd.'*

O ran y deilliannau, *tra] 'nad oedden ni'n meddu ar y data, roedd llawer o'r Prosiectau'n llwyddiannus, ac wedi gwneud newidiadau llwyddiannus o ran eu ffyrdd o weithio. Mae'r astudiaethau achos a'r data ansoddol wir yn creu argraff ac yn bwerus.'Soniodd un arall bod y GIE 'yn bendant wedi bod yn ddull mwy trylwyr na mentrau eraill yr wyf wedi bod yn ymwneud â nhw.'*

7.10 O ran deilliannau,

*'Roedd y theori o ran cydweithio a'r bwriad hwnnw'n effeithiol - wrth sefydlu cronfa, pennu rolau pendant a sicrhau parch. Rwy'n credu bod y GIE wedi gwneud gwahaniaeth, fel y gwelir yng ngwerthusiadau diwedd y gronfa, yr*

*asedau cymunedol, y gwaddol o ganlyniad, a'r cynaliadwyedd – mae agweddau ar Brosiectau'r GIE wedi cael eu cynnal mewn rhyw ffordd neu'i gilydd megis hyfforddi a meithrin gallu gwirfoddolwyr.  Ar y cyfan, mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol mewn perthynas â lles corfforol a meddyliol."*

7.11 Mae'r llwyddiant wedi bod yn eang iawn.


*'Y Prosiectau sy'n achub y blaen yw'r straeon a'r nodweddion personol am y buddiolwyr. Rwy'n edmygu'r niferoedd dan sylw, nifer y sesiynau a drefnwyd, a'r nifer o wirfoddolwyr. Mae'r straeon personol yn dangos Prosiectau'n helpu gydag unigedd, a gyda cholled, a chreu buddion i bobl hŷn. Mae Prosiectau y gellir eu datblygu, gan gynnwys rhai sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau Cymru a'r amgylchedd naturiol.  Mae'n amlwg bod nifer fawr ohonyn nhw wedi bod yn llwyddiannus iawn.  Rwyf hefyd wedi gweld gwelliant o ran sgiliau a galluoedd gweithlu yn ystod y Rhaglen, a'r gallu i reoli Prosiectau a disgwyliadau.  Mae hyn yn amlwg yn yr adroddiadau diwedd y gronfa. Maen nhw hefyd mewn sefyllfa fwy priodol i werthuso eu gwaith eu hunain nag o'r blaen."*

7.12 Bu i'r gweithredwyr uwch ganolbwyntio'n bennaf ar y partneriaethau a'r cydweithio yr oedden nhw'n rhan ohono – ac y gwnaethan nhw gyfrannu ato - yn ystod y camau cynnar o gynllunio a gweithredu, ac roedden nhw'n yn fodlon gyda'r maes cyflawni hwnnw.  Roedden nhw'n yn llai pendant ynghylch effeithiau a llwyddiant y Prosiectau.  Roedd gan weithredwyr llai uwch, yn enwedig Swyddogion Achos a oedd yn gweithio'n agosach gyda'r Prosiectau, lawer mwy i'w ddweud am ddeilliannau lefel Prosiect ar gyfer cyfranogwyr, a gwerth y dysgu a gynhyrchir trwy'r Prosiectau.  Fel y gwelwn yn ddiweddarach, fodd bynnag, ni wnaeth hyn drosi i lunio darlun eglur ar lefel Bwrdd Prosiect o'r hyn a gyflawnwyd ar lawr gwlad.  Fel y dywedodd un gweithredwr, *'roedd rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng y rhai a oedd â'r safbwynt uwch hon ac a oedd yn ymddiddori yn y materion mwy strategol ond oedd methu â manteisio ar, neu heb drefnu i fanteisio ar, y gwaith ar lefel prosiect i lywio a oedd y farn strategol honno wedi'i gwireddu ai peidio.'*

**Rhan lefel Rhaglen yn llwyddiant y GIE**

7.13 Er mwyn ymchwilio'r rhan benodol wnaeth gweithgarwch ac ymyriadau lefel rhaglen ei chwarae, bu inni fwrw golwg ar y Theori Newid eto wrth fynd rhagddi fel y cafodd ei fabwysiadu gan Fwrdd Prosiect y GIE.

**Ffigur 7.1 Theori Newid y GIE Wrth Fynd Rhagddi yn ystod y Rhaglen**




7.14 Datblygwyd hyn gan Fwrdd y Prosiect ar yr adeg pan oedd y Prosiectau eisoes ar waith, a phan oedd y prosesau galluogi a roddwyd ar waith ar y cychwyn wedi arwain y Rhaglen at a thrwy'r broses gynllunio a lansio. Roedd ganddo dri phrif agwedd. Yn gyntaf, roedd dal angen galluogwyr fel y gallai'r Prosiectau berfformio cystal ag y gallen nhw. Roedd gan bopeth a restrir yn y Theori Newid – arweinyddiaeth, hyblygrwydd; adnoddau; cyfathrebu, ymgysylltu a chefnogi Prosiectau yn effeithiol; monitro a gwerthuso; a chydweithio parhaus rhwng y partneriaid cenedlaethol – yn annatod wrth greu a chynnal yr amodau parhaus ar gyfer llwyddiant. Er enghraifft, roedden nhw'n amlwg iawn pan roedd y Bwrdd Prosiect yn gallu sicrhau hyblygrwydd sylweddol a chyllid ychwanegol i alluogi'r Prosiectau i ymateb i Covid-19 cystal ag y gwnaethan nhw. O ran y Prosiectau,

ymysg y deilliannau posibl oedd eu bod yn derbyn cefnogaeth a bod dysgu wedi'i gyflawni a'i rannu, fel y nodir yn y golofn ganol.

7.15 Fodd bynnag, roedd y galluogwyr hynny hefyd yn gysylltiedig â'r deilliannau tymor hwy:

- Roedd cyfranogwyr targed yn mwynhau mwy o weithgarwch corfforol a hwb i'w lles;
- Roedd prosiectau'n dangos bod modd eu datblygu, eu dyblygu a'u bod yn gynaliadwy;
- Rhoddwyd gwersi cydweithio ar waith gydag ymyriadau eraill; a
- Bu i'r dysgu o'r GIE lywio polisïau, rhaglenni a strategaethau.

7.16 Trafodwyd agweddau sylweddol y galluogwyr a'r deilliannau canolraddol a thymor hwy mewn Penodau blaenorol. Yma rydym yn trefnu'r agweddau lefel rhaglen o dan dri phennawd:

- Rheoli Rhaglen a Phrosiectau – rydym yn bwrw golwg ar hyn yn yr ystyr ehangaf gan ymwneud â galluogwyr y rhaglen ac yn enwedig rôl y Bwrdd Prosiect, a hefyd y strwythur Rheoli Rhaglen a rôl y Swyddog Achos;
- Trosglwyddo Dysgu a Pholisi – rydym yn bwrw golwg ar hyn ar lefel rhaglen, gan gynnwys llwybrau dysgu, rôl gweithredwyr trosglwyddo polisi allweddol, a chysylltiadau â'r amgylchedd polisi ehangach; a,
- Ffyrdd o Weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – rydym yn canolbwyntio yma ar sut roedd y gwaith lefel Rhaglen yn arddangos y rhain, a sut y cawsan nhw eu hymgorffori yn agweddau penodol Rhaglen y GIE, ac yn cyfeirio at y graddau y cawsan nhw eu meithrin yn y Prosiectau gan y Rhaglen.

Gan ymdrin â'r tri agwedd, rydym wedi llunio llenyddiaeth ac ymchwil berthnasol o ran yr hyn a ddigwyddodd yn Rhaglen y GIE.

**Rheoli'r Rhaglen a Phrosiectau**

7.17 Er bod cynnwys rhaglenni gwych yn amod angenrheidiol o lwyddiant, nid yw ynddo'i hun yn amod digonol. Mae llawer yn dibynnu ar ba mor effeithiol mae prosiect neu raglen yn cael ei reoli, ac mae llywodraethau olynol y DU a Chymru wedi cymryd camau i gryfhau'r ddarpariaeth sydd, yn draddodiadol, wedi bod yn faes o weinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus sydd heb ei datblygu'n ddigonol[54].

7.18 Mae rheoli prosiectau a rhaglenni yn gweithredu yn unol â chyfres o egwyddorion ac arferion sydd wedi'u hymarfer yn dda, gan gynnwys materion megis strwythur y prosiect, llinellau adrodd, a rolau a chyfrifoldebau. Mae Safon Weithredol Llywodraeth y DU ar Gyflawni Prosiectau, er enghraifft, yn nodi cyfres o egwyddorion[55]:

Bydd y rhai sy'n ymwneud â'r broses cyflawni prosiectau yn sicrhau:

1. bydd amcanion cyflawni yn cyd-fynd â pholisi'r llywodraeth ac amcanion sefydliadau;
2. gellir cyfiawnhau busnes parhaus i gadarnhau buddion a rheoli'r risgiau o ran awydd am risg y sefydliad, a bydd gwaith heb gyfiawnhad yn cael ei derfynu;
3. mae fframweithiau llywodraethu a rheoli, a rheolyddion yn gymesur ac yn briodol i'r gwaith a lefel y risg gyffredinol;
4. caiff atebolrwydd a chyfrifoldebau eu diffinio, eu bod yn gyson i'r holl gyrff sydd ynghlwm a bod modd eu holrhain ledled pob lefel o reolaeth;
5. caiff profiad a gwersi eu casglu, eu rhannu a'u defnyddio i hyrwyddo gwella perfformiad yn y dyfodol;
6. caiff gwaith ei ddiffinio, ei gynllunio, ei fonitro a'i reoli'n briodol, caiff ansawdd ei reoli'n weithredol i sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf posibl o lwyddo a chaiff methodolegau gweithio diffiniedig wedi'u teilwra eu defnyddio yn unol â hynny;
7. mae deilliannau ac allbynnau galluogi yn diwallu'r angen ac yn cael eu dilysu gan randdeiliaid;

[54] Efallai mai'r mwyaf adnabyddus o'r rhain yw Syr Michael Barber (2007), Instruction to Deliver, Politico's Publishing, Llundain
[55] Safon Swyddogaethol y Llywodraeth: GovS 002 Cyflawniad Prosiect Cyhoeddwyd gan Lywodraeth EM ar Orffennaf y 15fed 2021. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn helaeth ag egwyddorion ac arferion Rheoli Prosiect PRINCE 2, t7.

8. caiff gwaith ei gyflawni mewn timau amlddisgyblaethol ac fe gaiff ei neilltuo i bobl sydd â'r gallu a'r capasiti gofynnol;
9. bod y broses o drosglwyddo galluoedd i weithrediadau yn cael ei gynllunio a chaiff y broses o ddirwyn rhaglenni neu brosiectau i ben ei reoli, gan gytuno ar a derbyn cyfrifoldebau gweithredol parhaus; a
10. caiff codau ymddygiad a moeseg gwasanaethau cyhoeddus a phroffesiynau cysylltiedig eu cynnal.

7.19 Er na wnaethom gynnal gwerthusiad llawn o Raglen y GIE gan ddwyn i ystyriaeth yr egwyddorion hyn, maen nhw wedi llywio ein hasesiad. Roedd rhai'n amlwg yn berthnasol, fel y ffordd yr oedd gweithredwyr allweddol yn sicrhau bod y GIE yn cyd-fynd yn llawn â pholisi ac amcanion Llywodraeth Cymru. Roedd eraill, megis manteisio ar y dysgu, ymysg dyheadau Rhaglen y GIE ond fe gawson nhw eu cyflawni i raddau llai.

7.20 Bu i Raglen y GIE gyflawni’r egwyddorion hyn ynghlwm â llawer o'i phrif agweddau, gan gynnwys ei phensaernïaeth, ei model gweithredu, a'i phrosesau allweddol. Cafodd ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect dan arweiniad Uwch Swyddog Cyfrifol (yn wir, cyd-Uwch Swyddogion Cyfrifol yn y camau cynnar). Bu i’r rhaglen reoli ei gwaith ei hun trwy Grŵp Cyflawni a Grŵp Gwerthuso, gydag ystod briodol o gyfranogwyr o ran hynafiaeth, lleoliad sefydliadol, a rolau. Roedd trefniadau o'r fath yn gymharol arferol, ac eithrio yn yr achos hwn eu bod hefyd yn adlewyrchu'r bartneriaeth a'r cydweithio anarferol sef nodwedd y GIE. Cafodd aelodau eu denu o’r pedwar corff sy'n noddi, gan adlewyrchu eu cyfraniad parhaus yn y Rhaglen. Cafodd y Swyddogion Achos a benodwyd i gysylltu gyda’r Prosiectau eu denu o’r gwahanol sefydliadau hefyd.

7.21 Yn yr adran hon byddwn yn canolbwyntio ar ddau faes pwysig o Reoli Rhaglenni y mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o heriau. Sef yw rôl newidiol Bwrdd y Prosiect, a rôl y Swyddogion Achos a'r cysylltiadau rhwng lefelau'r Rhaglen a'r Prosiect.

7.22 <u>Y Bwrdd Prosiect</u>: Roedd Bwrdd Prosiect y GIE wedi’i gyfansoddi yn unol â diben a strwythur llywodraethu penodol. Roedd yr aelodau’n gweddu i’r cydweithio a oedd yn sail i'r GIE a'r amcanion y roedd gobaith y byddai’r GIE yn eu cyflawni. Roedd

yn effeithiol yn ystod camau cynnar y Rhaglen pan bu i grŵp o uwch swyddogion partneriaid gydweithio’n agos ac yn ddwys ar gynllunio a lansio'r Rhaglen.  Roedd tair prif her i'w goresgyn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu’n effeithiol ac yn barhaus wedi hynny:

- natur gynhenid gweinyddiaeth llywodraeth genedlaethol a'i gwaith rheoli pobl gysylltiedig, ynghyd â chanlyniadau Covid-19;
- Absenoldeb rôl Rheolwr Prosiect / Cyfarwyddwr pendant; a
- Diffyg trefniadau hyblyg sy'n cyd-fynd â chylch oes y Rhaglen.

7.23 O ran trosiant ac amser uwch staff, mae uwch swyddogion yn arfer symud rhwng swyddi yn weddol reolaidd a chafodd hyn effaith ar waith oruchwylio’r GIE.  At hyn, unwaith y cafodd y flaenoriaeth bennaf i roi’r GIE ar waith ei gyflawni, aeth y swyddogion ati i ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill.  Yn ogystal, bu'n rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru roi llawer o'u sylw i waith rheoli argyfyngau yn sgil y pandemig.  Bu i hyn effeithio ar aelodaeth y Bwrdd Prosiect ac amlder y cyfarfodydd.  Erbyn 2022 a 2023 dim ond un cyfarfod Bwrdd y Prosiect gafodd ei chynnal mewn blwyddyn i bob pwrpas. Mae’n bwysig crybwyll, bu i nifer o swyddogion gynnal eu cyfranogiad a'u hymrwymiad trwy gydol y broses a darparu cof sefydliadol a chyfunol pwysig.  Bu i aelodau newydd roi hwb ac ysgogiad o’r newydd i’r Bwrdd.  Fodd bynnag, ni wnaeth hyn oresgyn y problemau yn sgil yr anawsterau i ddwyn pobl ynghyd i gynnal cyfarfodydd Bwrdd Prosiect ac is-grŵp mwy rheolaidd.

7.24 Roedd aelodau'r Bwrdd yn cydnabod hyn.

> *'Roedd y Bwrdd Prosiect yn effeithiol i gychwyn, gyda llawer yn cyfrannu, ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Yna gyda dyfodiad Covid roedd yn fwyfwy anodd. Roedd cyfarfodydd yn cael eu canslo a phobl yn peidio â mynychu. Mae’n anodd mynd i’r afael â hyn. Nid yw'r rhan olaf mor atyniadol, ond mae'r un mor bwysig. Mae'n rhaid i chi ddangos eich ymrwymiad tuag at y broses yn ei chyfanrwydd. Pan roedd y Bwrdd Prosiect yn llwyddo i gyfarfod, roedden nhw’n cyflawni gwaith da. Fodd bynnag, roedd y Grŵp Gwerthuso yn ei chael hi’n anodd denu cynrychiolwyr am gyfnod, yn rhannol oherwydd trosiant staff. Roedd y Grŵp*

*Cyflawni’n effeithiol, a gallai Bwrdd Cyflawni fod wedi bod yn ddefnyddiol i gysylltu'r Grŵp Gwerthuso a Bwrdd y Prosiect. Roedd digonedd o gynrychiolaeth ar y Bwrdd Prosiect yn y flwyddyn gyntaf ond yna ar gyfer gweithredu dydd i ddydd, gallai is-fwrdd fod wedi bod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, o ran cynrychiolwyr, bu dirprwyon yn mynychu dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn hytrach nag uwch staff. Mae angen i chi allu trosi syniadau lefel uwch y Bwrdd Prosiect i gyflawni gwaith gwirioneddol, felly roedd angen gweithredu llawer mwy ar lefel Grŵp Cyflawni.'*

*'Wrth i flynyddoedd fynd heibio mae'r Grŵp Cyflawni hefyd wedi rhoi’r gorau iddi – roedd yn grŵp gorchwyl a gorffen'.*

*'Bu i’r Bwrdd Prosiect ailgydio yn y gwaith ac roedd trosiant o ran blaenoriaethau'r prosiect'*, ac *'mae amlder ac effaith Bwrdd y Prosiect wedi newid oherwydd nad oedden nhw’n gallu dwyn pobl ynghyd.'*

[Unwaith roedd y GIE wedi ei sefydlu] *'Roedd y Bwrdd Prosiect yn oddefol yn hytrach nag yn weithredol, ac yn adweithiol. Roedd yn llawer mwy gweithgar a rhagweithiol yn ystod camau cynnar y Rhaglen."*

7.25 Roedd hyn yn sicr yn lleihau dealltwriaeth gweithredwyr lefel rhaglen o'r hyn yr oedd y GIE yn ei gyflawni a'r dysgu o ganlyniad:

*'Yn ystod camau cynnar y rhaglen, roedd parodrwydd i fentro a gwneud pethau gwahanol a rhoi cynnig ar ddulliau newydd a mynd i'r afael â grwpiau targed newydd, ac felly roedd modd arloesi a rhoi polisi ar waith. Mae rhai wedi parhau, er enghraifft yn y maes blynyddoedd cynnar. Ond gan nad yw'r Bwrdd Prosiect yn cyfarfod, nid wyf wedi ymwneud â'r datblygiadau hyn mewn gwirionedd.'*

7.26 Serch hynny, parhaodd y Bwrdd Prosiect i ddarparu cyfarwyddyd a phenderfyniadau pan fo angen:

*"At fy nibenion i, bu Bwrdd y Prosiect yn effeithiol - pe bai Prosiectau'n anfon cwestiwn, a’i fod yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd Prosiect gyda chynnig ar sut i'w ddatrys, roedden nhw’n cyflawni’r hyn a awgrymwyd. Roedden nhw'n gefnogol iawn o ran eu cyfarwyddyd a’u cyflymder gweithio."*

7.27 Mae'r cwestiwn amlwg o ran beth allai fod wedi'i gyflawni'n wahanol i sicrhau bod y Bwrdd Prosiect yn cyfrannu mwy at y gwaith. Roedd hyn o bosibl yn amhosibl yng nghyfnod Covid-19, ond fe wnaeth y Bwrdd Prosiect benderfynu na fyddan nhw'n chwarae rhan mor weithredol yn y gwaith cyn y pandemig.

7.28 Un posibilrwydd fyddai ailddiffinio rôl a swyddogaeth y Bwrdd Prosiect unwaith y bydd y GIE wedi'i lansio. Fel yr eglurodd un gweithredwr:

> *'O ran Bwrdd y Prosiect, yn dilyn rhyddhad y cam cynllunio a lansio, bu i bobl ddangos lai o ymdrech a bu i'r momentwm ostwng, yna bu i hyn ddwysau yn sgil y pandemig. Wnaethon nhw ddim llwyddo i ddenu'r un lefel o ddiddordeb a threfniadaeth yn y rhaglen ac erbyn hynny roedd carfan go wahanol o bobl. Doedd y bobl a oedd ynghlwm yn wreiddiol heb ddiflannu o reidrwydd ond roedden nhw'n brysur yn anochel gyda gofynion newydd a mwy enbyd sef cylch llywodraethu cyson. Efallai y dylem fod wedi ailystyried y rôl - camau amrywiol prosiect yw ei gychwyn, ei gyflawni a'i ddirwyn i ben. Pa ddulliau sy'n addas i'r diben yn ystod pob cam? Efallai bod angen symud yn ymwybodol i gyfnod newydd o fodel llywodraethu sy'n addas i bob un o'r rheini.'*

7.29 Un o'r opsiynau eraill fyddai penodi swyddog i rôl 'Rheolwr Prosiect neu Gyfarwyddwr'[56]. Fel y nodir yn Safon Swyddogaethol Llywodraeth y DU, byddai eu rôl wedi bod yn wahanol i rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol sydd *'yn atebol i'r corff sy'n noddi rhaglen neu brosiect sy'n bodloni ei amcanion, gan gyflawni'r deilliannau gofynnol a gweithredu'r manteision priodol. Mae'r uwch berchennog cyfrifol yn berchen ar yr achos busnes ac mae'n atebol am lywodraethu.'*[57]

7.30 Byddai'r rheolwr rhaglen/prosiect yn *'atebol i'r uwch berchennog cyfrifol am sefydlu'r fframwaith llywodraethu a rheoli ac am reoli rhaglen/prosiect o ddydd i ddydd, i gyflawni'r allbynnau a'r deilliannau a ddymunir, a bodloni'r manteision gofynnol. Mae rheolwr y rhaglen/prosiect yn atebol i'r uwch berchennog cyfrifol am sefydlu'r fframwaith llywodraethu ac am reoli rhaglen/prosiect o ddydd i ddydd, i gyflawni'r*

---

[56] Yn ymarferol, cafodd y rôl hon ei chyflawni'n rhannol gan un o weithredwyr lefel uwch y rhaglen. Fodd bynnag, yr hyn a godir yma yw'r posibilrwydd o rôl benodol wedi'i phennu, gyda disgrifiad rôl, ac amser penodol ar ei chyfer, fel yr awgrymir yn Safon Swyddogaethol Llywodraeth y DU: GovS 002 Cyflawniad Prosiect a gyhoeddwyd gan Lywodraeth EM ar Orffennaf y 15fed 2021.
[57] *Ibid.* t.47

*allbynnau a'r deilliannau a ddymunir, a bodloni'r manteision gofynnol, gan gynnwys, ond sydd heb ei gyfyngu i:*

- *sicrhau bod yr ateb wedi'i gynllunio a bod yr achos busnes a'r cynlluniau wedi'u paratoi;*
- *diffinio'r dull, atebolrwydd, cwmpas gwaith a'r targedau ar gyfer y tîm;*
- *monitro, rhagweld ac adrodd ar gynnydd cyffredinol o gymharu â'r cynllun;*
- *datrys risgiau a phroblemau a rheoli newid;*
- *cyflawni'r allbynnau a'r deilliannau gofynnol;*
- *monitro a rheoli perfformiad cyflenwyr; a*
- *ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid'*[58].

7.31 Roedd meddu ar y ddwy rôl yn cael ei ystyried yn fudd posibl gan nifer o weithredwyr.

> *"O ystyried y lleihad mewn ymrwymiad, byddai cyfarwyddwr rhan-amser wedi helpu... Dros y tymor hir, mae ymrwymiad a ffocws yn gostwng, ac efallai bod angen tîm ar rywun i wneud un peth a thîm arall i wneud peth arall, gan gynnwys tîm i feithrin cysylltiadau polisi ledled y llywodraeth.'*
>
> *'O ran meddu ar rôl gyfarwyddwr posibl, y tu hwnt i uwch swyddog cyfrifol nad yw'n rhoi'r ffocws llawn, byddai hyn wedi bod o fantais. Byddai hefyd wedi bod yn ffordd o gydlynu'r Swyddogion Achos a chanolbwyntio ar ddysgu ganddyn nhw.'*

Y broblem, yn ôl un gweithredwr, oedd bod *'budd heb berchnogaeth' yn sgil diffyg rôl o'r fath.*

7.32 Mae amrywiaeth o bosibiliadau i adlewyrchu'r rolau gwahanol y gellid eu cyflawni (h.y. rheolwr rhaglen yn erbyn cyfarwyddwr rhaglen), a hefyd y gwahanol gamau yng nghylch oes rhaglen ariannu (e.e. datblygu, gweithredu, terfynu). Fel y dywedodd un gweithredwr:

---

[58] *Ibid.* t.47

*"Nid wyf yn credu yr oedd modd cyflawni mwy o ystyried cyfyngiadau'r gronfa. Gallaf weld y rhinwedd o gael tîm gwahanol o bosibl i gymryd yr awenau dros y gwaith gweithredu o'r cam cynllunio a lansio, nid tîm newydd yn gyfan gwbl ond efallai pennu diben newydd. Wnaethon ni ddim canfod sut roedd modd cynnal y GIE yn llwyddiannus, ac mae'n ddigon posibl bod y pandemig wedi tynnu eu sylw oddi ar hynny. Gallaf weld y budd posibl o feddu ar rôl 'cyfarwyddwr' er y byddai yna berygl wedyn o wanhau'r manteision a'r ymdrech ar y cyd. Felly, gall hyn fod yn fater o amseru. Byddai'n rhywun sy'n gyfrifol am gymryd cyfrifoldeb ar lefel fwy gweithredol islaw'r uwch swyddog cyfrifol. Nid oedd gennym y person hwnnw yn ystod y cam gweithredu. Gallai fod yn rheolwr prosiect yn hytrach na chyfarwyddwr, rhywun fyddai'n cynnal y gwaith.'*

7.33 **Swyddogion Achos a'r Bwrdd Prosiect/Cysylltiad Prosiect:** Fel y gwelir uchod, nododd nifer o weithredwyr fwlch rhwng y Bwrdd Prosiect a'r Prosiectau. Roedd cynllun y GIE yn darparu ar gyfer penodi Swyddog Achos o Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Chwaraeon Cymru ar gyfer pob Prosiect. Roedd ganddyn nhw rôl gyswllt a chyfathrebu allweddol ac roedden nhw ynghlwm â'r hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad. Dywedodd un gweithredwr rhaglen: *'Roedd bwlch mawr rhwng y Bwrdd a'r Prosiectau, ac roedd y Swyddogion Achos yn llawer mwy ynghlwm â'r hyn oedd yn digwydd. Roedd rhai digwyddiadau dysgu gyda ffurfiau cymysg iawn a byddai mwy o ymgysylltu wedi bod yn werthfawr.'* Byddai un arall *'wedi hoffi gwybod mwy am yr hyn oedd yn digwydd ar lefel prosiect ond dyma oedd rôl y Swyddog Achos.'*

7.34 Gwaethygodd y bwlch wrth i amser fynd rhagddi.

*"Doedden ni ddim yn dda am gyfleu'r hyn roedden ni (y Bwrdd Prosiect) yn ei gyflawni a sut. Gallem fod wedi llunio cylchlythyr chwarterol, er enghraifft. Fe wnaethon ni fynd i'r afael â hyn drwy sesiynau dysgu ar un adeg a bu inni geisio dwyn pobl ynghyd ond roedd yn anodd. Roedden ni wedi rhagweld rhannu Prosiectau - doedd pobl ddim mor awyddus i gymryd rhan cymaint ag y byddem ni wedi hoffi. Roedd y gronfa yn dod i ben a sut y gallai prosiectau fod yn teimlo hefyd yn broblem. Roeddem yn awyddus i gynnal cynhadledd, gwahodd Byrddau Iechyd ac arddangos y gwaith, ac roeddem wedi ystyried talu am fideos o'r*

*Prosiectau a'u rhannu. Oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, doedd dim modd inni gyflawni hyn. Rydyn ni'n siomedig na allen nhw wneud hyn ac mae'n anodd cyfleu hynny i'r Prosiectau.'*

7.35 Nid oedd rôl y Swyddog Achos yn un hawdd ac ychwanegodd newidiadau personél gymhlethdod pellach:

*'Gallai cyfathrebu parhaus â phrosiectau fod wedi gwella. Gellid bod wedi ystyried trosiant uchel y Swyddogion Achos, a dylem fod wedi meddu ar system ddirprwy ac nid un person yn unig fel pwynt cyswllt. Roedd yn anodd dod o hyd i Swyddogion Achos newydd.'*

*'Roedd cymorth y Swyddogion Achos yn amrywio. Roedd gan rai brofiad o'r math hwn o waith a gallen nhw helpu gyda'r agwedd rheoli'r prosiect neu'r agwedd werthuso. Roedd profiad y Swyddog Achos yn pennu'r cymorth roedd y Prosiectau yn ei dderbyn. Nid oedd lefel safonol o gymorth. Er bod y rôl i fod yn un cyswllt ysgafn, fe wnaethom gynnig cryn dipyn o amser. O safbwynt gwerthuso roedd modd i bawb fanteisio ar yr un faint o gymorth ac roedd dogfen ganllaw safonol wedi'i chynhyrchu. Roedden nhw hefyd yn cynnal clinigau gwerthuso. Roedd nifer uchel o e-byst a galwadau a allai fod yn eithaf sylfaenol megis 'sut ydw i'n cynnal grŵp ffocws' a gwybodaeth am y tabl trosi ar gyfer IPAQ. Roedd rhai Prosiectau wedi cynnal llawer o sesiynau un-i-un, mwy nag oedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Roedd angen llai o gymorth ar Brosiectau oedd â myfyrwyr PhD ynghlwm neu oedd wedi comisiynu gwerthusiadau. Dyrannwyd hanner diwrnod yr wythnos ar gyfer (rhai o'r) Swyddogion Achos – roedden ni'n derbyn cymorth fesul dipyn ond nid yn rheolaidd.'*

*"Bu i newid personél a chynllunio ar gyfer yr adnodd staffio oedd ei angen achosi effaith. Roedd newidiadau ar lefel y Swyddog Achos hyd yn oed cyn y pandemig. Roedd disgrifiad rôl ar gyfer y Swyddogion Achos ond mae'n bosibl nad oedden nhw'n ymwybodol o hwnnw. Nid oedd dull ar gyfer eu dwyn ynghyd ac nid oedd pob Swyddog Achos yr un mor gymwys i gyflawni'r rôl.'*

7.36 Roedd y prosiectau hefyd yn amrywio o ran eu hanghenion:

*'Roedd angen cymorth agos ar rai Prosiectau ac roedd rhai yn eithaf heriol o ran eu disgwyliadau. O ran cefnogaeth gan Swyddogion Achos roedd hi'n anodd, oherwydd doedden ni ddim yn gwerthfawrogi dwyster yr adnoddau oedd eu hangen. Wrth symud ymlaen, byddwn wedi trefnu 2 neu 3 Swyddog Achos i bob Prosiect i rannu'r llwyth, neu griw neu swp o Swyddogion Achos i fanteisio arnyn nhw.'*

7.37 Roedd camau y gellid bod wedi'u cymryd i sicrhau bod yr amrywiad yn gyfartal, cryfhau gallu'r Swyddogion Achos yn gyffredinol, eu galluogi i ddysgu mwy gan ei gilydd, a phontio'r bwlch yn fwy effeithiol rhwng y Prosiectau a Bwrdd y Prosiect.

**Trosglwyddo Dysgu a Pholisïau**

7.38 Bu dysgu a throsglwyddo polisïau cysylltiedig i ymyriadau a pharthau polisi eraill yn ganolog i'r GIE drwyddi draw. Er mai'r prif amcan oedd hybu iechyd corfforol a meddyliol grwpiau targed allweddol drwy gynnig modd i bobl fyw bywydau heini, roedd penseiri'r GIE yn ymwybodol iawn bod ei raddfa a'i gwmpas yn golygu na allai'r GIE greu newid ar lefel boblogaeth. Prif fudd hirdymor y rhaglen, felly, fyddai'r dysgu a gynhyrchwyd a allai lywio ymyriadau eraill. Fel y bu i Lywodraeth Cymru ei bwysleisio wrth gomisiynu'r gwerthusiad hwn, un amcan allweddol oedd *'adnabod a manteisio ar wersi gan brosiectau rhagorol ac asesu a oes modd eu datblygu ar lefel genedlaethol'* ond hefyd ac ar gyfer pob elfen o'r gwerthusiad, *'adnabod gwersi y gellir eu dysgu a chynnig argymhellion ar gyfer cyfnodau diweddarach y GIE a chronfeydd eraill neu dechnegau ariannu yn y dyfodol, gan gynnwys eu gwerthuso."*

7.39 Bu diddordeb cynyddol mewn dysgu am bolisïau ac erbyn hyn mae llenyddiaeth sylweddol ar yr amodau sy'n ei alluogi[59]. Mae gan wneuthurwyr polisi wybodaeth gyfyngedig gynhenid am yr union beth fyddai'n fwyaf effeithiol yn y cyd-destunau penodol y maen nhw'n gweithredu ynddyn nhw. Caiff dysgu am bolisïau ei ystyried fel ffordd bwysig o leihau'r ansicrwydd hwnnw drwy adolygu a diweddaru eu rhagdybiaethau ynghylch pa ddewisiadau polisi fydd yn fwyaf effeithiol yng ngoleuni profiad. Felly, yn ei ystyr ehangaf, caiff dysgu am bolisïau ei ddiffinio fel diweddaru

[59] Gweler, er enghraifft, Bennett and Howlett (1992); Dunlop and Radaelli (2013); Freeman (2006); Grin and Loeber (2007); Parsons (1995)

credoau a dewisiadau polisi[60] ac mae'n ymwneud â’r prosesau hynny 'ble mae llywodraethau'n cynyddu eu deallusrwydd a'u soffistigedigrwydd ac yn y modd hwn yn gwella effeithiolrwydd eu gweithredoedd'[61]. Hefyd yn berthnasol i'r GIE mae cysyniadau cysylltiedig dros ben 'trosglwyddo polisi' ac 'ymledu polisi', sy'n cael ei ddiffinio fel proses lle mae gwneuthurwyr penderfyniadau mewn un lleoliad sefydliadol yn dysgu o'r penderfyniadau polisi a wneir mewn un arall[62]. Gellir trosglwyddo polisïau rhwng ardaloedd, gwahanol sectorau neu awdurdodaethau gwahanol, ac ymysg y dulliau ar gyfer annog trosglwyddo polisi mae dynwared gwirfoddol, gorfodaeth neu gystadleuaeth.

7.40 Nod dysgu am bolisïau yw deall beth sy'n effeithiol, pam, ble ac i bwy? Dyma rai o’r cwestiynau allweddol:

1. Arfarniad polisi - A wnaethom ddewis yr opsiwn (opsiynau) polisi gorau?
2. Gweithredu polisi - A wnaethom ddefnyddio'r adnodd(au) polisi cywir?
3. Gwireddu buddiannau - A wnaethom gyflawni'r effeithiau a fwriadwyd?
4. Trosglwyddadwyedd – A ellid addasu/mabwysiadu'r polisi yn llwyddiannus mewn cyd-destunau eraill?

7.41 Mae llunwyr polisi yn ymwybodol o'r hyn sy'n effeithiol ambell waith ac felly mae dysgu am bolisïau yn ymwneud â chyflwyno atebion sydd wedi'u profi. Mewn achosion eraill lle nad yw llunwyr polisi yn ymwybodol o’r hyn sy’n effeithiol, mae angen inni arbrofi i wirio dulliau a darganfod beth sy'n effeithiol[63]. Mae gan gwaith gwerthuso rôl allweddol i’w chwarae ynghlwm â hyn drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am yr hyn sy'n cael ei gyflawni a sut, a datblygu’r gallu i weithredu i addasu cynllun a gweithrediad polisïau yng ngoleuni gwybodaeth o'r fath[64]. Gellir arbrofi ar wahanol raddfeydd, gan amrywio lefel y prosiect i systemau cyfan, ac mae rhai ymchwilwyr wedi dadlau dros 'y gymdeithas arbrofi' a fyddai 'yn weithredol, yn ffafrio arloesi yn hytrach na gweithredu; byddai'n gymdeithas

[60] Dunlop and Radaelli (2013)
[61] Etheridge and short (1983: 77-78)
[62] Dolowitz and Marsh (2000)
[63] Campbell and Russo (1999)
[64] Dunsire (1986)

esblygol, sy’n dysgu ac yn gymdeithas onest, sydd wedi ymrwymo i brofi realiti, i hunan-feirniadu ac i osgoi hunandwyll; byddai'n annogmataidd, yn atebol, yn ddatganoledig ac yn wyddonol.'[65]

7.42 Mae'r GIE yn cyd-fynd â'r ffordd hon o feddwl. Fe'i cynlluniwyd yn benodol i gynnig dysgu am bolisïau am 'yr hyn sy'n gweithio' drwy 'brototeipio'[66] – manteisio ar gysyniad a darganfod sut y gellir ei addasu a'i fireinio i weithio'n well. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â lleihau ansicrwydd i lunwyr polisïau, ond mae hefyd yn helpu i sicrhau cyfleoedd a ffyrdd newydd o feddwl a gweithio sydd yn ei dro yn helpu i ehangu cwmpas opsiynau polisi yn y dyfodol, nodi gweithredwyr newydd i gymryd rhan mewn gwaith datblygu a gweithredu polisïau, a phrofi ac atgyfnerthu themâu presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg mewn ymyriadau cyfredol.

7.43 Mae angen i ddysgu/trosglwyddo/ymledu polisi effeithiol ddwyn i ystyriaeth elfennau 'caled' megis problemau polisi, amcanion polisi ac arfau polisi yn ogystal ag elfennau 'meddal' fel syniadau, ideolegau a gwerthoedd gwleidyddol. Mae union raddau’r dysgu polisi yn dibynnu'n rhannol ar allu gwybyddol ac amsugnol gweithredwyr polisi. Yn wyneb y gofynion lluosog, brys yn aml, a phrinder amser a ‘gallu meddyliol’, mae 'gallu dysgu' y llunwyr polisi yn aml yn gyfyngedig. Felly, mae cyfryngwyr - fel gwerthuswyr ac arbenigwyr polisi - yn gyfrifol o bryd i’w gilydd am nodi a rhannu dysgu polisi[67]. Mae bodolaeth grwpiau o weithwyr proffesiynol o'r un anian sy'n rhannu gwerthoedd, amcanion a chredoau cymharol debyg, hefyd yn creu amodau addawol ar gyfer cynhyrchu a lledaenu dysgu polisi[68]. Ac mae'r 'fframwaith clymblaid eiriolaeth', a ddefnyddir yn eang mewn astudiaethau polisi, yn disgrifio sut mae grwpiau o weithredwyr sy'n gweithredu mewn 'is-systemau polisi' yn cydweithio i sicrhau 'newidiadau cymharol barhaus o...... fwriadau ymddygiadol sy'n deillio o brofiad'[69].

7.44 I'r gwrthwyneb, mae rhannu cymunedau polisi a diffyg gallu polisi yn rhwystrau sylweddol ac sy’n codi’n aml o ran dysgu am bolisïau. Felly mae'n bwysig meithrin

[65] Oakley (2000) t. 320
[66] Sanderson (2002)
[67] Deutsch (1963)
[68] Hass and Haas (1995); Dunlop (2013)
[69] Sabatier and Jenkins-Smith (1993: 42)

diwylliannau sefydliadol sy'n ffafriol i fyfyrio a thrafod, trwy greu fforymau i'w trin a'u trafod ymhlith gweithredwyr a diwylliannau polisi sy'n ‘caniatáu’ iddyn nhw fyfyrio a chwestiynu[70].

7.45 Mae'r mewnwelediadau hyn o'r llenyddiaeth ar ddysgu a throsglwyddo polisi, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein hasesiad o sut mae'r GIE wedi gweithio hyd yma i gynhyrchu a rhannu dysgu, a'r hyn y gallai fod angen ei wneud yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar yr ased dysgu y mae'r GIE yn ei gynrychioli. Cyflwynir y deunydd gan ymwneud â thri chasgliad allweddol o'n gwerthusiad:

- Cynhyrchodd y GIE ddysgu defnyddiol ar lefel rhaglen. Mae'n ansicr a yw hynny'n cael ei drosglwyddo/ei ddefnyddio'n systematig eto, er y gallai'r gwerthusiad hwn helpu i gyflawni hynny'n rhannol. Bu i’r GIE hefyd gynhyrchu gwersi defnyddiol ar lefel prosiect hefyd. Roedd rhai yn atgyfnerthu gwybodaeth bresennol ond roedd rhai yn cynnig mewnwelediadau o’r newydd.
- Mae tystiolaeth gan rai o’r cyfwelai o rywfaint o ddiddordeb parhaus yn y GIE ymysg gweithwyr lefel uwch, a gellir canfod rhai llinynnau dylanwad sy'n deillio o'r GIE. Fodd bynnag, ni welodd llawer o uwch-weithredwyr a gyfwelwyd gennym y rhain, hyd yn oed y rheiny oedd ynghlwm â’r GIE. Felly mae'n rhaid eu hystyried yn gyfyngedig o ran eu cyrhaeddiad nid yn unig y tu hwnt i'r GIE ond hefyd ymhlith gweithredwyr Lefel Rhaglen y GIE.
- Nid yw'n ymddangos bod llwybr systematig ar gyfer trosglwyddo polisi a dysgu ar naill ai lefel rhaglen neu brosiect. Nid oes hyrwyddwr amlwg gyda'r gallu i greu un. Nid yw'r Bwrdd Prosiect yn gysylltiedig â dysgu Prosiect, fel yr adlewyrchir yn absenoldeb digwyddiad cloi ac unrhyw gasglu a rhannu systematig o wersi Prosiect o fewn system Rheoli Rhaglen y GIE.

7.46 <u>Dysgu Defnyddiol</u>: Nododd llawer o'r gweithredwyr lefel rhaglen a gafodd eu cyfweld ddysgu cadarnhaol o ganlyniad i’r GIE. Amlygodd un gysylltiadau lluosog y GIE, er enghraifft gyda 'Pwysau Iach: Cymru Iach', ac â phresgripsiynu cymdeithasol lle bu datblygiadau polisi sylweddol yn ddiweddar. Fodd bynnag, bu iddyn nhw adrodd:

[70] Dunlop and Radaelli (2018)

*'Nid yw llawer o'r rhaglen yn arbennig o newydd, mae'n gallu dangos arloesedd yn yr ystyr ei bod yn dangos y gall y ffyrdd hyn o weithio fod yn fwy gwydn a chadarn. Ond fe wnaethan nhw ddangos arloesedd yn ystod Covid, ac roedd budd hefyd yn sgil y mathau eang iawn o brosiectau o ran oedran, daearyddiaeth, teuluoedd, iechyd meddwl, a gwahanol fathau o ymyrraeth.'*

7.47 Roedd gwersi hefyd am gynaliadwyedd: '*Roedd yr agwedd cynaliadwyedd yn un o ddiddordeb penodol. Mae'n ymddangos bod effaith sylweddol gyda rhywfaint o hirhoedledd mewn rhai cymunedau unigol.'*

7.48 Un agwedd bwysig o arloesi oedd y *'parodrwydd i fethu â chynnig cyfle i bobl roi cynnig arni'.* Roedd y bartneriaeth ar lefel genedlaethol hefyd yn newydd: *'Roedd gweithio gyda'r partneriaid cenedlaethol yn agwedd newydd ac roedd Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru yn cael ei datblygu i ymwneud â'r partneriaid hynny.'* Roedd gweithredwr sector arall yn credu bod y dewis o Brosiectau wedi bod yn arloesol. Roedd hynny'n *'gam allweddol o ran arloesi'.* Fe wnaethon nhw hefyd dynnu sylw at *'gydweithio arloesol gyda chyrff eraill. Er bod angen cadarnhad arnaf drwy'r gwerthusiadau lefel prosiect, rwy'n tybio bod yr agwedd gydweithredol yn effeithiol ar lefel prosiect hefyd.'* Bu iddyn nhw hefyd weld cysylltiad rhwng y GIE a maes arloesol presgripsiynu cymdeithasol - roedd hwn yn faes arloesi a oedd yn faes gweithgarwch penodol mewn nifer o'r Prosiectau.

7.49 Roedd effaith gadarnhaol bellach ar bolisïau a hynny yn sgil y cysylltiad rhwng iechyd a chwaraeon:

*"Roedd Gweinidogion yn awyddus i gysylltu chwaraeon ac iechyd, wedi'i ategu gan strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a thrwy gysylltiadau penodol ar lefel Prif Weithredwr. Llwyddodd Chwaraeon Cymru i helpu i lunio'r strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a derbyniwyd adborth da am y cyfraniad hwnnw gan swyddogion iechyd. Felly bu i'r GIE gynorthwyo i dorri'r tir newydd hwnnw.'*

7.50 Bu i'r GIE dorri tir newydd i rai, ond ni wnaeth ei baratoi'n gyfan gwbl i allu parhau i ddwyn ffrwyth. Dywedodd un gweithredwr Rhaglen

*'Roeddwn i wedi gobeithio y byddai'r Rhaglen yn fwy o ran ei maint a'i graddfa. Er enghraifft, mae lefelau gweithgarwch pobl ifanc ledled y wlad yn segur, a bydd*

*angen cynnal ymyrraeth sylweddol i fynd i'r afael â hynny. Ydyn ni'n ystyried iechyd y genedl yn yr hirdymor yn ddigonol? Rydym wedi cychwyn arni, ond yn araf deg. Mae'r ymdrechion ar waith yn araf deg oherwydd roedd Covid yn broblem a rhaid oedd i rai o'r eiriolwyr cryfaf ar ran y GIE ganolbwyntio ar agweddau eraill. Roedd Chwaraeon Cymru yn wynebu argyfwng ac roedd diffyg cyllid ar gyfer mentrau newydd. Bu i'r Rhaglen ddarparu cyllid tymor byr ond roedd angen cyllid tymor hwy. O ran a oes modd sicrhau hyn rŵan, mae peth gwaith yn cael ei gyflawni, ond ar Brosiectau yn hytrach na dull mwy cyffredinol. Roedd ymdrechion ar waith [i] sefydlu grŵp gweithgarwch corfforol, ond ni lwyddodd i ddwyn ffrwyth.'*

7.51 Roedd amheuaeth hefyd ynghylch a fydd y dysgu'n cael ei ddefnyddio yn y dyfodol*:*

*"Mae pobl yn teimlo brwdfrydedd i fwrw iddi ar hyn o bryd, ond nid yw hyn yn ymwneud â'r tymor hwy. Mae angen cyllideb ar gyfer hybu iechyd ar raddfa eithaf gwahanol. Mae risg sylweddol y bydd yn parhau i fod yn dameidiog.'*

7.52 Roedd un uwch weithredwr yn credu bod y GIE wedi creu gwersi pwysig nad oedd wedi'u cymhathu hyd yma: *'Roedd y broses grantiau bach yn ymddangos yn effeithiol ond nid yw wedi'i chrynhoi a'i myfyrio'n ddigonol eto'.* Ond dywedodd un arall: *'Fe wnaethon ni ddysgu am y galluoedd sydd eu hangen ar gyfer sefydliadau bach, a chymhwysedd wrth gasglu data. Roedd hyn yn wers sylweddol. Mae gennym bellach well dealltwriaeth o'r amser a'r anawsterau a'r adnoddau sydd eu hangen i gasglu data, a'r disgwyliad bod angen i'r cyfranogwyr gwblhau ffurflen. Gall rhai Prosiectau ddangos gwahaniaeth sydd wedi'i gyflawni eisoes.'*

7.53 Roedd rhai gweithredwyr yn amau bod y GIE hyd yma wedi darparu gwersi am sut i sicrhau cynaliadwyedd.

*"Yn ôl y disgwyl, ychydig iawn o gynaliadwyedd sydd wedi bod. O ran dysgu polisi, ni wyddaf am hynny hyd yn hyn. Mae'r arloesedd ar waith yn sgil y cydweithio ar lefel rhaglen, gyda rhywfaint o arloesi ar lefel prosiect o ran cynnwys. Mewn gwirionedd, roedd tri math o Brosiect. Roedd yna rai a oedd yn cyflawni gwasanaeth yn rhywle arall ac yn awyddus i'w roi ar waith mewn ardal ddaearyddol wahanol. Roedd yna rai oedd yn dal ati gyda'u gwasanaeth neu'n*

*ymestyn eu gwasanaeth presennol. At hyn, roedd rhai yn ymateb i angen penodol."*

7.54 Roedd yr effeithiau 'polisi' yn unigol ac yn bersonol, yn ogystal â sefydliadol. Dywedodd un bod y GIE yn

> *"brofiad dysgu enfawr. Yn bersonol, rwyf wedi datblygu'n sylweddol o ran agweddau megis rheoli rhanddeiliaid, pethau sy'n anodd eu dysgu ar gwrs. Mae hefyd wedi gosod y sylfaen ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Mae effaith y GIE ar bolisïau sefydliadol wedi ymdrin â menter sydd...... yn ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru felly mae hyn yn enghraifft o gydweithio pellach. Hefyd, mae rhai o'r Prosiectau yn rai y mae modd eu datblygu o ran eu symlrwydd a'r modd eu dyblygu.'*

7.55 Fel y nodwyd uchod, cyfeiriwyd at bresgripsiynu cymdeithasol gan nifer o weithredwyr fel maes posibl neu wirioneddol o drosglwyddo polisi o'r GIE.

> Mae *'wedi helpu i gynyddu'r gronfa dystiolaeth am bresgripsiynu cymdeithasol. Byddwn yn bwrw golwg ar y deilliannau oherwydd bod dysgu sylweddol i'w gaffael ar sut y bu i'r Prosiectau ymgymryd ag o. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn wasanaeth sydd wedi'i ddatblygu, a byddwn yn ymdrin â'r arfer gorau nid rheolau ynghylch sut i'w gyflawni. Gan hynny, mae'r arfer o Brosiectau'r GIE yn werthfawr dros ben.'*

7.56 Roedd llawer o aelodau'r Bwrdd Prosiect yn bwyllog wrth iddyn nhw asesu'r dysgu lefel Prosiect oherwydd nad oedden nhw'n teimlo'n ddigon ynghlwm â'r rhaglen i fod yn hyderus yn eu dyfarniadau. Yn hytrach, roedden nhw'n dibynnu ar farn Swyddogion Achos, ac roedd y rhain yn gadarnhaol ar y cyfan: *'Yn ôl swyddogion achos, fe gynhaliwyd ymyriadau lleol effeithiol trwy'r prosiectau a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan, yn ddefnyddiol ac yn werth chweil, ac yn aml yn sgil partneriaethau da.'* Roedd modd hefyd eu datblygu yn unol â'r anghenion:

> *'Mae rhai enghreifftiau lle bu i'r rhaglen arwain at welliannau mewn gweithgarwch corfforol ond rwyf ond yn ymwybodol o'r rhai roedden ni'n ymdrin â nhw. Ni allaf siarad ar ran y grŵp cyfan. Nid oedd gan y Bwrdd Prosiect y crynodeb hwnnw o'r*

*buddion. Mae un Prosiect wedi rhannu'r hyn maen nhw'n meddwl sy'n fodel mewn perthynas ag ysgolion. Ni chawsan nhw gyfle i gyflwyno hyn gerbron Bwrdd y Prosiect. Dywedodd Llywodraeth Cymru i gychwyn y bydden nhw'n cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â 'Pwysau Iach: Cymru Iach', fel y byddai prosiectau'r GIE yn cael eu gwahodd i fforymau lle byddan nhw'n ymdrin â gweithgarwch corfforol. Ond dydw i ddim yn meddwl bod hyn wedi digwydd."*

7.57 Mae'n amlwg o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gennym fod un amod sylfaenol ac angenrheidiol (ond sydd ddim yn ddigonol) ar gyfer trosglwyddo polisi a dysgu wedi'i fodloni'n amlwg gan y GIE. Roedd y gweithredwyr lefel rhaglen yn credu'n gryf bod yna ddysgu i'w gaffael, er eu bod yn pwysleisio gwahanol agweddau. Cytunwyd bod cynnwys dysgu ar gael ac roedd uwch weithredwyr yn gadarnhaol am ei berthnasedd ehangach, er nad oedd rhai yn credu ei fod wedi'i ddefnyddio'n llawn hyd yma.

7.58 <u>Defnyddio'r Dysgu</u>**:** Yna bydd angen penderfynu'r ffordd orau o roi'r dysgu o'r GIE ar waith. Dywedodd un uwch weithredwr:

> *'bydd angen pennu pa ddylanwad y gallai ei gael ar lwybrau i hybu lles corfforol a meddyliol, a sut y gellir dysgu'r gwersi. Mae'n bosibl y gallai'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fod o fudd. Mae cynaliadwyedd hefyd yn bwysig iawn, er enghraifft os yw Prosiectau'n darparu cyllid sbarduno neu a yw'r gwaith yn dod i ben pan ddaw'r cyllid i ben? Mae'r Gweinidogion wedi bod yn ymwybodol ac............. weithiau byddaf yn rhannu agwedd o ddysgu (mewn cyfarfodydd allweddol). Rwy'n bwrw golwg ar y gwerthusiadau annibynnol a chadarn ar lefel y rhaglen a'r prosiect yn arbennig i hwyluso'r broses o roi'r dysgu ar waith.'*

7.59 Roedd eraill yn teimlo nad oedd gan y dysgu lwybr amlwg:

> *'O ran dylanwad y Rhaglen ar raglenni eraill ni allaf feddwl am unrhyw linynnau sy'n ei chysylltu â rhaglenni eraill. Fe ddylai bod llinynnau ar ryw adeg unwaith iddyn nhw gaffael y dysgu. Y cwestiwn ydy a fydd yn cael ei rannu. Bydd y dysgu yn nwylo gweithredwyr allweddol ac ni wyddom ble mae'r strategaeth lledaenu. Mae rhannu dysgu'n weithredol, neu ddiffyg hynny, yn wendid yn y system. Gellir ei gyflawni. Does dim man amlwg i'r gwersi polisi. Ni wnaeth y naratif newid*

*oroesi'r newidiadau o ran personél ynghlwm â'r Rhaglen. Mae angen penderfynu sut i gynnal hyn oherwydd mae'r edefyn yn dod i ben. Gall hyn fod yn wers ehangach."*

7.60 Roedd y syniad hwn o golli cyfle ar gyfer dysgu ehangach yn thema barhaus.

*"Mae'n teimlo fel nad ydyn ni wedi cau pen y mwdwl ar y Rhaglen yn ddigonol. Yn ddelfrydol, byddem yn gofyn i bobl ddod yn ôl am sgwrs ac yn trafod ac yn myfyrio ar y gwersi ac yn meddwl am yr hyn y gellid ei gyflawni a gyda phwy. Gallai hyn ymwneud â chynghorwyr arbennig, y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, a'r Pennaeth Polisi, yn enwedig os oedd yn gysylltiedig â'r defnydd o adnoddau.'*

7.61 Mynegodd uwch weithredwr ymdeimlad tebyg o golli cyfle sy'n gysylltiedig â rôl Bwrdd y Prosiect.

*"Yn y flwyddyn olaf gwelwyd newid yng ngallu Llywodraeth Cymru ac ym mlynyddoedd 3 i 4 roedd gan Fwrdd y Prosiect lai o fomentwm ac egni ac roedden nhw'n cynnal llai o gyfarfodydd. Fe wnes i ofyn i Fwrdd y Prosiect am hyrwyddo'r Prosiectau ymhellach mewn digwyddiad ond ni ddigwyddodd hynny. Gallai rywun chwilio am gysylltiadau â strwythurau a phrosesau eraill, nid chwilio am gyllid o reidrwydd ond ceisio dod o hyd i ffyrdd o gofnodi dysgu y gallai eraill eu defnyddio wedyn. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y gallu i wneud hyn. Roedd yna gynnig i gyfuno digwyddiad dysgu gyda digwyddiad arall, ond ni ddigwyddodd hynny. Y cwestiwn yw lle mae'r pwyntiau dysgu allweddol, a beth ydyn ni'n ei wneud gyda'r rheini? Os nad ydym yn manteisio ar y dysgu o'r Rhaglen rydym wedi colli cyfle. Nid wyf yn sicr bod y dysgu wedi'i roi ar waith yn unrhyw le. Nid wyf wedi ei weld, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddull i gasglu'r dysgu. Roedd arweinwyr y Prosiect yn awyddus iawn i gwrdd â'r Bwrdd Prosiect a dylai'r Bwrdd Prosiect fod wedi cwrdd â nhw gan wrando arnyn nhw a chydnabod eu hymdrechion. Nid wyf yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol, gan nad wyf ynghlwm â'r Prosiectau ac yn gwybod digon amdanyn nhw. Ond fe fydd agweddau gan Brosiectau, yn enwedig o ran Covid. Lle mae'r dysgu o'r digwyddiadau dysgu? Mae yna agweddau effeithiol arfaethedig mewn gwerthusiadau, ond ym mhle? Efallai bod y Swyddogion Achos yn meddu arnyn nhw. Doedd dim proses i gasglu a chrynhoi'r*

*dysgu a'r hynny y mae'n rhaid ei gyflawni a pheidio â'i gyflawni. O ran a yw'r gwersi o'r Rhaglen wedi dylanwadu ar raglenni eraill, gall hyn ddigwydd ar lefel prosiect lle maen nhw wedi defnyddio eu dysgu, ond nid ar gyfer y Rhaglen yn ei chyfanrwydd ar sail ymyrraeth.'*

7.62 Mae tystiolaeth gref nad yw'r llwybrau a'r strwythurau dysgu wedi eu rhoi ar waith i alluogi i wersi o'r GIE gael ei drosglwyddo i fannau eraill. Nid oedd y gweithredwyr allweddol yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i alluogi hynny i ddigwydd, ac eithrio'r hyn a allai ddeillio o'r gwerthusiad hwn ac, ar lefel Prosiect, o werthusiadau'r Prosiect. Roedd y gweithredwyr eu hunain yn gallu gweld bod yna ddysgu i'w gaffael, ond i raddau helaeth roedd yn parhau ar y lefel oedd yn cael ei alw'n lefel 'dawel'. Nid yw wedi'i gyfundrefnu na'i grynhoi ac nid yw ar gael[71].

**Ffyrdd o weithio**

7.63 Roedd partneriaid y GIE yn awyddus i werthuso i ba raddau yr oedd y GIE yn arddangos y pump 'ffordd o weithio' sydd wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y GIE yn un o'r ymyriadau a aseswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gwerthusiad cynnar o weithrediad y Ddeddf[72].

7.64 Un o'r cwestiynau a ofynnwyd i ni gan Lywodraeth Cymru oedd i ba raddau y mae'r GIE wedi llwyddo i feithrin y 'pum ffordd o weithio' ledled y Prosiectau. Yn hyn o beth, nid oes llawer i'w ychwanegu at y dadansoddiad a ddarparwyd gennym yn yr Adroddiad gwerthuso Proses y GIE. Dangosodd hynny fod rhwng 75 y cant ac 80 y cant o ymgeiswyr yn teimlo bod proses y GIE wedi sicrhau modd i roi'r pum ffordd o weithio ar waith. Dangosodd y dadansoddiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fod y Rhaglen wedi meithrin cydweithio a chyfranogiad gyda, ac yn y Prosiectau, drwy broses y GIE fel y disgrifir ym Mhennod 2, a thrwy'r gofynion ymgeisio, a hefyd wedi gweithredu 'integreiddio' drwy'r amcanion a'r meini prawf cafodd y Prosiectau eu hasesu yn eu herbyn. O ran 'tymor hir' ac 'atal', roedd y ddau yn ddyheadau'r GIE a'r Prosiectau, ond dim ond cyllid cymharol dymor byr a ddarparwyd gan y Rhaglen ei hun. Mae gwerth yr GIE o ran buddion hirdymor ar

71 Gweler J. Hartley and L. Rashman (2018).

72 Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Llywodraeth Cymru, Cyfeirnod dogfennau: 1536A2019-20, Cyhoeddwyd Tachwedd 2019

lefel y cyfranogwr, y sefydliad a'r lefelau polisi yn dibynnu'n rhannol ar gynaliadwyedd y Prosiectau, Caiff hyn ei asesu yn 2024. Dim ond yn yr hirdymor y gallai problemau atal ddod i'r amlwg, a phe bai'r Rhaglen wedi'i lunio'n fwy penodol at y diben hwnnw. Fel y dywedodd un o'r cyfweleion ar lefel y rhaglen isod, *'nid yw cyllid tymor byr yn gyson iawn â'r ffyrdd o weithio'.*

7.65 O ran sut cafodd y ffyrdd o weithio eu gweithredu yn ystod a thua diwedd y GIE, bu i'r Adroddiadau Dros Dro a'r asesiad o'r themâu sy'n deillio o adroddiadau'r Prosiectau gynnig cipolwg o'u perthnasedd parhaus i'r GIE ar lefel Rhaglen.

7.66 Ar lefel rhaglen, roedd yn amlwg bod y pum ffordd o weithio yn bwynt cyfeirio yn hytrach na chanllaw uniongyrchol ar weithredu. Dywedodd un, mae'r *'pum ffordd o weithio yn dal i fod yn adnodd gwerth chweil ar gyfer adolygu gweithgarwch. Mae'r brwdfrydedd yn dal i fod yno a bu dysgu ar y cyd a diddordeb parhaus.'* Soniodd un arall, fodd bynnag, eu bod yn fwy arwyddocaol yn nyddiau cynnar y GIE*:*

> *"Roedd cysylltiad da rhwng Bwrdd y Prosiect a'r Grwpiau Gwerthuso a Chyflawni ond unwaith eto roedd hyn yn ymwneud â'r bobl a'u perthnasoedd. Roedd y Swyddfa Archwilio a'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio yn bwysig i ni. Bu i aelodau o staff adael a chafodd hyn effaith ar y GIE, yn enwedig yn ystod cyfnod Covid, gan arwain at golli momentwm a diffyg pobl yn manteisio ar y rhaglen. Bu pobl yn ymddiddori llai yn y rhaglen ac nid yw methodoleg y prosiect wedi ei roi ar waith mewn gwirionedd.'*

7.67 Bu iddyn nhw nodi agweddau a oedd yn golygu nad oedd y ffyrdd o weithio mor amlwg wrth i'r GIE fynd rhagddi:

> *'Mae gen i ymdeimlad o gyflawniad a balchder o hyd ynglŷn â'r hyn wnaethon ni wrth greu'r GIE. Fodd bynnag, mae pobl yn awr, os rhywbeth, yn fwy diysgog ac yn llai cydweithredol, ac fe hoffwn pe bai mwy'n cael ei gyflawni. Mae gweithio o bell wedi ei gwneud hi'n llawer anoddach, mae pobl yn symud ymlaen, dydyn nhw ddim yn ymwybodol o'r cefndir na phobl eraill. Roedden nhw arfer adnabod ei gilydd yn llawer gwell. Roedd y personoliaethau ar y pryd yn bwysig ac fe wnaethon ni wneud ffrindiau yn gyflym yr wyf yn dal yn eu gwerthfawrogi hyd yma, ac rydym yn dal i gadw mewn cysylltiad. Mae gen i atgofion melys, ac*

*roeddwn i wedi llwyr ymgolli ynddo a’r holl waith wnaethon ni ei gyflawni, ac roedd y gwersi wnaethon ni eu dysgu’n hollbwysig. Does dim byd tebyg wedi bod ers hynny, bu llawer o weithredu a pholisïau trawslywodraethol, ac mae'r cynlluniau hynny wedi bod yn llwyddiannus, ond nid ydyn nhw o reidrwydd yn gysylltiedig. Mae dwyn pobl ynghyd wedi bod yn effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth ond mae wedi’i seilio yn aml ar eglurder cyfrifoldebau Gweinidogol, gyda Gweinidog dros chwaraeon ond gan gyfuno gweithgarwch corfforol ac Iechyd.'*

7.68 Soniodd uwch weithredwr mewn sefydliad arall am y cyferbyniad rhwng y dyddiau cynnar a'r gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddarach.

*"Roedd dealltwriaeth gref ar y cyd ymhlith y chwaraewyr allweddol. Roedd y cydweithio helaeth yn fenter newydd ac edrychodd y Swyddfa Archwilio arno... nid cyllideb gyfun oedd hi mewn gwirionedd ond cyllideb ar y cyd. Yn amlwg, roeddem wedi gweithio gyda'r llywodraeth a gyda'r partneriaid eraill, ond roedd natur driochrog y Rhaglen yn newydd. Y sbardun oedd yr ymrwymiadau maniffesto a hefyd yr adolygiad o Chwaraeon Cymru ac argymhellion hynny tuag at gydweithio, a chryfhau'r berthynas rhwng chwaraeon ac iechyd mewn llywodraeth, a rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Buom yn gweithio'n dda yn y dyddiau cynnar ac roedd hyn yn amlwg gyda dosbarthiad y gwaith, yn yr arweinyddiaeth strategol ar lefelau uwch, ac yn y ddealltwriaeth a'r awydd cyffredin....'*

7.69 Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r un gweithredwr hwnnw *'wedi bod yn ceisio ychwanegu’r mater cydweithio rhwng rhwydweithiau ar yr amcan barhaus, a bu rhywfaint o egin gobaith cadarnhaol yn y rhanbarthau, ond nid oherwydd y GIE.'*

7.70 Roedd uwch weithredwr arall y rhaglen hefyd yn clodfori’r cydweithio yn sgil y GIE:

*'Roedd y dull cydweithio yn ffordd dda o ddysgu a bu inni elwa o wahanol safbwyntiau a gweithio gyda’n gilydd, felly cafodd yr agwedd bartneriaeth ar lefel genedlaethol ei chyflawni yn gymharol gynnar ar lefel rhaglen. Bu i’r syniad partneriaeth fy nylanwadu i a fy syniadau ac roedd gwerth cydweithio yn amlwg. O ran y ffyrdd o weithio dylai fod wedi ymwneud ag atal, yn amlwg nid oedd yn*

*hirdymor, roedd integreiddio ac roedd ymglymiad. Nid yw cyllid tymor byr yn gyson â'r pum ffordd o weithio mewn gwirionedd.'*

7.71 Dywedon nhw:

*'Rydym yn dda am dreialu heb wybod sut fyddai'r cynllun prawf yn cael ei brif ffrydio, felly mae 'na gylch parhaol o gynlluniau prawf. Os bydden nhw'n llwyddiannus, bydd yn rhaid pennu pwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau fod y cyfan yn brif ffrwd. Byddai goblygiadau ariannol sylweddol bob amser ac yn y byd go iawn a fyddai modd ailadrodd pethau o ystyried y cyfyngiadau ariannol? Buom yn trafod cynaliadwyedd ond ni wnaethon ni grybwyll gallu'r Prosiectau i ddatblygu. Ni wnaethom ofyn y cwestiwn ac efallai y byddai hynny wedi arwain at fwy o weithredu o ran cynllunio i ddefnyddio'r gwersi a'r dysgu o'r cynlluniau prawf. Y broblem sylfaenol yw nad ydym yn brin o syniadau da y gallwn wario arian arnyn nhw, wrth gwrs."*

7.72 Nododd un arall:

*'O ran ffyrdd o weithio, roedd cydweithio ar lefel rhaglen a phrosiect. O ran hirdymor ac atal roedd y Rhaglen yn ceisio dadlau dros yr achos. O ran cynaliadwyedd byddaf yn cwestiynu faint o ymdrech sydd wedi'i roi ar waith i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer y Prosiectau. Rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i rôl y Swyddog Achos ac mae prosiectau wedi aros ar ein radar. Pan ddaeth (y PBC newydd) atom, roedd y cyfarfodydd yn fwy bachog ac roedd mwy o fynd ynddyn nhw, ond nid yw wedi llwyddo i gadw'r Bwrdd Prosiect at ei gilydd ac mae wedi diflannu i bob pwrpas....... Mae'r ffocws wedi newid, bu'r gerddoriaeth codi calon yn un o'n hymdrechion i gyflawni hyd eithaf ein gallu."*

7.73 Mae'r arsylwad hwn yn mynd i wraidd asesiad o'r ffyrdd o weithio ar lefel Rhaglen y GIE. Y prif gyfrwng ar gyfer rhoi effaith i'r ffyrdd o weithio ar y lefel honno oedd Bwrdd y Prosiect. Dyna lle y gellid bod wedi canolbwyntio ar syniadau ar y cyd am werth posibl gwersi lefel Prosiect ar gyfer newid polisi ac ymddygiad tymor hir, a chamau ataliol, a lle gellid bod wedi mynegi ystyriaeth bellach at y goblygiadau ar gyfer nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill ('integreiddio'). Wrth gwrs, byddai hynny wedi gofyn nid yn unig am Fwrdd Prosiect llawer mwy gweithredol, ond hefyd

cysylltedd cryfach a mwy cyfoethog ac ymgysylltiad â'r Prosiectau, yn enwedig y rhai lle'r oedd gwersi y mae modd eu datblygu a'u dyblygu yn dod i'r amlwg.

7.74 Mae yna agweddau cadarnhaol sydd wedi'u datblygu ar lefel rhaglen, gan gynnwys ategu'r cydweithio sydd wedi'i gyflawni. Soniodd un uwch weithredwr lefel rhaglen am amrywiaeth o bosibiliadau:

> *'Yn allanol mae'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn meddu ar rywfaint o gyllid ac mae'r Gweinidog wedi ymddiddori yn y rhain, ac mae hyn yn cynnwys presgripsiynu cymdeithasol. Mae'r rhain yn gyfryngau ar gyfer gwersi posibl. Roedd y Rhaglen yn adnodd cydweithredol dros ben, er enghraifft bu i'r Swyddogion Achos, a phobl eraill ymwneud â'r rhaglen hyd y diwedd, gan gynnwys y rheiny yn Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd hi'n anodd cynnal cyfarfodydd Bwrdd ond roedd cydweithio'n parhau'n gryf ac mae'n ymddangos bod hynny wedi meithrin perthnasoedd cadarn, er enghraifft gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae yna fenter mewn ysgolion lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ymhellach.'*

7.75 Mantais benodol arall o'r ffyrdd o weithio oedd ail-leoli Chwaraeon Cymru: *'Bu i'r GIE hyrwyddo Chwaraeon Cymru a rhoi hygrededd iddi, yn enwedig gyda chydweithwyr iechyd. Mae'n torri tir newydd. Dangosodd fod timau Chwaraeon Cymru yn meddu ar sgiliau sy'n ymwneud ag ymyriadau ymarferol...'*

7.76 Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw'r gwaith o ran arddangos y ffyrdd o weithio a hefyd cynhyrchu gwerth ohonyn nhw, wedi dod i ben eto. Mae'r adroddiad hwn a'r digwyddiadau cysylltiedig rydym wedi'u trafod yn rhoi hwb ac yn gyfle i fwrw golwg eto ar gamau posibl i gynhyrchu gwerth a gweithredu pellach. Mae yna werthusiadau lefel Prosiect sydd â gwersi sylweddol, yn ogystal â'r gwerthusiad hwn. Gallai'r cyfle i roi'r ffyrdd o weithio ar waith ynghlwm â'r deunyddiau hynny gan y partneriaid cenedlaethol arwain at greu mwy o werth yn sgil y GIE a'i luosi drwy ei roi ar waith mewn mannau eraill.

# 8. Casgliadau a Gwersi a ddysgwyd

8.1 Mae ein Pennod olaf yn dwyn i ystyriaeth y casgliadau a'r gwersi cyffredinol a ddysgwyd o'r gwerthusiad. Rydym yn darparu trosolwg, ac yna crynodeb o'r pwyntiau cloi allweddol caiff eu crybwyll ym mhob un o benodau'r adroddiad, a'n hargymhellion.

**Casgliadau a Gwersi Cyffredinol**

8.2 Roedd y GIE yn llwyddiant ar y cyfan. Bu iddi weithio'n effeithiol fel Rhaglen, yn seiliedig ar gydweithio a rhannu cyllideb anarferol/unigryw rhwng dwy Adran y Llywodraeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Fe'i sefydlwyd mewn modd rhagorol ac fe ffurfiwyd fframwaith cryf ac eglur ar gyfer gwahodd a chymeradwyo ceisiadau. At hyn, bu iddi ddarparu fframwaith gweithredu gan ddefnyddio trefniadau arloesol gan ymwneud â Swyddogion Achos dynodedig. Bu i'r rhaglen hefyd ddangos hyblygrwydd a chamau priodol i ategu addasiadau i fodelau ariannu a darparu ar ddyfodiad y pandemig. Dim ond un prosiect o'r 17 ddaeth i ben cyn eu hamser, a hynny am resymau anochel yn ymwneud â Covid.

8.3 Bu i'r Prosiectau a ariennir gan y GIE ddarparu ystod o weithgareddau ar gyfer cynulleidfa darged daearyddol eang, gyda bron pob un ohonyn nhw'n cyflawni mwy nac oedden nhw wedi'u hariannu i'w cyflawni gyda chymorth grant. Bu i'r prosiectau ddangos ystod eang o wersi mewn meysydd allweddol gan gynnwys sut i ennyn diddordeb ystod o grwpiau anodd eu cyrraedd, a pha adnoddau a dulliau i'w defnyddio i gyflawni darpariaeth effeithiol. Fe wnaethan nhw ddangos hyblygrwydd a gwytnwch rhyfeddol o dan amodau Covid-19, a bu i lawer fanteisio i'r eithaf ar yr her trwy ddulliau cyflwyno digidol ac o bell, ac ail-ymgysylltu gofalus ar ôl y pandemig.

8.4 Y prif faes ar gyfer cryfhau gwerth y GIE oedd casglu, codio ac ymhelaethu ar y dysgu lefel Rhaglen a Phrosiect, a sicrhau bod yr ased yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Er bod cyfle o hyd, a bwriad, i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd, ni ddigwyddodd yn ddigonol yn ystod y Rhaglen. Y rheswm dros hyn yn rhannol oedd amodau'r pandemig, yn ogystal â gwendidau strwythurol mewn llywodraethu ac

arweinyddiaeth, a oedd yn annibynnol i'r ymrwymiad a'r ddawn y bu i lawer o uwch weithredwyr yn y sefydliadau partner ei gyfrannu tuag at y GIE.

8.5 Mae Tîm y GIE i bob pwrpas wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r galluogwyr angenrheidiol ar waith er mwyn sicrhau Rhaglen lwyddiannus. Llwyddodd hefyd i gynhyrchu deilliannau canolraddol o ganlyniad i feddu ar ystod dda o Brosiectau effeithiol.

8.6 O ran y deilliannau hirdymor arfaethedig:

- Roedd cyfranogwyr targed wedi mwynhau cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol ac wedi hybu eu lles. Nid yw'n glir eto a gyflawnwyd hynny ar sail gwerth am arian ym mhob achos;
- Bu i rai o'r Prosiectau ddangos bod modd eu datblygu, eu dyblygu a'u cynnal, ond nid yw'r dystiolaeth hon wedi'i defnyddio mewn unrhyw ffordd systematig, ac ni fydd cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd yn cael eu hateb nes bod y gwerthusiad atodol wedi'i gwblhau yn 2024;
- Roedd gwersi cydweithio yn sylweddol, ond roedden nhw ond wedi'u rhoi ar waith mewn ymyriadau eraill drwy alluoedd a phrofiadau unigol y rheiny sy'n ynghlwm yn uniongyrchol; a
- Nid yw dysgu o'r GIE wedi llywio polisïau, rhaglenni a strategaethau ehangach yn sylweddol eto.

**Proses y GIE**

8.7 Roedd proses y GIE yn rhagorol i raddau helaeth o ran:

a) Cydweithio a rhannu cyllideb rhwng endidau cyhoeddus sy'n ymwneud ag iechyd a gweithgarwch corfforol;

b) Meithrin partneriaeth polisi;

c) Cynllun a pharatoadau'r rhaglen;

d) Ymgynghori ac ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl;

e) Trosi polisi yn ymarfer;

f) Gosod fframwaith cadarn ar gyfer y Prosiectau;

g) Cyflawni amrywiaeth eang o Brosiectau diddorol a gwahanol; a

h) Rhoi ystyriaethau cydraddoldeb ar waith.

8.8 Bu i'r partneriaid cenedlaethol gyflawni gwaith llywodraethu effeithiol, gan roi'r amodau ar waith er mwyn datblygu Rhaglen effeithiol o ran atebolrwydd, strategaeth a dull, arweiniad ac asesu, ac adnoddau a chefnogaeth, er bod gofyn i'r gweithredwyr dan sylw dalu rhywfaint am yr agwedd olaf.

8.9 Nid oedden nhw'n edrych tua'r dyfodol yn ddigonol er mwyn sicrhau y byddai'r ffocws, y dysgu a'r ffyrdd o weithio yn cael eu casglu a'u rhannu gyda sianeli a chyrff priodol. Ni fu i'r agweddau hyn ychwaith oroesi effaith negyddol dros ben y pandemig. Gallai Cynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu hollgynhwysol fod wedi helpu i fynd i'r afael â diffygion posibl yng ngwerthusiad cyffredinol y Prosiectau/Rhaglen.

**Theori Newid y GIE**

8.10 Bu i werthusiad Theori Newid y GIE gynnig sawl mewnweledaid a gwers. Datgeloedd mae'n bosibl na fydd angen theori newid penodol pe bai modd trefnu'r cyfuniad priodol o bobl, gydag eglurder diben, i gynhyrchu ymyrraeth effeithiol, er y byddai theori o'r fath bron yn sicr yn cryfhau eglurder wrth gysylltu proses y Rhaglen â diben y Rhaglen. Yn wir, nododd y gwaith hwn fod 'model rhesymeg' a theori newid amlwg ymhlyg yn bodoli, ac roedd hynny'n amlygu'r galluogwyr allweddol a oedd yn sail i gynllun a lansiad llwyddiannus y GIE.

8.11 Nid oes angen i theori newid ar gyfer rhaglen tebyg i'r GIE fod yn unachosol ac yn anhyblyg, ac nid oedd yn yr achos hwn. Mae hefyd yn gallu newid ac addasu wrth i amgylchiadau newid.

8.12 Gall fod yn ddefnyddiol nodi'r agweddau pwysicaf wrth ddylunio a gweithredu rhaglenni yn llwyddiannus – gan dynnu sylw at rôl hanfodol cydweithio yn yr achos hwn, a oedd yn nodwedd sylweddol a chadarnhaol o'r rhaglen. Bu i flaenoriaethau gweinidogol roi hwb cryf o fewn partneriaeth newydd i gydweithio, er enghraifft wrth rannu cyllideb ledled adrannau Llywodraeth Cymru a hyd yn oed gyda phartneriaid allanol.

8.13 Gall theori newid mewn rhaglen tebyg i'r GIE, gyda Phrosiectau lluosog wedi'u hariannu ar sail yr ymateb o ran ceisiadau, ddarparu prawf eglur a chymharol syml o gysondeb rhwng rhesymeg ymyrraeth ar lefel prosiect a rhaglen.

8.14 Yn sgil datblygu Theori Newid blaenllaw y GIE, daeth opsiynau rheoli rhaglenni ac arweinyddiaeth, a allai fod yn gyffyrddiad ysgafn, neu'n fwy rhagweithiol ac atyniadol, hyd yn oed ynghlwm â'r un theori newid. Gall hyn gael goblygiadau sylweddol o ran a gaiff amcanion allweddol y Rhaglen eu cyflawni.

**Cyflawni ac Addasiadau Covid-19**

8.15 Er gwaethaf heriau enfawr y pandemig, mae gwaddol o ddysgu ac arloesi mewn ymateb i Covid-19, yn ogystal â nifer o ddeilliannau cadarnhaol o ran yr addasiadau a wnaed gan Brosiectau ac a gefnogir gan y Rhaglen. Bu i sawl Prosiect gadw'r newidiadau a wnaethan nhw oherwydd eu llwyddiant a'u harloesedd. Dyma rai o'r newidiadau:

8.16 Dull cyfunol o gyflwyno: Bu i gymysgedd o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb ymestyn cyrhaeddiad Prosiectau a helpu i gael gwared ar rwystrau o ran ardal ddaearyddol a hyder i rai unigolion - gan gynnwys y rhai a oedd yn cysgodi.

8.17 Addasiadau hyfforddiant: Gan addasu modiwlau hyfforddi presennol i'w cynnig ar-lein, roedd rhywfaint o'r ddarpariaeth yn fwy effeithlon a/neu'n gost-effeithiol.

8.18 Gwella llythrennedd digidol: Roedd y pandemig yn sbardun i wella gallu digidol ac uwchsgilio, ac roedd yn galluogi cyswllt mwy rheolaidd rhwng rhai sefydliadau. Bu hyn yn un deilliant cadarnhaol yn sgil y cyfarfodydd rhithiol, gan oresgyn y rhwystrau o ran amser, teithio a chost sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

8.19 Gwaddol o adnoddau rhithiol: Mae adnoddau a ddatblygwyd fel rhan o'r ddarpariaeth gynnar yn parhau i fod yn gyfres o gyfleoedd hygyrch sy'n waddol defnyddiol y tu hwnt i'r pandemig. Fodd bynnag, roedd Prosiectau a phartneriaethau'n cytuno'n eang bod dulliau wyneb yn wyneb yn well ar gyfer meithrin perthynas, ymgynghori anffurfiol, cefnogaeth anffurfiol un i un i unigolion sy'n wynebu rhwystrau, a chynhyrchu a rhannu syniadau ad hoc.

8.20 Mwy o gydweithio a pherthnasau cryfach: Bu i'r pandemig ysgogi cydweithio cryfach gan gryfhau rhai perthnasoedd yn ogystal. Un thema bwysig a ddaeth i'r amlwg oedd arwyddocâd ymgysylltu â'r gymuned er mwyn i Brosiectau allu ymwneud â'u grwpiau targed.

8.21 Mae gwersi wedi'u dysgu am gydweithio effeithiol, gan gynnwys yr angen am gynllunio cydweithredol ymlaen llaw rhwng partneriaid, dysgu trwy wahanol fodelau cyflwyno, pwysigrwydd llywodraethu cadarn a rheoli rhanddeiliaid, a'r adnoddau staff sydd eu hangen i gyflawni hyn yn effeithiol. Mae rhai prosiectau wedi ymgorffori hyn yn eu prosesau sefydliadol.

8.22 Mae buddsoddi amser mewn ymgynghori a chyd-gynhyrchu yn ychwanegu gwerth: Bu i'r prosiectau wnaeth gyflawni hyn adrodd eu bod nhw wedi ennill dealltwriaeth ddyfnach o gyfranogwyr yn eu cynulleidfa darged. Fe wnaethan nhw roi'r mewnwelediad hwn ar waith i ddarparu dulliau unigryw a phwrpasol i ddiwallu gwahanol anghenion.

8.23 Mae angen digon o adnoddau: Bu i rai Prosiectau ganfod nad oedd eu dyraniad cychwynnol o adnoddau i asesu effaith yn ddigonol, ac roedd yn rhaid iddyn nhw ail-neilltuo neu geisio adnoddau ychwanegol er mwyn ei gyflawni'n effeithiol.

8.24 Dulliau monitro: Roedd teilwra dulliau monitro a chasglu data i gyd-fynd â gweithgareddau a nodweddion penodol pob Prosiect yn hanfodol. Roedd y dulliau safonol ond yn gweddu i rai cyfranogwyr a gweithgareddau. Dewiswyd dulliau atodol gan Brosiectau mewn cydweithrediad â'u gwerthuswyr a/neu gynghorwyr mewnol eu hunain, ac o ganlyniad bu iddyn nhw amrywio'n eang.

### Themâu Allweddol

8.25 Y themâu allweddol yr ymdrinnir â nhw fel rhan o werthusiad y rhaglen drwy gydol y prif flynyddoedd cyflawni oedd (i) ymgysylltu â'r gymuned; (ii) cynaliadwyedd a (iii) y broses ddysgu.

*(i) Ymgysylltu â'r Gymuned*

8.26 Weithiau roedd anghenion a gofynion cymunedau yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd Prosiectau wedi'i ragweld ar y dechrau, yn enwedig yn ystod y pandemig Covid-

19. Roedd gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol i addasu'n llwyddiannus ac i allu cynnig dulliau hyblyg, wedi'u teilwra. Roedd yr hyblygrwydd a gynigir ar lefel Rhaglen yn cefnogi prosiectau i addasu eu cynlluniau. Bu i Brosiectau gyflawni hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cyflwyno ystod o opsiynau cyfathrebu ar gyfer buddiolwyr;
- Sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch ac yn gost isel;
- Addasu gweithgareddau presennol i gyd-fynd â gwahanol alluoedd;
- Sicrhau cyn belled ag y bo modd bod sesiynau'n cael eu cyflwyno gan siaradwyr Cymraeg yn ogystal â Saesneg mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf; a
- Cynnal gweithgareddau mewn cymunedau targed, gan feithrin ymdeimlad o ymreolaeth a pherchnogaeth ymhlith y grwpiau.

8.27 Dyma’r dysgu hyd yma:

8.28 Cydweithio yn effeithiol: Mae hyn yn ganolog i ymgysylltu â'r gymuned a gweithredu dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned o gynllunio, cyflawni a gwerthuso prosiectau[73]. Adlewyrchwyd hyn mewn llawer o brosiectau’r GIE. Roedd manteisio ar y partneriaid priodol yn allweddol i ddarganfod beth sydd ei angen ac i oresgyn y rhwystrau rhag gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau’r GIE.

8.29 Ymwneud â phartneriaid a chyfranogwyr yn ystod y camau cynllunio: Mae’n bwysig sôn fod y GIE wedi tynnu sylw at arwyddocâd datblygu perthnasoedd cyn gynted â phosibl, i ddarparu sylfaen effeithiol ar gyfer cyflawni a helpu i lunio mathau a dulliau gweithgareddau ac ymgysylltu a gynigir gan y Prosiect. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan roedd darparwyr yn targedu grwpiau nad oedden nhw wedi gweithio'n agos â nhw’n flaenorol.

8.30 Arweinyddiaeth Gymunedol Gryfach:. Bu i Covid-19 ysgogi arweinyddiaeth gymunedol gryfach a hyrwyddo mwy o weithio trawsasiantaethol a chyfeirio rhwng gwasanaethau. Bu arweinwyr Cymunedol a Phrosiectau’n fwy hyblyg, yn fwy

[73] e.e. Iechyd Cyhoeddus Lloegr: Canllaw i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ar gyfer iechyd a lles

agored i wneud pethau'n wahanol, ac yn fwy penderfynol, yn enwedig wrth fynd i’r afael â’r heriau yn sgil y pandemig.

8.31 Presenoldeb wyneb yn wyneb: Mae Prosiectau’n ffafrio hyn ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a darparu cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau un i un gyda chyfranogwyr newydd/darpar gyfranogwyr 'ar wahân’ i'r sesiynau grŵp. Mae presenoldeb ar lawr gwlad mewn cymunedau lleol drwy bartneriaid dibynadwy yn hanfodol er mwyn ymgysylltu â buddiolwyr targed newydd, yn enwedig wrth weithio gyda grwpiau o bobl Groenddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Gall y partneriaid hynny hwyluso 'cyflwyniadau' i fuddiolwyr arfaethedig.

8.32 Adnoddau priodol a ddyrennir ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned: Mae angen digon o gapasiti ar staff y prosiect i gydlynu a datblygu partneriaethau â sefydliadau sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr. Gall fod yn ddwys o ran adnoddau, yn enwedig wrth ddatblygu perthnasoedd a dealltwriaeth newydd o'r manteision a'r gofynion i bawb. Addaswyd rhai rolau a chyfrifoldebau'r Prosiect dros amser i sicrhau eu bod yn meddu ar ddigon o allu i ymgymryd â gwaith ymgysylltu.

8.33 Cymorth cyfannol: Bu i’r Prosiectau ganfod, wrth iddyn nhw feithrin dealltwriaeth o gyfranogwyr, cyd-destunau lleol a’r rhwystrau yn y gymuned, ei bod yn bosibl cynnig cefnogaeth fwy cyfannol i gymunedau ac unigolion trwy gysylltiadau a rhyng-gyfeirio.

8.34 Presgripsiynu Cymdeithasol a phrosesau atgyfeirio: Roedd yn rhaid i brosiectau, a oedd wedi bwriadu cydweithio â'r sector iechyd a datblygu llwybrau presgripsiynu ffurfiol trwy feddygfeydd meddygon teulu, addasu eu dulliau gweithredu oherwydd bod gweithlu'r GIG yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. Serch hynny, bu i rai wneud cynnydd sylweddol a datblygwyd ystod eang o systemau atgyfeirio.

*(ii) Cynaliadwyedd*

8.35 Roedd cynaliadwyedd yn ystyriaeth gynnar a phwysig i'r Rhaglen ac fe'i cynlluniwyd fel rhan o’r broses. Nod cwtogi’r cyllid yn raddol yn y flwyddyn olaf oedd annog ystyriaeth gynnar o lwybrau ymadael a chau pen y mwdwl ar Brosiectau.

8.36 Efallai na fydd cynaliadwyedd yn gofyn i brosiect i barhau i fodoli. Fel y mae'r llenyddiaeth yn ei ddynodi, efallai y bydd yn bosibl cyflawni effeithiau parhaol trwy

feithrin arferion newydd sy'n dod yn 'brif ffrwd' neu i roi newidiadau nad oes modd eu dadwneud ar waith.  Dyma’r enghreifftiau:

- Gwaddol o ddysgu i lywio polisïau ac arferion ar lefel strategol;
- Cynaliadwyedd ar lefel cyfranogwyr, a chynnal gweithgareddau gyda gwirfoddolwyr yn cymryd rhan;
- Prif ffrydio/gwreiddio gweithgareddau’r GIE mewn sefydliadau a rhaglenni gwaith craidd;
- Ennill cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill i barhau â gweithgareddau’r GIE.

8.37 Caiff materion cynaliadwyedd eu hystyried ymhellach mewn estyniad i'r gwerthusiad a fydd ar waith yn 2024.

*(iii) Proses Dysgu Lefel Prosiect*

8.38 Mae'r Rhaglen wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd dysgu drwyddi draw.  Cefnogir hyn gan y gofynion monitro a gwerthuso, y dogfennau canllaw, y cyflwyniadau yn ystod y cam ymgeisio a'r cyfarwyddyd i ddyrannu cyfran o adnoddau grant i gefnogi'r broses ddysgu, monitro a gwerthuso.

8.39 Roedd y digwyddiadau dysgu ar-lein ar gyfer Prosiectau yn boblogaidd.  Gallai Prosiectau hefyd godi unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â gwerthuso gyda'r Grŵp Gwerthuso.  Croesawyd hyn, ond nid oedd yn ategu dysgu rhwng y Prosiectau.

8.40 Aeth uwch weithredwr lefel Rhaglen y GIE ati i ysgrifennu papur cryno a luniwyd o Adroddiadau Uchafbwyntiau’r Prosiectau.  Ym mis Hydref 2022, cynhyrchwyd Adroddiad Crynodeb Cynaliadwyedd Prosiectau hefyd.

8.41 Roedd prosiectau o'r farn y byddai’r GIE yn cael effaith barhaol ar syniadau, polisïau ac arferion eu sefydliadau eu hunain. Bu i gydweithio â phartneriaid alluogi dysgu a myfyrio parhaus ar y cynllun a’r gweithrediad gorau posibl i ddiwallu anghenion y buddiolwyr targed.

8.42 Bu i Brosiectau wnaeth sefydlu trefniadau dysgu mewnol systematig elwa'n sylweddol ohonyn nhw.  Roedd meddu ar rolau a chyfrifoldebau penodol dros

ddysgu yn alluogwr allweddol. Gwnaeth Prosiectau newidiadau i'w modelau gweithredu o ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd drwy'r GIE.

8.43 Mae gan adroddiadau terfynol Prosiectau lawer o enghreifftiau o sut mae prosiectau'n trosglwyddo gwybodaeth yn ehangach. Awgrymodd Prosiectau fod angen newid systemig i sicrhau dysgu mwy effeithiol o'r gwersi o'r GIE, ond gofynnwyd pwy all arwain y sgwrs lefel uwch sydd ei hangen i ddylanwadu ar bolisi. Mae Prosiectau wedi bod yn bwydo dysgu 'am i fyny' ond nid ydyn nhw'n sicr a gaiff hyn ei ddefnyddio ac ym mhle. Nid oes unrhyw ddulliau amlwg ar gyfer rhannu dysgu, ond gall partneriaid cenedlaethol fynd i'r afael â hyn o hyd.

**Cyflawniadau Cyffredinol y Prosiectau**

8.44 Yn gyffredinol, dengys data monitro a gyflwynwyd gan Brosiectau i Lywodraeth Cymru bod cofnod o 12,000+ o bobl wedi cymryd rhan ym Mhrosiectau'r GIE. O'r rhai a ddarparodd ddata demograffig, bu i ferched (65.4%) gymryd mwy o ran na dynion (34.4%). Nododd y mwyafrif eu bod yn Groenwyn a nododd 9 y cant eu bod yn Groenddu, Asiaidd neu o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol. Nid oedd y mwyafrif yn ystyried bod ganddyn nhw anabledd ond fe nododd 24 y cant fod ganddyn nhw. Ar y cyfan, roedd 75% yn byw mewn ardal fwy difreintiedig. Roedd y data a gasglwyd ar weithgarwch corfforol a lles meddyliol yn dameidiog ond cwblhawyd 10,000+ o adnoddau arolwg ar y llinell sylfaen ac fe gwblhawyd 5,000+ o ffurflenni dilynol, gyda'r ymatebwyr weithiau'n cwblhau mwy nag un adnodd. O'r Prosiectau wnaeth ddefnyddio adnoddau dynodedig y GIE::

- Dangosodd pedwar gynnydd mewn gweithgarwch corfforol ac roedd gan saith ddata amhendant; a
- Dangosodd pump eu bod wedi hybu lles meddyliol ac roedd gan chwech ddata amhendant.

8.45 Adroddodd yr holl Brosiectau ddeilliannau gwelliant mewn iechyd corfforol a lles meddyliol ymysg buddiolwyr, er ei bod yn anodd mesur hyn o ystyried materion o ran ansawdd y data meintiol a gasglwyd. Bu i adroddiadau gwerthuso'r Prosiectau amlygu hefyd manteision iechyd penodol yr oedden nhw wedi asesu bod cyfranogwyr wedi elwa ohonyn nhw. Awgrymodd adroddiadau a chyfweliadau

Prosiect hefyd fod y GIE wedi cael effaith ehangach y tu hwnt i'r cynnydd a welwyd mewn lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys (i) buddion cymdeithasol, lleihad mewn unigrwydd ac unigedd; (ii) cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ffyrdd o fyw iach ac egnïol; a (iii) gwella modd o fanteisio ar ac ymwneud gyda byd natur a'r amgylchedd awyr agored

8.46 Prosesau monitro a gwerthuso: Mewn rhai Prosiectau, bu i'r GIE alluogi staff arweiniol y sefydliadau a'r partneriaid cyflenwi i ddatblygu sgiliau ac ennill profiad yn y broses o fonitro, gwerthuso a deall effaith. O ganlyniad i ofynion gwerthuso'r GIE, mae tystiolaeth y gallai Prosiectau ac eraill eu defnyddio. Cafwyd cryn dipyn o ddysgu am a) adnoddau, sgiliau a phrofiad y gweithlu sydd eu hangen i gasglu data meintiol o ansawdd da a b) effeithiau gwahanol adnoddau ar ystod eang o gyfranogwyr a phriodoldeb argymell adnoddau safonol yn y dyfodol lle ceir ystod mor amrywiol o sefydliadau a Phrosiectau. Roedd rhai Prosiectau'n cwestiynu addasrwydd yr adnoddau iddyn nhw ac ar gyfer rhai categorïau o fuddiolwyr. Yng nghyd-destun rhai o Brosiectau'r GIE, roedd rhai cyfranogwyr yn eu gweld yn ymwthiol, yn enwedig y datganiadau lles. Aeth *rhai* Prosiectau ati i addasu adnoddau'r GIE i greu fersiynau sy'n addas i gyfranogwyr ac a fyddai'n gweddu i'w cynulleidfa neu fe wnaethon nhw ddefnyddio adnoddau sefydliadol presennol i fesur deilliannau. Defnyddiwyd dulliau ansoddol yn eang hefyd, fel y bu i ganllawiau'r GIE ei ragweld.

8.47 Roedd hyblygrwydd lefel rhaglen ynghylch adnoddau monitro a gofynion ar gyfer Prosiectau yn gadarnhaol iawn. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddai dull mwy cydweithredol o gynllunio gwaith monitro a gwerthuso wedi bod yn fuddiol. Gallai dull mwy integredig a chysylltiedig o fonitro a gwerthuso ar lefel Rhaglen a Phrosiect fod yn ddatblygiad cynnar cynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu cynhwysfawr ('MEAL').

8.48 Dyma'r dysgu hyd yma:

8.49 Deall buddiolwyr: Mae'r GIE wedi meithrin dysgu am weithio gyda grwpiau targed ac mae wedi atgyfnerthu gwybodaeth bresennol ac wedi manteisio ar fewnwelediad newydd. Bu i'r Prosiectau elwa o'r profiad o gydweithio gyda grwpiau nad oedden nhw wedi ymgysylltu â nhw'n flaenorol.

8.50 Sgiliau ehangach y gweithlu a gwirfoddolwyr: Datblygwyd sgiliau ehangach mewn rhai Prosiectau.

8.51 Cyfleoedd economaidd a chyflogaeth: Mae o leiaf tair enghraifft lle mae gwasanaethau sefydliadau arweiniol wedi'u comisiynu gan bartneriaid newydd a hynny ledled ardal ddaearyddol ehangach yn sgil llwyddiannau'r GIE. Mae rhai Prosiectau hefyd wedi adrodd buddion economaidd i bartneriaid a darparwyr sy'n gysylltiedig â'r GIE.

8.52 Sefydliadau cryf, gwydn: Dangosodd sefydliadau'r Prosiectau eu gallu i addasu i ddygymod ag amgylchiadau annisgwyl ac addasu eu prosesau i gyflawni eu deilliannau dymunol.

8.53 Roedd rhai Prosiectau'n clodfori'r GIE am gryfhau eu systemau a'u polisïau llywodraethu

8.54 Rhoddodd dau brosiect dystiolaeth o'u dadansoddiadau ynghylch yr enillion cymdeithasol ar y buddsoddiadau a wnaed. Adroddodd y Bartneriaeth Awyr Agored gwerth £5+ am bob £1 a wariwyd ar gyfranogwyr, a bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ganfod fod oddeutu £3.80 o werth cymdeithasol wedi ei gynhyrchu am bob £1 a fuddsoddwyd.

8.55 Yn seiliedig ar yr allbynnau meintiol a adroddwyd yn adroddiadau gwerthuso terfynol Prosiectau, roedd wyth o'r 16 Prosiect a barhaodd i weithredu am dair blynedd neu fwy yn bodloni'r holl dargedau rhifiadol yr oedden nhw wedi'u gosod, a chwech yn cyflawni'r rhan fwyaf neu rai ohonyn nhw[74]. Mewn llawer o achosion, bu i'r Prosiectau ragori ar rai o'u targedau o leiaf.

8.56 Dangosodd sefydliadau'r prosiect wydnwch ac arweinyddiaeth wych yn ystod pedair blynedd y GIE, gan ymateb i heriau megis y pandemig a'r argyfwng costau byw. Casglwyd ystod eang o ddysgu sy'n parhau i lywio eu harferion gwaith yn fwy cyffredinol. Mae adroddiadau'r Prosiectau yn awgrymu y gallai ymyriadau fod wedi cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar iechyd a lles y cyfranogwyr.

[74] Nid oedd gan un Prosiect dargedau rhifiadol. Cafodd targedau eu 'cyflawni' fel y'u diwygiwyd o ganlyniad i oedi ariannol neu amodau'r pandemig.

**Y Rhaglen yn gyffredinol**

*Gobeithion a disgwyliadau'r gweithredwyr lefel rhaglen*

8.57 Bu i'r gweithredwyr allweddol rannu safbwyntiau helaeth gyda'r GIE. Fe wnaethan nhw rannu'r dyhead allweddol y byddai'r GIE yn cyflawni ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru yn ymarferol a bu iddyn nhw lwyddo i wneud hynny. Y tu hwnt i hynny, roedd eu gobeithion a'u disgwyliadau yn adlewyrchu cyfrifoldebau a safbwyntiau eu sefydliadau. Roedden nhw'n cydnabod na fyddai'r GIE yn cyflawni newid lefel poblogaeth. Roedd gan y GIE rôl fwy cyfyngedig ond gwerthfawr o hyd wrth archwilio ffyrdd o ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a chefnogi a hybu eu lles corfforol a meddyliol.

8.58 Bu i'r gweithredwyr uwch ganolbwyntio'n bennaf ar y gwaith partneriaeth a'r cydweithio roedden nhw'n rhan ohono – ac y bu iddyn nhw gyfrannu ato - yn ystod camau cynnar y broses gynllunio a gweithredu. Roedd gan weithredwyr llai uwch, yn enwedig Swyddogion Achos a oedd yn ymwneud mwy â'r Prosiectau, lawer mwy i'w ddweud am y deilliannau lefel Prosiect ar gyfer cyfranogwyr, a gwerth y dysgu a gynhyrchir trwy'r Prosiectau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnig darlun pendant ar lefel Bwrdd Prosiect o'r hyn a gyflawnwyd ar lawr gwlad.

*Rheoli'r Rhaglen a Phrosiectau*

8.59 Roedd rhai egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau yn amlwg wrth ddylunio a chyflwyno'r GIE. Rhoddodd Rhaglen y GIE yr egwyddorion hyn ar waith yn ei phensaernïaeth, model gweithredu, a phrosesau allweddol. Roedd eraill, megis manteisio ar ddysgu, ymysg dyheadau Rhaglen y GIE ond fe gafodd ei gyflawni i raddau llai.

8.60 Y Bwrdd Prosiect: Cafodd Bwrdd Prosiect y GIE ei gyfansoddi'n briodol a bu'n gweithredu'n effeithiol yn ystod y dyddiau cynnar. Roedd gofyn i'r bwrdd oresgyn tair her sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol (i) natur gynhenid gweinyddiaeth llywodraeth genedlaethol a'i gwaith rheoli pobl cysylltiedig, ynghyd â (ii) canlyniadau Covid-19, (iii) diffyg rôl Rheolwr Prosiect/Cyfarwyddwr amlwg, a (iv) diffyg trefniadau hyblyg sy'n cyd-fynd â chylch oes y Rhaglen.

8.61 Swyddogion Achos a'r Bwrdd Prosiect/Cysylltiad Prosiect: Roedd gan Swyddogion Achos rôl gyswllt a chyfathrebu allweddol. Fodd bynnag, ni wnaeth eu rôl atal bwlch rhag ymddangos rhwng y Bwrdd Prosiect a'r Prosiectau, a oedd yn ehangu wrth i amser fynd rhagddi. Mae Covid-19 hefyd wedi cael effaith uniongyrchol. Roedd camau y gellid bod wedi'u cyflawni i gysodi’r amrywiad, cryfhau gallu'r Swyddogion Achos yn gyffredinol, eu galluogi i ddysgu mwy oddi wrth ei gilydd, a gweithredu fel pont fwy effeithiol rhwng y Prosiectau a Bwrdd y Prosiect.

*Trosglwyddo Dysgu a Pholisi*

8.62 Roedd dysgu a'r trosglwyddiad polisi cysylltiedig i ymyriadau a pharthau polisi eraill yn ganolog i'r GIE drwyddi draw. Ei brif fudd hirdymor oedd y dysgu a gynhyrchodd a allai lywio ymyriadau eraill. Mae ymchwil wedi nodi'r amodau allweddol ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisi effeithiol.

8.63 Cynhyrchodd y GIE wersi defnyddiol ar lefel rhaglen. Mae'n ansicr a yw hynny'n cael ei drosglwyddo/ei ddefnyddio'n systematig eto, er y gallai'r gwerthusiad hwn helpu i gyflawni hynny'n rhannol. Cynhyrchodd y GIE hefyd wersi defnyddiol ar lefel Prosiect, ac roedd rhai ohonyn nhw’n atgyfnerthu gwybodaeth bresennol, ond hefyd wedi creu syniadau newydd.

8.64 Dysgu Defnyddiol: Nododd llawer o'r gweithredwyr lefel rhaglen a gafodd eu cyfweld ddysgu cadarnhaol a oedd wedi dod i'r amlwg o'r GIE. Roedden nhw’n credu'n gryf bod yna ddysgu i'w gaffael, er eu bod yn pwysleisio gwahanol agweddau, ac er nad oedd rhai yn credu ei fod wedi'i ddefnyddio'n llawn hyd yma. Mae tystiolaeth gref nad yw'r llwybrau a'r strwythurau dysgu wedi eu rhoi ar waith i alluogi i ddysgu o'r GIE gael ei drosglwyddo i fannau eraill. Nid oedd y gweithredwyr allweddol yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i alluogi hynny i ddigwydd, ac eithrio’r hyn a allai ddeillio o'r gwerthusiad hwn ac, ar lefel Prosiect, o werthusiadau'r Prosiect. Roedd yn parhau ar y lefel oedd yn cael ei alw’n lefel ‘dawel’. Nid yw wedi'i gyfundrefnu na’i grynhoi ac nid yw ar gael.

*Ffyrdd o weithio*

8.65 Yn ein hasesiad, dangosodd y GIE 'ffyrdd o weithio' effeithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Tymor hir: cafodd y GIE ei llywio gan dystiolaeth ond, er bod cynlluniau i fonitro'r effaith tymor byr ar unigolion a chynaliadwyedd prosiectau, mae diffygion o ran gwerthuso'r effaith hirdymor;
- Atal: nod y GIE yw atal afiechyd trwy fuddsoddi mewn asedau cymunedol, ond ni fydd y gwerthusiad yn sicrhau asesiad cadarn o'r nod hwn;
- Integreiddio: mae Llywodraeth Cymru yn cynnig safbwynt pendant o sut mae'r Gronfa yn ategu amcanion llesiant ehangach;
- Cydweithredu: mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i gydweithio ynghlwm â phob agwedd o'r gronfa, gan gynnwys y gwaith cynllunio, rheoli a gwerthuso; a
- Cymryd rhan: mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud ag adrannau priodol, cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol ac wedi dangos ymrwymiad i wella ei dull o gymryd rhan.

8.66 Llwyddodd y GIE i roi’r 'pum ffordd o weithio' ar waith ymhlith y Prosiectau drwy broses y GIE. Mae gwerth y GIE o ran manteision hirdymor ar lefel cyfranogwr, sefydliadol a pholisïau yn dibynnu'n rhannol ar gynaliadwyedd y Prosiectau a rhoi’r dysgu o’r GIE ar waith yn y maes polisi. Byddai materion atal yn dod i’r amlwg yn yr hirdymor yn unig. Nid yw cyllid tymor byr mewn rhai ffyrdd yn gyson iawn â'r ffyrdd o weithio.

8.67 Ar lefel rhaglen, roedd y pum ffordd o weithio yn bwynt cyfeirio pwysig yn hytrach na chanllaw uniongyrchol ar weithredu, ac yn enwedig yn y camau ffurfiannol. Fodd bynnag, y prif gyfrwng ar gyfer parhau i weithredu'r ffyrdd o weithio oedd Bwrdd y Prosiect. Byddai hynny wedi gofyn nid yn unig am Fwrdd Prosiect llawer mwy gweithredol, ond hefyd cysylltedd ac ymgysylltiad cryfach a chyfoethocach â'r Prosiectau, yn enwedig y rhai gyda gwersi lle gallai fod modd eu datblygu a’u dyblygu ddod i'r amlwg.

8.68 Nid yw'r gwaith o ran arddangos y ffyrdd o weithio a hefyd cynhyrchu gwerth ohonyn nhw, wedi dod i ben eto. Mae yna werthusiadau lefel Prosiect gyda dysgu sylweddol i'w manteisio arnyn nhw, yn ogystal â'r gwerthusiad hwn. Gallai'r cyfle i roi'r ffyrdd o weithio hynny ar waith ynghlwm â'r deunyddiau hynny gan y partneriaid cenedlaethol arwain at greu mwy o werth o'r GIE a'i luosi trwy ei roi ar waith mewn mannau eraill.

**Argymhellion**

8.69 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio rhaglen ariannu tebyg i'r GIE lle mae'n profi dulliau newydd ac yn chwilio am atebion arloesol, ond dim ond lle mae'r galluogwyr allweddol ar gyfer cynnal rhaglen lwyddiannus wedi'u rhoi ar waith, a lle mae dull o'r fath yn addas ar gyfer y deilliant a fwriadwyd[75]. Ymysg y galluogwyr allweddol hyn mae arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol; staff priodol ac adnoddau ariannol ar gyfer y rhaglen ei hun ac ar gyfer cynllunio a rheoli rhaglenni; diben rhaglen bendant sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ariannu; proses drylwyr ar gyfer denu a dethol cynigion; dull pendant o werthuso drwy Gynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu manwl; ac ymagwedd benodol tuag at gynaliadwyedd ar ôl y rhaglen.

8.70 Dylai rhaglenni o'r fath gydymffurfio ag egwyddorion craidd rheoli prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys darparu ar gyfer llywodraethu, arweinyddiaeth a throsglwyddo polisi yn ystod ac ar ddiwedd y rhaglen yn ogystal ag yn y camau cychwynnol. Byddai hyn fel arfer yn ymwneud â rôl Rheolwr Prosiect /Rhaglen/Cyfarwyddwr dynodedig, a phenodi gweithredwr penodol i fod yn gyfrifol am ddysgu a throsglwyddo polisi.

8.71 Dylid annog cydweithio mewn rhaglenni o'r fath, a dylai ymwneud â phartneriaid o bob rhan o'r Llywodraeth a'r tu hwnt iddi lle bo hynny'n briodol, a rhannu cyllideb, risgiau a threfn llywodraethu.

8.72 Mae angen strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu dynamig fel rhan o'r gwaith rheoli'r prosiect. Dylai hyn ymwneud â phob cam a dylid ei adolygu fel rhan o Gofrestr Risg

[75] Ac nid yw, er enghraifft, yn ymwneud â newid lefel poblogaeth.

y Rhaglen i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu ond hefyd yn parhau i fod yn addas i'r diben.

8.73 Rhan benodol o ddyluniad y rhaglen yw trefniadau pendant ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisi, yn ddelfrydol trwy Gynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu cynhwysfawr ac integredig. Mae angen digwyddiad dysgu, o leiaf pob blwyddyn, lle gwahoddir pawb sydd ynghlwm i rwydweithio a dysgu drwy gydol y rhaglen.

8.74 Dylai dulliau Theori Newid fod yn rhan o'r gyfres o adnoddau sydd ar gael i'r rhai sy'n cynllunio ac yn gweithredu rhaglenni o'r fath. Yn enwedig pan fo rhaglen yn cynrychioli cydweithio sylweddol rhwng gwahanol sefydliadau a pharthau polisi, gallai rhoi theori newid y cytunwyd arni ar y cyd ar waith helpu i osod fframwaith cryfach a mwy eglur ar gyfer lefelau Rhaglen a Phrosiect.

8.75 Gall rôl debyg i Swyddog Achos fod yn werthfawr dros ben er mwyn cynnal cyswllt a meithrin cysylltiad rhwng lefel Prosiect a Rhaglen i'r ddau gyfeiriad. Er mwyn sicrhau bod y rôl yn effeithiol, mae angen i arweinwyr y Rhaglen dalu rhywfaint o sylw parhaus er mwyn manteisio i’r eithaf ar ei werth, er enghraifft wrth rannu dysgu rhyngddyn nhw, a sicrhau adborth gweithredol o wersi sy'n dod i'r amlwg. Mae angen cylch gwaith rôl cytûn ar Swyddogion Achos yn enwedig lle maen nhw’n deillio o wahanol sefydliadau. Os ydyn nhw'n ymwybodol o ofynion eu rôl ymlaen llaw, maen nhw'n fwy tebygol o lwyddo. Gallan nhw lunio cyfres dysgu gweithredol drwy gyfarfod yn rheolaidd i rannu eu dull rôl a dull eu prosiectau. Byddai hyn yn fodd o ddatrys problemau a chaniatáu dysgu yn fwy rheolaidd na'r digwyddiadau dysgu mwy.

8.76 Dylid gwneud trefniadau penodol mewn perthynas â'r GIE i ddwyn ynghyd y dysgu ar lefel Prosiect a Rhaglen a sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn i sylw gweithredwyr perthnasol ar lefelau gweithredol a llywodraethu.

8.77 Dylid rhoi sylw penodol i'r agwedd gwerth am arian ynghlwm â pherfformiad prosiectau, a dylid cynnal asesiad penodol o’r graddau y gellir datblygu’r prosiectau, a gallan nhw naill ai gynhyrchu arbedion arian parod neu ddarparu cyfleoedd ar gyfer amnewid gwariant cyhoeddus yn y tymor hwy. Mae'r rhain yn gyfrifiadau

anodd ac anfanwl, ond gallan nhw fod yn wersi hanfodol ar gyfer polisïau cyhoeddus, yn enwedig mewn oes o wariant cyhoeddus cyfyng iawn.

**Cyfeirnodau**


Barber, M (2007) Instruction to Deliver, Politico's Publishing Ltd, London.

Bennett and Howlett (1992) 'The lessons of learning: Reconciling theories of policy learning and policy change', Policy Sciences, **25** (3), 275–94.

Connell, A., Quarmby, S., and Martin, S., J., (2019). 'Gwella Gwaith Trawsbynciol: Adolygiad o dystiolaeth a seminar gydag arbenigwyr', Wales Centre for Public Policy, Cardiff.

Deutsch (1963) The Nerves of Government: Models of Political Communication and Control, Free Press.

Dolowitz, D. P. and D. Marsh (2000), 'Learning from Abroad: The Role of Policy Transfer in Contemporary Policy-Making', Governance, 1**3** (1), 5–23.

Dunlop, C. A. (2013), 'Epistemic communities', in M. Howlett, S. Fritzen, W. Xun, and E. Araral (eds), Routledge Handbook of Public Policy, New York, NY: Routledge.

Dunlop, C. A. and C. M. Radaelli (2013), 'Systematising Policy Learning: From Monolith to Dimensions', Political Studies, **61** (3), 599–619.

Dunlop, C. A. and C. M. Radaelli (2018) The lessons of policy learning: types, triggers, hindrances and pathologies, Policy & Politics, vol 46, no 2, 255–72.

Freeman (2006) 'Learning in public policy', in M. Moran, M. Rein, and R. E. Goodin (eds), The Oxford Handbook of Public Policy, Oxford ; New York: Oxford University Press, pp. 367–88.

Grin, J. and A. Loeber (2007), 'Theories of policy learning: Agency, structure, and change', in F. Fischer, G. Miller, and M. Sidney (eds), Handbook of Public Policy Analysis: Theory, Politics, and Methods, Boca Raton, FL: CRC Press, pp. 201–19.

Haas, P. M. and E. B. Haas (1995), 'Learning to Learn: Improving International Governance', Global Governance, **1**, 255–84.

Heclo, H. (1974), Modern Social Politics in Britain and Sweden: From Relief to Income Maintenance, Yale University Press.

Hartley, J. and L. Rashman (2018) 'Innovation and inter-organizational learning in the context of public service reform' International Review of Administrative Sciences 84 (4) pp. 231–248. DOI:10.1177/0020852318762309.

Llafur Cymru (2012). Etholiadau Lleol 2012: Gwella Gwasanaethau Gyda'n Gilydd yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2018). Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru 2018-2021

Llywodraeth Cymru (2021). Cytundeb Cydweithio 2021.

Llywodraeth Cymru (2019). Strategaeth Gordewdra Pwysau Iach, Cymru Iach.

Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Llywodraeth Cymru (2021). Canllaw Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Makanjuola, A., Hartfiel, N., Cuthbert, A., Lynch, M., & Edwards, R. T. (2022). Agor Drysau i'r Awyr Agored: Dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddi Prifysgol Bangor.

Moran, M., M. Rein and R. Goodin (2009). The Oxford handbook of public policy. USA, New York: Oxford University Press Inc. ISBN 978-0-19-926928-0.

Parsons, D. W. (1995), Public Policy: An Introduction to the Theory and Practice of Policy Analysis, Edward Elgar.

Public Health England (2015). A guide to community-centred approaches for health and wellbeing Full Report. Public Health England, London.

Public Health England (2018). Introduction to Logic Models Guidance. Public Health England, London.

Riggs, K., (2012). Strategies for sustainability of Grant-funded programs.

Sabatier, P. A. and H. C. Jenkins-Smith (1993), Policy Change and Learning: An Advocacy Coalition Approach, Westview Press.

Sanderson, I. (2002) Evaluation, policy learning and evidence-based policy making, Public Administration 80 (1) pp. 1–22.

Saxton, J., and Lindström, E., (2012 and 2018). Taking nothing for granted: a research report into what charities think a model grant-maker looks like. The John Ellerman Foundation/nfpSynergy, London.

Swyddfa Archwilio Cymru (2019). Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Llywodraeth Cymru. Cyfeirnod dogfen: 1536A2019-20, Cyhoeddwyd Tachwedd 2019

Twohig-Bennett, C. and Jones, A., (2018). The health benefits of the great outdoors: A systematic review and meta-analysis of greenspace exposure and health outcomes. Environmental research, 166, pp.628-637.

UKRCS, (2016) Reaching Out: An Evaluation of the Process of Phase 2 of Sport Wales' 'Calls 4 Action' Programme.

UKRCS, (2021a). Partneriaid ar Waith. Y Gronfa Iach ac Egnïol a'i Theori Newid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

UKRCS, (2021b). Sicrhau Newid. Y Gronfa Iach ac Egnïol: Gwerthusiad Proses. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

**Atodiad 1: CRYNODEB O BOB PROSIECT**

Ynghlwm â’r atodiad hwn mae crynodebau un dudalen o 16 prosiect y GIE, a restrir yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw'r Prosiect fel y nodir yn y tabl isod.

Paratowyd y crynodebau gan dîm UKRCS, ac mae Prosiectau wedi cael cyfle i'w hadolygu ar ffurf drafft. Yn gyffredinol, maen nhw wedi cael eu paratoi yn unol â thempled safonol (gyda mân amrywiadau, y gweler isod). Mae eglurhad o darddiad, ffynonellau a statws y cynnwys ar gyfer pob agwedd o’r templed isod. Ar y cyfan, fe'u lluniwyd o ddogfennaeth y Prosiectau (gan gynnwys deunyddiau ymgeisio gwreiddiol, adroddiadau uchafbwyntiau a blynyddol, cyflwyniadau data, ac adroddiadau ar werthusiadau a wnaed neu a gomisiynwyd gan y Prosiectau eu hunain), a chyfweliadau a gynhaliwyd gan dîm UKRCS dros bedair blynedd gyda gweithredwyr Prosiect a Swyddogion Achos. Mae'r cynnwys wedi'i driongli i'r graddau hyn fel ei fod i gyd yn cael ei ategu gan un neu fwy o'r ffynonellau hyn. Mae'r holl gynnwys yn gyson â'r mewnwelediad y bu i dîm UKRCS ei ffurfio yn ystod cyfarfodydd lluosog â staff y Prosiect ac adolygiadau dogfen lluosog o ddeunyddiau’r Prosiectau. Fodd bynnag, nid oeddem yn gyfrifol am oruchwylio neu sicrhau ansawdd gwerthusiadau Prosiect felly nid yw'r cyfeiriadau data unigol a gyflwynwyd wedi'u gwirio'n annibynnol. Mae barnau ansoddol am effeithiau a chanlyniadau yn rhannu’r un statws a dim mwy na hynny.

**Enw'r Prosiect a'r Grant a Dderbyniwyd:** Dyma enw'r Prosiect a roddir gan y sefydliad cynnal/noddi, a'r grant gwirioneddol a dderbyniwyd, wedi'i dalgrynnu i fyny/i lawr i'r 000 agosaf. Mae'r symiau hyn yn wahanol i lawer o Brosiectau o'r grant arfaethedig gwreiddiol, yn gyffredinol oherwydd cyllid ychwanegol (neu ostyngiadau mewn cyllid) sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi estyniadau neu gyfyngiadau Prosiect sy'n gysylltiedig â Covid-19 a/neu i leihau’r gefnogaeth yn raddol y 4edd flwyddyn. Bu i Brosiectau hefyd gynnig ychwanegiadau ariannol neu mewn nwyddau o gyllid yn aml y tu hwnt i'r lefelau hyn, fel y nodir yn Nhabl 1.1.

**Paragraff Agoriadol:** Mae hyn yn nodi diben a lleoliad daearyddol y Prosiect.

**Amcan a Chyflawniadau’r Prosiectau:** Mae hyn yn nodi'r amcanion gwreiddiol fel y'u crynhoir o ddogfennau ymgeisio’r Prosiectau.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol:** Mae hyn yn nodi'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, yn amodol ar y cafeat uchod nad oeddem yn gyfrifol am oruchwylio neu sicrhau gwerthusiadau Prosiect o ansawdd. O bryd i'w gilydd (e.e. Tyfu gyda'n Gilydd), lle mae sawl targed meintiol, dangosir y targedau a'r deilliannau gwirioneddol yn yr adran hon. Mewn rhai achosion, rydym yn adrodd ar ganlyniadau gwerthuso'r Prosiectau. I gael rhagor o wybodaeth am ddulliau a chyfyngiadau gwerthuso Prosiect, cysylltwch â'r Prosiect yn uniongyrchol.

**Agweddau Arloesol a’r Gwersi a Ddysgwyd:** Mae'r rhain yn bennaf fel y disgrifiwyd gan y Prosiect, ond wedi'u dilysu i'r graddau a eglurwyd yn gynharach.

**Bwriad Cynaliadwyedd:** Mae hyn yn nodi dyheadau'r Prosiect, a chamau gweithredu os o gwbl, i gefnogi cynaliadwyedd gwahanol agweddau’r Prosiect a'i weithgareddau y tu hwnt i'r cyfnod ariannu. Bydd cynaliadwyedd hefyd yn cael ei archwilio yn y gwerthusiad dilynol.

| **Prosiectau'r GIE**<br>Enw'r prosiect, lleoliad, disgrifiad a'r corff arweiniol |
|---|
| **Coed Actif Cymru** (Cenedlaethol): Presgripsiynu cymdeithasol gan ddefnyddio'r Goedwig. Gweithgareddau a hyfforddiant yn y goedwig ar gyfer gwirfoddolwyr, grwpiau, a phartneriaid gofal iechyd: *Coed Lleol –Smallwoods* |
| **Babi Actif** (Gogledd-orllewin Cymru): Cymorth i rieni i gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod yn ystod y cyfnod o feichiogi hyd at 2 oed: *Eryri-Bywiol Cyf* |
| **Balanced Lives for Care Homes** (De-orllewin Cymru): Hybu iechyd a lles preswylwyr cartrefi gofal yn Abertawe drwy weithgarwch corfforol a chymdeithasol mewn cartrefi gofal i'r henoed gan wirfoddolwyr a hyrwyddwyr: *Ymddiriedolaeth Action for Elders* |
| **BeActive RhCT** (Rhondda Cynon Taf): Ymwneud â phobl a chymunedau i hybu lles - Rhaglen amlasiantaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn chwe chymuned ag anghydraddoldebau iechyd difrifol: *Interlink RhCT* |
| **Cyfeillion Cerdded Cymru** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgarwch grŵp cerdded bach dwys i bobl hŷn: *Living Streets* |
| **Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd** (De/De-ddwyrain Cymru a'r Cymoedd): Gweithgareddau cymunedol / partneriaid ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd incwm isel: *StreetGames UK Ltd* |
| **Pum Ffordd at Les**[76] (Fflint/Wrecsam): Gweithgarwch Corfforol i Hybu Lles Meddyliol. Gwasanaeth CAMHS i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc sydd â neu sydd mewn perygl o wynebu anawsterau iechyd meddwl (gwasanaeth cymunedol): Bwrdd *Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* |
| **Tyfu Gyda'n Gilydd** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau sy'n tyfu bwyd: *Cadwch Gymru'n Daclus* |
| **HAPPy** (Casnewydd): Gweithgareddau Tŷ Tredegar ar gyfer yr ifanc a'r rhai mewn tlodi neu anfantais: *Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tŷ Tredegar* |
| **Healthy and Active Newport** (Casnewydd): Cynghrair o gyrff statudol a chyrff eraill yng Nghasnewydd i ymgysylltu mewn ysgolion a chymunedau: *Casnewydd Fyw* |
| **Corff Iach - Meddwl Iach** (Caerdydd): Ffitrwydd corfforol a gweithgareddau teuluol i ferched Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig a'u teuluoedd: *Women Connect First* |
| **Agor Drysau i'r Awyr Agored** (Gogledd-orllewin Cymru): Gweithgareddau corfforol cerdded/dringo mewn grŵp i'r gymuned yn yr awyr agored i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl: *Y Bartneriaeth Awyr Agored* |
| **Llysgenhadon Chwarae** (Caerdydd a'r Fro): Cynyddu chwarae mewn deg cymuned gan 60 o Lysgenhadon Chwarae wedi'u recriwtio a'u hyfforddi: *Chwarae Cymru* |
| **Sporting Memories** (De Cymru): Lles drwy atgofion a gweithgarwch chwaraeon: *CBC Sporting Memories Network* |
| **Super-Agers** (Partneriaeth Cwm Taf): gweithgarwch corfforol yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'r rhai ag anabledd neu salwch hirdymor: *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr* |

[76] Dyma'r Prosiect a ddaeth i ben cyn ei amser yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Does dim crynodeb oherwydd ni chafodd ei weithredu'n llwyr.

| **Prosiectau'r GIE**<br>Enw'r prosiect, lleoliad, disgrifiad a'r corff arweiniol |
|---|
| **Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru** (Cenedlaethol): Chwarae cymunedol a gweithgarwch corfforol dwys i bobl ifanc: *Blynyddoedd Cynnar Cymru (a Gymnasteg Cymru)* |
| **Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru** (Gorllewin a Chanolbarth Cymru): Grwpiau Cerdded sy'n gysylltiedig â Meddygfeydd: *Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro* |

**Coed Actif Cymru**
**Derbyniwyd cyllid grant o £459,000**

Bu i'r Prosiect annog oedolion a phlant i gymryd rhan mewn sesiynau 'Coed Actif' lle'r oedd modd iddyn nhw brofi a dysgu sgiliau coetir, gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol, a bwyta'n iach. At hyn bu iddyn nhw gymryd rhan mewn ymarfer corff sy'n ymwneud â choetiroedd. Roedd y Prosiect ar waith yn genedlaethol ac roedd y cyfranogwyr fel arfer yn rhai o ardaloedd ag anghenion iechyd uchel, cyfraddau cyflogaeth isel, a chyfleoedd cyfyngedig i fanteisio ar wasanaethau.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Nod y prosiect yn wreiddiol oedd:

- Hybu lles meddyliol a lefelau cadw'n heini cyfranogwyr, cynyddu'r amser roedden nhw'n ei dreulio yn yr awyr agored ac yng nghwmni pobl eraill, a chynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sgiliau coetir a chrefftau treftadaeth
- Annog 160 o gyfranogwyr i fynd rhagddi i ennill achrediad Agored (corff dyfarnu ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant) dros gyfnod o ddwy flynedd
- Ffurfio grwpiau gwirfoddoli neu grwpiau coetir galw heibio i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y gymuned
- Ymgysylltu gyda 1640 o gyfranogwyr dros ddwy flynedd, gan gynnwys 256 yn mynychu Clystyrau Iechyd Awyr Agored a 160 yn ymgysylltu ar-lein neu dros y ffôn
- Cyflwyno 200 o sesiynau hyfforddi i staff a datblygu cynnwys addysgol ar gyfer YouTube.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Cafodd y rhan fwyaf o'r targedau eu bodloni, ac ni fu i Covid effeithio'n sylweddol ar y gwaith cyflawni. Bu iddyn nhw lwyddo i ymwneud gyda 2073 o gyfranogwyr, gan gynnwys 456 ledled pedwar Clwstwr Iechyd Awyr Agored a bu i 281 gymryd rhan mewn sgyrsiau natur ar-lein neu dros y ffôn. Cafodd cyfanswm o 321 o brofiadau hyfforddi eu cyflwyno i 150 o staff, ac enillodd 172 achrediad Agored. Nododd yr adroddiad gwerthuso, yn gyffredinol, fod sgôr cymedrig WEMWBS ar gyfer lles wedi cynyddu o 43 (allan o 70) i 50, cynnydd o 7 pwynt llesiant; bu i 71 y cant o'r cyfranogwyr hybu eu lles; a chynyddodd dros 50 y cant o'r cyfranogwyr sgoriau IPAQ ar gyfartaledd o 476.5 pwynt MET.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Ymysg y datblygiadau arloesol roedd cyflwyno gweithgarwch craidd y prosiect ar raddfa fawr. Bu i'r GIE alluogi rhaglen llawer mwy a mwy datblygedig nag a geisiwyd yn flaenorol. Cafodd y defnydd o adnoddau digidol ei dreialu'n llwyddiannus a dechreuwyd sgyrsiau natur dros y ffôn/ar-lein yn ystod cyfnodau clo Covid, roedden nhw'n llwyddiannus dros ben, felly fe barhawyd i'w cynnal ar ôl Covid. Ymysg y gwersi a nodwyd gan y Prosiect oedd yr angen am broses werthuso/data mwy pwrpasol ac i sicrhau caiff yr agwedd hon ei datblygu cyn y Prosiect.

**Bwriad Cynaliadwyedd:** Mae prosiect y GIE wedi galluogi Coed Bach i ddatblygu fel sefydliad. Oherwydd maint y Prosiect, rhaid oedd mynd ati i gyflawni gwaith ailstrwythuro a defnyddio adnoddau digidol. Cafodd cyflwyno ar-lein ei dreialu. Mae'r newidiadau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod y gwaith yn parhau yn dilyn rhaglen y GIE. Mae tystiolaeth o'r Prosiect wedi helpu i ennill cyllid pellach. Bu iddyn nhw ddatgan bod cynnwys y Prosiect felly'n parhau a'i fod mewn sefyllfa gryfach i wneud hynny.

**Babi Actif**
**Derbyniwyd cyllid grant o £232,000**

Cynhaliwyd Prosiect Babi Actif ledled Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, dan arweiniad Eryri-Bywiol Cyf. Bu i'r Prosiect gefnogi rhieni a phlant i gadw'n heini yn yr awyr agored yn ystod 1000 diwrnod cyntaf y babi.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Nod Babi Actif oedd meithrin diwylliant o deuluoedd heini drwy:

- Cyflwyno ymyriadau wedi'u targedu i oresgyn rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig rhag cadw'n heini yn yr awyr agored gyda phlant bach
- Hyrwyddo gweithgareddau pleserus a heini y mae modd i rieni a phlant eu cyflawni yn ystod 1000 diwrnod cyntaf y babi
- Nodi a hyrwyddo gweithgareddau newydd, arloesol i deuluoedd â phlant ifanc
- Cyflwyno ymgyrch gorfforol a digidol sy'n rhannu syniadau ar sut i fentro i'r awyr agored a chadw'n heini gyda babanod, a rhannu straeon cadarnhaol am sut bu i gadw'n heini gyfoethogi bywyd teuluol
- Cyflwyno o leiaf 606 o sesiynau Babi Actif, cymysgedd o sesiynau blasu, cyrsiau 6-8 wythnos a sesiynau galw heibio rheolaidd, gan ymwneud â 3,000 o gyfranogwyr a hyfforddi 20 o wirfoddolwyr.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Cyflwynwyd cyfanswm o 133 o gyrsiau chwech i wyth wythnos a 26 cwrs tair i bum wythnos fel rhan o brosiect Babi Actif. Cyflwynwyd 726 sesiwn a 48 sesiwn blasu'r haf. Roedd llawer iawn wedi achub ar y cyfle i gymryd rhan, roedd galw mawr amdano ac fe dderbyniwyd adborth cadarnhaol. Roedd y gwerthusiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor yn dangos bod mynychu sesiynau Babi Actif wedi hybu lles y rhiant, a oedd yn ei dro yn cynyddu effeithiolrwydd rhieni, ac yn fuddiol i'r babi. Er nad oedd modd dadansoddi data monitro yn ystadegol oherwydd ymateb isel i arolygon dilynol, dangosodd data'r ymatebwyr fod 88 y cant o rieni yn cytuno eu bod wedi hybu eu hiechyd a/neu eu lles eu hunain oherwydd sesiwn Babi Actif tra bod 83 y cant yn cytuno bod iechyd a/neu les eu babi wedi gwella.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Does dim llawer iawn o sesiynau gweithgareddau awyr agored ar gyfer rhieni a phlant ifanc. Cafodd Babi Actif groeso arbennig yn ystod y pandemig, yn sgil diffyg cefnogaeth a chyswllt ag eraill i rieni newydd a'u babanod. Bu i'r Prosiect ddysgu am y ffyrdd mwyaf effeithiol o annog rhieni newydd i fynychu sesiynau Babi Actif, gan gynnig nifer o opsiynau cyfathrebu gan gynnwys gwefan, cyfryngau cymdeithasol, wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Bu i bartneriaid cyflawni ddysgu sut y gallen nhw addasu i ddarparu sesiynau llwyddiannus mewn gwahanol leoliadau, a chael gwell dealltwriaeth o wahanol gymunedau. Bu i'r Prosiect ddysgu hefyd fod cefnogaeth partneriaid allweddol fel Gwasanaethau Teulu wedi eu helpu i ennyn diddordeb mwy o bobl, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth a phresenoldeb mewn cymunedau newydd. Bu iddyn nhw ddysgu hefyd bod meddu ar adnoddau i ategu gwaith 'ymgysylltu' yn alluogwr pwysig.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Cafodd y syniad bod cyfranogwyr yn cymryd yr awenau dros y grwpiau ei annog, gyda'r Prosiect yn ariannu sesiynau bob yn ail wythnos a'r grwpiau'n trefnu cyfarfod yn anffurfiol eu hunain rhwng y sesiynau hynny. Mae'r adnodd 'Pethau i'w gwneud cyn i chi droi'n ddwy' yn adnodd gwaddol i annog rhieni i gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod. Caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at gyfleoedd eraill i gadw'n heini yn yr awyr agored, ac mae manylion am hyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Prosiect wedi bod yn ceisio am gyllid pellach a bu'n gweithio gyda phartneriaid i gynnal y ddarpariaeth a chefnogi teuluoedd newydd.

**Balanced Lives for Care Homes.**
**Derbyniwyd cyllid grant o £308,000**

Nod Balanced Lives for Care Homes oedd hybu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol preswylwyr oedd yn segur yn bennaf mewn pum cartref gofal yn ardal Iechyd Bae Abertawe.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig:**
Yr amcan gwreiddiol oedd darparu rhaglen wythnosol gan dîm arbenigol gyda chefnogaeth gan wirfoddolwyr a staff cartrefi gofal. Byddai'r weithdrefn yn cael ei gyd-gynllunio. Dyma'r cyflawniadau a oedd wedi'u cynllunio:

- Cefnogi 270 o bobl hŷn i hybu eu hiechyd a'u lles - byddai 200 o breswylwyr cartrefi gofal a 70 o drigolion y gymuned leol yn cael eu gwahodd i ymuno â'r grwpiau wythnosol, gan fanteisio i'r eithaf ar y posibilrwydd o gynnal cartrefi gofal fel asedau cymunedol
- Hyfforddi a chefnogi 10 gwirfoddolwr cymunedol
- Hyfforddi a chefnogi 10 aelod o staff cartrefi gofal fel Hyrwyddwyr.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol.**
Bu'n rhaid gohirio'r gweithgareddau yn sgil cyfyngiadau'r pandemig a daeth yn amlwg yn fuan y byddai Covid yn cael effaith andwyol ar drigolion, staff a theuluoedd cartrefi gofal. Cafodd model rhesymeg a deilliannau'r Prosiect eu hail-gynllunio a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd darparu'r Prosiect yn ddigidol, gan ddefnyddio Zoom ar gyfer sesiynau wedi'u trefnu, a chyflwyno'r deunydd ar YouTube. O ganlyniad, roedd y prosiect yn cael ei ddarparu'n gyson i dros 300 o bobl yr wythnos mewn 18 lleoliad, gyda dros 12,500 o gyfranogwyr unigol yn manteisio ar y ddarpariaeth ar-lein.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Roedd y dull gweithredu newydd yn llwyddiant gan ei fod yn galluogi datblygu a chyrhaeddiad pellach, gan y gellid cynnig darpariaeth rithwir ledled Cymru. Pan ganiateir cyfyngiadau, defnyddiwyd y lleoliadau yn yr awyr agored ar gyfer sesiynau gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol a theithiau cerdded wedi'u trefnu. Bu i'r Prosiect ddysgu fod agweddau cymdeithasol yn bwysig er mwyn hybu hyder ac annog pobl hŷn i chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau eto.

Bu i'r Prosiect feithrin cysylltiad newydd â Charchar Parc gan hyfforddi mentoriaid cymorth cyfoedion yno. O ganlyniad i lwyddiant yr agwedd honno bu i'r Prosiect ennill cytundeb masnachol ar gyfer Action for Elders i gynnig eu rhaglenni nhw yn y Carchar o fis Ebrill 2023.Cafodd y cynnig ei addasu i'w ddefnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys Cartrefi Gofal, Gofal Ychwanegol, Lleoliadau Cymunedol, Canolfannau Dydd, a'r Carchar. Dywedodd Action for Elders mai'r addasiad pwysicaf yn eu barn nhw oedd newid y model gwerthuso i ganolbwyntio ar werth cymdeithasol yn hytrach na gwerth economaidd.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Bu i Action for Elders hyfforddi staff cartrefi gofal ac eraill i ddysgu symudiadau syml, diogel y gallen nhw eu hymarfer gyda'u cleientiaid/cleifion heb ofni y byddai'n achosi anaf. Roedd hyn yn waddol i'r prosiect. Mae dosbarthiadau a fideos ar-lein yn dal ar gael fel adnodd, gan ganiatáu i weithgareddau barhau.

Mae Action for Elders yn bwrw iddi i arallgyfeirio ei ffrydiau incwm er mwyn osgoi dibynnu ar gyllid grant tymor byr. Maen nhw o'r farn bod gwytnwch yn bwysicach nag erioed erbyn hyn gan fod yr heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu'n dwysáu. O ganlyniad, fe wnaethan nhw fynd ati i ganolbwyntio mwy ar feithrin gwytnwch i frwydro yn erbyn unigrwydd, gan ddefnyddio'r Fframwaith Synhwyrau i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon a darparu cefnogaeth bersonol.

**BeActive RhCT**
**Derbyniwyd cyllid grant o £472,000**

Roedd y Prosiect BeActive o dan arweiniad Interlink RCT fel menter ar y cyd rhwng chwe phartner cyflenwi craidd sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol ehangach i sefydlu 'Llwybrau Llesiant' sy'n canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored a ddarperir gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol. Roedd yn ategu'r seilwaith atgyfeirio cymunedol presennol ac yn ymwneud â dylunio ar y cyd gyda thrigolion y gymuned a chysylltu ag ystod o wasanaethau.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Y targed gwreiddiol oedd ymwneud â 5,320 o gyfranogwyr, lle byddai 2,930 ohonyn nhw'n cael eu cefnogi ar sail 'ffocws' a 2,390 ar sail 'byr'. Oherwydd y pandemig, adolygwyd targedau mewn cytundeb â'r GIE i 3,714 o gyfranogwyr yn gyffredinol, gyda 1,654 yn derbyn ymyriadau 'â ffocws' a 2,060 yn derbyn ymyriadau 'byr'. Nod hyn oedd er mwyn adlewyrchu'n well y cydbwysedd a rhwng y ddau fath o ymgysylltu a newidiwyd yn sgil Covid-19.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Bu i BeActive weithio gyda chyfanswm o 4,435 o gyfranogwyr: 1,492 yn derbyn ymyriadau 'â ffocws' a 2,943 yn derbyn ymyriadau 'byr', gan gynnwys mwy nag un sesiwn lle'r oedd yr effaith ar les y cyfranogwr yn cael ei asesu. Ar y cyfan, bu i'r prosiect ragori ar ei darged ar gyfer ymyriadau 'byr' ac roedd yn agos at fodloni ei darged ar gyfer ymyriadau 'â ffocws'. Dyma'r prif lwyddiannau:

- Yr effaith ar iechyd meddwl a chorfforol cyfranogwyr, fel y nodir yn yr adroddiad gwerthuso, gan gynnwys lleihad mewn unigrwydd ac unigedd. Dangosodd data meintiol a gasglwyd gan sampl o gyfranogwyr fod 78.1 y cant wedi cynyddu lefel eu gweithgarwch corfforol. Dangosodd 920 o gyfranogwyr BeActive, a gwblhaodd cyfres o ffurflenni WEMWBS cyn-ac ar ôl cymryd rhan, gynnydd cyfartalog yn eu lles meddyliol cyffredinol o 3.8 ar system fesur y raddfa. Yn y bôn, llwyddodd y rheiny wnaeth gwblhau sesiynau dilynol chwe mis a 12 mis ar ôl y rhaglen i gynnal y gwelliant hwnnw. Dywedodd 64.8 y cant o'r ymatebwyr fod eu lles meddyliol wedi gwella yn sgil cymryd rhan yn y prosiect.
- Sefydlwyd gweithgareddau a grwpiau hunangynhaliol sy'n dibynnu ar aelodau o'r gymuned leol a gwirfoddolwyr.
- Cafodd cysylltiadau eu meithrin rhwng sefydliadau wnaeth barhau i ddatblygu a thyfu, gan gynnwys grwpiau cymunedol, elusennau mwy, meddygfeydd a gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Bu i'r Prosiect adrodd am heriau wrth geisio bodloni targedau perfformiad, yn ogystal â gyda chasglu data gwerthuso a deilliannau, a gyda'r adnoddau yr oedd eu hangen arnyn nhw. Er bod rhywfaint o hyn yn gysylltiedig â'r pandemig, roedd buddsoddi mwy mewn adnoddau a'r gallu i gyflawni hyn gyda chymorth y rhaglen yn faes dysgu allweddol. Roedden nhw'n gwerthfawrogi cefnogaeth ymgynghorydd gyda gwerthuso ym Mlwyddyn 4 i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Ymysg y gwersi a nodwyd gan y Prosiect roedd bod eu partneriaethau amrywiol gyda sefydliadau cymunedol sydd wedi'u gwreiddio'n lleol yn darparu hyblygrwydd. Roedd yn arloesol a bu i bartneriaid gwydn elwa ar ddysgu sylweddol. Roedd y llwyddiant hwn o ganlyniad i bartneriaid cymunedol profiadol a dibynadwy a oedd mewn cysylltiad â grwpiau a chymunedau lleol, ac a oedd yn arloesi ac yn addasu'n gyson i ymwneud gydag a chefnogi cyfranogwyr i gymryd rhan.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Bu i'r Prosiect adrodd fod ystod eang o weithgareddau yn parhau i gael eu cyflwyno'n uniongyrchol fel prosiectau gwaddol gan y partneriaid oedd ynghlwm, a'u bod wedi datblygu oherwydd yr hyn a ddysgwyd. Llwyddiant allweddol oedd bod RHA (Cymdeithas Tai Rhondda gynt) yn cydnabod

effaith gadarnhaol BeActive ar les ei denantiaid ac maen nhw o ganlyniad wedi buddsoddi mewn swydd Iechyd a Lles barhaol i sicrhau eu bod yn gallu cynnal y cynnig hwn.

**Cyfeillion Cerdded Cymru**
**Derbyniwyd cyllid grant o £271,000**

Nod y Prosiect oedd hybu lles corfforol a meddyliol pobl hŷn 50+ oed, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ynysu cymdeithasol a ffyrdd o fyw segur yn Ne-ddwyrain Cymru, Dinas-ranbarth Caerdydd a rhan o'r cymoedd, trwy weithgareddau cerdded a theithiau cerdded tywys mewn grŵp.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Nod y prosiect oedd i bobl hŷn gerdded mwy yn eu cymuned neu leoliad gofal a chael gwell ymdeimlad o les corfforol a meddyliol, a bod â mwy o gysylltiad cymdeithasol. Ymhlith y targedau oedd gweithio gyda 90-100 o arweinwyr cerdded gwirfoddol wedi'u hyfforddi drwy 25-30 digwyddiad, i arwain grwpiau cerdded o oddeutu 10 o bobl, gyda chyfanswm o 260-280 o fuddiolwyr. Fel rhan o'r gwaith roedd yn rhaid cynnal 8 archwiliad stryd cymunedol, a chynhyrchu deunyddiau cymorth yn ôl yr angen.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Yn ymarferol, fe wnaethon nhw recriwtio 96 o arweinwyr teithiau cerdded gwirfoddol, a chynnal 38 o ddigwyddiadau. Roedd maint y grwpiau'n amrywio. Bu i 278 o gyfranogwyr gymryd rhan, a lluniwyd 9 astudiaeth achos. Cwblhawyd yr 8 archwiliad stryd, a chynhyrchwyd deunydd amrywiol, gan gynnwys Llyfryn Croeso gyda Gweithgareddau (ar gyfer cyfranogwyr), Pecyn Hyfforddi Gwirfoddolwyr, a Chanllaw i Ymarferwyr (ar gyfer partneriaid). Roedd y cofnodion MET IPAQ cyfartalog a adroddwyd gan gyfranogwyr ar ôl 12 mis 91 y cant yn uwch nag ar y llinell sylfaen, ac roedd sgôr WEMWEBS 11 y cant yn uwch ar gyfartaledd ar ôl 12 mis nag ar y llinell sylfaen. Bu i'r cyfranogwyr feithrin cysylltiadau newydd, ac roedden nhw'n teimlo'n llai ynysig. Roedd cerdded yn help iddyn nhw gynnal eu ffitrwydd corfforol, a datblygu a chynnal gwytnwch meddyliol.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Ymysg y rhain roedd meithrin perthnasoedd effeithiol ar lawr gwlad rhwng y Prosiect a sefydliadau cymunedol gan ymwneud gydag a meithrin dealltwriaeth o'r buddiolwyr targed. Mae hyn yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol, a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth leol ynghlwm â'r gweithgareddau. Fe wnaethon nhw lwyddo i wreiddio'r grwpiau cerdded o fewn y cymunedau targed, gan sicrhau bod seilwaith lleol cefnogol. Mae meithrin ymdeimlad o ymreolaeth yn ymddangos yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd yn y tymor hwy. Roedd yr hyblygrwydd wnaeth y GIE ei alluogi o ran annog amrywiaeth eang o bartneriaethau, a'r gallu i deilwra'r gweithgareddau cerdded i ddiwallu anghenion penodol buddiolwyr, yn arwyddocaol i ennyn diddordeb pobl.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Y strategaeth gynaliadwyedd oedd datblygu'r grwpiau cerdded, hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded gwirfoddol yn y gymuned leol, a meithrin hyder, perchnogaeth ac ymreolaeth y grwpiau ymhlith y buddiolwyr a'r partneriaid, i greu grwpiau cerdded annibynnol (neu dan arweiniad partneriaid) parhaus y tu hwnt i ddiwedd y Prosiect. Dosbarthwyd y llyfryn Croeso gyda Gweithgareddau i ganolfannau cymunedol ar ddiwedd y prosiect ac mae'n parhau i fod yn adnodd byw ar wefan Living Streets. Bu i'r prosiect lwyddo i gysylltu gyda llawer o bartneriaid a'u cefnogi i hyrwyddo cerdded yn eu sefydliad. Roedd y prosiect yn ymddangos ar fideo hyrwyddo Pwysau Iach Cymru Iach.

**Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd**
**Derbyniwyd cyllid grant o £475,000**

Cynlluniwyd y Prosiect i gynyddu gweithgarwch corfforol a lefelau lles meddyliol cysylltiedig ymhlith teuluoedd sy'n wynebu tlodi trwy ymgysylltu pwrpasol. Bu i StreetGames gynnig y gweithgaredd hwn mewn saith ardal ledled Cymru drwy drefniadau a ddatblygwyd ar gyfer y GIE. Roedd StreetGames yn gweithredu fel corff arweiniol ar y cyd â saith Partneriaeth Cyflenwi Lleol (CDLI) gyda 30 partner cyflawni. Cynlluniwyd pob CDLI i fynd i'r afael ag anghenion penodol a demograffeg ardal benodol.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Dyma'r amcanion:

- Byddai teuluoedd sy'n wynebu tlodi ac sy'n methu â manteisio ar neu â diffyg profiad o weithgareddau chwaraeon yn rhan o'r Prosiect ac yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- Ymwneud gyda 265 o deuluoedd (1200 o unigolion) a hyfforddi 60 o staff o sefydliadau partner
- Y byddai'r teuluoedd sy'n cymryd rhan yn teimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch darparu cyfleoedd chwaraeon lleol/anffurfiol; wedi hybu eu hyder, a gwella eu gwybodaeth a'u cymhwysedd i fod yn fwy egnïol a meithrin arferion ffordd o fyw iach; ac wedi gwella rhyngweithiadau a chysylltiadau cymdeithasol, gyda gwelliannau cysylltiedig i'w lles meddyliol.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd, a datblygu dysgu am sut i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n wynebu tlodi a sut y gall gweithgarwch corfforol effeithio'n gadarnhaol ar eu bywydau.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Yn seiliedig ar ddata a gynhyrchwyd gan y Prosiect gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, bu iddyn nhw ragori ar y nodau cyflawni. Bu i 468 o deuluoedd (1339 o unigolion) gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Bu i dros ddwbl nifer y sefydliadau partner gymryd rhan, a 390 o staff (o gymharu â'r targed gwreiddiol o 60). Bu i'r gwerthusiad adrodd fod 265 o deuluoedd wedi cynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol. Roedd 265 o deuluoedd wedi hybu eu lles emosiynol a meddyliol, ac roedd lefelau cynyddol o gymryd rhan, rhyngweithio a chysylltu cymdeithasol mewn cymunedau.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Cafodd model cyflawni ei chynllunio a allai fod yn gymhleth o ran sicrhau digon o hyblygrwydd. Roedd adborth systematig yn sicrhau bod y Prosiect cyfan yn elwa o ddysgu parhaus, a ddefnyddiwyd ar gyfer gwelliant parhaus yn ôl y Prosiect. Bu i brynu dillad a chyfarpar chwaraeon fynd i'r afael yn uniongyrchol ag un rhwystr rhag cymryd rhan sy'n gysylltiedig â thlodi. Ymysg y gwersi wnaeth y Prosiect nodi oedd yr angen am strategaeth gwerthuso/casglu data pwrpasol, yr angen am hyblygrwydd gyda theuluoedd targed, a phwysigrwydd dull empathig. Ni fyddai 'un dull addas i bawb' wedi bod yn effeithiol ledled cymaint o ardaloedd yng Nghymru. Bu iddyn nhw ganfod bod darparu ar gyfer cryfderau partneriaid cyflenwi sy'n canolbwyntio ar y rheng-flaen yn ddefnydd effeithlon o adnoddau.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Y nod yw parhau ag oes CDLIau y tu hwnt i'r GIE er mwyn cynnig cyfleoedd chwaraeon, a gweithredu newidiadau penodol i brosesau ac arferion mewn sefydliadau partner i'w galluogi i barhau i ddarparu ymyriadau. Dywedodd y Prosiect y byddan nhw'n cynnal perthnasoedd proffesiynol/partner er mwyn creu cyfleoedd newydd gan gynnwys ceisiadau am gyllid. Bydd StreetGames yn cynnal rôl arwain, gan gynnig arbenigedd a chyfleoedd rhwydweithio i bartneriaid.

**Tyfu gyda'n gilydd**
**Derbyniwyd cyllid grant o £295,000**

Prosiect tyfu bwyd i bontio’r cenedlaethau oedd Tyfu Gyda'n Gilydd a oedd â’r nod o hybu iechyd a lles oedolion hŷn agored i niwed a phlant ysgol gynradd. Hyn i gyd drwy greu llecynnau gardd addas i bawb yn yr awyr agored mewn pum safle llety gwarchod ac o dan ofal landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn ardaloedd difreintiedig ledled De-ddwyrain Cymru.

**Y Deilliannau Arfaethedig a Chyflawniadau’r Prosiect**
Nod y Prosiect yn wreiddiol oedd meithrin gwell iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â ffyrdd egnïol o fyw, ymhlith oedolion hŷn drwy eu dwyn ynghyd â phlant ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol i bontio’r cenedlaethau mewn mannau awyr agored. Yng ngoleuni Covid-19, bu i’r Prosiect hefyd fabwysiadu’r nod o feithrin llythrennedd digidol ymhlith pobl hŷn trwy weithgareddau pontio'r cenedlaethau.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Y targed oedd sicrhau bod 100 o oedolion hŷn (191 wedi cyflawni) a 200 (171) o blant yn byw bywydau mwy egnïol trwy wirfoddoli yn yr awyr agored, 10 (10) o fannau tyfu wedi gwella neu eu creu, 5 (5) ysgol o gymunedau difreintiedig yn cymryd rhan, 50 (77) oedolyn yn elwa o gynhwysiant digidol a 50 (191) o fannau awyr agored mwy hygyrch, a 100 (282) o weithgareddau wedi'u cydlynu a'u cyflenwi mewn blwyddyn.

Bu i’r adroddiad gwerthuso nodi fod y Prosiect wedi llwyddo i hybu gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored ymhlith cyfranogwyr hen ac ifanc ac wedi gwella eu cyfleoedd i fanteisio ar fannau gwyrdd a mwy o fwyd sydd wedi’i dyfu’n lleol. Llwyddodd i feithrin cysylltiad rhwng pobl ifanc a hen bobl, ac yn gyfle i’r cyfranogwyr dreulio mwy o amser gyda ffrindiau newydd. Bu iddo wella gwybodaeth y cyfranogwyr am fanteision bwyta'n iach a ffyrdd o fyw egnïol, ac o dyfu bwyd. At hyn, bu iddo hybu lles meddyliol tymor byr pobl, a gwella asedau cymunedol mewn safleoedd llety gwarchod ar gyfer bywyd gwyllt, tyfu bwyd a phobl, a hybu iechyd o ganlyniad i wirfoddoli.

**Agweddau Arloesol a’r Gwersi a Ddysgwyd**
Ym marn y Prosiect roedd yr hyblygrwydd a ganiatawyd gan y GIE yn hollbwysig er mwyn cyflawni deilliannau a chreu effaith, gan ganiatáu modd i addasu'r Prosiect i greu pum safle tyfu ychwanegol mewn ysgolion pan fu i Covid-19 rwystro gweithgareddau pontio’r cenedlaethau wyneb yn wyneb. Bu i’r GIE hefyd sicrhau modd i deilwra gweithgareddau i ddiwallu anghenion a dewisiadau penodol y buddiolwyr targed. Roedd y Prosiect yn teimlo eu bod wedi ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o sut i ennyn diddordeb y buddiolwyr targed, a'r hyn yr hoffen nhw ei wneud a’r hynny roedden nhw’n teimlo'n gyfforddus yn ei wneud. Roedd hyn yn bwysig wrth weithio gyda phobl hŷn, gyda llawer ohonyn nhw’n wynebu sawl rhwystr rhag cymryd rhan.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Roedd strategaeth gynaliadwyedd y Prosiect y tu hwnt i gyllid y GIE yn canolbwyntio ar adeiladu asedau cymunedol (safleoedd tyfu) ar y cyd â phartneriaid a buddiolwyr, ymgysylltu'r buddiolwyr â gweithgareddau yn y safleoedd tyfu, meithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros y safleoedd ymhlith y partneriaid a'r buddiolwyr, a throsglwyddo perchnogaeth i'r rhanddeiliaid hynny i'w defnyddio'n barhaus.

**HAPPy**
**Derbyniwyd cyllid grant o £228,000**

Roedd y Prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Tŷ Tredegar (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Mind Casnewydd, Growing Space a Duffryn Community Link. Roedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl ac anweithgarwch yn ardal Tŷ Tredegar, Casnewydd, sydd â lefelau uchel o amddifadedd gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn wynebu problemau iechyd. Bu i'r Prosiect ddefnyddio tiroedd Tŷ Tredegar i greu cyfleoedd i fanteisio ar barcdir a choetir i hybu lles corfforol a meddyliol.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Dyma amcanion y prosiect:

- Hybu iechyd corfforol a meddyliol cyfranogwyr, gyda lleiafswm o 50 y cant o'r cyfranogwyr yn deall y gellir gwella eu hiechyd a'u lles trwy dreulio amser yn yr awyr agored. Y nod oedd sicrhau bod o leiaf 50 y cant o'r cyfranogwyr yn cynnal lefelau uwch o weithgarwch corfforol ar ôl i'r prosiect ddod i ben, a byddai o leiaf 50 y cant o'r cyfranogwyr yn dangos newid diwylliannol ac ymddygiadol o ran eu hagwedd tuag at weithgareddau corfforol.
- Byddai trigolion cymunedau cyfagos i Tŷ Tredegar yn llai segur, yn colli pwysau ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o fyw'n iach.
- Byddai plant ifanc o Dduffryn wedi cynyddu lefelau eu gweithgarwch yn yr awyr agored gan osod sylfaen ar gyfer ymddygiadau iach gydol oes.
- Byddai Parc Tredegar House yn cael ei ddefnyddio'n ehangach fel ased cymunedol.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Roedd adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr yn gadarnhaol, ac fe wnaethan nhw fodloni eu targed o ddenu 700 o gyfranogwyr erbyn diwedd y Prosiect. Bu i astudiaethau achos ddangos effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr unigol. Bu i werthusiad canol cyfnod y Prosiect ddangos fod 78 y cant o'r cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch eu lles yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Bu i'r Prosiect adrodd ei fod yn bartneriaeth arloesol, newydd, gyda'r nod o fodloni amcanion hirsefydlog Tŷ Tredegar ei hun o ran y gymuned, wrth fanteisio ar arbenigedd gan sefydliadau arbenigol. Ymysg y gwersi a nodwyd gan y Prosiect oedd yr angen i gasglu a gwerthuso data sy'n benodol i'r prosiect; ansawdd y rhagdybiaethau a wnaed ar ddechrau'r Prosiect; a sut i gydweithio'n llwyddiannus â sefydliadau eraill pan fo heriau lluosog.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Mae dull cynaliadwyedd y Prosiect yn canolbwyntio ar waddol yn hytrach na pharhau, ynghyd â newid ymddygiadol a diwylliannol yn y cymunedau sy'n cymryd rhan. Bu i'r Prosiect adrodd fod staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi datblygu sgiliau a hybu eu hyder wrth weithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl. Y bwriad oedd y bydd tir Tŷ Tredegar yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned leol yn fwy cyffredinol ac y bydd y gwersi a ddysgwyd yn sgil HAPPy yn cael eu rhannu ag eiddo eraill Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

**Healthy and Active Newport**
**Derbyniwyd cyllid grant o £460,000**

Roedd y Prosiect yn ymwneud â grŵp o wyth ysgol a'u cymunedau estynedig mewn rhaglen chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd pwyslais ar wella sgiliau a gallu gweithlu'r ysgolion, a datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r ddarpariaeth. Y disgyblion cafodd eu targedu oedd y rhai nad oedden nhw'n cadw'n heini'n rheolaidd a'r rhai nad oedd eu teuluoedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Roedd y Prosiect yn gydweithredol ac yn dilyn Covid-19, fe gafodd ei chyflawni'n ddigidol.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Nodau'r Prosiect oedd penodi Hyfforddwr Lles mewn rhwydwaith o wyth ysgol i ddwyn ynghyd disgyblion, staff, teuluoedd a thrigolion y gymuned i gyflawni rhaglen gweithgarwch corfforol, cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol disgyblion Blwyddyn 3 a'u rhieni, hybu eu lles meddyliol a rhoi hwb i hyder disgyblion a staff. Yn ei dro, byddai teuluoedd ac ysgolion yn ymddiddori mwy mewn gweithgarwch corfforol a ffyrdd iach o fyw. Byddai rhwydwaith o wirfoddolwyr yn cynorthwyo i gyflawni a chynnal y Prosiect yn y tymor hwy, ac i'r perwyl hwnnw yn rhoi model cyflawni gellir ei dyblygu ar brawf. Amcan arall y Prosiect oedd gwella ymddygiadau, yn ymwneud â ffyrdd iachach o fyw ac yn fwy cyffredinol yn yr ysgol, ac ategu Amcanion Cynllun Lles Lleol Casnewydd.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Fe lwyddodd y Prosiect i fodloni ei amcanion, a bu i'r pandemig ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Adroddodd y gwerthusiad fod 1343 o blant wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn gyffredinol, ac yn y pen draw dangoswyd gwelliant ymddygiadol ynghyd â gwelliannau i iechyd corfforol a lles meddyliol. Bu i 960 o rieni gymryd rhan ac roedd 63 wedi gwella ymddygiadau ffordd iach o fyw. Manteisiodd 64 o staff yr ysgol ar hyfforddiant. Pan roedd yn rhaid cau ysgolion yn sgil y pandemig, bu i'r Prosiect addasu i annog / ennyn diddordeb plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dan gyfyngiadau'r cyfnod clo.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Roedd lefel uchel o arloesi. Bu i gyfyngiadau'r pandemig a'r heriau ynghylch cydweithio gyda theuluoedd arwain at sawl menter newydd. Ymysg y rhain roedd cynnal grwpiau ffocws gyda phlant i lywio'r ddarpariaeth, llyfrgell benthyca cyfarpar chwaraeon, darlledu radio/podlediad, darpariaeth ac ymgysylltu digidol, a datblygu ap wedi'i addasu i ymgysylltu â chyfranogwyr. Ymhlith y gwersi a nodwyd gan y Prosiect oedd yr angen i ddatblygu strategaethau casglu data wedi'u haddasu, pwysigrwydd treulio amser yn deall ysgolion fel sefydliadau cymhleth, gwerth cydgynhyrchu i lywio cynllun y prosiect, a sut mae tlodi cymharol mewn teuluoedd yn rhwystr sylweddol rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Adroddodd y prosiect y bydd agweddau o'r Prosiect hwn yn parhau i gael eu cynnal. Mae llyfrgell cyfarpar chwaraeon a chynnwys digidol ffisegol yn dal ar waith, a gall staff a gwirfoddolwyr sydd wedi hybu eu sgiliau a'u hyder barhau â'r gweithgarwch. Roedden nhw hefyd yn rhagweld gwaddol o newid diwylliannol a allai hefyd barhau i gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i weithgarwch craidd y Prosiect barhau.

**Corff iach: Meddwl Iach**
**Derbyniwyd cyllid grant o £449,000**

Roedd Healthy Body Healthy Mind o dan arweiniad Women Connect First ac roedd ar waith yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd yn ennyn diddordeb merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a'u teuluoedd mewn gweithgarwch corfforol a ffyrdd iach o fyw.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Dyma amcanion y prosiect:

- Cefnogi merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a'u teuluoedd i ddod yn fwy ymwybodol o fanteision cadw'n heini, bwyta'n iach ac ymwneud mwy gyda gweithgareddau sy'n atal problemau iechyd
- Helpu merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a'u teuluoedd i wella eu hiechyd corfforol a'u lles meddyliol, ac i hyfforddi merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig i hyrwyddo a darparu cyngor iechyd, lles a hamdden i a/neu ar ran eu cyfoedion
- Cefnogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys cyfleusterau hamdden) i wneud newidiadau i'w harferion mewn perthynas â merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a'u teuluoedd.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Bu i'r Prosiect ymgysylltu gyda 493 o fuddiolwyr dros bedair blynedd a 74 o sefydliadau partner. Yn ogystal, bu'n gweithio'n agos gydag amrywiaeth o wasanaethau iechyd i'w dylanwadu a'u hysbysu am anghenion y boblogaeth darged. Bu i'r Prosiect hefyd lunio system atgyfeirio fel y gallai mwy o gyfranogwyr gysylltu â nhw a chymryd rhan. Derbyniodd 56 o fenywod hyfforddiant Hyrwyddwr Iechyd Menywod neu hyfforddiant gwirfoddol arall i allu hyrwyddo a darparu cyngor iechyd, lles a/neu hamdden i a/neu ar ran eu cyfoedion. Bu i'r adroddiad gwerthuso gyflwyno tystiolaeth yn awgrymu bod cyfranogwyr wedi hybu eu hiechyd a lles corfforol. Roedd 90 y cant o'r cyfranogwyr o'r farn eu bod yn meddu ar fwy o wybodaeth am fanteision cadw'n heini, bwyta'n iach ac wedi dysgu mwy am eu hiechyd.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Roedd cyflwyno sesiynau rhithiol yn ystod y pandemig yn golygu bod mwy o aelodau benywaidd o'r teulu yn cymryd rhan, gan gynnwys plant. Roedd niferoedd uwch na'r disgwyl yn wreiddiol a llwyddodd y Prosiect i ymwneud gydag ystod eang o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Cyflwynodd y Prosiect amrywiaeth mwy helaeth o weithgareddau nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, gan gynnwys coginio i blant. Yna, dychwelodd llawer o'r cyfranogwyr hyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb, ar ôl magu hyder yn yr hwyluswyr, er gwaethaf y cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â'u hanghenion diwylliannol a'u sensitifrwydd. Roedd yn rhaid i staff ymateb i alw uwch a bu iddyn nhw gynnal mwy o sesiynau a gweithgareddau na'r disgwyl.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Roedd galw mawr am weithgareddau ac roedd gor-alw am rai. Unwaith y bydd cyllid y GIE yn dod i ben, gellir cynnig llai o weithgareddau, a bu i'r costau llogi lleoliadau a thiwtoriaid gynyddu yn ystod yr argyfwng costau byw. Cyflwynwyd ffi gyffredinol ar gyfer rhai gweithgareddau (£1-£2) ond roedd y cyfranogwyr yn fodlon cyfrannu ac mae hyn wedi ategu cynaliadwyedd. Adroddodd y Prosiect fod 10 darparwr gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud newidiadau i'w harfer yn ymwneud â merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig neu eu teuluoedd o ganlyniad i'r Prosiect, gan ddarparu rhywfaint o waddol ddysgu. Llwyddodd y Prosiect i ddenu £210,000 o gyllid dros dair blynedd gan Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru, i barhau â rhai o'r gweithgareddau a sefydlwyd trwy'r GIE. Roedden nhw'n bwriadu parhau i chwilio am ffynonellau cyllid amgen, ac i fynd ar drywydd gwaith partneriaeth a chyfleoedd i gydweithio fel partneriaid cyflawni gyda sefydliadau cenedlaethol.

**Agor drysau i'r Awyr Agored**
**Derbyniwyd cyllid grant o £285,000**

Nod y Prosiect hwn oedd cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a hybu lles meddyliol ymhlith cyfranogwyr â phroblemau iechyd meddwl a chorfforol, trwy brosiect prawf presgripsiynu cymdeithasol ar y cyd, gan weithio gyda phartneriaid o'r sectorau awyr agored ac iechyd yng Ngogledd Cymru.

**Amcanion y Prosiect a’r Cyflawniadau Arfaethedig**
Gan ddefnyddio strwythurau presennol, aeth grŵp o bartneriaid o'r sectorau awyr agored ac iechyd ati i geisio cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, hybu iechyd meddwl a chorfforol, a chysylltu clybiau cymunedol lleol â thimau iechyd meddwl, gan alluogi cleifion i fyw bywydau annibynnol, hirdymor a heini. Dyma’r amcanion:

- Recriwtio cyfranogwyr â phroblemau iechyd meddwl, darparu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, a sefydlu grwpiau/clybiau cymunedol i gynnig cydgymorth a helpu i hybu hyder a sgiliau’r cyfranogwyr i fentro i’r awyr agored.
- Darparu rhaglen ymyrraeth gweithgareddau awyr agored gan gynnig 12 sesiwn dros 12 wythnos (cerdded a dringo, chwaraeon dŵr a beicio mynydd), dan arweiniad hyfforddwr awyr agored cymwys sydd wedi'i hyfforddi mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl
- Creu model y mae modd ei dyblygu.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Ni ellid cyflawni'r Prosiect yn rhithiol ac felly gohiriodd y pandemig y modd i ymgysylltu â'r holl bartneriaid. Roedd 116 o gyfranogwyr dros gyfnod o bedair blynedd. Nid oedd 64% mewn cyflogaeth â thâl a nododd 60% gyflwr iechyd parhaus neu anabledd. Nododd yr adroddiad gwerthuso fod 69 y cant wedi dweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwella. Dywedodd 44% eu bod wedi gwella eu lefelau gweithgarwch o 30 munud neu fwy yr wythnos, 36 y cant o 60 munud neu fwy, a 22 y cant o 90 munud neu fwy. Roedd gwerthusiad y Prosiect yn ymwneud yn benodol ag elw cymdeithasol ar fuddsoddiad, a bu iddyn nhw adrodd bod hyd at £5.36 wedi'i gynhyrchu mewn elw cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddwyd.

**Agweddau Arloesol a’r Gwersi a ddysgwyd**
Bu i’r Prosiect elwa o gynnydd yn y galw o ganlyniad i'r pandemig. Bu iddyn nhw gydnabod bod canolbwyntio ar ddim ond dau o'r pedwar gweithgaredd yn hanfodol. Adroddodd y Prosiect fod llywodraethu yn hollbwysig, ac yn darparu strwythur a chymorth, ac yn sail i ffyrdd o weithio trwy gytundebau partneriaeth wedi'u dogfennu, materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, a chynnal cyfathrebu systematig. Ymysg y dysgu pellach a nodwyd gan y Prosiect oedd bod rhannu ar lafar yn allweddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ehangu'r grŵp atgyfeirio, a bod agweddau ymarferol megis amrywio lleoliadau cychwyn a dirwyn i ben gydag elfen 'caffi cymdeithasol' yn bwysig er mwyn cyflawni ymgysylltiad.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Mae'r syniad craidd bod 'yr awyr agored ar gael i bawb' wrth wraidd dull cynaliadwyedd y Prosiect. Cynhaliodd y Bartneriaeth Awyr Agored rai o'r gweithgareddau, gan ymwneud â model parhad fforddiadwy trwy uwchsgilio staff, cynyddu nifer y clybiau, ac arfogi cyfranogwyr i gyflwyno cyrsiau hefyd. Sefydlwyd sesiynau anffurfiol hefyd i gynnal rhyngweithio rhwng cyfranogwyr ar ôl y cyfnod ariannu. Cyflogwyd Swyddog Cymorth newydd i nodi cyllid posibl, a chafodd y model gwerth cymdeithasol ei rhoi ar waith yn eu holl raglenni craidd.

**Llysgenhadon Chwarae Cymru**
**Derbyniwyd cyllid grant o £216,000**

Roedd gan y Prosiect nodau cyflenwol i hyfforddi pobl ifanc 14-19 oed i ddod yn Llysgenhadon Chwarae a darparu llwybr at gymhwyster a lleoliad gwaith yn y maes Chwarae. Roedd gwaith pellach i'w gyflawni i alluogi Llysgenhadon Chwarae i gynnal cyfleoedd chwarae ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Dyma amcanion y Prosiect:
- Creu cyfleoedd chwarae i 500 o blant wella deilliannau iechyd corfforol a meddyliol
- Darparu 250 o sesiynau chwarae a sefydlu pum grŵp gweithredu chwarae cymunedol
- 75 y cant o Lysgenhadon Chwarae i ennill achrediad Lefel 1 a 25 y cant i fynd rhagddi i ennill cymhwyster Lefel 2
- Cynnydd o 40 y cant o ran boddhad y gymuned gyda'r ddarpariaeth chwarae leol
- Datblygu adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol a dyblygu Prosiectau.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Bu i'r Prosiect wynebu heriau yn gysylltiedig â Covid-19. Bu i'r Llysgenhadon Chwarae ddarparu cyfleoedd chwarae i 2392 o blant. Cwblhaodd cyfanswm o 127 o bobl ifanc 14-19 oed gymhwyster Gwaith Chwarae Lefel 1 ac aeth 29 o'r rhain rhagddi i gwblhau cymhwyster Lefel 2. Bu i Grwpiau Gweithredu Chwarae ac unigolion achrededig gefnogi chwarae mewn mannau newydd. Mae cysylltiadau gwell wedi'u meithrin gyda staff awdurdodau lleol a chymunedau. Bu i'r adroddiad gwerthuso nodi y bu manteision corfforol a meddyliol yn sgil chwarae. Nodwyd gwelliannau o ran cydlyniant cymunedol, hyder a lles hefyd.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Mae mynd i'r afael â gallu gweithwyr chwarae drwy ddatblygu a mentora pobl ifanc 14-19 oed yn ddull arloesol a oedd o fudd i'r bobl ifanc hynny yn ogystal â'r plant wnaethan nhw eu cynorthwyo wedyn. Bu i'r hyfforddiant digidol a ddarperir dorri tir newydd i Chwarae Cymru. Agwedd arloesol pellach oedd y cydweithio dwys rhwng grwpiau gwirfoddol a chymunedol, staff awdurdodau lleol a'r Llysgenhadon Chwarae. Bu i rwydweithiau eang a dwfn helpu i fodloni nodau'r Prosiect. Ymysg y gwersi a nodwyd gan y Prosiect oedd sut y gall yr enghraifft o chwarae ar lawr gwlad helpu awdurdodau lleol i ailgefnogi gweithgareddau chwarae yn dilyn amodau'r pandemig trwy ddarparu model gweithio y gallan nhw ei fabwysiadu. Roedd gwersi eraill hefyd megis gwerth hyfforddiant digidol, a phwysigrwydd adnoddau ariannol i wella cyfleoedd chwarae.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Y dull allweddol oedd ymestyn y Prosiect drwy ymdrechion parhaus y Llysgenhadon Chwarae mewn cymunedau ar ôl y GIE, gyda chefnogaeth timau chwarae awdurdodau lleol. Mae trafodaethau ar waith i ailadrodd y prosiect mewn ardaloedd eraill. Mae'r dysgu a gynhyrchir o'r prosiect wedi llywio ystod o adnoddau a fydd ar gael yn y man:
- Cwrs hyfforddi chwarae a gwaith chwarae cymeradwy
- Pecyn cymorth rhwydwaith chwarae cymunedol
- Canllawiau cynllun chwarae cymunedol

**Sporting Memories**
**Derbyniwyd cyllid grant o £461,000**

Roedd Sporting Memories yn cefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl dros 50 oed gan ddefnyddio grym chwaraeon i ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia neu iselder, neu a oedd wedi'u hynysu o'r gymdeithas yn Ne Cymru.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Cynllun gwreiddiol y Prosiect oedd sefydlu 30 o glybiau cymunedol a darparu tri phenwythnos gweithgaredd gyda tharged i ymwneud gyda 750 o gyfranogwyr a recriwtio 100 o wirfoddolwyr erbyn mis Mawrth 2022. O ganlyniad i'r pandemig, oedi gyda'r grant a staff yn gadael, penderfynwyd diwygio hyn i 15 o glybiau cymunedol a chwe chlwb ar-lein, gan dargedu 500 o gyfranogwyr ac 80 o wirfoddolwyr. Er mwyn addasu i'r pandemig, datblygwyd 12 cylch ffôn (rhwydweithiau), ac fe gynlluniwyd nod i ddosbarthu 150 o fagiau cyfarpar.

**Darpariaeth ac Effaith gwirioneddol**
Sefydlwyd cyfanswm o 21 o glybiau cymunedol, gyda 15 yn parhau i weithredu ar ddiwedd y cyfnod ariannu. Crëwyd chwe chlwb ar-lein, ac fe rannwyd bagiau cyfarpar gyda 58 o unigolion yn 2021. Roedd y cylchoedd ffôn ar waith tan fis Awst 2021, pan gafodd darparwr y platfform ei ddiddymu. Cynhaliwyd digwyddiadau dros dri phenwythnos. Nododd yr adroddiad gwerthuso fod mynychwyr wedi dod yn fwy egnïol yn gorfforol ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau corfforol, yn y clybiau ac yn eu bywydau bob dydd. Dywedodd 57% o'r cyfranogwyr cafodd eu holi eu bod yn cwrdd â chyfranogwyr eraill y tu hwnt i glybiau wythnosol, gyda thraean o'r rhain yn cyfarfod yn wythnosol. Dywedodd 37 y cant eu bod wedi mynychu gweithgareddau eraill oherwydd clybiau Sporting Memories. Nid oedd 29 y cant bellach yn poeni am gwympo drosodd a 38 y cant ddim yn bryderus iawn, gan dynnu sylw at sut mae'r clybiau wedi cefnogi pobl hŷn i hybu eu cydbwysedd a'u cryfder. Bu i'r gwirfoddolwyr a'r partneriaid sylwi newid yn y cyfranogwyr, a ddigwyddodd yn gyflym ar ôl iddyn nhw fynychu'r clybiau am y tro cyntaf. Bu i'r Prosiect ganfod bod yr aelodau yn parhau i fynychu gweithgareddau unwaith iddyn nhw roi cynnig arnyn nhw am y tro cyntaf. Roedd gwirfoddolwyr eu hunain yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn mwynhau cynnig rhywbeth yn ôl i'r gymuned, yn teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo, wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill. Dywedodd 88 y cant o'r gwirfoddolwyr fod y Prosiect wedi hybu eu hiechyd meddwl.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a ddysgwyd**
Aeth y Prosiect rhagddi'n gyflym i ddatblygu adnoddau newydd a ffyrdd o ymwneud â chyfranogwyr yn ystod Covid-19 trwy fodel cyflenwi cyfunol, gan gynnwys addasiadau hyfforddi. I ddechrau, roedd yn dibynnu ar ddau hyfforddwr yn Lloegr i ddatblygu gwirfoddolwyr. Roedd Covid-19 yn caniatáu iddyn nhw ddatblygu hyfforddiant ar-lein, gan gynnig mwy o hyblygrwydd a dull mwy cost-effeithiol. Mae hyfforddiant ar-lein bellach yn greiddiol i'r ddarpariaeth ar draws y DU. Roedd amseriad sefydlu clybiau newydd yn bwysig a bu iddyn nhw ddysgu bod eu sefydlu rhwng mis Chwefror a mis Hydref yn denu nifer uwch o gyfranogwyr. Bu i'r Prosiect ddysgu, er bod pobl hŷn yn awyddus i ddychwelyd i fanteisio ar ddarpariaeth wyneb yn wyneb, roedd angen amser arnyn nhw i deimlo'n hyderus i ddychwelyd i leoliadau cymunedol. Ond bu iddyn nhw hybu eu hyder yn gyflym. Defnyddiwyd lleoliadau awyr agored yn yr haf fel cam graddol yn ôl at ddarpariaeth gymunedol. Bu i Sporting Memories lwyddo i ymwneud gyda mwy o bobl drwy bartneriaethau mewn cymunedau, ac fe ddywedodd nhw y bydden nhw wedi cael trafferth darparu'r rhaglen yn llawn heb hynny.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Ar ôl cychwyn arni, fe wnaethan nhw ddefnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi hwyluso clybiau yn barhaus. Defnyddiodd clybiau arian wedi'i gasglu'n lleol neu roddion wythnosol cyffredinol i dalu am luniaeth. Fe wnaethan nhw weithio'n agos gyda Ageing Well in Wales i sicrhau bod y Prosiect yn

cael effaith a chyrhaeddiad parhaol. Roedden nhw'n bwriadu ceisio am gyllid allanol ychwanegol trwy ffynonellau cyllid lleol (e.e. ymddiriedolaethau a sefydliadau) a thrwy gysylltiadau â Byrddau Iechyd Lleol i dalu costau rheoli ar gyfer y Prosiect ynghyd ag ehangu posibl i ardaloedd eraill yng Nghymru.

**Super Agers**
**Derbyniwyd cyllid grant o £393,000**

Cynhaliwyd Prosiect Super Agers ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Ei ffocws oedd datblygu cyfleoedd gweithgarwch corfforol i bobl hŷn 50+, rhai ag anghenion gofal ychwanegol. Byddai llawer o gyfleoedd yn cael eu galluogi trwy hyfforddi gwirfoddolwyr o bob oed, gan gynorthwyo cynaliadwyedd y tu hwnt i'r GIE. Pwysleisiodd y Prosiect ar ddulliau ataliol i ategu strategaethau lleol a chenedlaethol ehangach gyda'r nod o gefnogi pobl hŷn.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig:**
Amcanion y prosiect oedd:
- i 2000 o oedolion hŷn gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a mabwysiadu arferion sy'n cyfrannu at ffyrdd iachach o fyw, gan arwain at les meddyliol gwell, ystum sefydlog gwell a llai o ofn cwympo, a llai o unigrwydd
- Gwella mynediad pobl hŷn at wybodaeth sy'n ymwneud â heneiddio gweithredol, a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon i 3+ gwaith yr wythnos
- i 100 o oedolion hŷn gael eu hyfforddi fel arweinwyr gweithgareddau a Hyrwyddwyr Cymunedol.

**Cyflawniad ac Effaith Gwirioneddol**
Cymerodd 2000 o oedolion hŷn ran mewn gweithgareddau chwaraeon. Cafodd dros 90 o oedolion hŷn eu hyfforddi fel gwirfoddolwyr cyflenwi, a chafodd 120 o wirfoddolwyr pellach eu hyfforddi fel arweinwyr gweithgareddau/cymunedol. Agorodd 13 o ganolfannau i gyflawni gweithgareddau. Yn ystod Covid-19, datblygwyd dull pwrpasol ar gyfer 124 o bobl hŷn a bregus sy'n gaeth i'r tŷ, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol ac ymgysylltiad. Roedd ffyrdd o ymgysylltu â phobl yn gwella. Nododd yr adroddiad gwerthuso fod 100 y cant o bobl yn teimlo bod y Prosiect wedi cynyddu eu llesiant. Cynyddodd 23% eu lefelau gweithgarwch corfforol a chododd 54% eu sgoriau MET. Dywedodd 68% bod eu lles meddyliol wedi gwella, a dywedodd 75% eu bod yn teimlo'n llai unig neu ynysig. Cyflawnon nhw gymhareb elw cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) o 3.8:1 - bron i bedair waith cost y buddsoddiad. Cafodd y Prosiect ei gydnabod fel enghraifft gan Sefydliad Bevan.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Cafodd y Prosiect ei integreiddio i wasanaethau a strategaethau'r Cyngor i drigolion hŷn er mwyn ategu a dyfnhau gwaith presennol. Mae wedi caniatáu i grŵp anodd ei gyrraedd o drigolion hŷn sy'n gaeth i'r cartref fanteisio ar weithgareddau. Arweiniodd ymgynghoriad dwfn ag unigolion at adnabod adnoddau effeithiol, priodol i'w hoedran ar gyfer ymgysylltu â nhw. Roedd y gwersi a nodwyd gan y Prosiect yn cynnwys yr angen i ymgysylltu a chyflawni gael ei gyd-berchnogi ac i fod yn ymatebol; nad y sector hamdden yw'r unig ffordd o ddarparu gwasanaethau cynhwysol; nad yw darpariaeth ddigidol yn ddymunol i rai pobl hŷn; ac y gall y weithred o gymryd rhan fod mor werthfawr â'r gweithgaredd ei hun.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Gadawodd y Prosiect y GIE ar ôl y cyfnod cyllido 3 blynedd gychwynnol wrth i'w strategaeth gynaliadwyedd gwreiddiol gael ei gweithredu yn ôl yr amserlen. Mae dysgiadau, prosesau a strategaethau o'r Prosiect wedi'u plygu'n dair ardal gydlynol. Bydd y brif strategaeth a'r gweithgareddau yn parhau ac yn cael eu rheoli'n lleol ar ryw ffurf. Mae Arweinydd y Prosiect yn parhau i fod mewn uwch swydd yn y Cyngor, gan ganiatáu rhan a goruchwyliaeth barhaus yn y Prosiect.

**Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru**
**Derbyniwyd cyllid grant o £442,000**

Nod y Prosiect hwn oedd pontio'r bwlch mewn gwybodaeth am lythrennedd corfforol i blant o dan 4 oed mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, gan ategu egwyddorion Chwarae i Ddysgu, a chreu rhaglenni cynaliadwy o weithgarwch corfforol i blant ac oedolion er mwyn gwella eu llythrennedd corfforol a'u lles meddyliol.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau Arfaethedig**
Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru a Gymnasteg Cymru yn bwriadu cydweithio:

- I gyrraedd 120 o blant 0-5 oed a 120 o oedolion/gofalwyr dros y cyfnod o 3 blynedd drwy Actif Gyda'n Gilydd, rhaglen gymunedol 4 wythnos a ddarperir naill ai mewn lleoliad gofal plant, grŵp cymunedol rhieni a phlant bach, neu gyd-destun clwb cymunedol Gymnasteg Cymru.
- I gyrraedd 120 o ymarferwyr (gweithwyr proffesiynol/gwirfoddolwyr allweddol) trwy Chwarae i Ddysgu Mwy, cwrs hyfforddi 1 diwrnod, i ddarparu negeseuon allweddol am weithgarwch corfforol, lles, llythrennedd corfforol ac iechyd meddwl.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Cyflwynodd y Prosiect raglenni ac adnoddau, gan gynnwys Cymru Actif Gyda'n Gilydd, Chwarae i Ddysgu Mwy, Babi Actif, Toddle Waddle, Chwarae Symud Ffynnu, ac adnoddau datblygiad proffesiynol. Cymerodd 315 o rieni/gofalwyr, 330 o blant, a 415 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar ran yn y Prosiect, a chyflwynodd y Prosiect raglenni mewn cyfleusterau Gymnasteg, canolfannau cymunedol, darpariaeth gofal plant, parciau a mannau cyhoeddus, ac yn uniongyrchol i gartrefi gofalwyr trwy gysylltiadau digidol.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Dangosodd y Prosiect nad yw gweithgarwch corfforol cynnar yn dibynnu ar y gofod ond y caiff ei wella gan oedolion sy'n dysgu sut i archwilio'r cyfleoedd i symud yn yr amgylchedd sydd ar gael iddyn nhw gydag ac ar gyfer y plentyn. Nododd y Prosiect fod hyfforddiant i ymarferwyr yn elfen hanfodol o feithrin gwaddol gan ei fod yn annog rhieni a gofalwyr i ddatblygu eu dulliau eu hunain i gyd-fynd ag anghenion a sefyllfaoedd unigol eu plant, ac i gymryd perchnogaeth o ddarpariaeth yn y dyfodol. Gwers arall a nodwyd gan y Prosiect oedd yr angen i sefydlu rhwydweithiau a chysylltiadau ehangach â sefydliadau a darparwyr a all helpu i sefydlu llwybrau y gall rhieni eu dilyn i barhau â'u teithiau llythrennedd corfforol.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Mabwysiadodd y Prosiect ystod o ddulliau o gynnal gweithgareddau, gan gynnwys aelodaeth gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru, hyfforddiant Babanod Actif yn y Cartref, gwybodaeth ac adnoddau ar y wefan, gwaith parhaus gyda phartneriaid chwaraeon a chymunedol, parhau i ddarparu sesiynau hyfforddi a hyfforddiant i ymarferwyr, datblygu rhaglenni dilynol gan Blynyddoedd Cynnar Cymru a phartneriaid, a phrif ffrydio dysgu i waith parhaus Blynyddoedd Cynnar Cymru.

**Dewch I Gerdded Gorllewin Cymru**
**Derbyniwyd cyllid grant o £318,000**

Roedd y Prosiect yn gweithredu yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Trwy gerdded, y nod oedd i unigolion ddod yn fwy egnïol yn gorfforol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n byw bywydau eisteddog neu gymharol anweithgar.

**Amcanion y Prosiect a'r Cyflawniadau:**
Yr amcanion oedd:

- Tri chydlynydd cerdded o'r awdurdodau lleol i ddarparu 200 o deithiau cerdded yr un bob blwyddyn, gyda chyfartaledd o ddeg cerddwr fesul grŵp
- Creu cysylltiadau atgyfeirio â 27 meddygfa a lleoliadau cymunedol, yn ogystal â hunangyfeirio a chysylltiadau â'r Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol
- Datblygu model ar gyfer grwpiau cerdded cynaliadwy sy'n gysylltiedig â meddygfeydd, cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl eisteddog a'r rhai â lefelau gweithgarwch corfforol isel, a gwella lles meddyliol a lleihau teimladau o unigedd ac unigrwydd trwy gymryd rhan mewn grwpiau cerdded gyda chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol.

**Darpariaeth ac Effaith Gwirioneddol**
Cafodd y model gwreiddiol ei addasu oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Roedd ymgysylltu â'r sector gofal sylfaenol yn her. Roedd cyfyngiadau gweithredol yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol, a daeth rôl grwpiau cerdded i geisio lleihau teimlad o ynysu cymdeithasol yn bwysicach. Gwelodd y Prosiect fwy o awydd am weithgarwch awyr agored. Ar y cyfan, darparwyd 1,470 o deithiau cerdded. Cymerodd 11,608 ran mewn grwpiau a 2,385 yn y rhaglen rithwir. Cafodd 80 o wirfoddolwyr eu recriwtio a'u hyfforddi fel arweinwyr cerdded. Roedd cerddwyr yn oedolion hŷn, gyda chyfran uwch o ferched, a'r mwyafrif â chyflyrau meddygol. Adroddodd y Prosiect fod tystiolaeth gan gyfranogwyr yn dangos mai'r cymhelliant oedd i gadw'n heini, cwrdd â ffrindiau newydd, codi eu hysbryd a mynd allan o'r tŷ. Dywedodd y rhai oedd yn cymryd rhan wrth y Prosiect eu bod yn teimlo'n hapusach, yn fwy heini ac yn llai ynysig o ganlyniad i gymryd rhan. Adroddodd gwerthusiad annibynnol fod unigolion a phartneriaid yn ystyried y Prosiect yn dda, ac yn ystyried ei fod yn cefnogi rhagnodi cymdeithasol.

**Agweddau Arloesol a'r Gwersi a Ddysgwyd**
Roedd ffyrdd newydd o ymgysylltu yn cynnwys datblygu heriau cerdded rhithiol a phrosesau gwefan a chofrestru cysylltiedig, gan ystyried lefelau amrywiol o lythrennedd digidol. Roedd partneriaid yn cynnwys y trydydd sector, y parc cenedlaethol ac awdurdodau lleol, gan roi cyfle i'r gweithlu ehangu rhwydweithiau a rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio i wahanol gymunedau. Oherwydd yr her o ymgysylltu â meddygfeydd, datblygodd y cydlynwyr gysylltiadau â grwpiau cymunedol presennol yn hytrach fel Mind, a darparu hyfforddiant i arweinwyr teithiau cerdded i'w galluogi i ymgymryd â'u teithiau cerdded eu hunain.

**Bwriad Cynaliadwyedd**
Cafodd y Prosiect gyllid ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer blwyddyn arall o weithgarwch hyd at fis Rhagfyr 2023, ac mae'n symud tuag at grwpiau sydd angen dim ond ychydig o gymorth. Mae rhai bron yn hunangynhaliol, eraill angen ychydig o gymorth ac weithiau staff cyflogedig i arwain teithiau cerdded. Roedd y Prosiect o'r farn y byddai angen rhywfaint o gyllid bob amser i reoli grwpiau'n ddiogel a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr.

**Atodiad 2: TÎM GWERTHUSO RHAGLEN Y GIE**

Dr Clive Grace, O.B.E. - Cyfarwyddwr y Prosiect
Tim Allen – Ymchwil a Chyflenwi Uwch
Mike Bennett – Ymchwil a Chyflenwi Uwch
Nick Greenhalgh – Ymchwil a Chyflenwi Craidd
Sandra Harris - Rheolwr Prosiect
Yr Athro Steve Martin - Dulliau Ymchwil a Sicrhau Ansawdd
Becca Mattingley – Ymchwil a Chyflenwi Craidd
Nicky Schlatter – Ymchwil a Chyflenwi Craidd
Liam Whittington - Ymchwil a Chyflenwi Craidd

## Atodiad 3: CANLLAWIAU PWNC CAM 4

## A: Canllaw Pwnc ar gyfer Gweithredwyr Rhaglen:

# GWERTHUSIAD LEFEL RHAGLEN CRONFA IACH AC EGNÏOL
# Canllaw Pwnc – Gweithredwyr lefel rhaglen (Gorffennaf 2023)

**DATA TAFLEN FLAEN**

Enw'r cyfwelai:
Sefydliad y cyfwelai:
Cyfwelydd:
Dyddiad cyfweliad:

**CYD-DESTUN A CHYTUNO I GYMRYD RHAN**

Ymarferwch bwrpas y gwerthusiad yn fyr.

Atgoffwch nhw fod ein gwerthusiad yn ceisio cael **cipolwg ar bob rhan o'r rhaglen gyfan**. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed beth maen nhw'n meddwl sydd wedi gweithio a pham? Beth sydd heb weithio? Beth y gellid ei ddysgu ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol?

Esboniwch mai nod y cyfweliad hwn yw **clywed am eu profiadau am a'u barn o raglen y GIE** o safbwynt partneriaid cenedlaethol.

Rhowch **sicrwydd o gyfrinachedd**. Mae hysbysiadau preifatrwydd wedi'u cyhoeddi a bydd ein hadroddiadau yn cael eu cyhoeddi. Ond ni fydd gwybodaeth nac unrhyw farn a fynegir yn cael eu priodoli i unigolion heb eu caniatâd ysgrifenedig pendant o flaen llaw. (Mae copi o'r Hysbysiad Preifatrwydd wedi'i atodi.)

**EICH RÔL YN EICH SEFYDLIAD**

Yn gyntaf, dywedwch ychydig wrthyf am eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol.

1. Pa mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio yn eich swydd bresennol?

2. Beth yw eich prif gyfrifoldebau yn y rôl hon?

**EICH RHAN YN Y GIE**

3. Pa mor hir ydych chi wedi bod ynghlwm â'r GIE?

4. Beth yw'r prif rannau rydych chi wedi'u chwarae yn y GIE?

5. Oeddech chi'n rhan o'i gynllunio?

6. Oeddech chi'n rhan o'r gwaith o ddewis prosiectau'r GIE?
   Os oeddech chi, beth yw eich barn am y broses ymgeisio a dethol? Beth oedd yn gweithio? Beth, os unrhyw beth, allai fod yn well? (Gall hyn fod yn rhy bell yn ôl i gofio'n glir, ond bydd yn ddiddorol gwybod, er enghraifft, a ydyn nhw'n bwriadu ailedrych ar y ceisiadau o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd, ac o ystyried y gwerthusiadau lleol.)

   A oes gennych unrhyw farn bellach ar gynllun a / neu broses ymgeisio a dethol y GIE o'r man ffafriol presennol, gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben?

**DISGWYLIADAU AC ARLOESEDD**

7. Beth oedd eich gobeithion a'ch disgwyliadau chi / eich sefydliad ar gyfer y GIE?

8. I ba raddau oedd y partneriaid cenedlaethol eraill yn rhannu'r amcanion hynny?

9. Pa mor arloesol oedd y GIE i'ch sefydliad?

Ym mha ffyrdd oedd yn wahanol i ddulliau blaenorol y mae wedi'u cefnogi?

**DEILLIANNAU**

10. Beth yw eich barn gyffredinol ar raglen y GIE yn ei gyfanrwydd?

Awgrym - Beth weithiodd yn dda? Beth sydd heb weithio? Beth yw'r prif wersi?

11. Beth oedd y prif heriau oedd yn wynebu'r GIE yn ei gyfanrwydd?

12. I ba raddau mae'r GIE wedi arwain at welliant mewn gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl/llesiant? A oes gennych unrhyw farn bellach ar broses gynllunio a / neu gymhwyso'r GIE a'r broses ddethol o'r man ffafriol presennol, gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben?

13. A yw wedi annog prosiectau i fabwysiadu ffyrdd arloesol o weithio sy'n gynaliadwy a graddadwy ac y gall eraill eu codi?

14. A yw'r gwersi o'r GIE wedi dylanwadu ar raglenni ac ymyriadau eraill (neu ydyn nhw'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol)? A oes gwersi o brosiectau'r GIE yn ogystal â'r rhaglen ar y 'beth' a'r 'sut'? A oes gwersi o ran cydweithredu yn benodol y gellir eu dysgu?

15. Pa effaith, os o gwbl, mae'r GIE wedi'i gael ar bolisïau a rhaglenni eich hun a/neu sefydliadau eraill?

**PROSIECTAU**

16. Pa mor dda gafodd prosiectau'r GIE eu cefnogi?

17. Ydych chi'n meddwl bod y prosiectau wedi treialu dulliau arloesol?

Os felly, ym mha ffyrdd?

18. A yw'r prosiectau wedi creu partneriaethau newydd?

19. A yw sgiliau a galluoedd y gweithlu wedi datblygu?

**GALLUOGWYR**

20. Beth yw eich barn am sut mae Bwrdd y Prosiect wedi gweithio?

Beth weithiodd yn dda? Pa heriau oedd yn ei wynebu?

Ydy'r broses CO wedi gweithio'n dda?

Sut mae is-grwpiau'r Bwrdd Prosiect (Cyflawni a Gwerthuso) wedi gweithio?

21. Pa mor effeithiol wnaeth y partneriaid cenedlaethol gydweithio? Ydy'r 'ffyrdd o weithio' wedi bod yn weladwy, ac os felly, sut maen nhw wedi gweithio?

22. Ydy'r adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gefnogi'r rhaglen GIE wedi bod yn briodol?

23. Pa mor dda gafodd cyflawniadau'r prosiectau eu monitro a'u gwerthuso gan weithredwyr a chyrff lefel rhaglen y GIE?

**CLOI A DIOLCH**

24. A oes unrhyw beth arall y credwch y byddai'n ddefnyddiol i ni fod yn ymwybodol ohono ar gyfer ein gwerthusiad?

## B: Canllaw Pwnc ar gyfer Cyfweliadau Prosiect:

# GWERTHUSIAD LEFEL RHAGLEN CRONFA IACH AC EGNÏOL
# CYFWELIADAU GYDAG ARWEINWYR PROSIECT
## Canllaw Pwnc - Mehefin 2023

**Canllawiau ar gyfer Cyfwelwyr**

- **Pwrpas** - Mae'r rownd hon o gyfweliadau yn dilyn eich ail-ymgysylltiad â phrosiectau yn gynharach eleni ac yn cyfrannu at ein Hadroddiad Terfynol, sydd i'w gyhoeddi ddiwedd 2023.
- **Cyfwelai** – Mae'r cyfweliadau yn canolbwyntio ar lefel y prosiect. Bydd sgyrsiau ar wahân gyda'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth ddiweddaraf am eu barn ar y rhaglen.
- **Ffocws** – Y cyfweliadau hyn yw'r cyfweliadau terfynol gyda'r Prosiectau. Ar wahân i'r elfen gynaliadwyedd y flwyddyn nesaf? Byddan nhw'n digwydd yn eithaf buan ar ôl y rhai a gynhaliwyd ar gyfer yr Adroddiad Dros Dro ar gyfer 2022. Felly, er y gofynnir am rywfaint o ddiweddaru ar faterion, bydd yn bwysig peidio â mynd dros 'hen dir', yn enwedig gan y bydd gwaith ICC ar werthusiadau'r Prosiect hefyd yn cynnwys cyfweliadau gydag Arweinwyr Prosiectau, er ar y pwnc penodol hwnnw.
    - Mae'r CP yn dilyn templed dec sleidiau fel y bo'n briodol, i'ch cynorthwyo i gasglu deunydd mewn ffordd gyfleus. Mae'r templed wrth gwrs yn gofyn am ddata a thystiolaeth o ddogfennaeth lefel prosiect, ac i raddau uwch nag ar gyfer yr Adroddiadau Dros Dro.
    - Bydd gwybodaeth o brosiectau yn bwysig am effeithiau ar gyfranogwyr a manteision cymdeithasol ehangach yn unol â'r Amodau a Thelerau gwreiddiol.
    - Byddwn yn chwilio am enghreifftiau o weithgareddau neu gyflawniadau y credant a allai fod yn werth eu rhannu â phrosiectau eraill a gyda'r Bwrdd
    - Deunydd dogfennol sydd gan brosiectau a allai fod yn ddefnyddiol i'n gwerthusiad. Dylid nodi hyn gydag Arweinwyr Prosiectau, ond dylid ei gyfeirio drwy Lywodraeth Cymru oni bai ei bod yn amlwg ei fod yn mynd y tu hwnt i'r gollyngiad data neu ffurflenni eraill sy'n ofynnol i Brosiectau eu gwneud i Lywodraeth Cymru.
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru:** Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, mae ICC yn cynnal gwerthusiad cyfochrog sy'n canolbwyntio ar werthusiadau lefel Prosiect y maent hwy (y Prosiectau) wedi'u cynnal yn unig. Mae proses yn cael ei thrafod er mwyn i ICC ddangos cymeriad cyfochrog eu gwaith. Cewch eich cynghori a dylech fod yn ymwybodol o pryd/sut maent yn cysylltu â phrosiectau. Mae'n anochel bod potensial am rywfaint o ddryswch a dyblygu, felly dylech reoli unrhyw faterion sy'n codi.
- **Paratoi**

    - Cyn y cyfweliad, darllenwch baragraff 6.5 o'r Ceisiadau Prosiect ac adroddiadau cynnydd blynyddol ac adroddiad diwedd y gronfa a'r adroddiad gwerthuso, sydd eisoes ar gael (h.y. wedi'u huwchlwytho drwy Objective Connect)
    - Ailymgyfarwyddwch â'ch cyfweliad yn 2023.
- **Llinell Amser** – Trefnwch eich cyfweliadau ar gyfer ddiwedd mis Mehefin neu Orffennaf.
- **Adrodd** – Ein nod yw cwblhau'r dadansoddiad o ddata cyfweliadau ym mis Awst.

**DATA TAFLEN FFEITHIAU**
Rhif ac enw'r prosiect:
Enw a rôl y cyfwelai:
Dyddiad:
Cyfwelydd:

**CYD-DESTUN**

Atgoffwch y cyfwelydd ein bod wedi ein comisiynu i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen CIE yn ei chyfanrwydd. Bydd hyn yn ategu gwerthusiadau lleol a arweinir gan brosiectau sy'n destun cyfweliad ar wahân gyda ICC. Gofynnwyd i ni asesu:

- A yw prosiectau cefnogi gan y GIE wedi cynyddu gweithgarwch corfforol a lles ymysg y grwpiau targed?
- A yw cyllid y GIE wedi sefydlu'r pum ffordd o weithio?
- Ydy'r GIE wedi adnabod a phrofi ymyriadau arloesol?
- Pa wersi o brosiectau y gellir eu graddio a'u cyflwyno'n ehangach?
- A fydd cyflawniadau'r prosiectau yn gynaliadwy y tu hwnt i gyllid y GIE?
- Pa wersi y gellir eu dysgu o'r GIE ar gyfer rhaglenni eraill?

**CYFRANOGIAD A PHREIFATRWYDD**

Diolch yn fawr am eu cyfraniad.
Esboniwch y bydd gwybodaeth o'r cyfweliad yn bwydo i mewn i'n Hadroddiad Terfynol y byddwn yn ei gynhyrchu ddiwedd 2023. Ni fydd gwybodaeth a safbwyntiau a fynegir yn cael eu priodoli i unigolion neu Brosiectau heb eu caniatâd ysgrifenedig pendant o flaen llaw a byddwn yn gwirio unrhyw enghreifftiau byddwn yn eu dyfynnu o flaen llaw gydag arweinwyr prosiect.
Sylwch fod y cyfweliad hwn yn gymharol agos at yr un blaenorol, ac y byddwn yn osgoi mynd dros hen dir lle bo hynny'n bosibl.

## DIWEDDARIADAU

1. A oes unrhyw ddiweddariad ar unrhyw waddol sy'n weddill o bandemig COVID-19?
2. A oes unrhyw ddiweddariad ar eich dull o ymgysylltu â'r gymuned?
3. A oes unrhyw ddiweddariad ar eich agwedd tuag at gynaliadwyedd?
4. A oes unrhyw ddiweddariad am eich gwaith partneriaeth?
5. A oes unrhyw ddiweddariad am eich dull o ddysgu?
6. Sut byddwch chi'n casglu ac yn cadw'r canlyniadau a'r dysgu o'r Prosiect yn ei gyfanrwydd, a sut, os o gwbl, y byddwch chi'n ei ledaenu?

**EFFAITH AR GYFRANOGWYR**

7. A allwch amlinellu'r data a'r dystiolaeth sydd gennych ar hyn o bryd am yr effeithiau ar gyfranogwyr yn 2023? A yw rhywfaint o'r data/tystiolaeth hon yn fwy cynhwysfawr/dibynadwy nag eraill? Os felly, pa ddata ydych chi'n fwyaf hyderus amdano? Beth yw'r prif fylchau?

8. Beth oedd manteision ehangach y prosiect?

9. A oes unrhyw grwpiau neu fathau o effeithiau y mae wedi bod yn arbennig o heriol casglu data effaith yn eu cylch? Os felly, beth yw'r rhain? Ydych chi wedi dod o hyd i ffyrdd o oresgyn anawsterau?

**ASESIAD CYFFREDINOL**

10. **Gan ddefnyddio [y raddfa hon], sut fyddech chi'n graddio'r agweddau canlynol ar eich prosiect?**

1. Ymhell uwchlaw'r disgwyliadau
2. Ychydig yn uwch na'r disgwyliadau
3. Yn ôl y disgwyl
4. Ychydig yn is na'r disgwyliadau
5. Ymhell islaw'r disgwyliadau

a. Cyflawni amcanion gwreiddiol
- HOLI: I ba raddau / ym mha ffordd y llwyddodd i gyflawni amcanion ychwanegol, neu amcanion oedd yn wahanol, i'r rhai a gynlluniwyd yn wreiddiol?
- HOLI: A oedd yr amcanion a gyflawnwyd o dan y gyllideb, ar gyllideb neu dros y gyllideb?
- HOLI: A fyddech chi'n dweud bod y prosiect wedi dod allan o COVID yn wannach, tua'r un peth, neu'n gryfach nag o'r blaen?

b. Nifer y cyfranogwyr oedd wedi'u cyrraedd
- HOLI: I ba raddau oedd y cyfranogwyr hyn yng ngrwpiau targed allweddol y GIE
- HOLI: I ba raddau oedd y rhain y math arfaethedig o gyfranogwyr i'r Prosiect?

c. Nifer y partneriaethau

d. Ansawdd y partneriaethau

e. Graddau'r ymgysylltiad cymunedol

f. Ansawdd yr ymgysylltiad cymunedol

g. Gwerth dysgu ar gyfer ymyriadau'r sefydliad yn y dyfodol

h. Cynaliadwyedd (presennol neu debygol i'r dyfodol)

(*Yn dibynnu ar yr hyn a ddywedir, a'r ymatebion a roddir, holwch a chofnodwch unrhyw ymhelaethiadau pellach.)*

11. A fyddech chi'n dweud bod y gefnogaeth a gawsoch gan y Swyddog Achos... yn ddefnyddiol iawn, eithaf defnyddiol, ddim yn ddefnyddiol iawn neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl?

12. Beth ydych chi'n meddwl yw'r gwersi pwysicaf y dylid eu dysgu wrth gynllunio rhaglenni i'r dyfodol i gynyddu gweithgarwch corfforol a lles ar gyfer grwpiau targed y GIE?

**CEFNOGAETH O LEFEL Y RHAGLEN**

13. Beth (os unrhyw beth) y gallai gweithredwyr lefel Rhaglen y GIE fod wedi'i wneud i helpu i gefnogi'r prosiect yn ystod Rhaglen y GIE? Gwahaniaethwch os gwelwch yn dda:

a. Y Bwrdd sy'n goruchwylio'r GIE

b. Y Swyddogion Achos

c. Y Grŵp Cyflenwi

d. Y Grŵp Gwerthuso

14. Pa gefnogaeth, os o gwbl, allai'r gweithredwyr hyn ei ddarparu wrth symud ymlaen i gefnogi cynaliadwyedd y prosiect neu ei weithgareddau/effeithiau?

15. O ran rhaglen y GIE yn ei chyfanrwydd:

a. Beth weithiodd yn dda/na weithiodd yn dda?

b. Beth oedd yr heriau? (Cyfeiriwch at y ffactorau galluogi yn y diagram isod)

**c.** Pa wahaniaeth wnaeth y rhaglen CIE fel Rhaglen (gan gynnwys y tu hwnt i'w hadnodd ariannol i'r Prosiect yn unig) yn gysylltiedig â'r hyn sydd wedi'i gynnig, sut y cafodd ei gynnig, a'r hyn a gyflawnwyd.

**CYSYLLTIADAU PARTNER**

16. Esboniwch ein bod yn bwriadu siarad ag un neu ddau o'u partneriaid i drafod sut y gweithiodd y broses o fod yn Bartner, yn hytrach nag unrhyw asesiad partner o'u Prosiect. Gofynnwch am fanylion cyswllt, ac yn ddelfrydol cyflwyniad traws-e-bost.


**CYSWLLT YN Y DYFODOL**

17. Pwy fydd y cyswllt ar gyfer y prosiect yn y dyfodol? (Gan nodi y gallai fod ymholiadau, ac y byddwn mewn cysylltiad am faterion cynaliadwyedd yn 2024.)

**DEUNYDD DOGFENNOL**

18. A allwch anfon copïau o ddeunydd dogfennol sydd gennych at Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'n gwerthusiad (e.e. adroddiadau cynnydd mewnol, adroddiadau i Fyrddau Llywodraethu, deunyddiau hyrwyddo, gwybodaeth ar y we neu FB, ffrydiau twitter, gan gynnwys unrhyw ddeunydd meintiol neu ystadegol)?

*Nodyn - Ni ddylai prosiectau anfon data crai atom.*




**UNRHYW SYLWADAU ERAILL**

19. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech i ni eu hystyried ar hyn o bryd?

**DIOLCH**

- Esboniwch y camau nesaf yn y gwerthusiad - hynny yw, Adroddiad Terfynol erbyn diwedd 2023, ac asesiad ôl-weithredol dilynol yn benodol ar gynaliadwyedd, sydd bellach wedi'i gytuno.
- Diolch yn fawr am eich amser.